# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 12/11/2014

Cynnwys Contents


Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Questions to the Minister for Finance and Government Business

Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Questions to the Minister for Public Services

Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Burfa Murco, Aberdaugleddau
Statement: Update on Murco Refinery, Milford Haven

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Comisiynydd y Lluoedd Arfog
Welsh Conservatives Debate: An Armed Forces Commissioner

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Adnoddau Dŵr
Welsh Conservatives Debate: Water Resources

Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Pontydd Hafren
Welsh Liberal Democrats Debate: The Severn Bridges

Cyfnod Pleidleisio
Voting Time


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Good afternoon. Good afternoon, Mick Antoniw. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Prynhawn da, Mick Antoniw. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn eistedd ar hyn o bryd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

## Questions to the Minister for Finance and Government Business

### Cyllid Teg i Gymru

### Fair Funding for Wales

13:30 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

*1. Pa gynnydd y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o ran sicrhau cyllid teg i Gymru? OAQ(4)0474(FIN)*

*1. What progress is the Minister making regarding the securing of fair funding for Wales? OAQ(4)0474(FIN)*

13:30 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

The debate on 21 October, which included a clear call for fair funding, was unanimously supported by this Assembly. The UK Government has indicated that it is willing to revisit this matter and I am actively making the case for change to UK Ministers.

Cefnogwyd y ddadl ar 21 Hydref, a oedd yn cynnwys galwad eglur am gyllido teg, yn unfrydol gan y Cynulliad hwn. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi ei bod yn barod i edrych ar y mater eto ac rwy'n mynd ati i gyflwyno'r achos dros newid i Weinidogion y DU.

13:30 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer. The south Wales Valleys have suffered a deeper recession than most of the UK, together with significant budget cuts. Will the Minister make a statement on the effect the UK coalition Government's austerity plan has had on public services in the south Wales Valleys?

Diolch i chi am eich ateb. Mae Cymoedd y De wedi dioddef dirwasgiad dyfnach na'r rhan fwyaf o'r DU, ynghyd â thoriadau sylweddol yn eu cyllidebau. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr effaith y mae cynllun cyni llywodraeth glymblaid y DU wedi'i chael ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymoedd y De?

13:31 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I thank Gwyn Price for that question. We have faced unprecedented cuts to our budget as a result of the UK Government's austerity plans over the past four years, and our budget will be around 10% lower in real terms by 2015-16 than it was in 2010-11—£1.5 billion. I think it is important that we have been able to invest, for example, in the dual carriage sections of Gilwern to Brynmawr, Brynmawr to Tredegar, of the Heads of the Valleys road and also, indeed, the Ebbw Vale railway station extension. I am also very pleased to have written to the Chancellor with a call for infrastructure investment in the autumn statement.

Hoffwn ddiolch i Gwyn Price am y cwestiwn. Rydym wedi wynebu toriadau heb eu tebyg o'r blaen i'n cyllideb o ganlyniad i gynlluniau cyni Llywodraeth y DU dros y pedair blynedd ddiwethaf a bydd ein cyllideb tua 10% yn is mewn termau real erbyn 2015-16 na'r hyn a oedd yn 2010-11—£1.5 biliwn. Credaf ei bod yn bwysig ein bod wedi gallu buddsoddi, er enghraifft, yn y gwaith deuoli ffyrdd o Gilwern i Frynmawr, Brynmawr i Dredegar, a ffordd Blaenau'r Cymoedd a hefyd yn wir, yn estyniad gorsaf reilffordd Glyn Ebwy. Rwyf hefyd yn falch o fod wedi ysgrifennu at y Canghellor yn galw am fuddsoddiad seilwaith yn natganiad yr hydref.

13:31 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Minister, as you already know, Gerry Holtham's 2009 report highlighted that, at the time, Wales received £300 million to £400 million less than if it were funded according to need. Given that it has been more than five years since the publication of that report, what work has the Welsh Government done to establish exactly how much the current funding gap is?

Weinidog, fel y gwyddoch eisoes, amlygodd adroddiad Gerry Holtham yn 2009 fod Cymru, ar y pryd, wedi derbyn tua £300 miliwn i £400 miliwn yn llai na phe bai wedi'i hariannu yn ôl yr angen. O ystyried bod dros bum mlynedd wedi mynd ers cyhoeddi'r adroddiad, pa waith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i bennu faint yn union yw'r bwlch cyllid presennol?

13:32 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Of course, the independent Holtham commission's report—the analysis—was very thorough in its review of the Welsh funding settlement. It was estimated that Wales was underfunded by around £300 million in 2010. Of course, over four years, budgets have changed, but all the experts that have looked at this issue, including a House of Lords select committee and many academics, agree that the Barnett formula does not do Wales any favours and that we also need to ensure that we have that funding floor, which I am pleased was a key plank of our unanimously supported motion in this Assembly.

Wrth gwrs, roedd adroddiad annibynnol comisiwn Holtham—y dadansoddiad—yn drylwyr iawn yn ei adolygiad o setliad cyllid Cymru. Amcangyfrifwyd bod Cymru yn cael £300 miliwn yn llai o gyllid nag y dylai yn 2010. Wrth gwrs, mae cyllidebau wedi newid dros bedair blynedd ond mae'r holl arbenigwyr sydd wedi edrych ar y mater hwn, yn cynnwys pwyllgor dethol Tŷ'r Arglwyddi a llawer o academyddion, yn cytuno nad yw fformiwla Barnett yn fanteisiol i Gymru a bod angen i ni sicrhau hefyd bod y cyllid gwaelodol gennym. Rwy'n falch fod hyn yn un o brif elfennau ein cynnig a gefnogwyd yn unfrydol yn y Cynulliad hwn.

13:33 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

In defending Labour's position of rejecting the ditching of the Barnett formula, your party leader, Ed Miliband, said in a recent interview that Barnett was oriented towards need. Have you had a chance to correct him yet?

Wrth amddiffyn safbwynt Llafur o wrthod cael gwared ar fformiwla Barnett, dywedodd arweinydd eich plaid, Ed Miliband, mewn cyfweliad diweddar fod Barnett yn gogwyddo tuag at angen. A ydych chi wedi cael cyfle i'w gywiro eto?

13:33 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Very clearly, our position here in the Welsh Government—borne out not just in terms of the Holtham commission—is that the Barnett formula does not do Wales any favours. I think that is borne out again today in terms of the Institute for Fiscal Studies report on the situation in terms of the vagaries of the Barnett formula. Clearly, we now have to move forward in terms of those bilateral discussions with the UK Government to ensure that we get a fair funding floor, which is key to address the Barnett formula.

Yn amlwg, ein safbwynt yma yn Llywodraeth Cymru—a gadarnhawyd nid yn unig yn nhermau comisiwn Holtham—yw nad yw fformiwla Barnett yn fanteisiol o gwbl i Gymru. Credaf fod hynny wedi'i gadarnhau eto heddiw gan adroddiad y Sefydliad Astudiaethau Cyllid ar y sefyllfa o ran agweddau mympwyol fformiwla Barnett. Yn amlwg, mae'n rhaid i ni symud ymlaen yn awr o ran y trafodaethau dwyochrog rheiny â Llywodraeth y DU i sicrhau ein bod ni'n cael cyllid gwaelodol teg, sy'n allweddol i fynd i'r afael â fformiwla Barnett.

13:33 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Would the Minister agree that what makes Wales stand out in the debate on fair funding is that, relative to England, Scotland and Northern Ireland, we have an unusually high proportion of elderly people? Would she not agree that that has a huge impact on the need for social care and health services?

A fyddai'r Gweinidog yn cytuno mai'r hyn sy'n gwneud i Gymru sefyll allan yn y ddadl ar gyllido teg, o gymharu â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, yw bod gennym gyfran anarferol o uchel o bobl oedrannus? Oni fyddai'n cytuno bod hynny'n cael effaith enfawr ar yr angen am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol?

13:34 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Julie Morgan makes a very important point, because the latest population statistics confirm that Wales has a higher proportion of people aged 65 and over than any other nation of the UK. That has an unavoidable impact on demands placed on our health services and on social care. However, the Barnett formula, as currently operated, takes absolutely no account of this or, indeed, any other aspect of need.

Mae Julie Morgan yn gwneud pwynt pwysig iawn gan fod yr ystadegau poblogaeth diweddaraf yn cadarnhau bod gan Gymru gyfran uwch o bobl 65 oed a hŷn nag unrhyw wlad arall yn y DU. Mae hynny'n cael effaith anochel ar y galwadau ar ein gwasanaethau iechyd ac ar ofal cymdeithasol. Fodd bynnag, nid yw fformiwla Barnett, fel y'i gweithredir ar hyn o bryd, yn ystyried hyn o gwbl, nac yn wir, unrhyw agwedd arall o angen.

### Cytundeb Partneriaeth y DU

### The UK Partnership Agreement

13:34 **David Rees** Bywgraffiad Biography

*2. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gymeradwyo Cytundeb Partneriaeth y DU yn ddiweddar? OAQ(4)0480(FIN)*

*2. Will the Minister provide an update on the recent approval of the UK Partnership Agreement? OAQ(4)0480(FIN)*

13:34 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

This approval is a significant milestone, with the European Commission confirming structural funds allocations to Wales of some £2 billion for the period 2014 to 2020.

Mae'r gymeradwyaeth hon yn garreg filltir bwysig, gyda'r Comisiwn Ewropeaidd yn cadarnhau dyraniadau cronfeydd strwythurol o tua £2 biliwn i Gymru ar gyfer y cyfnod 2014-2020.

13:34 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, Minister. I thank you for the statement yesterday in which you highlighted the issues and you made the comment that there were intense and prolonged negotiations between the Commission and the UK Government. Now, while it is pleasing that that partnership agreement is finally approved, are there any implications for Wales stemming from the delays that have been caused by that prolonged agreement, particularly, again, in terms of the agreement to the English component of the UK partnership document?

Diolch i chi am yr ateb, Weinidog. Diolch i chi am y datganiad ddoe yn pwysleisio'r materion a gwnaethoch y sylw fod yna drafodaethau dwys a hir wedi bod rhwng y Comisiwn a Llywodraeth y DU. Yn awr, er ei bod yn dda gweld y cytundeb partneriaeth yn cael ei gymeradwyo o'r diwedd, a oes unrhyw oblygiadau i Gymru yn deillio o'r oedi cyn dod i gytundeb, yn arbennig, unwaith eto, o ran cytuno ar elfen Lloegr o ddogfen bartneriaeth y DU?

13:35 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I thank the Member for Aberavon for that question. Of course, his constituency has hugely benefitted from the European structural funds, and those delays in securing that UK partnership agreement were not ideal. There were concerns raised by the Commission relating to England's investment proposals—no major issues relating to the Wales chapter—and, of course, we are going to hit the ground running, I believe, with our operational programmes approved imminently.

Diolch i'r Aelod dros Aberafan am y cwestiwn. Wrth gwrs, mae ei etholaeth wedi elwa'n aruthrol o ganlyniad i'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd, ac nid oedd yr oedi cyn sicrhau cytundeb partneriaeth y DU yn ddelfrydol. Mynegwyd pryderon gan y Comisiwn yn ymwneud â chynigion buddsoddi Lloegr—nid oedd unrhyw broblemau ynglŷn â rhai Cymru—ac wrth gwrs, rwy'n credu y cawn gychwyn cadarn gyda'n rhaglenni gweithredol, a gymeradwyir yn fuan.

13:35 **William Graham** Bywgraffiad Biography

I am sure that the Minister will join me in welcoming the United Kingdom Government's commitment to provide additional moneys each year for match funding for west Wales and the Valleys, in recognition of their status as deprived areas. Will she also welcome the comments from the European Commissioner for Regional Policy that the partnership agreement gives strategic direction to future programmes, enhanced innovation, and transforming the United Kingdom and the Welsh economies?

Rwy'n sicr y bydd y Gweinidog yn ymuno â mi i groesawu ymrwymiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddarparu arian ychwanegol bob blwyddyn i gyllid cyfatebol ar gyfer gorllewin Cymru a'r Cymoedd i gydnabod eu statws fel ardaloedd difreintiedig. A wnaiff hi hefyd groesawu sylwadau'r Comisiynydd Ewropeaidd dros Bolisi Rhanbarthol fod y cytundeb partneriaeth yn rhoi cyfeiriad strategol i raglenni yn y dyfodol, i arloesi gwell, ac i weddnewid economïau'r Deyrnas Unedig a Chymru?

13:36 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Clearly, that is where partnership is crucial. I am glad that William Graham recognises the importance of this, and, indeed, in terms of the partnership with the Commission, and the UK Government, that is what I can reflect, from my position on the joint ministerial committee for devolved administrations, chaired by David Lidington.

Yn amlwg, dyna lle mae partneriaeth yn hanfodol. Rwy'n falch bod William Graham yn cydnabod pwysigrwydd hyn, ac yn wir, o ran y bartneriaeth gyda'r Comisiwn a Llywodraeth y DU, dyna'r hyn y gallaf ei gyfleu, o fy aelodaeth o'r cydbwyllgor gweinidogol dros y gweinyddiaethau datganoledig, a gadeiriwyd gan David Lidington.

13:36 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Weinidog, wrth gwrs mae'r bartneriaeth yn cynnwys llawer iawn mwy na'r cronfeydd strwythurol. Mae hefyd yr arian sy'n dod i Gymru drwy'r cynllun datblygu gwledig. Ar y chweched o'r mis hwn, arwyddwyd cytundeb rhwng Banc Buddsoddi Ewrop a Llywodraeth yr Almaen o rhyw €200 miliwn er mwyn cefnogi ffermydd bach a chymhedrol eu maint yn yr Almaen. A oes cynlluniau i sicrhau bod Banc Buddsoddi Ewrop yn cefnogi'r cynllun datblygu gwledig yng Nghymru?

Minister, naturally the partnership includes very much more than just the structural funds. We also have the funding that comes to Wales through the rural development plan. On the sixth of this month, an agreement was signed between the European Investment Bank and the German Government of approximately €200 million in order to support small and medium sized farms in Germany. Are there plans to ensure that the European Investment Bank supports the rural development plan here in Wales?

13:37 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Clearly, there are opportunities, and I do understand, Rhodri Glyn Thomas, that you might be able to raise this when you follow up your very constructive discussions and engagement with the European Investment Bank. I think that it is important now that I have driven a clearer focus on the opportunities for EIB investment in Wales. We know that, for example, the £45 million loan to Bangor University, in terms of constructing new teaching, research and sporting facilities at the university, is very important. Also there is not only the Swansea campus, but Neath Port Talbot and Coleg Morgannwg, which just shows the opportunities for the European Investment Bank in education. However, of course, the JEREMIE funds are key to SMEs, and I think that that will link to the rural development plan.

Yn amlwg, mae cyfleoedd i'w cael, ac rwy'n deall, Rhodri Glyn Thomas, y gallech godi hyn pan fyddwch yn cyflawni gwaith dilynol ar eich trafodaethau a'ch ymgysylltiad hynod o adeiladol â Banc Buddsoddi Ewrop. Credaf ei bod yn bwysig gan fy mod bellach wedi ysgogi ffocws cliriach ar y cyfleoedd ar gyfer buddsoddiad Banc Buddsoddi Ewrop yng Nghymru. Gwyddom, er enghraifft, fod y benthyciad £45 miliwn i Brifysgol Bangor, o ran adeiladu cyfleusterau addysgu, ymchwil a chwaraeon newydd yn y brifysgol, yn bwysig iawn. Mae gennym gampws Abertawe, a Chastell-nedd Port Talbot a Choleg Morgannwg hefyd, sy'n dangos y cyfleoedd sydd i'w cael ym myd addysg i Fanc Buddsoddi Ewrop. Fodd bynnag, wrth gwrs, mae cronfeydd JEREMIE yn allweddol i fusnesau bach a chanolig, a chredaf y bydd hynny'n cysylltu â'r cynllun datblygu gwledig.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

13:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

First this afternoon is the Welsh Conservative spokesperson, Nick Ramsay.

Y cyntaf i siarad y prynhawn yma yw llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Nick Ramsay.

13:38 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Minister, do you believe that the Welsh Government's ownership of property and land along the route of the new M4 relief road represents value for money for the Welsh taxpayer?

Weinidog, a ydych yn credu bod perchnogaeth Llywodraeth Cymru ar eiddo a thir ar hyd llwybr ffordd liniaru newydd yr M4 yn cynrychioli gwerth am arian i drethdalwyr Cymru?

13:38 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Clearly, this was responded to very robustly by my colleague, the Minister for Economy, Science and Transport, yesterday. I think that she very clearly put the picture historically, and I would also say that your colleague, William Graham, did so as well.

Yn amlwg, ymatebodd fy nghydweithiwr, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, yn gadarn iawn i hyn ddoe. Rwy'n credu ei bod wedi darlunio'r mater yn glir iawn yn y gorffennol, a byddwn yn dweud bod eich cydweithiwr, William Graham, wedi gwneud hynny hefyd.

13:38 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

So, I take it from your answer that you do clearly think that it represents value for money, even though some of the properties not directly on the route have been sold at a considerable loss. Okay, that is clear. Now, of course, it can only represent value for money if the land is going to be needed for the new M4. So, if that decision had already been taken, then the consultation itself did not represent value for money for the Welsh taxpayer, did it?

Felly, o'ch ateb rwy'n cymryd eich bod yn amlwg yn meddwl ei fod yn cynnig gwerth am arian, er bod rhywfaint o'r eiddo nad ydynt yn uniongyrchol ar y llwybr wedi'u gwerthu ar golled sylweddol. Iawn, mae hynny'n glir. Yn awr, wrth gwrs, mae'n bendant yn werth yr arian os bydd angen y tir ar gyfer yr M4 newydd. Felly, os oedd y penderfyniad hwnnw eisoes wedi'i wneud, yna onid yw'n wir nad oedd yr ymgynghoriad ei hun yn dangos gwerth am arian i drethdalwyr Cymru?

13:39 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Well, I think also that the other aspects that were very helpfully brought out yesterday during that response from the Minister—and, indeed, from other Members—was that some of the purchase of ownership of property, which, of course dates back decades, we have to say, and the reasons for that were very clearly explained, was to support the Newport economy, and, indeed, the economy of south-east Wales.

Wel, rwy'n meddwl hefyd mai'r agweddau eraill a ddatgelwyd yn ddefnyddiol iawn ddoe yn ystod ymateb y Gweinidog—a chan Aelodau eraill yn wir—oedd bod peth o'r pryniant perchnogaeth eiddo, sy'n dyddio'n ôl ddegawdau wrth gwrs, rhaid i ni ddweud, a chafodd y rhesymau dros hynny eu hesbonio'n glir iawn, wedi'i wneud er mwyn cefnogi economi Casnewydd, ac yn wir, economi de-ddwyrain Cymru.

13:39 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Well, of course, Minister, the point is that either the ownership of the land represents value for money, or the consultation represents value for money, but not both. The truth is, Minister, that the consultation was a complete waste of money, was it not, because the route had already been decided upon in advance? The Welsh Government was not being open with the Welsh people then, and you are not being now.

Wel, wrth gwrs, Weinidog, y pwynt yw bod perchnogaeth y tir yn cynnig gwerth am arian neu fod yr ymgynghoriad yn cynnig gwerth am arian, ond nid y ddau. Y gwir yw, Weinidog, fod yr ymgynghoriad yn wastraff arian llwyr, onid oedd, oherwydd bod y llwybr eisoes wedi'i benderfynu o flaen llaw? Nid oedd Llywodraeth Cymru yn agored â phobl Cymru bryd hynny, ac nid ydych yn bod yn agored yn awr.

13:40 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I think that you are getting very excited, Nick Ramsay, about a very important issue in terms of the opportunities for people to engage. You will know that they will engage, and have engaged already, including the experts in this area. However, as a result of our discussions, and indeed our budget agreement, there are clear opportunities, with public inquiries forthcoming.

Rwy'n meddwl eich bod yn cyffroi, Nick Ramsay, ynglŷn â mater pwysig iawn yn nhermau'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl gymryd rhan. Gwyddoch eu bod yn mynd i gymryd rhan ac maent wedi cymryd rhan yn barod, yn cynnwys yr arbenigwyr yn y maes. Fodd bynnag, o ganlyniad i'n trafodaethau, a'n cytundeb cyllidebol yn wir, mae cyfleoedd amlwg i'w cael, gydag ymchwiliadau cyhoeddus ar y ffordd.

13:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call the Plaid Cymru spokesperson, Alun Ffred Jones.

Galwaf ar lefarydd Plaid Cymru, Alun Ffred Jones.

13:40 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Diolch yn fawr iawn. Rydych wedi cyfeirio at adroddiad yr Institute for Fiscal Studies, sydd yn cael ei adrodd yn y 'Financial Times' y bore yma ac yn y 'Western Mail', sy'n profi unwaith eto bod fformiwla Barnett yn gweithio yn erbyn buddiannau Cymru—a buddiannau Lloegr, fel mae'n digwydd, hefyd. A ydych chi wedi cynnal trafodaethau ar lefel gweinidogol gyda Llywodraeth San Steffan i ddiwygio fformiwla Barnett?

Thank you very much. You have referred to the Institute for Fiscal Studies report, which is reported in the 'Financial Times' and the 'Western Mail' today, and which proves again that the Barnett formula works against the interests of Wales—and England, as it happens, as well. Have you had any negotiations at ministerial level with the Westminster Government to amend the Barnett formula?

13:40 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I am glad that Alun Ffred Jones has drawn attention to this today. Of course, my key focus at the moment is to secure fair funding for Wales and to secure the funding floor, which we all agreed in this Chamber is the key to addressing the disadvantages of the Barnett formula as it is applied to Wales, and to enable us to move forward in terms of ensuring that we have got that floor to deliver fair funding. However, I would say also that this is a very clear example of a technical feature of the Barnett formula now being revealed, which shows that not only is it unfair, but there are vagaries, which have been clearly identified by the House of Lords and numerous other academic studies. It is the Barnett formula that is out of date.

Rwy'n falch fod Alun Ffred Jones wedi tynnu sylw at hyn heddiw. Wrth gwrs, fy ffocws pennaf ar hyn o bryd yw sicrhau cyllid teg i Gymru ac i sicrhau'r cyllid gwaelodol y cytunodd pawb yn y Siambr hon sy'n allweddol er mwyn mynd i'r afael ag anfanteision fformiwla Barnett fel y caiff ei chymhwyso yng Nghymru, ac i'n galluogi i symud ymlaen o ran sicrhau ein bod yn cael sylfaen ar gyfer darparu cyllid teg. Fodd bynnag, hoffwn ddweud hefyd fod hon yn enghraifft amlwg iawn o un o nodweddion technegol fformiwla Barnett sy'n cael ei datgelu yn awr, sy'n dangos nid yn unig ei bod yn annheg, ond ei bod yn cynnwys agweddau mympwyol a nodwyd yn glir gan Dŷ'r Arglwyddi a nifer o astudiaethau academaidd eraill. Fformiwla Barnett sydd wedi dyddio.

13:41 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Rydym i gyd yn cytuno â'r hyn a ddywedoch chi, ond nid ydych yn ateb fy nghwestiwn i. Y cwestiwn a ofynnais i oedd: sawl cyfarfod a ydych chi wedi'u cynnal gyda swyddogion, neu ar lefel gweinidogol, gyda Llywodraeth San Steffan yn pledio'r achos i newid fformiwla Barnett? Felly, a allwch ateb: sawl cyfarfod sydd wedi bod, neu sawl llythyr ydych chi wedi eu hanfon, i ofyn i ddiwygio'r fformiwla?

We all agree with your comments, but you have not answered my question. The question I asked you was: how many meetings have you had with officials, or at ministerial level, with the Westminster Government making the case for a change to the Barnett formula? So, can you answer: how many meetings have there been, or how many letters have you sent, to ask for reform of the formula?

13:42 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Well, of course, I have been negotiating with the UK Government since I have been in this role as Minister for finance, and, indeed, with the Chief Secretary to the Treasury, Danny Alexander, to secure a fairer funding settlement for Wales. To secure a fairer funding settlement for Wales, we have, of course, discussed at meetings, and clearly had evidence through the Holtham commission, how the Barnett formula needs to be reformed, and, indeed, scrapped. I think Joel Barnett, who sadly passed away only recently, said that not only was it out of date, but it should go. However, we have to then look for a practical way forward and that is why I secured a commitment to a fair funding settlement, using the mechanism of a funding floor to halt convergence in Wales.

Wel, wrth gwrs, rwyf wedi bod yn trafod gyda Llywodraeth y DU ers i mi fod yn Weinidog cyllid, ac yn wir, gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, Danny Alexander, er mwyn sicrhau setliad cyllid tecach i Gymru. I sicrhau setliad cyllid tecach i Gymru, rydym wedi trafod mewn cyfarfodydd, wrth gwrs, ac yn amlwg, roedd gennym dystiolaeth comisiwn Holtham, ynglŷn â sut y mae angen diwygio fformiwla Barnett, ac yn wir, sut y dylid cael gwared arno. Rwy'n credu bod Joel Barnett, a fu farw yn ddiweddar, wedi dweud nid yn unig ei fod wedi dyddio ond y dylid cael ei wared. Fodd bynnag, rhaid i ni edrych wedyn am ffordd ymarferol o symud ymlaen a dyna pam y sicrheais ymrwymiad i setliad cyllid teg, gan ddefnyddio mecanwaith cyllid gwaelodol i atal cydgyfeirio yng Nghymru.

13:43 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Nid wyf yn glir o hyd sawl cyfarfod sydd wedi bod lle rydych chi wedi pledio yr achos i newid y fformiwla. Rydych yn dweud bod trafodaethau wedi bod. A fyddem yn gallu gweld cofnodion y cyfarfodydd hyn i weld pa achos sydd wedi cael ei wneud? Rydych yn dweud hefyd eich bod angen sgrapio fformiwla Barnett, ond mae arweinydd eich plaid eich hun wedi dweud y bydd y fformiwla yn aros yng nghyd-destun y trafodaethau a fu yn yr Alban. Felly, er mwyn i bobl Cymru gael deall yn union lle mae pawb yn sefyll, a fyddech yn gallu nodi yn glir y bydd y Blaid Lafur, petai yn ffurfio Llywodraeth yn San Steffan y tro nesaf, yn cael gwared ar fformiwla Barnett a'i ddiwygio?

I am still not clear how many meetings have been held where you have made the case for a change to the formula. You say that there have been negotiations. Could we see the minutes of these meetings to see what case has been presented? You also say that we need to scrap the Barnett formula, but the leader of your own party has said that the formula will remain in place in the context of negotiations and discussions in Scotland. So, for the people of Wales to understand exactly where everyone stands, could you note clearly that the Labour Party, should it form the next Government in Westminster, will abolish the Barnett formula and reform it?

13:44 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I think the important progress that we have made in recent years, which I secured as your Minister for finance in that joint statement of funding reform in 2012, was recognition by the UK Government that there had been convergence as a result of the Barnett formula in Welsh relative funding since the start of devolution, and that there was very likely to be further convergence in the future unless we halted it. Of course, that is where a reform of the Barnett formula, as far as it applies to us, would be very clear if we secured a funding floor.

Rwy'n meddwl bod y cynnydd pwysig rydym wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf, a lwyddais i, fel eich Gweinidog cyllid, i'w sicrhau yn y cyd-ddatganiad diwygio cyllid yn 2012, yn gydnabyddiaeth gan Lywodraeth y DU y bu cydgyfeirio yn sgil fformiwla Barnett ar gyllid cymharol Cymru ers dechrau datganoli, a bod tebygolrwydd uchel o gydgyfeirio pellach yn y dyfodol oni bai ein bod yn ei atal. Wrth gwrs, dyna lle y byddai diwygio fformiwla Barnett, cyn belled ag y mae'n berthnasol i ni, yn eglur iawn pe baem yn sicrhau cyllid gwaelodol.

13:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.

Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.

13:44 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Minister, can you outline for us the top three strategic priorities in your budget?

Weinidog, a allwch chi amlinellu'r tair blaenoriaeth strategol uchaf yn eich cyllideb i ni?

13:44 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Clearly, securing fair funding and a funding floor is a key strategic priority, as is developing the Treasury function of the Welsh Government in order to deliver on the new powers and responsibilities, but also ensuring that we can deliver on the next round of the European structural funds in terms of enhancing growth and jobs, tackling poverty and also ensuring that the growth that we can secure from that £2 billion investment can be shared across the whole of Wales.

Yn amlwg, mae sicrhau cyllid teg a chyllid gwaelodol yn flaenoriaeth strategol allweddol, fel y mae datblygu swyddogaeth Trysorlys Llywodraeth Cymru er mwyn cyflawni'r pwerau a'r cyfrifoldebau newydd, a sicrhau hefyd y gallwn gyflawni cylch nesaf y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd o ran gwella twf a swyddi, trechu tlodi a sicrhau y caiff y twf y gallwn ei sicrhau o'r buddsoddiad £2 biliwn ei rannu ledled Cymru gyfan.

13:45 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, Minister. I was rather hoping that you would actually give me the priorities for your budget as opposed to for the Government. I was expecting something a bit more prosaic. I understand that one of the priorities that the Welsh Government has is dealing with deprivation and poverty. Can you explain, therefore, why it is that a major programme for dealing with those particular issues, namely the Supporting People programme, has had a £10 million reduction in the budget, which we will be discussing next week?

Diolch i chi am yr ateb, Weinidog. Roeddwn yn gobeithio y byddech yn dweud beth yw blaenoriaethau eich cyllideb yn hytrach na rhai'r Llywodraeth. Roeddwn yn disgwyl rhywbeth ychydig yn fwy plaen. Deallaf mai un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yw ymdrin ag amddifadedd a thlodi. A allwch egluro, felly, pam fod rhaglen fawr sy'n ymdrin â'r materion penodol hynny, sef y rhaglen Cefnogi Pobl, yn wynebu gostyngiad o £10 miliwn yn ei chyllideb, mater y byddwn yn ei drafod yr wythnos nesaf?

13:45 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Of course, Peter Black, you were involved in the budget negotiations both this year and last, with Plaid Cymru as well. We were able, as a result of those negotiations, to mitigate the impacts of cuts that were forecast or for the Supporting People programme. Let us just remember why we are in this position of having to talk, unfortunately, about these cuts: because the Government, of which your party is a part, has now delivered those austerity cuts, which result in £1.5 billion less in our budget. However, I do respect the fact that this is difficult in terms of priorities, and so we have also managed to mitigate the impact in 2015-16 in terms of our draft budget for Supporting People. I also very much support a focus on the pupil deprivation grant, which you are supporting.

Wrth gwrs, Peter Black, roeddech chi'n rhan o'r trafodaethau ar y gyllideb eleni a'r llynedd, a Phlaid Cymru hefyd. O ganlyniad i'r trafodaethau, gallasom liniaru effeithiau toriadau a ragwelwyd i'r rhaglen Cefnogi Pobl. Gadewch i ni gofio pam ein bod yn y sefyllfa o orfod siarad am y toriadau hyn, yn anffodus: oherwydd bod y Llywodraeth y mae eich plaid yn rhan ohoni bellach wedi cyflwyno'r toriadau cyni, sy'n arwain at £1.5 biliwn yn llai yn ein cyllideb. Fodd bynnag, rwy'n parchu'r ffaith fod hyn yn anodd o ran blaenoriaethau, felly rydym wedi llwyddo hefyd i liniaru'r effaith yn 2015-16 o ran ein cyllideb ddrafft ar gyfer Cefnogi Pobl. Rwyf hefyd yn cefnogi'n fawr y ffocws ar y grant amddifadedd disgyblion rydych chi'n ei gefnogi.

13:46 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, Minister. I am sure that I do not need to remind you that Alistair Darling's budget in 2009 would have put us in a worse position than we are at present in terms of the austerity measures that we are facing. Also, of course, the negotiations that we conducted with you were on specific issues relating to young people and children.

Diolch i chi am yr ateb, Weinidog. Rwy'n siŵr nad oes angen i mi eich atgoffa y byddai cyllideb Alistair Darling yn 2009 wedi ein rhoi mewn sefyllfa waeth na'r un rydym ynddi ar hyn o bryd o ran y mesurau cyni rydym yn eu hwynebu. Hefyd, wrth gwrs, roedd y trafodaethau a gawsom gyda chi ar faterion penodol yn ymwneud â phobl ifanc a phlant.

However, coming back to the issue of Supporting People, you will know that both the Communities, Equality and Local Government Committee and the Finance Committee, in their final reports, have expressed very deep concerns about the impact of this cut on the Government's programmes, particularly given that you have placed a huge emphasis on preventative expenditure. Can I ask, given the report that the Finance Committee has published today outlining its concerns and other Members' concerns about this, whether you will reconsider this £10 million cut and try to find some additional money for this programme by the time of the final budget?

Fodd bynnag, gan ddod yn ôl at fater Cefnogi Pobl, byddwch yn gwybod bod y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol a'r Pwyllgor Cyllid, yn eu hadroddiadau terfynol, wedi mynegi pryderon mawr iawn am effaith y toriad hwn ar raglenni'r Llywodraeth, yn enwedig o ystyried eich bod wedi rhoi pwyslais mawr ar wariant ataliol. A gaf fi ofyn, o ystyried yr adroddiad a gyhoeddodd y Pwyllgor Cyllid heddiw, sy'n amlinellu ei bryderon a phryderon Aelodau eraill am hyn, a fyddwch yn ailystyried y toriad o £10 miliwn ac yn ceisio dod o hyd i rywfaint o arian ychwanegol ar gyfer y rhaglen erbyn adeg y gyllideb derfynol?

13:47 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

We do have the debate on the 2015-16 draft budget next week, and I very much look forward to debating. I respect the views of the Finance Committee, that you have taken on board many of the issues of scrutiny that have arisen as a result of the most difficult budget we have had to both set and agree in this administration in the whole time of devolution. So, these are difficult issues. You obviously decided, in your budget negotiations with us, to focus on young people. That is fair enough, and that was your priority. We have got tough choices to make in terms of this budget.

Cynhelir y ddadl ar gyllideb ddrafft 2015-16 yr wythnos nesaf ac rwy'n edrych ymlaen at y drafodaeth. Rwy'n parchu barn y Pwyllgor Cyllid eich bod wedi ystyried llawer o'r materion craffu sydd wedi codi o ganlyniad i'r gyllideb anoddaf y bu'n rhaid i ni ei gosod a chytuno arni yn y weinyddiaeth hon ers datganoli. Felly, mae'r rhain yn faterion anodd. Mae'n amlwg eich bod wedi penderfynu yn eich trafodaethau gyda ni ar y gyllideb i ganolbwyntio ar bobl ifanc. Mae hynny'n ddigon teg, a dyna oedd eich blaenoriaeth. Mae gennym ni ddewisiadau anodd i'w gwneud o ran y gyllideb hon.

## Y Portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## The Health and Social Services portfolio

13:48 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y dyraniad cyllidebol i'r portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol? OAQ(4)0473(FIN)*

*3. Will the Minister make a statement on the budget allocation to the health and social services portfolio? OAQ(4)0473(FIN)*

13:48

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

The budget allocation to the health and social services portfolio reflects the evidence of Nuffield. It gives the NHS the base to make the reforms needed for long-term sustainability.

Mae dyraniad y gyllideb i'r portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn adlewyrchu tystiolaeth Nuffield. Mae'n rhoi sylfaen i'r GIG wneud y diwygiadau sydd eu hangen er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor.

13:48

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Minister, Welsh Conservatives, as you know, have long called for protection of the health budget. Clearly, some of our message has, at last, filtered through in that you have approved some additional funding for the health service in this coming budget. The health boards see this additional money as a bail-out, and you cannot really blame them for that, can you? However, you have recently linked that additional money to improvements in performance and efficiency that you expect to see. The health boards will not have time to deliver the scale of efficiencies that you want, so, in actual fact, this additional money is a bail-out.

Weinidog, fel y gwyddoch mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi bod yn galw ers amser am ddiogelu'r gyllideb iechyd. Yn amlwg, mae rhywfaint o'n neges wedi treiddio trwodd o'r diwedd o ran eich bod wedi cymeradwyo cyllid ychwanegol i'r gwasanaeth iechyd yn y gyllideb sydd i ddod. Mae'r byrddau iechyd yn gweld y cyllid ychwanegol fel arian achub croen, a go brin y gallwch eu beio am hynny. Fodd bynnag, yn ddiweddar, rydych wedi cysylltu'r arian ychwanegol â gwelliannau rydych yn disgwyl eu gweld o ran perfformiad ac effeithlonrwydd. Ni fydd gan y byrddau iechyd amser i gyflawni'r graddau o effeithlonrwydd rydych eu heisiau, felly mewn gwirionedd, mae'r cyllid ychwanegol yn arian achub croen.

13:49

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Nick Ramsay, you cannot have it both ways. Either you want us to fund the health service, which, of course, is a very important message that has come through—and I particularly welcome the very strong and important message that has come through from the Royal College of Physicians today, recognising the challenges to the health service. I think that the £200 million that has been made available to the health service this year, and the £225 million next year, very clearly respond to the Nuffield findings. However, what is very important is the strong message to health boards that if they do not have robust plans in place, and if they continue to incur deficits year on year, they will no longer receive additional funding in order to balance their books.

Nick Ramsay, ni allwch ei chael y ddwy ffordd. Naill ai rydych am i ni gyllido'r gwasanaeth iechyd, sy'n neges bwysig iawn wrth gwrs—ac rwy'n croesawu'n arbennig y neges gref a phwysig iawn a ddaeth gan Goleg Brenhinol y Ffisigwyr heddiw, yn cydnabod yr heriau i'r gwasanaeth iechyd. Credaf fod y £200 miliwn a ryddhawyd i'r gwasanaeth iechyd eleni, a'r £225 miliwn y flwyddyn nesaf, yn ymateb yn glir i ganfyddiadau Nuffield. Fodd bynnag, yr hyn sy'n bwysig iawn yw'r neges gref i fyrddau iechyd, os nad oes ganddynt gynlluniau cadarn ar waith, ac os ydynt yn parhau â diffygion ariannol o flwyddyn i flwyddyn, na fyddant yn cael arian ychwanegol i gydbwyso'r gyllideb.

13:50

## Lynne Neagle Bywgraffiad Biography

Minister, would you agree with me that it is a bit rich for the Welsh Conservatives to be pointing the finger about the Welsh health budget when it is as a result of their savage cuts that the whole of our Welsh budget is under pressure?

Weinidog, a fyddech yn cytuno â mi ei bod yn haerllug braidd i'r Ceidwadwyr Cymreig bwyntio bys ynglŷn â chyllideb iechyd Cymru o ystyried mai o ganlyniad i'w toriadau llym y mae holl gyllideb Cymru o dan bwysau?

13:50

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Yes. I could not agree with you more, Lynne Neagle. I was just again reflecting on the fact that we have now put in an additional £200 million this year and £225 million next year—an extra £425 million in the NHS in Wales over this year and next. This is about providing our Welsh health service with the resources to meet the funding gap, and to ensure that it undertakes the reforms that are necessary. I also was very struck by today's report by the Royal College of Physicians, where it said about the undermining of the health service—particularly that inspired by the Tory-led press, 'The Daily Mail'—has been undermining doctors and nurses, who prefer the system of health that is provided in Wales than that over the border. I think that that is very clear.

Ydy. Ni allwn gytuno mwy â chi, Lynne Neagle. Roeddwn yn myfyrio unwaith eto ar y ffaith ein bod bellach wedi cyfrannu swm ychwanegol o £200 miliwn eleni a £225 miliwn y flwyddyn nesaf—£425 miliwn yn ychwanegol i GIG Cymru dros y flwyddyn hon a'r nesaf. Mae hyn yn ymwneud â rhoi'r adnoddau i'n gwasanaeth iechyd yng Nghymru lenwi'r bwlch cyllido ac i sicrhau ei fod yn cyflawni'r diwygiadau angenrheidiol. Hefyd, cefais fy synnu gan adroddiad Coleg Brenhinol y Ffisigwyr heddiw, sy'n dweud bod tanseilio'r gwasanaeth iechyd—yn enwedig yr hyn a ysbrydolwyd gan y papur Torïaidd, 'The Daily Mail'—wedi bod yn tanseilio meddygon a nyrsys, sy'n ffafrio'r system iechyd a ddarperir yng Nghymru na'r hyn a geir dros y ffin. Credaf fod hynny'n glir iawn.

13:51 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

We had some very worrying evidence at the Public Accounts Committee yesterday, suggesting that in-year deficits were currently going to approach £230 million at the end of March. Last week, we heard that, as a result of the in-year financial performance of Betsi Cadwaladr University Local Health Board, enhanced monitoring was being put in place by the Minister for health. Can I ask, given the concerns as to whether NHS Wales is sufficiently capable of monitoring the financial situation, whether your department will be taking more of a supervisory role in that enhanced monitoring in north Wales? It is of real concern to residents living in the region.

Cawsom dystiolaeth gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ddoe sy’n peri cryn dipyn o bryder. Mae’n awgrymu y bydd y diffygion canol blwyddyn cyfredol yn cyrraedd £230 miliwn erbyn diwedd mis Mawrth. Yr wythnos diwethaf, clywsom fod y Gweinidog iechyd yn rhoi system fonitro fwy trylwyr ar waith o ganlyniad i berfformiad ariannol canol blwyddyn Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr. A gaf fi ofyn, o ystyried y pryderon ynglŷn ag a yw GIG Cymru yn ddigon abl i fonitro’r sefyllfa ariannol, a fydd eich adran yn cyflawni mwy o rôl oruchwylio yn y system fonitro fwy trylwyr honno yn y gogledd? Mae’n bryder gwirioneddol i drigolion sy’n byw yn y rhanbarth.

13:51 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Clearly, working very closely with the Minister for Health and Social Services, we are looking at how we can manage and support the pressures that the health service is experiencing. Julie Morgan raised the question in terms of the pressures on our ageing population earlier on. I think that it is very important that we recognise, again, in response to the question from Nick Ramsay, that we are not going to allow health boards to get into a position where they see this as a way in which more money will be made available. We want to see improvements, particularly in relation to Betsi Cadwaladr, and very close monitoring in terms of its plans.

Yn amlwg, gan weithio’n agos iawn gyda’r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, rydym yn edrych ar sut y gallwn reoli a chefnogi’r pwysau y mae’r gwasanaeth iechyd yn eu profi. Cododd Julie Morgan y cwestiwn yn gynharach o ran y pwysau ar ein poblogaeth sy’n heneiddio. Credaf ei bod yn bwysig iawn i ni gydnabod, unwaith eto, mewn ymateb i’r cwestiwn gan Nick Ramsay, nad ydym am ganiatáu i fyrddau iechyd wynebu sefyllfa lle y gwelant hyn fel ffordd o sicrhau mwy o arian. Rydym eisiau gweld gwelliannau, yn enwedig mewn perthynas â Betsi Cadwaladr, a monitro agos iawn o ran ei gynlluniau.

## Cronfeydd Strwythurol yr UE

## EU Structural Funds

13:52 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bwysigrwydd cronfeydd strwythurol yr UE i gymoedd de Cymru? OAQ(4)0476(FIN)*

*4. Will the Minister make a statement on the importance of EU structural funds to the south Wales valleys? OAQ(4)0476(FIN)*

13:52 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

EU projects delivering in the south Wales Valleys have already created some 7,000 jobs and over 2,100 businesses, helped 23,100 people into work, 21,500 people into further learning, and 75,450 to gain qualifications.

Mae prosiectau’r UE sy’n cyflawni yng Nghymoedd y De eisoes wedi creu tua 7,000 o swyddi a mwy na 2,100 o fusnesau, wedi helpu 23,100 o bobl i gael gwaith, 21,500 i ddysgu pellach, a 75,450 i ennill cymwysterau.

13:53 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer. When does the Minister expect the European regional development fund and the European social fund programmes for west Wales and the Valleys to be approved?

Diolch i chi am eich ateb. Pryd y mae’r Gweinidog yn disgwyl i gronfa ddatblygu ranbarthol Ewrop a rhaglenni cronfa gymdeithasol Ewrop i orllewin Cymru a’r Cymoedd gael eu cymeradwyo?

13:53 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Within a matter of weeks. This would make them the first programmes in the UK and among the front-runners in Europe to get that approval.

Mewn ychydig wythnosau. Byddai hyn yn golygu mai’r rhan fyddai’r rhaglenni cyntaf yn y DU ac ymhlith ymgeiswyr mwyaf blaenllaw Ewrop i gael y gymeradwyaeth honno.

13:53 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Minister, it is important that this money is used effectively. I think that most people, especially impartial observers, would say that there have been quite significant flaws in the previous two rounds of funding, which have not led to the economic growth that we would have liked to see in the areas that benefited from Objective 1 and convergence funding. What assurances can you give that this current Welsh Government has learned the lessons that are required to be learned, and that this third tranche will ultimately achieve a significant uplift in economic activity and prosperity in the areas that should benefit from these European funds?

Weinidog, mae'n bwysig bod yr arian yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Credaf y byddai'r mwyafrif o bobl, yn enwedig arsylwyr diduedd, yn dweud y bu diffygion eithaf sylweddol yn y ddau gylch cyllido blaenorol, sydd heb arwain at y twf economaidd y byddem wedi hoffi ei weld yn yr ardaloedd a elwodd o Amcan 1 a chyllid cydgyfeirio. Pa sicrwydd y gallwch ei roi bod Llywodraeth bresennol Cymru wedi dysgu'r gwersi sydd angen eu dysgu, ac y bydd y trydydd cylch yn arwain yn y pen draw at gynnydd sylweddol mewn gweithgarwch a ffyniant economaidd yn y meysydd a ddylai elwa o'r cronfeydd Ewropeaidd hyn?

13:54 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Well, I am glad that the leader of the opposition recognises the importance of this announcement, in terms of the funding: £1.6 billion for west Wales and the Valleys; £325 million to east Wales; and also £520 million of rural development plan funding. I just wish to say that the programme investments, of course, will be much more focused than before, with an emphasis on impact and results. We will be simplifying procedures wherever possible, lightening the administrative burden on beneficiaries, shifting the focus towards demonstrating spending on securing results and payment on delivery. Of course, the way that we have managed the funds has been endorsed by a Wales Audit Office report.

Wel, rwy'n falch fod arweinydd yr wrthblaid yn cydnabod pwysigrwydd y cyhoeddiad hwn o ran y cyllid: £1.6 biliwn i orllewin Cymru a'r Cymoedd; £325 miliwn i ddwyrain Cymru; a £520 miliwn o gyllid cynllun datblygu gwledig hefyd. Hoffwn ddweud y bydd llawer mwy o ffocws i'r buddsoddiadau rhaglen nag o'r blaen, wrth gwrs, gyda phwyslais ar effaith a chanlyniadau. Byddwn yn symleiddio'r gweithdrefnau lle bynnag y bo modd, yn ysgafnhau'r baich gweinyddol ar fuddiolwyr, ac yn symud y ffocws tuag at ddangos gwariant ar sicrhau canlyniadau a thalu am gyflawni. Wrth gwrs, cymeradwyodd adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru y ffordd rydym wedi rheoli'r arian.

13:54 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Minister, recommendation 13 in the 2012 Finance Committee report, 'The Effectiveness of European Structural Funds in Wales', calls for the Welsh European Funding Office to publish, and make publicly available, outputs and outcome data for live projects in the next funding round. This was echoed in recommendation 6 in Dr Grahame Guilford's 2013 review, 'Investing in Growth and Jobs'. Can you tell me whether these recommendations have been progressed and whether they are in place for the next round of spending by your Government?

Weinidog, mae argymhelliad 13 yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid 2012, 'Effeithiolrwydd Cyllid Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru', yn galw ar Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i gyhoeddi allbynnau a data canlyniadau prosiectau gweithredol yn y cylch cyllido nesaf ar gyfer y cyhoedd. Adleisiwyd hyn yn argymhelliad 6 o adolygiad Dr Grahame Guilford yn 2013, 'Buddsoddi mewn Twf a Swyddi'. A allwch ddweud wrthyf a yw'r argymhellion hyn wedi'u datblygu ac a ydynt ar waith ar gyfer y cylch nesaf o wariant gan eich Llywodraeth?

13:55 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I think that, hopefully, in response to the previous question from Andrew R.T. Davies, I made it very clear that this would be our approach and that greater simplification and integration of our programme implementation arrangements will, of course, help to deliver that.

Mewn ymateb i'r cwestiwn blaenorol gan Andrew R. T. Davies, gobeithio fy mod wedi ei gwneud hi'n eglur iawn mai dyma fyddai ein hagwedd ac y bydd symleiddio ac integreiddio ein trefniadau gweithredu rhaglen yn well yn helpu i gyflawni hynny, wrth gwrs.

## Portffolio Cyfoeth Naturiol

## The Natural Resources Portfolio

13:55 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

*5. Pa flaenoriaethau a gafodd eu hystyried gan Lywodraeth Cymru wrth ddyrannu cyllid i'r portffolio cyfoeth naturiol? OAQ(4)0483(FIN)*

*5. What priorities were taken into account by the Welsh Government when allocating funding to the natural resources portfolio? OAQ(4)0483(FIN)*

13:55 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Our 'Priorities for Wales' draft budget reflects our commitment to improving outcomes for the people of Wales, as set out in the programme for government.

Mae ein cyllideb ddrafft 'Blaenoriaethau i Gymru' yn adlewyrchu ein hymrwymiad i wella canlyniadau i bobl Cymru, fel y nodir yn y rhaglen lywodraethu.

13:55 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

You will be aware of the dialogue that I have had with Natural Resources Wales in relation to storm damage repairs in my constituency. Over £4 million has been provided to Conwy for much-needed storm damage repairs, the majority of which we have yet to see carried out. Natural Resources Wales, of course, is the organisation that permits the licences for marine permit licences, but there has been a huge void in the actual regulation of these and in their enforcement. What percentage of funding, when you allocate funding to this department, actually goes to the regulation and enforcement of marine permit licences?

Byddwch yn ymwybodol o'r ddeialog rwyf wedi'i chael gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â gwaith atgyweirio difrod storm yn fy etholaeth. Mae Conwy wedi cael dros £4 miliwn ar gyfer gwaith trwsio difrod stormydd angenrheidiol, y rhan fwyaf ohono eto i'w wneud. Cyfoeth Naturiol Cymru, wrth gwrs, yw'r sefydliad sy'n rhoi trwyddedau morol, ond mae gwagle enfawr wedi bod o ran eu rheoleiddio a'u gorfodi. Pan fyddwch yn dyrannu cyllid i'r adran hon, pa ganran o'r cyllid sy'n mynd tuag at reoleiddio a gorfodi trwyddedau morol mewn gwirionedd?

13:56 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

This would be a matter for the Minister for Natural Resources, and I certainly will be talking to him and asking him to respond to you directly in terms of the regulation of marine permit licences.

Byddai hwn yn fater i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol, a byddaf yn sicr yn siarad ag ef ac yn gofyn iddo ymateb i chi yn uniongyrchol o ran rheoleiddio trwyddedau morol.

13:56 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Oni fyddech chi'n cytuno, Weinidog, fod risg wirioneddol na fydd rhaglen y Llywodraeth yn cael ei chyflawni yng nghyd-destun yr adran hon ar ôl un o'r toriadau mwyaf ar draws holl adrannau'r Llywodraeth? Nid oes ond angen edrych ar sefyllfa Cyfoeth Naturiol Cymru, er enghraifft, sydd eisoes yn lleihau yn sylweddol nifer ei staff, sydd eisoes yn edrych ar werthu tir er mwyn gwneud i fyny am y diffyg ariannol, sydd hefyd yn awr yn wynebu toriad o £3.2 miliwn yn ei gyllideb refeniw, ac sydd ar yr un pryd yn wynebu cynnydd sylweddol yn ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau yn sgîl rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth hon.

Would you not agree, Minister, that there is a real risk that the Government's programme will not be achieved in the context of this department after one of the biggest cuts across all Government departments? One need only look at the position of NRW, for example, which has already significantly reduced the number of staff, is already considering the sale of land to make up its financial deficit, is also now facing a cut of £3.2 million in its revenue budget, and is simultaneously facing a significant increase in its duties and responsibilities as a result of this Government's legislative programme.

13:57 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Of course, the allocation for natural resources for the whole major expenditure group is £405 million in the draft budget for 2015-16: £289 million in revenue and £116 million in capital. Of course, as we said earlier—and I have responded to questions—we have challenges in terms of managing our priorities within a reducing budget, but of course, it is very clear that—particularly, I think, in relation to the regulatory issues and the priorities that we have in terms of natural resources in terms of areas such as flood prevention—we can rise to those challenges.

Wrth gwrs, y dyraniad cyfoeth naturiol ar gyfer y prif grŵp gwariant cyfan yw £405 miliwn yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2015-16: £289 miliwn mewn refeniw a £116 miliwn mewn cyfalaf. Wrth gwrs, fel y dywedasom yn gynharach—ac rwyf wedi ymateb i gwestiynau—mae gennym heriau o ran rheoli ein blaenoriaethau o fewn cyllideb sy'n lleihau, ond wrth gwrs, mae'n amlwg iawn—yn arbennig, rwy'n credu, o ran y materion rheoleiddio a'r blaenoriaethau sydd gennym mewn perthynas ag adnoddau naturiol o ran meysydd fel atal llifogydd—y gallwn wynebu'r heriau hynny.

## Cyllideb Buddsoddi i Arbed

## Invest-to-save Funding

13:58 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

*6. Pam y penderfynwyd y gallai'r rhai sy'n cael cyllid buddsoddi i arbed ohirio gwneud unrhyw ad-daliad yn ystod y flwyddyn ar ôl y benthyciad? OAQ(4)0469(FIN)*

*6. Why was it decided that recipients of invest-to-save funding could postpone making any repayment in the year immediately following the loan? OAQ(4)0469(FIN)*

13:58 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

The repayment profile of invest-to-save loans is decided on a project-by-project basis, taking into account a range of factors. Two thirds of projects begin repayment in the year immediately following the loan.

Mae proffil ad-dalu benthyciadau buddsoddi i arbed yn cael ei lunio ar sail prosiectau unigol, gan ystyried amrywiaeth o ffactorau. Mae dwy ran o dair o'r prosiectau yn dechrau ad-dalu yn y flwyddyn wedi'r benthyciad.

13:58 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Thank you for the answer, Minister. How much money will be available in 2015-16 for the invest-to-save schemes?

Diolch am yr ateb, Weinidog. Faint o arian a fydd ar gael yn 2015-16 ar gyfer cynlluniau buddsoddi i arbed?

13:58 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Well, the amount of money available for distribution in 2015-16 is £22 million.

Wel, y swm o arian sydd ar gael i'w ddosbarthu yn 2015-16 yw £22 miliwn.

13:58 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Minister, I have had many enlightening conversations with Mike Hedges over the invest-to-save programme, and of course, invest-to-save is a clever idea. We lend money to the authority, which is then used to make savings, which puts some money back in the pocket of the authority and of course repays the loan. It is very clever until, of course, that circle is broken and the Welsh Government is not getting the money back at the time that it initially decided. As Mike Hedges pointed out, will you look at the operation of this scheme, and do you not fear that, actually, by saying that that money will come back into the Welsh coffers later, that is starting to sow the seeds of possibly putting the scheme in jeopardy?

Weinidog, cefais nifer o sgyrsiau goleuedig gyda Mike Hedges ynglŷn â'r rhaglen fuddsoddi i arbed, ac wrth gwrs, mae buddsoddi i arbed yn syniad clyfar. Rydym yn benthyg arian i'r awdurdod, a bydd wedyn yn cael ei ddefnyddio i wneud arbedion, sy'n rhoi rhywfaint o arian yn ôl ym mhoced yr awdurdod ac wrth gwrs yn ad-dalu'r benthyciad. Mae'n glyfar iawn tan y caiff y cylch hwnnw ei dorri, wrth gwrs, sy'n golygu na chaiff Llywodraeth Cymru yr arian yn ôl ar yr adeg y penderfynwyd arni yn y lle cyntaf. Fel y nododd Mike Hedges, a fyddwch yn edrych ar weithrediad y cynllun hwn, a thrwy ddweud y bydd yr arian yn dod yn ôl i goffrau Cymru yn ddiweddarach, onid ydych yn ofni bod hynny'n dechrau hau hadau rhoi'r cynllun yn y fantol o bosibl?

13:59 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

There are two things. I am very glad that you recognise how enlightened Mike Hedges is about the invest-to-save scheme. Indeed, I would say the whole of the Finance Committee is, because it undertook a very good report, which I think was before you became a member. I am also very glad, Nick Ramsay, that you recognise the importance of the invest-to-save scheme, which is benefiting not only your constituency, but projects and public services across the whole of Wales.

Mae dau beth. Rwy'n falch iawn eich bod yn cydnabod pa mor oleuedig yw Mike Hedges ynglŷn â'r cynllun buddsoddi i arbed. Yn wir, byddwn yn dweud bod yr holl Bwyllgor Cyllid yn oleuedig gan ei fod wedi cyflawni adroddiad da iawn cyn i chi ddod yn aelod, rwy'n credu. Rwyf hefyd yn falch iawn, Nick Ramsay, eich bod yn cydnabod pwysigrwydd y cynllun buddsoddi i arbed, sydd o fudd nid yn unig i'ch etholaeth, ond i brosiectau a gwasanaethau cyhoeddus ar draws Cymru gyfan.

I think that we have a 100% recovery rate with zero bad debts.

Credaf fod gennym gyfradd adennill o 100% heb unrhyw ddyledion drwg.

14:00 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Minister, how are you ensuring that you track the genuine savings made by the invest-to-save funding so that the effectiveness of schemes can be properly evaluated before they are duplicated elsewhere?

Weinidog, sut fyddwch chi'n sicrhau eich bod yn olrhain yr arbedion gwirioneddol a wnaed gan y cyllid buddsoddi i arbed fel y gellir gwerthuso effeithiolrwydd y cynlluniau yn iawn cyn iddynt gael eu hailadrodd mewn mannau eraill?

14:00 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

That is crucial because, obviously, there are two aspects—not just the savings but also, possibly, the importance of the innovation that these invest-to-save projects can deliver and how those can be applied across the public sector. So, I think that that has to be tracked in terms of those genuine savings and closely monitored because the investment profile of the fund is closely under scrutiny, recognising that that will have an impact on how quickly we can apply and spread good practice as a result of invest-to-save.

Mae hynny'n hollbwysig oherwydd, yn amlwg, mae dwy agwedd—nid yr arbedion yn unig, ond hefyd, o bosibl, pwysigrwydd yr arloesedd y gall y prosiectau buddsoddi i arbed hyn ei gyflawni a sut y gellir eu gweithredu ar draws y sector cyhoeddus. Felly, rwy'n meddwl bod yn rhaid olrhain hynny o ran yr arbedion gwirioneddol a'i fonitro'n agos oherwydd bod proffil buddsoddi'r gronfa yn cael ei graffu'n fanwl, gan gydnabod y bydd hynny'n cael effaith ar ba mor gyflym y gallwn weithredu a lledaenu arferion da o ganlyniad i fuddsoddi i arbed.

### Cronfeydd Strwythurol yr UE

### EU Structural Funds

14:01 **William Powell** Bywgraffiad Biography

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y buddion y mae cymunedau gwledig Cymru yn eu cael o gronfeydd strwythurol yr UE? OAQ(4)0482(FIN)*

*7. Will the Minister make a statement on the benefits that EU structural funds bring to the rural communities of Wales? OAQ(4)0482(FIN)*

14:01 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

The European Commission's agreement of the UK partnership agreement is excellent news for rural communities, with some £520 million allocated for the rural development plan in Wales.

Mae cytundeb y Comisiwn Ewropeaidd ar gytundeb partneriaeth y DU yn newyddion ardderchog i gymunedau gwledig, gydag oddeutu £520 miliwn wedi'i ddyrannu ar gyfer y cynllun datblygu gwledig yng Nghymru.

14:01 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Minister, I would like to thank you very much for that response. Like other Members in this Chamber, I warmly welcomed the announcement that you recently made of almost £2 billion of EU funding being allocated to west Wales, the Valleys and, indeed, parts of east Wales. Clearly, the areas concerned will benefit considerably from this injection of funding, but certain rural locations, and particularly areas such as Montgomeryshire, where there are significant nucleated pockets of deprivation, will once again, I fear, miss out. What specific steps are you willing to take to target other funding to address this issue of nucleated rural poverty to promote economic development in areas such as Montgomeryshire?

Weinidog, hoffwn ddiolch yn fawr iawn am eich ymateb. Fel Aelodau eraill yn y Siambr hon, croesewais y cyhoeddiad a wnaethoch yn ddiweddar fod bron i £2 biliwn o gyllid yr UE yn cael ei ddyrannu i orllewin Cymru, y Cymoedd ac yn wir, i rannau o ddwyrain Cymru. Yn amlwg, bydd yr ardaloedd o dan sylw yn elwa'n sylweddol o'r chwistrelliad hwn o arian, ond bydd lleoliadau gwledig penodol, ac yn enwedig ardaloedd fel Sir Drefaldwyn lle mae pocedi cnewyllol sylweddol o amddifadedd, yn colli allan unwaith eto, rwy'n ofni. Pa gamau penodol rydych yn fodlon eu cymryd i dargedu cyllid arall i fynd i'r afael â'r mater hwn o dlodi gwledig cnewyllol i hybu datblygiad economaidd mewn ardaloedd fel Sir Drefaldwyn?

14:02 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Those are important questions. Of course, the rural development programme is still under final formal consideration by the Commission. Its approval is expected in early 2015. However, I think that it is right that you focus as well on the structural funds—the £2 billion—and recognise what they can deliver in mid and west Wales. Again, to give one example, the EU-funded next generation broadband Wales project is addressing important barriers in terms of ICT uptake and exploitation. However, on the point about tackling poverty, in the next round, 20% of the spend will have to be focused clearly on tackling poverty, and then there is a cross-cutting expectation across all programmes that poverty should be tackled, and that will benefit rural areas.

Mae'r rheiny yn gwestiynau pwysig. Wrth gwrs, mae'r rhaglen datblygu gwledig yn dal i fod o dan ystyriaeth ffurfiol derfynol y Comisiwn. Disgwylir iddi gael ei chymeradwyo yn gynnar yn 2015. Fodd bynnag, credaf ei bod yn iawn eich bod yn canolbwyntio hefyd ar y cronfeydd strwythurol—y £2 biliwn—a chydnabod yr hyn y gallant ei gyflawni yng nghanolbarth a gorllewin Cymru. Unwaith eto, i roi un enghraifft, mae prosiect band eang y genhedlaeth nesaf a ariennir gan yr UE yn mynd i'r afael â rhwystrau pwysig o ran defnyddio a manteisio ar Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. Fodd bynnag, ynglŷn â'r pwynt am drechu tlodi, yn y rownd nesaf bydd yn rhaid i 20% o'r gwariant ganolbwyntio'n eglur ar drechu tlodi, a hefyd mae disgwyliad trawsbynciol ar draws pob rhaglen y dylid trechu tlodi, a bydd hynny o fudd i ardaloedd gwledig.

14:03 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Well, Minister, you have heard me express my concerns about projects such as Communities First, and I have called on a number of occasions for a virtual Communities First programme to tackle rural poverty. However, less and less money seems to be going into the hands of real people, and more money is being spent on Government programmes that do not always offer value for money. So, what guarantees can you offer that this new wave of structural funds will be targeted at delivering real results for those people living in rural areas that qualify for EU structural funds?

Wel, Weinidog, rydych wedi fy nghlywed yn mynegi fy mhryderon am brosiectau fel Cymunedau yn Gyntaf, ac rwyf wedi galw ar nifer o achlysuron am raglen rithwir Cymunedau yn Gyntaf i drechu tlodi gwledig. Fodd bynnag, ymddengys bod llai a llai o arian yn mynd i ddwylo pobl go iawn a mwy o arian yn cael ei wario ar raglenni Llywodraeth nad ydynt bob amser yn cynnig gwerth am arian. Felly, pa sicrwydd y gallwch ei gynnig y bydd y don newydd hon o gronfeydd strwythurol yn cael ei thargedu at sicrhau canlyniadau go iawn i bobl mewn ardaloedd gwledig sy'n gymwys ar gyfer cronfeydd strwythurol yr UE?

14:03 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Clearly, if you look at the structural funds delivery already in terms of mid and west Wales and north Wales, we are talking about individuals gaining qualifications and being helped into employment as well as businesses and enterprises being supported and created. I have already mentioned the importance of the next generation broadband Wales project in terms of tackling that barrier for ICT uptake, which is a key issue for business in north Wales. Also, we recognise the importance of the European structural investment funds' integration in terms of delivery. I am sure that you will agree that research and innovation, SME competitiveness, supporting energy efficiency and renewable energy will all benefit your constituents in the next round.

Yn amlwg, os edrychwch ar gyflawniad y cronfeydd strwythurol eisoes o ran canolbarth a gorllewin Cymru a gogledd Cymru, rydym yn sôn am unigolion yn ennill cymwysterau ac yn cael cymorth i gael gwaith yn ogystal â busnesau a mentrau yn cael eu sefydlu a'u cefnogi. Rwyf eisoes wedi sôn am bwysigrwydd prosiect band eang y genhedlaeth nesaf o ran mynd i'r afael â'r rhwystr hwnnw i ddefnyddio TGCh, sy'n fater allweddol i fusnesau yng ngogledd Cymru. Hefyd, rydym yn cydnabod pwysigrwydd integreiddio cronfeydd buddsoddi strwythurol Ewropeaidd o ran cyflawni. Rwy'n sicr y byddwch yn cytuno y bydd ymchwil ac arloesi, cystadleurwydd busnesau bach a chanolig, cefnogi arbed ynni ac ynni adnewyddadwy o fudd i'ch etholwyr yn y rownd nesaf.

14:04 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Weinidog, nid oes dwywaith bod ardaloedd cefn gwlad Cymru yn elwa'n sylweddol ar ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd a rwy'n gobeithio y bydd hynny'n parhau. Byddwch yn gwybod bod gen i ddiddordeb arbennig mewn buddsoddiad tymor hir yn isadeiledd cefn gwlad Cymru, yn enwedig yn ailagor y rheilffordd o Gaerfyrddin i Aberystwyth a chau'r bwlch yn y gogledd hefyd. Er bod hwn yn ddatblygiad tymor hir iawn, a fyddai'n ormod i ddisgwyl bod o leiaf astudiaeth o ddichonoldeb yn cael ei chynnal o dan y cronfeydd presennol?

Minister, there is no doubt that rural areas in Wales benefit significantly from our membership of the European Union and I hope that that continues. You will know that I have a particular interest in long-term investment in the infrastructure of rural Wales, and particularly in reopening the railway line from Carmarthen to Aberystwyth and closing the gaps in north Wales too. Although this is a very long-term development, would it be too much to expect that a feasibility study at least is held under the current structural funds programme?

14:05 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

We have worked hard to ensure that transport would feature in the new round of structural funds. Indeed, I am working with my colleague, the Minister for Economy, Science and Transport to ensure that as well as looking at the more integrated transport objectives of the Commission, we can still ensure that, in terms of our transport infrastructure, there will be investment opportunities.

Rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau y byddai trafnidiaeth wedi'i chynnwys yn y cylch newydd o gronfeydd strwythurol. Yn wir, rwy'n gweithio gyda fy nghydweithiwr, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, i sicrhau, yn ogystal ag edrych ar amcanion trafnidiaeth mwy integredig y Comisiwn, y gallwn barhau i sicrhau y bydd cyfleoedd i fuddsoddi yn seilwaith ein trafnidiaeth.

## Polisi Treth

## Tax Policy

14:05 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

*8. Pa egwyddorion y bydd y Gweinidog yn eu mabwysiadu wrth ddatblygu polisi treth Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0478(FIN)*

*8. What principles will the Minister adopt when developing the Welsh Government's tax policy? OAQ(4)0478(FIN)*

14:05 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Welsh taxes should be fair and simple to administer. They should provide stability and certainty to taxpayers, and they should support growth and jobs, which will, in turn, help tackle poverty.

Dylai trethi Cymru fod yn deg ac yn syml i'w gweinyddu. Dylent ddarparu sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr, a dylent gefnogi twf a swyddi, a fydd, yn eu tro, yn helpu i drechu tlodi.

14:06 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister. I am very pleased that the Government is taking that principled approach to the introduction for the first time of devolved taxes in Wales. I am sure that they will chime with the ambitions of most people here in Wales, but could you tell us a little more about the ways in which you will seek to minimise the administration costs of management and collection?

Diolch i chi, Weinidog. Rwy'n falch iawn bod y Llywodraeth yn defnyddio'r dull egwyddorol hwnnw o gyflwyno trethi datganoledig yng Nghymru am y tro cyntaf. Rwy'n sicr y byddant yn cyd-fynd ag uchelgeisiau'r rhan fwyaf o bobl yma yng Nghymru, ond a allwch ddweud ychydig mwy wrthym am y ffyrdd y byddwch yn ceisio lleihau costau gweinyddol rheoli a chasglu?

14:06 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I thank the Member for Delyn for that question. I think that Members are aware that we are looking very closely at options for collection and management. We are focusing on providing an effective and efficient service for taxpayers and we are looking at options to minimise costs. We need to provide that high-quality service. One example is the White Paper that I introduced for Wales, and continuing to use the existing Ministry of Justice tribunal system for appeals, rather than establish our own system at this stage.

Diolch i'r Aelod dros Ddelyn am y cwestiwn. Credaf fod yr Aelodau'n ymwybodol ein bod yn edrych yn ofalus iawn ar opsiynau ar gyfer casglu a rheoli. Rydym yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon i'r trethdalwyr ac rydym yn edrych ar opsiynau i leihau costau. Mae angen i ni ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel o'r fath. Un enghraifft yw'r Papur Gwyn a gyflwynais ar gyfer Cymru, a pharhau i ddefnyddio system dribiwnlys bresennol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer apeliadau, yn hytrach na sefydlu ein system ein hunain ar hyn o bryd.

14:06 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Minister, we would agree that taxes should be fair, simple, stable and able to support growth and jobs. Freedom to spend supports growth and so jobs, but so does freedom to save money. For example, lower stamp duty helps to stimulate the housing market. Do you also support the principle that taxes should be low, allowing individuals and businesses the freedom to spend or save money, as suits them best?

Weinidog, byddem yn cytuno y dylai trethi fod yn deg, yn syml, yn sefydlog ac yn gallu cefnogi twf a swyddi. Mae rhyddid i wario yn cefnogi twf ac felly'n cefnogi swyddi, ond felly hefyd y gwna'r rhyddid i arbed arian. Er enghraifft, mae treth stamp is yn helpu i ysgogi'r farchnad dai. A ydych hefyd yn cefnogi'r egwyddor y dylai trethi fod yn isel, gan roi rhyddid i unigolion a busnesau wario neu arbed arian, fel sy'n gweddu orau iddynt?

14:07 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Of course, if taxes are low or reduced, that has an impact on our public services in terms of income. It is very interesting to hear some of the views emerging from the CBI conference this week, which is looking to us and future Governments to add growth in what it calls 'growth-enhancing spend'. Business wants us, for example, to spend more on infrastructure and to ring-fence our spending on schools and education, which we are doing in terms of our protection. It is very clear that we have to look at these issues in terms of the avenues that are for revenue, and how we can support our public services as a result.

Wrth gwrs, os yw trethi'n isel neu wedi eu gostwng, mae hynny'n cael effaith ar ein gwasanaethau cyhoeddus o ran incwm. Mae'n ddiddorol iawn clywed rhai o'r safbwyntiau a ddaeth o gynhadledd y CBI yr wythnos hon, sy'n dibynnu arnom ni a Llywodraethau'r dyfodol i ychwanegu twf yn yr hyn y mae'n ei alw yn 'wariant sy'n gwella twf'. Mae busnes am i ni wario mwy ar seilwaith, er enghraifft, a neilltuo ein gwariant ar ysgolion ac addysg, sy'n rhywbeth rydym yn ei wneud o ran ein diogelwch. Mae'n amlwg iawn fod yn rhaid i ni edrych ar y materion hyn o ran y llwybrau ar gyfer refeniw, a sut y gallwn gefnogi ein gwasanaethau cyhoeddus o ganlyniad i hynny.

14:08 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Wrth sefydlu'r corff awdurdod refeniw i Gymru, fe fydd cost ynghlwm â hyn. A ydych chi wedi gofyn i'r Trysorlys am gyfran o'i gyllideb fel cyfraniad tuag at y gost hon o gofio y bydd yn gwneud llai o waith? Os felly, beth oedd yr ymateb?

There will be a cost associated with establishing the revenue authority for Wales. Have you asked the Treasury for a proportion of its budget as a contribution towards this cost, bearing in mind that it will be doing less work. If so, what was the response?

14:08 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Discussing the transfer costs has been part of my negotiations with the UK Government. Interestingly, Scotland, in terms of the Scotland Act 2012 and the new tax powers that it has secured, did not raise the issue of costs, but we certainly have. However, we need to make sure that, as I have said very clearly, we look at ways to minimise costs and have a Welsh revenue authority that is robust and independent, and which is appropriate for the task.

Mae'r costau trosglwyddo wedi bod yn rhan o fy nhrafodaethau gyda Llywodraeth y DU. Yn ddiddorol, o ran Deddf yr Alban 2012 a'r pwerau treth newydd a sicrhaodd, ni chododd yr Alban fater costau, ond yn sicr gwnaethom ni hynny. Fodd bynnag, fel y dywedais yn glir iawn, mae angen i ni sicrhau ein bod yn edrych ar ffyrdd o leihau costau a chael awdurdod refeniw yng Nghymru sy'n gadarn ac yn annibynnol, ac sy'n briodol ar gyfer y dasg.

## Cyllid yr UE

## EU Funding

14:09 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

*9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cyhoeddiad diweddar o £2 biliwn o gyllid yr UE ar gyfer Cymru? OAQ(4)0479(FIN)*

*9. Will the Minister make a statement on the recent announcement of £2 billion of EU funding for Wales? OAQ(4)0479(FIN)*

14:09 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

The European structural funds allocation for Wales, worth nearly £2 billion for 2014–20, will help us deliver on our shared goals across Government for sustainable economic growth and jobs.

Bydd dyraniad cronfeydd strwythurol Ewropeaidd ar gyfer Cymru, sy'n werth bron i £2 biliwn ar gyfer 2014–20, yn ein helpu i gyflawni ein nodau a rennir ar draws y Llywodraeth ar gyfer twf economaidd a swyddi cynaliadwy.

14:09 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister, for your statement yesterday. I very much welcome the announcement in terms of the investment in the south Wales metro and in road projects in mid and north Wales. However, it is passengers in mid and north Wales, in places like Ceredigion and in our rural communities, who have been hit the hardest by public transport cuts and cuts to bus services over recent years. I wonder what assurance you can give to those passengers that public transport will also be invested in in rural Wales.

Diolch i chi am eich datganiad ddoe, Weinidog. Croesawaf y cyhoeddiad yn fawr iawn o ran y buddsoddiad ym metro de Cymru ac mewn prosiectau ffyrdd yng nghanolbarth a gogledd Cymru. Fodd bynnag, teithwyr yng nghanolbarth a gogledd Cymru, mewn lleoedd megis Ceredigion a'n cymunedau gwledig, sydd wedi'u taro galetaf gan doriadau mewn trafnidiaeth gyhoeddus a thoriadau i wasanaethau bws dros y blynyddoedd diwethaf. Tybed pa sicrwydd y gallwch ei roi i'r teithwyr hynny y bydd buddsoddi'n digwydd mewn trafnidiaeth gyhoeddus yn y Gymru wledig hefyd.

14:10 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I can give clear assurances. It goes back to what we have spent in terms of ERDF for transport, which includes £3.5 million for Bwcabus, for example, in Carmarthenshire and Ceredigion, helping to connect people to jobs and training.

Gallaf roi sicrwydd clir. Mae'n mynd yn ôl at yr hyn rydym wedi'i wario o ran Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ar gyfer trafnidiaeth, sy'n cynnwys £3.5 miliwn i Bwcabus, er enghraifft, yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion, gan helpu i gysylltu pobl â swyddi a hyfforddiant.

14:10 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

I almost get a second bite of the cherry here, Minister, because this is similar to a previous question. While I acknowledge that, administratively, the Welsh Government might well have earned some plaudits for the way it spent the money, there is a real issue over the effectiveness of the way the spend actually achieved what it was meant to, which was to increase economic activity and prosperity in the areas that benefit from this convergence money. Given that west Wales is one of the poorest regions in the United Kingdom with GVA of 64%, where do you believe that GVA will be sitting at the end of this cycle of expenditure? With £2 billion, which is a considerable sum of money, surely the Welsh Government has an aspiration or, indeed, an ambition of where it would like to see that economic activity measured at the end of this period.

Rwyf bron â chael ail gynnig arni yma, Weinidog, oherwydd mae hwn yn debyg i gwestiwn blaenorol. Er fy mod yn cydnabod y gallai Llywodraeth Cymru, yn weinyddol, haeddu peth clod am y ffordd y mae wedi gwario'r arian, mae problem wirioneddol ynghylch effeithiolrwydd y ffordd y mae'r gwariant mewn gwirionedd wedi cyflawni'r hyn yr oedd i fod i'w gyflawni, sef cynyddu gweithgaredd a ffyniant economaidd yn yr ardaloedd sy'n elwa o'r arian cydgyfeirio hwn. O ystyried bod gorllewin Cymru yn un o ranbarthau tlotaf y Deyrnas Unedig gyda gwerth ychwanegol gros o 64%, beth y credwch chi fydd y gwerth ychwanegol gros ar ddiwedd y cylch gwariant hwn? Gyda £2 biliwn, sy'n swm sylweddol o arian, mae'n rhaid bod gan Lywodraeth Cymru ddyhead, neu uchelgais yn wir ynglŷn â ble y byddai'n hoffi gweld y gweithgaredd economaidd hwn yn cael ei fesur ar ddiwedd y cyfnod hwn.

14:11 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Of course, it is important to look, in terms of success of economies, at a wider range of indicators for employment and income, particularly in relation to people's wellbeing. I think that our performance is better. Since the late 1990s, there has been a marked and sustained closing of historical gaps between Wales and the UK. You need to look at the labour market figures that are emerging today that track us back to the beginning of our devolution journey. The unemployment rate in Wales today is 6.6%. Employment in Wales has increased by 13.5% since devolution, compared with 13.6% increase for the UK over the same period.

Wrth gwrs, o ran llwyddiant economïau, mae'n bwysig edrych ar ystod ehangach o ddangosyddion cyflogaeth ac incwm, yn enwedig o ran lles pobl. Credaf fod ein perfformiad yn well. Ers diwedd y 1990au, mae bylchau hanesyddol rhwng Cymru a'r DU wedi lleihau'n amlwg ac yn gyson. Mae angen i chi edrych ar ffigurau'r farchnad lafur sy'n dod i'r amlwg heddiw ac sy'n olrhain ein taith yn ôl i ddechrau datganoli. Mae'r gyfradd ddiweithdra yng Nghymru heddiw yn 6.6%. Mae cyflogaeth yng Nghymru wedi cynyddu 13.5% ers datganoli, o'i gymharu â chynnydd o 13.6% ar gyfer y DU dros yr un cyfnod.

## Trefniadau Ariannu yn y DU

## UK Funding Arrangements

14:12 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

*10. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch rôl Cymru yn y gwaith o ddatblygu trefniadau ariannu yn y DU? OAQ(4)0477(FIN)*

*10. What discussions has the Minister had regarding Wales's role in the development of UK funding arrangements? OAQ(4)0477(FIN)*

14:12 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Wales must have a strong voice in the debate about the UK's funding arrangements, and I make the case for financial reform at every opportunity. Recently, I chaired the first meeting of the Joint Exchequer Committee, at which I discussed our new fiscal powers with three UK Government Ministers.

Rhaid i Gymru gael llais cryf yn y ddadl ynghylch trefniadau cyllido'r DU, ac rwy'n gwneud yr achos dros ddiwygio ariannol ar bob cyfle. Yn ddiweddar, cadeiriais gyfarfod cyntaf Cyd-bwyllgor y Trysorlysoedd, lle bûm yn trafod ein pwerau cyllidol newydd gyda thri o Weinidogion Llywodraeth y DU.

14:12 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Do you agree with me, Minister, that any funding solution for the UK economy has to be based on credibility and fairness across the whole of the UK? There are parts of regions of England that equally suffer from the existing funding formula, and it in our interest to identify with them and work with those areas where there is common interest in order to achieve an acceptable and fair funding solution?

A ydych yn cytuno â mi, Weinidog, fod yn rhaid i unrhyw ateb cyllido ar gyfer economi'r DU fod yn seiliedig ar hygrededd a thegwch ar draws y DU gyfan? Mae rhannau o ranbarthau Lloegr sy'n dioddef llawn cymaint o ganlyniad i'r fformiwla ariannu bresennol, ac mae o fudd i ni uniaethu â hwy a gweithio gyda'r ardaloedd hynny lle mae diddordeb cyffredin er mwyn cyflawni ateb ariannu derbyniol a theg.

14:12 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

The First Minister and I, as the Minister for finance, have always been clear that funding reform should be fair to all parts of the UK. However, I am focused, in all that I am doing at the moment, on securing a fair deal for Wales.

Mae'r Prif Weinidog a minnau, fel y Gweinidog Cyllid, bob amser wedi bod yn glir y dylai diwygio cyllid fod yn deg i bob rhan o'r DU. Fodd bynnag, ym mhob dim a wnaf ar hyn o bryd, rwy'n canolbwyntio ar sicrhau bargen deg i Gymru.

14:13 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Minister, the Joint Exchequer Committee, of course, has now been set up to discuss and reach agreement on financial and fiscal matters with implications for Wales. The development of UK funding arrangements has a particular impact on Wales. Given the importance of UK funding arrangements, what outcomes were established from your first committee meeting on this specific issue?

Weinidog, mae Cyd-bwyllgor y Trysorlysoedd, wrth gwrs, yn awr wedi ei sefydlu i drafod a dod i gytundeb ar faterion ariannol a chyllidol sydd â goblygiadau i Gymru. Mae datblygiad trefniadau ariannu'r DU yn effeithio'n arbennig ar Gymru. O ystyried pwysigrwydd trefniadau ariannu'r DU, pa ganlyniadau a bennwyd yn eich cyfarfod pwyllgor cyntaf ar gyfer y mater penodol hwn?

14:13 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

There are very important outcomes as result of the Joint Exchequer Committee. Those outcomes included a recognition that we needed to move forward in terms of our fair funding base, and a recognition that we needed to look at the Holtham funding floor as an opportunity to take this forward. It is very good that the Secretary of State for Wales has acknowledged this and that the Welsh Affairs Committee says that there needs to be a serious discussion about Wales's funding needs and the questions raised by the Holtham Commission about whether Wales is adequately funded. At our Joint Exchequer Committee, that was endorsed by the Ministers.

Mae yna ganlyniadau pwysig iawn yn deillio o Gyd-bwyllgor y Trysorlysoedd. Roedd y canlyniadau hynny yn cynnwys cydnabod bod angen i ni symud ymlaen o ran ein sail ariannu teg, a chydnabod bod angen i ni edrych ar gyllid gwaelodol Holtham fel cyfle i ddatblygu hyn. Mae'n dda iawn fod Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi cydnabod hyn a bod y Pwyllgor Materion Cymreig yn dweud bod angen trafodaeth ddwys ynghylch anghenion cyllido Cymru a'r cwestiynau a godwyd gan Gomisiwn Holtham ynglŷn ag a yw Cymru'n cael ei hariannu'n ddigonol. Yn Nghyd-bwyllgor y Trysorlysoedd, cafodd hynny ei gymeradwyo gan y Gweinidogion.

**Treth Stamp a Threth Tirlenwi**

**Stamp Duty and Landfill Tax**

14:14 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

*11. Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i baratoi ar gyfer datganoli treth stamp a threth tirlenwi i Gymru? OAQ(4)0470(FIN)*

*11. What steps is the Minister taking to prepare for the devolution of stamp duty and landfill tax to Wales? OAQ(4)0470(FIN)*

14:14 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I recently published a consultation on devolved tax collection and management, ahead of legislation next summer. I will consult next spring on replacing stamp duty land tax and landfill tax in Wales. I am working closely with stakeholders, including my tax advisory group, to develop proposals.

Yn ddiweddar, cyhoeddais ymgynghoriad ar gasglu a rheoli trethi datganoledig, cyn deddfu yn ystod yr haf nesaf. Byddaf yn ymgynghori yn ystod y gwanwyn nesaf ar newid treth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi yng Nghymru. Rwy'n gweithio'n agos â rhanddeiliaid, yn cynnwys fy ngrŵp cynghori trethi, i ddatblygu cynigion.

14:14 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Thank you for that, Minister. The devolution of these taxes will mark a historic step for our nation. It has been over 700 years since specifically Welsh taxes were last raised, in the reign of Llywelyn ap Gruffudd or Llywelyn Ein Llyw Olaf. As you have rightly commented, it will also present an opportunity to make at least part of the tax system fairer, simpler and more progressive than is currently the case. Given the significance of the undertaking and the relevance of these taxes for a great many of our citizens, can you assure the Assembly that you will consult with all sections of society, and not just tax experts, knowledgeable though they are, on the form that these taxes might take?

Diolch i chi, Weinidog. Bydd datganoli'r trethi hyn yn gam hanesyddol i'n cenedl. Mae dros 700 mlynedd ers codi trethi penodol ar gyfer Cymru, yn ystod teyrnasiad Llywelyn ap Gruffudd neu Llywelyn Ein Llyw Olaf. Fel y nodoch yn hollol gywir, bydd hefyd yn gyfle i wneud rhan o'r system dreth, o leiaf, yn decach, yn symlach ac yn fwy blaengar nag yw ar hyn o bryd. O ystyried arwyddocâd y gwaith a pherthnasedd y trethi i nifer fawr o'n dinasyddion, a allwch sicrhau'r Cynulliad y byddwch yn ymgynghori â phob rhan o'r gymdeithas, ac nid ag arbenigwyr treth yn unig, er mor hyddysg ydynt, ar ffurf debygol y trethi hyn?

14:15 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I very much welcome that question from Gwenda Thomas. It is absolutely essential that it is not just tax experts that I consult in relation to these important new responsibilities. We will be seeking a wide range of views from Welsh citizens and partners in our consultations.

Croesawaf y cwestiwn hwn gan Gwenda Thomas yn fawr iawn. Mae'n gwbl hanfodol nad wyf yn ymgynghori ynghylch y cyfrifoldebau newydd pwysig hyn gydag arbenigwyr treth yn unig. Byddwn yn chwilio am amrywiaeth eang o safbwyntiau gan ddinasyddion a phartneriaid yng Nghymru yn ein hymgynghoriadau.

14:16 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

How do you follow that, Minister? Seven hundred years of tax history. The new land transaction tax in Scotland will see rates on the sale of larger houses go through the roof—pardon the pun. There is some evidence of a pre-new-tax rush to buy and sell those properties, in advance of the new tax coming in. Do you have any plans here to hike levels of stamp duty on similar-sized houses and, if so, do you have any plans to mitigate the sort of problems that they are starting to see in Scotland?

Sut ydych chi'n dilyn hynny, Weinidog? Saith can mlynedd o hanes treth. Bydd y dreth newydd ar drafodion tir yn yr Alban yn achosi i'r cyfraddau ar werthu tai mwy o faint fynd drwy'r to-maddeuwch y gair mwys. Mae rhywfaint o dystiolaeth o frys i brynu a gwerthu eiddo o'r fath cyn i'r dreth newydd ddod i rym. A oes gennych unrhyw gynlluniau yma i godi lefelau treth stamp ar dai o faint tebyg ac os felly, a oes gennych unrhyw gynlluniau i liniaru'r math o broblemau y maent yn dechrau eu gweld yn yr Alban?

14:16 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

The consultations on stamp duty, land tax and landfill tax that I will be initiating in the spring will be open. They will set out a range of options so that the new Government will be able to make a very clear decision on preferences for replacement taxes. It will be based on the evidence, the engagement and the consultation's contributions, and it is important that we await that in terms of our consultation opportunities.

Bydd yr ymgynghoriadau ar dreth stamp, treth dir a threth dirlenwi y byddaf yn eu cychwyn yn y gwanwyn yn agored. Byddant yn nodi ystod o ddewisiadau er mwyn i'r Llywodraeth newydd allu gwneud penderfyniad clir iawn ar opsiynau a ffafrir ar gyfer trethi newydd. Bydd yn seiliedig ar dystiolaeth, ymgysylltiad a chyfraniadau'r ymgynghoriad, ac mae'n bwysig ein bod yn aros am y rheiny o ran ein cyfleoedd ymgynghori.

14:17 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

## Questions to the Minister for Public Services

### Staff Comisiynwyr Heddlu a Throseddu

### Police and Crime Commissioner Staff

14:17

### Elin Jones Bywgraffiad Biography

*1. A yw'r Gweinidog wedi gwneud asesiad o effaith y twf yn nifer staff Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ar gyllid sydd heb ei neilltuo ar gyfer awdurdodau'r heddlu? OAQ(4)0482(PS)*

*1. Has the Minister made an assessment of the impact that the increase in the staff of police and crime commissioners has had on unhypothecated funding for police authorities? OAQ(4)0482(PS)*

14:17

### Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Mater i bob comisiynydd heddlu a throseddu yw asesu pa staff cymorth sydd eu hangen arnynt i gyflawni blaenoriaethau plismona a diogelwch cymunedol yn eu hardaloedd.

It is a matter for each police and crime commissioner to assess what support staff they need to deliver policing and community safety priorities in their areas.

14:17

### Elin Jones Bywgraffiad Biography

We heard in committee this morning that there are 800 fewer police officers in Wales as a result of UK Government cuts. This is in stark contrast to the Dyfed-Powys police commissioner, who was elected two years ago this week and, since then, has managed to employ a chief finance officer, an external funding manager, a chief of staff, an office manager, three admin workers, three policy advisers and—. I could go on with the list, but I had better not. The total wage bill for his personal office is in excess of £500,000. Do you agree with Plaid Cymru that the police commissioners have been in existence for two years too long, that they should be abolished and that the money should be spent on front-line policing?

Clywsom yn y pwyllgor y bore yma bod 800 yn llai o swyddogion heddlu yng Nghymru o ganlyniad i doriadau Llywodraeth y DU. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu’n llwyr â chomisiynydd heddlu Dyfed-Powys, a etholwyd ddwy flynedd yn ôl i’r wythnos hon ac sydd ers hynny wedi llwyddo i gyflogi prif swyddog cyllid, rheolwr cyllid allanol, pennaeth staff, rheolwr swyddfa, tri gweithiwr gweinyddol, tri chynghorydd polisi ac-. Gallwn fynd ymlaen â’r rhestr, ond byddai’n well i mi beidio. Mae cyfanswm y bil cyflogau ar gyfer ei swyddfa bersonol yn fwy na £500,000. A ydych yn cytuno â Phlaid Cymru fod y comisiynwyr heddlu wedi bodoli ers dwy flynedd yn ormod, y dylent gael eu diddymu ac y dylai’r arian gael ei wario ar blismona rheng flaen?

14:18

### Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

May I say that the Welsh Government was never enthusiastic about the appointment of police and crime commissioners in the first place, and, of course, when a Labour Government is elected next year, they will be abolished?

Hoffwn ddweud na fu Llywodraeth Cymru erioed yn frwdfrydig ynghylch penodi comisiynwyr heddlu a throseddu yn y lle cyntaf, ac wrth gwrs, pan fydd Llywodraeth Lafur yn cael ei hethol y flwyddyn nesaf, byddant yn cael eu diddymu.

14:18

### Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

That would be a great shame because, certainly the police and crime commissioner—[Laughter.] The police and crime commissioner in north Wales has been extremely effective in delivering and, indeed, so has the police and crime commissioner in Dyfed-Powys. In the first—[Interruption.] In the Dyfed-Powys area—

Byddai hynny’n drueni mawr, gan fod comisiynydd heddlu a throseddu yn bendant—[Chwerthin.] Mae comisiynydd heddlu a throseddu gogledd Cymru wedi bod yn hynod effeithiol o ran yr hyn y mae wedi’i gyflawni a chomisiynydd heddlu a throseddu Dyfed-Powys hefyd. Yn y cyntaf—[Torri ar draws.] Yn ardal Dyfed-Powys—

14:18

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Order.

Trefn.

14:18 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Over 46 projects have received over £161,000, Minister. Many of those projects have been award-winning projects, and they have been instigated by the police and crime commissioner there. They are examples of where a forward-thinking police and crime commissioner can have a real impact on his local community. What encouragement can you provide to other communities throughout Wales to work with their PCCs to replicate some of the excellent work taking place in Dyfed-Powys?

Mae dros 46 o brosiectau wedi cael mwy na £161,000, Weinidog. Mae llawer o'r prosiectau hynny wedi ennill gwobrau a chawsant eu cychwyn gan y comisiynydd heddlu a throseddu yno. Maent yn enghreifftiau o'r modd y gall comisiynydd heddlu a throseddu blaengar gael gwir effaith ar ei gymuned leol. Pa anogaeth y gallwch ei roi i gymunedau eraill ledled Cymru i weithio gyda'u Comisiynwyr Heddlu a Throseddu i efelychu rhywfaint o'r gwaith rhagorol sy'n digwydd yn Nyfed-Powys?

14:19 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

I do not deny that there is some very good community-level work being undertaken, with support from the offices of police and crime commissioners. The issue for me is whether those roles are appropriate for Wales.

Nid wyf yn gwadu bod rhywfaint o waith da iawn yn cael ei wneud ar lefel gymunedol, gyda chefnogaeth swyddfeydd y comisiynwyr heddlu a throseddu. Y broblem i mi yw a yw'r rolau hynny yn briodol i Gymru.

### Y Gyllideb Ddrafft

### The Draft Budget

14:19 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith y gyllideb ddrafft ar lywodraeth leol? OAQ(4)0484(PS)*

*2. Will the Minister make a statement on the impact of the draft budget on local government? OAQ(4)0484(PS)*

14:19 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Cyhoeddais y setliad llywodraeth leol amodol ar 8 Hydref. Mae'n rhoi'r wybodaeth i awdurdodau sydd ei hangen arnynt i baratoi eu cyllidebau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Dylai awdurdodau drafod â'u cymunedau fel rhan o'r broses honno.

I announced the provisional local government settlement on 8 October. It provides authorities with the information they need to prepare their budgets for next year. Authorities should engage with their communities as part of that process.

14:20 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Mae'r cynghorau sir wedi bod yn gwneud arbedion sylweddol ers blynyddoedd, ac y mae'r ergyd ddiweddaraf hon—ergyd o £190 miliwn—yn mynd i gael canlyniadau difrifol ar wasanaethau statudol ac anstatudol. Yn wyneb adroddiad y Farwnes Andrews, a oedd yn cael ei drafod ddoe, sy'n pwysleisio pwysigrwydd llyfrgelloedd, amgueddfeydd a gweithgaredd celfyddydol i ddatblygiad plant ac ieuenctid, sut y byddwch yn sicrhau bod cynghorau yn cynnal y gwasanaethau hyn yn wyneb y setliad gwael y mae llywodraeth leol wedi'i gael?

The county councils have been making significant savings over a period of years and this latest blow—a cut of £190 million—is going to have a serious impact on statutory and non-statutory services. In light of the report published by Baroness Andrews, discussed yesterday, which emphasises the importance of libraries, museums and arts activities to the development of children and young people, how will you ensure that councils maintain these services in light of the poor settlement received by local government?

14:20 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

These are matters that all local authorities will have to consider in the light of their own priorities. I know, as I look across the proposals that come out from councils throughout Wales—some run by his party and some run by other parties—that they are actively engaging with how best to deliver these services at the present time. The Member will be well aware that our budget has been cut by over £1.5 billion by the UK Government. We have protected local government better in Wales than it has been protected in England.

Mae'r rhain yn faterion y bydd yn rhaid i bob awdurdod lleol eu hystyried yng nghyd-destun eu blaenoriaethau eu hunain. Wrth edrych dros y cynigion a ddaw gan gynghorau ledled Cymru—rhai sy'n cael eu rhedeg gan ei blaid ef a rhai sy'n cael eu rhedeg gan bleidiau eraill—gwn eu bod yn mynd ati i edrych ar y ffyrdd gorau o ddarparu'r gwasanaethau hyn ar hyn o bryd. Bydd yr Aelod yn ymwybodol iawn fod Llywodraeth y DU wedi tocio dros £1.5 biliwn oddi ar ein cyllideb. Rydym wedi gwarchod llywodraeth leol yn well yng Nghymru nag y mae wedi'i gwarchod yn Lloegr.

14:21 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

The cuts to the rates support grant will have a serious effect on local government services. While the cuts are necessary to balance budgets to be determined by individual local authorities, by vote of their councillors, which service areas does the Minister consider that local authorities should consider cutting?

Bydd y toriadau i'r grant cynnal ardrethi yn effeithio ar wasanaethau llywodraeth leol yn ddifrifol. Er bod y toriadau yn angenrheidiol i gydbwyso cyllidebau i'w pennu gan awdurdodau lleol unigol, drwy bleidlais eu cynghorwyr, pa feysydd gwasanaeth y barna'r Gweinidog y dylai awdurdodau lleol ystyried eu torri?

14:21 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

As I said in answer to the Member for Arfon, these are judgments that individual local authorities must make for themselves. I know that all local authorities in Wales at the present time are seeking to consult with their local communities, and I would certainly encourage them to consult with their local communities on their priorities for the future.

Fel y dywedais wrth ateb yr Aelod dros Arfon, mae'r rhain yn benderfyniadau sy'n rhaid i awdurdodau lleol unigol eu gwneud drostynt eu hunain. Gwn fod holl awdurdodau lleol Cymru yn ceisio ymgynghori â'u cymunedau lleol ar hyn o bryd, a byddwn yn sicr yn eu hannog i ymgynghori â'u cymunedau lleol ar eu blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

14:21 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Minister, last month you announced a tough settlement, especially for local authorities in rural areas. In your letter to me on 16 October I was pleased that you committed to looking at the local government funding formula as part of the reforming local government programme. I would be grateful if you could outline a timetable for this so that the formula properly takes into account the challenges of delivering vital public services in rural areas.

Weinidog, fis diwethaf cyhoeddwyd setliad llym gennych, yn enwedig ar gyfer awdurdodau lleol mewn ardaloedd gwledig. Yn eich llythyr ataf ar 16 Hydref, roeddwn yn falch eich bod wedi ymrwymo i edrych ar fformiwla ariannu llywodraeth leol fel rhan o'r rhaglen ddiwygio llywodraeth leol. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech amlinellu amserlen ar gyfer hyn er mwyn i'r fformiwla allu mynd ati'n briodol i ystyried heriau darparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol mewn ardaloedd gwledig.

14:22 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

I start by reminding the Member that the local government funding formula is agreed with representatives of local authorities in Wales through the distribution sub-group. I have to say that I am yet to meet a single local authority leader anywhere in Wales who believes that the funding formula does absolute justice to their local authority. I do not think that there is any question of this settlement being particularly harsh on rural authorities. Indeed, we put in place dampening mechanisms to ensure that no local authority received a funding cut of more than 4.5%. The White Paper that we publish in the new year will certainly have some things to say about the future of local government finance.

Dechreuaf drwy atgoffa'r Aelod fod fformiwla ariannu llywodraeth leol yn cael ei chytuno â chynrychiolwyr awdurdodau lleol yng Nghymru drwy'r is-grŵp dosbarthu. Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod eto i gwrdd ag arweinydd awdurdod lleol yn unrhyw le yng Nghymru sy'n credu bod y fformiwla ariannu yn gwneud cyfiawnder llwyr â'u hawdurdod lleol. Nid wyf yn credu bod unrhyw gwestiwn fod y setliad hwn yn arbennig o lym ar awdurdodau gwledig. Yn wir, rhoesom fecanweithiau lleddfu ar waith i sicrhau na fyddai unrhyw awdurdod lleol yn derbyn toriad cyllid o fwy na 4.5%. Bydd y Papur Gwyn a gyhoeddwn yn y flwyddyn newydd yn sicr ag ychydig i'w ddweud ynglŷn â dyfodol ariannu llywodraeth leol.

14:23 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Would the Minister agree that, in a time of cuts and changes to the budgets of local government, it is very important to involve the public in those decisions? Would he join me in congratulating the city of Cardiff Council particularly on involving young people in determining the future of the youth service in Cardiff?

Mewn cyfnod o doriadau a newidiadau i gyllidebau llywodraeth leol, a fyddai'r Gweinidog yn cytuno ei bod yn bwysig iawn cynnwys y cyhoedd yn y penderfyniadau hynny? A fyddai'n ymuno â mi i longyfarch Cyngor Dinas Caerdydd yn arbennig ar gynnwys pobl ifanc wrth benderfynu ar ddyfodol y gwasanaeth ieuenctid yng Nghaerdydd?

14:23 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

I very much agree with my colleague the Member for Cardiff North, that it is important that all local authorities find ways to engage their local communities in the future priorities for their local public services. I am very pleased to join her in congratulating the city of Cardiff Council on the way that it has engaged with young people over the future of the youth service.

Cytunaf yn llwyr gyda fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Ogledd Caerdydd, ei bod yn bwysig i bob awdurdod lleol ddod o hyd i ffyrdd o ymgysylltu â'u cymunedau lleol ynglŷn â blaenoriaethau ar gyfer eu gwasanaethau cyhoeddus lleol yn y dyfodol. Rwy'n falch iawn i ategu ei llongyfarchiadau i Gyngor Dinas Caerdydd ar y ffordd y mae wedi ymgysylltu â phobl ifanc ynghylch dyfodol y gwasanaeth ieuenctid.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

14:23

### Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First, this afternoon, I call the Plaid Cymru spokesperson, Rhodri Glyn Thomas.

Yn gyntaf, y prynhawn yma, galwaf ar lefarydd Plaid Cymru, Rhodri Glyn Thomas.

14:24

### Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i resymoli lefelau cyflog swyddogion hŷn o fewn llywodraeth leol yng Nghymru?

What plans does the Minister have to rationalise the level of senior officer salaries within local authorities in Wales?

14:24

### Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Clearly, if there are fewer local authorities, there will be fewer senior officers in Wales.

Yn amlwg, os oes llai o awdurdodau lleol, bydd llai o uwch swyddogion yng Nghymru.

14:24

### Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n derbyn hynny, Weinidog, ond bydd y swyddogion hŷn hynny yn dal i ennill cyflogau enfawr. Onid ydych yn credu bod angen inni fanteisio ar y cyfle lle mae ad-drefnu llywodraeth leol yn digwydd i sicrhau ein bod yn rhesymoli'r cyflogau hyn ac yn sicrhau nad yw prif weithredwyr yn cael £200,000 y flwyddyn i fod yn gyfrifol am gyngor cymharol fach, tra bo'r cyflogau cymharol yn Lloegr ar gyfer uwch swyddogion sy'n rhedeg awdurdodau fel Essex?

I accept that, Minister, but those senior officers will continue to earn huge salaries. Do you not believe that we need to take advantage of the opportunity where a re-organisation of local government takes place to make sure that we rationalise these salaries and to ensure that chief executives do not receive £200,000 per annum to be responsible for a comparatively small council, while the comparative salaries in England are for senior officers running authorities like Essex?

14:24

### Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Plaid Cymru spokesperson makes an important point, I think. I can tell the Chamber that the cost of chief officer salaries in Wales is currently of the order of some £25.7 million, and I am sure that we can make savings within that figure. He will be aware of steps taken by my predecessors to ensure that the salaries of senior officials are looked at by the independent remuneration panel, and I think that we will have something to say about the appointments process for future chief executives and senior officers in local authorities when we publish the White Paper in the new year.

Rwy'n credu bod llefarydd Plaid Cymru yn gwneud pwynt pwysig. Gallaf ddweud wrth y Siambr fod cost cyflogau prif swyddogion yng Nghymru ar hyn o bryd oddeutu £25.7 miliwn ac rwy'n sicr y gallwn wneud arbedion o fewn y ffigur hwnnw. Bydd yn ymwybodol o'r camau a gymerwyd gan fy rhagflaenwyr i sicrhau bod y panel annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol yn edrych ar gyflogau uwch swyddogion, a chredaf y bydd gennym rywbeth i'w ddweud am y broses o benodi prif weithredwyr ac uwch swyddogion awdurdodau lleol yn y dyfodol pan gyhoeddwn y Papur Gwyn yn y flwyddyn newydd.

14:25

### Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A gaf i fynd â chi felly, Weinidog, i'r eithaf arall o ran cyflogaeth? Mae eich rhagflaenwyr, mewn datganiadau, wedi bod yn ymhyfrydu yn y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cyflog byw. A allwch chi esbonio, felly, pam mae hysbyseb cyfredol am 'baristas'—nid bargyfreithwyr ond gweinyddion coffi—yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym mharc Cathays yn cynnwys tâl yr awr o £6.85? Sut mae hynny'n adlewyrchu ar Lywodraeth Cymru a chyflog byw?

May I therefore take you to the opposite extreme, Minister, from the point of view of salaries? Your predecessors, in statements, have taken pride in the fact that the Welsh Government supports the living wage. Can you explain, therefore, why there is a current advert for baristas—not barristers but coffee servers—in the offices of the Welsh Government at Cathays park at an hourly rate of £6.85? How does that reflect on the Welsh Government and the living wage?

14:26

### Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I suggest that, if the Member wants to send me the advertisement, I will happily look into the matter?

A gaf fi awgrymu, os yw'r Aelod yn dymuno anfon yr hysbyseb ataf, byddaf yn hapus i edrych i mewn i'r mater?

14:26 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.

Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.

14:26 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

May I start by welcoming the agreement reached between the Welsh Government and firefighters in Wales that averted a strike here? The Minister may be aware of an outstanding issue relating to the impact of the new proposed pension scheme on armed forces veterans who have transferred their arms forces pension into the firefighters' pension scheme. Has the Minister had any discussions with the Fire Brigades Union and UK Government on this issue?

A gaf fi ddechrau wrth groesawu'r cytundeb a gafwyd rhwng Llywodraeth Cymru a diffoddwyr tân Cymru gan osgoi streic yma? Efallai y bydd y Gweinidog yn ymwybodol o fater heb ei benderfynu sy'n ymwneud ag effaith y cynllun pensiwn newydd arfaethedig ar gyn-filwyr y lluoedd arfog sydd wedi trosglwyddo eu pensiynau lluoedd arfog i mewn i gynllun pensiwn y diffoddwyr tân. A yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw drafodaethau gydag Undeb y Brigadau Tân a Llywodraeth y DU ynglŷn â'r mater hwn?

14:26 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Not specifically on that issue, but I will be publishing a consultation on the pensions for firefighters in the near future.

Nid yn benodol ar y mater hwnnw, ond byddaf yn cyhoeddi ymgynghoriad ar bensiynau diffoddwyr tân yn y dyfodol agos.

14:27 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, Minister. May I draw your attention to the case of a constituent who raised this matter with me, who told me that he will need to work and pay into the new scheme until he is 60? He joined the fire service at the age of 24 after four years in the army, and by transferring his armed forces pension into the firefighters' pension scheme, he reduced the length of service he would need to get a full pension from 30 years to just under 28 years, meaning he could retire at 52. However, because the tapered protection for the fire service is based on an individual's age, rather than the length of service, as it is for the police force, and that he was below the age of 45, the benefit he gained from transferring his army pension was lost. All that tapered protection does is to allow him a little longer in the firefighters' pension scheme, before being forced into the new scheme. He now has to wait until the age of 60 before being able to claim his full pension.

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. A gaf fi dynnu eich sylw at achos etholwr a gododd y mater hwn gyda mi ac a ddywedodd wrthyf y bydd yn rhaid iddo weithio a rhoi arian i mewn i'r cynllun newydd hyd nes ei fod yn 60 oed? Ymunodd â'r gwasanaeth tân yn 24 oed ar ôl pedair blynedd yn y fyddin, a thrwy drosglwyddo ei bensiwn lluoedd arfog i mewn i gynllun pensiwn y diffoddwyr tân, llwyddodd i leihau hyd y gwasanaeth y byddai ei angen i gael pensiwn llawn o 30 mlynedd i ychydig o dan 28 mlynedd, sy'n golygu y gallai ymddeol yn 52. Fodd bynnag, oherwydd bod yr amddiffyniad meinhau ar gyfer y gwasanaeth tân yn cael ei seilio ar oedran yr unigolyn yn hytrach na hyd y gwasanaeth, fel y mae ar gyfer yr heddlu, ac oherwydd ei fod yntau'n iau na 45, roedd yn colli'r fantais a enillodd ar ôl trosglwyddo ei bensiwn lluoedd arfog. Y cyfan y mae amddiffyniad meinhau yn ei wneud yw caniatáu ychydig mwy o amser iddo yng nghynllun pensiwn y diffoddwyr tân, cyn cael ei orfodi i mewn i'r cynllun newydd. Mae bellach yn gorfod aros nes ei fod yn 60 oed cyn gallu hawlio ei bensiwn llawn.

He believes that there are many ex-service personnel in the same predicament. Can you tell me how this issue is being specifically addressed as part of your discussions in the consultation?

Mae'n credu bod llawer o gyn-filwyr yn yr un sefyllfa. A allwch chi ddweud wrthyf sut y mae'r mater hwn yn cael sylw penodol fel rhan o'ch trafodaethau yn yr ymgynghoriad?

14:28 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

The Member has raised a specific individual case and, clearly, I am not going to comment on the facts around an individual case. If he wants to write to me, I will give the matter further consideration, and we will happily take the issue up, if he wishes to make representation on that issue within the context of the consultation that we will be holding. Whether I am able then to resolve it to his satisfaction and that of his constituent, I cannot give any commitment to at this particular point.

Mae'r Aelod wedi codi achos unigol penodol ac yn amlwg, nid wyf yn mynd i roi sylwadau ar ffeithiau achos unigol. Os yw'n dymuno ysgrifennu ataf, byddaf yn rhoi ystyriaeth bellach i'r mater, a byddwn yn hapus i drafod y mater, os yw am wneud sylwadau arno yng nghyd-destun yr ymgynghoriad y byddwn yn ei gynnal. Pa un a fyddaf wedyn yn gallu ei ddatrys mewn modd a fyddai'n ei fodloni ef a'i etholwr, ni allaf roi ymrwymiad i hynny ar hyn o bryd.

14:28 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister. I clearly will write you about that particular case. However, it is not just an isolated case. My constituent considers that there are hundreds of ex-service personnel in the fire service in Wales who are similarly affected by the way this tapering and transition scheme has been addressed. So, I would urge you to look at this in that context, rather than as an individual case.

Diolch i chi, Weinidog. Yn amlwg, byddaf yn ysgrifennu atoch ynglŷn â'r achos penodol hwnnw. Fodd bynnag, nid achos ynysig yn unig yw hwn. Mae fy etholwr yn credu bod cannoedd o gyn-filwyr yn y gwasanaeth tân yng Nghymru sy'n cael eu heffeithio yn yr un modd gan y ffordd yr aethpwyd i'r afael â'r cynllun meinhau a phontio hwn. Felly, byddwn yn eich annog i edrych ar hyn yn y cyd-destun hwnnw, yn hytrach na fel achos unigol.

14:28 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Well, I am not going to make policy on this issue on the basis of an individual case that has been raised with me in the Chamber. As I have said, if the Member wishes to write to me, we will explore the issues in more detail, and there may be issues that we then have to clarify with the UK Government as well.

Wel, nid wyf yn mynd i wneud polisi ar y mater hwn ar sail achos unigol a godwyd gyda mi yn y Siambr. Fel y dywedais, os yw'r Aelod yn dymuno ysgrifennu ataf, byddwn yn edrych ar y materion yn fwy manwl ac efallai y bydd materion y bydd yn rhaid i ni gael eglurhad Llywodraeth y DU arnynt yn ogystal.

14:29 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call the opposition spokesperson, Janet Finch-Saunders.

Rwy'n galw ar lefarydd yr wrthblaid, Janet Finch-Saunders.

14:29 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Minister, you have recently spoken about the future of local authorities and now you are considering reforming the council tax system in three to five years. You have made clear that this is not an immediate concern, but would you give some indication of your early proposals?

Weinidog, rydych wedi siarad yn ddiweddar am ddyfodol awdurdodau lleol ac yn awr rydych yn ystyried diwygio system y dreth gyngor o fewn tair i bum mlynedd. Rydych wedi gwneud yn glir nad yw hwn yn fater y bwriadwch fynd i'r afael ag ef ar unwaith, ond a allwch roi rhyw syniad o'ch argymhellion cynnar?

14:29 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

No.

Na allaf.

14:29 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Somehow, I thought you might say that. [Laughter.] Thank you.

Roeddwn i'n meddwl mai dyna y byddech yn ei ddweud. [Chwerthin.] Diolch.

Your own proposed time frame as regards local government reform would see the Williams mergers in place within five years. In the report, council tax is estimated by finding the midpoint between the two authorities, and this could actually see a potential increase in bills of, say, 10% for authorities such as Caerphilly. Would you intend any system you propose to replace that of the Williams midpoint basis, and if so, do you agree that it would have to be in place before any of the proposed mergers take place?

Byddai eich amserlen arfaethedig eich hun mewn perthynas â diwygio llywodraeth leol yn golygu y byddai trefniadau uno Williams ar waith o fewn pum mlynedd. Yn yr adroddiad, mae'r dreth gyngor yn cael ei hamcangyfrif drwy ddod o hyd i'r man canol rhwng y ddau awdurdod a gallai hyn, mewn gwirionedd, arwain at gynnydd posibl yn y biliau, dyweder, o 10% ar gyfer awdurdodau fel Caerffili. A ydych chi'n bwriadu i unrhyw system a argymhellir gennych gymryd lle man canol Williams, ac os felly, a ydych yn cytuno y byddai'n rhaid i'r system honno fod ar waith cyn i unrhyw uno arfaethedig ddigwydd?

14:30 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

We have given local authorities until 28 November to come forward with proposals for voluntary merger. We will then assess those proposals as to whether we think the expressions of interest that have been given are worthy of being followed through. We will make that judgment by 5 January. Clearly, among the issues we will need to look at will be issues of council tax. I will not at this stage want to be drawn on any specific proposals that we might want to make.

Rydym wedi rhoi tan 28 Tachwedd i awdurdodau lleol gyflwyno cynigion ar gyfer uno gwirfoddol. Yna, byddwn yn asesu'r cynigion hynny i weld a ydym yn credu bod y datganiadau o ddiddordeb a roddwyd yn deilwng o gael eu datblygu. Byddwn yn penderfynu ynglŷn â hynny erbyn 5 Ionawr. Yn amlwg, bydd materion yn ymwneud â'r dreth gyngor ymysg y materion y bydd angen i ni edrych arnynt. Ar hyn o bryd, nid wyf am drafod am unrhyw gynigion penodol y gallem fod eisiau eu gwneud.

14:30 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Obviously, these subjects are ones that do not necessarily impact on the here and now. However, local authorities are now going to be setting their council tax by April for the year 2015-16. We have regularly and frequently called for a council tax freeze. Would you consider that here and, if not, can you give us a date by which you might provide a council tax increase cap so as to give councils and our taxpayers some surety?

Yn amlwg, mae'r pynciau hyn yn rhai nad ydynt o reidrwydd yn cael effaith ar y presennol. Fodd bynnag, mae awdurdodau lleol yn awr yn mynd i fod yn gosod eu treth gyngor erbyn mis Ebrill ar gyfer y flwyddyn 2015-16. Rydym wedi galw'n rheolaidd ac yn aml am rewi'r dreth gyngor. A fyddech chi'n ystyried hynny yma ac os na wnewch, a allwch roi dyddiad i ni erbyn pa bryd y gallech ddarparu cap ar y cynnydd yn y dreth gyngor er mwyn rhoi rhywfaint o sicrwydd i gynghorau ac i'n trethdalwyr?

14:31 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

We have implemented council tax caps in the past. Of course, council tax levels are lower in Wales than they are on average in England. I see no reason at this present time to make any changes to our policy in this area.

Rydym wedi gweithredu capiau ar y dreth gyngor yn y gorffennol. Wrth gwrs, mae lefelau'r dreth gyngor yn is yng Nghymru na'r hyn ydynt ar gyfartaledd yn Lloegr. Ni welaf unrhyw reswm ar hyn o bryd i newid ein polisïau yn y maes hwn.

## Cyfiawnder Ieuenctid

## Youth Justice

14:31 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfiawnder ieuenctid? OAQ(4)0488(PS)*

*3. Will the Minister make a statement on youth justice? OAQ(4)0488(PS)*

14:31 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

We work closely with the Youth Justice Board for England and Wales to reduce the numbers of children and young people entering the criminal justice system, the numbers in custody, and the rates of reoffending. The number of first-time entrants into the youth justice system has reduced by 55% between 2010-11 and 2013-14.

Rydym yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr i leihau nifer y plant a phobl ifanc sy'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol, y nifer sydd yn y ddalfa a chyfraddau aildroseddu. Mae nifer y rhai sy'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf wedi gostwng 55% rhwng 2010-11 a 2013-14.

14:31 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

You will know that figures show that persistent young offenders experience higher than average levels of violence, abuse and bereavement in their childhood. Sixty five per cent of boys with a convicted father will also go on to offend. Do you agree, Minister, that the criminal justice system in Wales, as in England, tends to define the young offender by their criminality rather than assessing and addressing all their needs and background from the outset? With the Silk commission recommending that the treatment and rehabilitation of young offenders be devolved to Wales, would the Minister agree that by moving to a more welfare-based and rights-based approach we can then move the policy focus in Wales to a prevention rather than a detention agenda?

Byddwch yn gwybod bod ffigurau'n dangos bod troseddwyr ifanc cyson yn dioddef lefelau uwch na'r cyfartaledd o drais, camdriniaeth a phrofedigaeth yn ystod eu plentyndod. Bydd chwe deg pump y cant o fechgyn sydd â thadau a ddyfarnwyd yn euog yn mynd ymlaen i droseddu. A ydych yn cytuno, Weinidog, fod y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru, fel yn Lloegr, yn tueddu i ddiffinio'r troseddwr ifanc yn ôl eu troseddau yn hytrach nag asesu a mynd i'r afael â'u holl anghenion a'u cefndir o'r cychwyn cyntaf? Gyda chomisiwn Silk yn argymell y dylai'r broses o drin ac adsefydlu troseddwyr ifanc gael ei datganoli i Gymru, a fyddai'r Gweinidog yn cytuno y gallwn symud ffocws polisïau yng Nghymru i atal yn hytrach na charcharu drwy newid i ddull sy'n canolbwyntio mwy ar les a hawliau?

14:32 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

I agree that focussing on prevention is essential and I believe that we are already doing that in Wales, because, of course, our youth justice strategy, which we published in July, is clear that we should treat children and young people who offend as children first and look holistically at the vulnerabilities that have caused them to offend. My colleague the Member for the Cynon Valley will also be aware that we continue to invest in prevention through our youth crime prevention fund, worth nearly £5 million this year.

Rwy'n cytuno bod canolbwyntio ar atal yn hanfodol ac rwy'n credu ein bod eisoes yn gwneud hynny yng Nghymru, oherwydd, wrth gwrs, mae ein strategaeth cyfiawnder ieuenctid, a gyhoeddwyd gennym ym mis Gorffennaf, yn glir y dylem drin plant a phobl ifanc sy'n troseddu fel plant yn gyntaf ac edrych yn gyfannol ar yr agweddau sydd wedi peri iddynt droseddu. Bydd fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Gwm Cynon, yn ymwybodol hefyd ein bod yn parhau i fuddsoddi mewn atal drwy ein cronfa atal troseddau ieuenctid, sy'n werth bron i £5 miliwn eleni.

14:33 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Weinidog, wrth sôn am yr hawliau y mae Christine Chapman wedi siarad amdanynt, mae Comisiynydd Plant Cymru yn galw ar eich Llywodraeth i ymestyn yr hawliau a roddir i blant sy'n derbyn gofal i bobl ifanc sydd yn y ddalfa. Byddai hyn yn caniatáu i'r bobl ifanc hynny gael mynediad at ymgynghorwyr personol ac eiriolwyr, yn ystod ac ar ôl eu dedfrydu. Pa ystyriaeth a ydych chi wedi ei rhoi i gais y comisiynydd?

Minister, in discussing the rights that Christine Chapman referred to, the Children's Commissioner for Wales has called on your Government to extend the entitlements given to looked-after children to young people in custody. This would give those young people access to personal advisers and advocates, before and after sentencing. What consideration have you given to the commissioner's comments?

14:33 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

I think the commissioner has made some important contributions in this area. I met with the commissioner this morning, where issues of youth justice were discussed, not least, the issue of the secure estate. I think that we want to take this issue forward as we develop the delivery plan for our youth justice strategy.

Rwy'n credu bod y comisiynydd wedi gwneud rhai cyfraniadau pwysig yn y maes hwn. Cefais gyfarfod â'r comisiynydd y bore yma, lle cafodd materion cyfiawnder ieuenctid eu trafod, ac yn bennaf, mater sefydliadau diogel. Rwy'n credu ein bod am symud y mater hwn yn ei flaen wrth i ni ddatblygu'r cynllun cyflawni ar gyfer ein strategaeth cyfiawnder ieuenctid.

14:33 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Minister, I am sure that you would share my concern that children and young people experiencing a sudden mental health crisis can sometimes find themselves locked up by the police because there is nowhere more suitable for them to be looked after at very short notice. So, what action is the Welsh Government taking to ensure that suitable facilities are available to young people in crisis, other than police custody?

Weinidog, rwy'n siŵr y byddech yn rhannu fy mhryder fod plant a phobl ifanc sy'n dioddef argyfwng iechyd meddwl sydyn weithiau'n cael eu rhoi dan glo gan yr heddlu oherwydd nad oes unman yn fwy addas iddynt gael gofal ar fyr rybudd. Felly, pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod cyfleusterau addas ar gael i bobl ifanc mewn argyfwng, ac eithrio dalfa'r heddlu?

14:34 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

This is an issue that in fact has been raised with me on a number of occasions just over the last week or two in meetings with the chief constables. I think that they have signalled that this is an issue of particular concern to them. It is something on which I propose to have further discussions with my colleague the Minister for health.

Mewn gwirionedd, mae hwn yn fater sydd wedi cael ei ddwyn i fy sylw ar nifer o achlysuron dros yr wythnos neu ddwy ddiwethaf mewn cyfarfodydd gyda'r prif gwnstabliaid. Credaf eu bod wedi nodi bod hwn yn fater sy'n peri pryder arbennig iddynt. Mae'n rhywbeth rwy'n bwriadu cael trafodaethau pellach yn ei gylch gyda fy nghydweithiwr, y Gweinidog iechyd.

14:34 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Weinidog, tra rydym ni'n aros am benderfyniad ynglŷn â datganoli cyfiawnder ieuenctid, mae Llywodraeth Prydain yn mynd ymlaen efo bwriad i greu coleg diogel yn Glen Parva. A allwch chi ddweud a ydych o blaid hynny ac, os nad ydych, pa ymyrraeth mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i weld yn union sut mae'r sefyllfa honno'n gweithredu, er mwyn i chi ystyried llwyddiant neu fethiant y prosiect hwnnw, fel rydym yn cario ymlaen i ailystyried y ffordd yr ydym yn ymwneud â chyfiawnder ieuenctid?

Minister, while we await a decision on the devolution of youth justice, the UK Government is continuing with its intention to create a secure college in Glen Parva. Can you tell us whether you are in favour of that and, if not, what intervention will the Welsh Government make in order to see how that situation works out, in order to assess the success or otherwise of that project, as we continue to reconsider the way in which we deal with youth justice?

14:35 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

The UK Government is consulting on the future of the secure estate at the present time, and I would expect us to respond to that consultation, and address those issues in that.

Mae Llywodraeth y DU yn ymgynghori ar ddyfodol sefydliadau diogel ar hyn o bryd, a byddwn yn disgwyl rhoi ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw, a mynd i'r afael â'r materion hynny.

### Diswyddiadau o fewn Llywodraeth Leol

### Redundancies within Local Government

14:35 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddiswyddiadau o fewn llywodraeth leol? OAQ(4)0489(PS)*

*4. Will the Minister make a statement on redundancies within local government? OAQ(4)0489(PS)*

14:35 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Dylai pob awdurdod feithrin cysylltiad effeithiol â'i weithlu. Pan na fydd yn bosib osgoi diswyddiadau, rydw i'n disgwyl i awdurdodau sicrhau'r gwerth gorau, gan barchu'r cytundebau y maen nhw wedi'u negodi gyda'r cyrff sy'n cynrychioli eu gweithwyr.

Each authority should engage effectively with its workforce. Where redundancies are unavoidable, I expect authorities to secure best value while respecting the agreements they have negotiated with their employees' representative organisations.

14:35 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Fel rydych chi eisoes wedi ei ddweud, gydag ad-drefnu llywodraeth leol, bydd nifer helaeth o swyddogion hŷn a phrif weithredwyr cynghorau yn gadael eu swyddi. Fe wnaeth y Prif Weinidog ddweud yn y Siambr yr wythnos diwethaf na ellid cyfiawnhau'r math o daliadau sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd. A ydych chi'n cytuno â barn y Prif Weinidog, a beth ydych chi'n bwriadu ei wneud am sefyllfaoedd fel yr un yn sir Benfro, lle mae'r prif weithredwr yn mynd gyda thaliad o £280,000, a'r bwriad yn sir Gaerfyrddin gan y prif weithredwr i adael â swm cyfatebol o arian? A ydy hynny'n annerbyniol yn eich golwg chi?

As you have already said, with the reorganisation of local government, there will be very many senior officials and chief executives within councils who will be leaving their posts. The First Minister said in the Chamber last week that one could not justify the kinds of redundancy payments currently being considered. Do you agree with the view of the First Minister, and what do you intend to do about situations such as the one in Pembrokeshire, where the chief executive leaves with a payment of £280,000, and the intention in Carmarthenshire is for the chief executive to leave with a corresponding sum? Is that unacceptable in your view?

14:36 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

I think that local authorities need to look very carefully at the arrangements that they make when negotiating contracts for senior posts, particularly in respect of entitlement to redundancy payments. In respect of the situation in Pembrokeshire, I have written to the Auditor General for Wales, asking for his advice on this matter.

Rwy'n credu bod angen i awdurdodau lleol edrych yn ofalus iawn ar y trefniadau y maent yn eu gwneud wrth negodi contractau ar gyfer swyddi uwch, yn enwedig o ran hawl i daliadau diswyddo. O ran y sefyllfa yn sir Benfro, rwyf wedi ysgrifennu at Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn gofyn am ei gyngor ar y mater hwn.

14:37 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Minister, I was about to mention that severance deal for the former chief of Pembrokeshire County Council. It has been a complete fiasco. You have answered the question—that you have already written to the Auditor General for Wales. I am assuming that you are still waiting for that answer. However, in light of the fact that these are very highly paid jobs, and that you rightly alluded to the fact that it is all in the contract—the pay-out is a consequence of the contract—are you minded to look at future contracts, and any brake, or any opportunity to put a brake, on the upper limit of those contracts?

Weinidog, roeddwn ar fin sôn am y taliad diswyddo i gyn-brif weithredwr Cyngor Sir Penfro. Mae wedi bod yn llanast llwyr. Rydych wedi ateb y cwestiwn—eich bod eisoes wedi ysgrifennu at Archwilydd Cyffredinol Cymru. Rwy'n tybio eich bod yn dal i aros am ei ateb. Fodd bynnag, yn wyneb y ffaith fod y rhain yn swyddi sy'n talu'n dda iawn, a'ch bod chi wedi cyfeirio'n briodol at y ffaith ei fod i gyd yn y contract—mae'r taliad yn ganlyniad i'r contract—a ydych yn bwriadu edrych ar gontractau yn y dyfodol , ac ar unrhyw ffrwyn, neu unrhyw gyfle i roi ffrwyn, ar derfyn uchaf y contractau hynny?

14:37

**Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Let me say to my colleague the Member for Mid and West Wales that I expect to meet the auditor general in the near future, and this will be one of the subjects that I will want to discuss with him. I think that, as we draw up our proposals in the White Paper, in the new year, as I have said, one issue that we will be looking at is the way in which senior staff are appointed in Wales. It may be that we should look at new arrangements for the appointment of senior staff, with perhaps an independent external element to the appointment process. However, that is something that we will return to when we discuss the White Paper, I am sure.

Gadewch i mi ddweud wrth fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru, fy mod yn disgwyl cyfarfod â'r archwilydd cyffredinol yn y dyfodol agos, a bydd hwn yn un o'r pynciau y byddaf am ei drafod gydag ef. Wrth i ni lunio ein cynigion yn y Papur Gwyn yn y flwyddyn newydd, fel y dywedais, credaf mai un mater y byddwn yn edrych arno yw'r ffordd y mae staff uwch yn cael eu penodi yng Nghymru. Efallai y dylem edrych ar drefniadau newydd ar gyfer penodi staff uwch, a chynnwys elfen allanol annibynnol oddi ar y broses benodi, o bosibl. Fodd bynnag, mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn dychwelyd ato pan fyddwn yn trafod y Papur Gwyn, rwy'n siŵr.

14:38

**Russell George** Bywgraffiad Biography

Minister, my understanding is that Powys local health board has a policy of not making redundancies. If Powys County Council and the local health board merge into one organisation, and has to make redundancies, there is a clear issue there. How do you envisage that working in practice?

Weinidog, o'r hyn rwy'n ei ddeall, mae gan fwrdd iechyd lleol Powys bolisi o beidio â diswyddo. Os bydd Cyngor Sir Powys a'r bwrdd iechyd lleol yn uno i greu un corff, ac yn gorfod gwneud diswyddiadau, mae yna broblem amlwg yno. Sut rydych yn rhagweld hynny'n gweithio'n ymarferol?

14:38

**Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Llywydd, I never answer hypothetical questions. These are matters that are currently being discussed between Powys Teaching Local Health Board, Powys County Council, and the Welsh Government, as we look at what might be done to implement the Williams commission recommendation. I think that there are many, many issues still to be resolved in those discussions, and I think that we are very far away at the moment from the merger as was suggested within the Williams commission review.

Lywydd, ni fyddaf fyth yn ateb cwestiynau damcaniaethol. Mae'r rhain yn faterion sy'n cael eu trafod ar hyn o bryd rhwng Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys, Cyngor Sir Powys, a Llywodraeth Cymru, wrth i ni edrych ar yr hyn y gellid ei wneud i weithredu argymhelliad comisiwn Williams. Rwy'n credu bod yna lawer o faterion i'w datrys yn y trafodaethau hynny ac rwy'n meddwl ein bod yn bell iawn o uno ar hyn o bryd fel y cafodd ei awgrymu yn adolygiad comisiwn Williams.

### Pwysau Annisgwyl o ran Cost

### Unexpected Cost Pressures

14:39

**Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

*5. Pa waith cynllunio wrth gefn y mae'r Gweinidog wedi'i wneud i helpu cynghorau i baratoi ar gyfer unrhyw bwysau annisgwyl o ran cost ar gyllidebau awdurdodau lleol? OAQ(4)0491(PS)*

*5. What contingency planning has the Minister undertaken to help councils prepare for any unexpected cost pressures on local authority budgets? OAQ(4)0491(PS)*

14:39

**Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

I announced the provisional local government settlement on 8 October, providing authorities with the information they need to prepare budgets for next year. The freedom for authorities to set their own budgets is an important part of the funding arrangements, allowing them the flexibility to address local pressures and priorities.

Cyhoeddais y setliad dros dro i lywodraeth leol ar 8 Hydref, gan ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar yr awdurdodau i baratoi cyllidebau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r rhyddid i awdurdodau bennu eu cyllidebau eu hunain yn rhan bwysig o'r trefniadau cyllido, gan roi hyblygrwydd iddynt fynd i'r afael â phwysau a blaenoriaethau lleol.

14:39 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Well, Minister, I asked about your contingency planning. However, you will be aware, no doubt, of the recent employment appeal tribunal decision, last week, that ruled that people working overtime will be entitled to additional holiday pay and allowances, and that those claims can be backdated for three months. What have you done to assess the impact that that will have on not only your own department's budget, but on local authority budgets, given the implications that there could be there?

Wel, Weinidog, gofynnais am eich cynlluniau wrth gefn. Fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol, mae'n siŵr, o benderfyniad y tribiwnlys apelau cyflogaeth yr wythnos diwethaf, a ddyfarnodd y bydd pobl sy'n gweithio goramser â hawl i dâl gwyliau a lwfansau ychwanegol, ac y gellir ôl-ddyddio'r hawliadau hynny am dri mis. Beth a wnaethoch i asesu'r effaith y bydd hynny'n ei chael ar gyllideb eich adran eich hun ac ar gyllidebau awdurdodau lleol, o ystyried y goblygiadau a allai fod yno?

14:40 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

These are matters for local authorities as the employers.

Materion ar gyfer awdurdodau lleol fel y cyflogwyr yw'r rhain.

14:40 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Do you have any proposals, Minister, to pool or share local authority reserves in order to deal with any contingencies?

A oes gennych unrhyw argymhellion, Weinidog, i gyfuno neu rannu cronfeydd lleol wrth gefn er mwyn ymdrin ag unrhyw hapddigwyddiadau?

14:40 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

That is a very interesting idea that the Member brings forward, and I may want to give that further consideration, but I have not considered it up until now.

Mae'r Aelod yn cyflwyno syniad diddorol iawn, ac efallai y byddaf yn awyddus i roi ystyriaeth bellach iddo, ond nid wyf wedi ei ystyried hyd yn hyn.

14:40 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Really? [Laughter.]

Wir? [Chwerthin.]

## Diogelu Gwasanaethau Cyhoeddus

## The Protection of Public Services

14:41 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

*6. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu bygwth gan doriadau i gyllidebau awdurdodau lleol? OAQ(4)0483(PS)*

*6. What steps is the Welsh Government taking to protect public services which are threatened by local authority budget cuts? OAQ(4)0483(PS)*

14:41 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Authorities set their own budgets and should take account of local needs and priorities in doing so. They should engage with their local communities in making their key budget decisions.

Mae awdurdodau'n pennu eu cyllidebau eu hunain a dylent roi ystyriaeth i anghenion a blaenoriaethau lleol wrth wneud hynny. Dylent gysylltu â'u cymunedau lleol wrth wneud eu penderfyniadau cyllidebol allweddol.

14:41 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, Minister. A couple of weeks ago, Swansea council, without consultation as far as I can tell, announced that it will no longer clear fly tipping unless it is hazardous or on council-owned land. As providing clean and safe environments is a key performance indicator for local authorities, has the Government's monitoring system, previously explained by a Minister here in the Chamber, flagged this up to you as a cause for concern and possibly even action?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Ychydig wythnosau yn ôl, cyhoeddodd cyngor Abertawe, heb ymgynghori cyn belled ag y gallaf ddweud, na fyddant yn clirio tipio anghyfreithlon mwyach oni bai ei fod yn beryglus neu ar dir sy'n eiddo i'r cyngor. O ystyried bod darparu amgylcheddau glân a diogel yn ddangosydd perfformiad allweddol ar gyfer awdurdodau lleol, a yw system fonitro'r Llywodraeth, a eglurwyd eisoes gan Weinidog yma yn y Siambr, wedi dwyn hyn i'ch sylw fel achos pryder ac achos ar gyfer gweithredu o bosibl?

14:41 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

This is, in fact, a matter for the Minister for Natural Resources in respect of how these matters are regulated. In respect of specifics, I think that it is a matter for all local authorities to assess the pressures on them locally and reach decisions accordingly.

Mewn gwirionedd, mater i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol yw hwn o ran y modd y mae'r materion hyn yn cael eu rheoleiddio. O ran y manylion penodol, rwy'n credu mai mater i bob awdurdod lleol yw asesu'r pwysau sydd arnynt yn lleol a gwneud penderfyniadau yn unol â hynny.

14:42 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Lle mae awdurdodau lleol yn penderfynu nad oes dewis, oherwydd gwasgu ariannol, ond gofyn i eraill ddarparu gwasanaethau ar eu rhan nhw—er enghraifft, cynghorau tre a chynghorau cymuned—pa gymorth ymarferol y mae Llywodraeth Cymru yn gallu ei gynnig i sicrhau bod y gwasanaethau hynny yn gallu bod yn gynhaliol wedyn i'r hir dymor?

Where local authorities decide that there is no option, because of financial pressures, but to ask others to provide services on their behalf—for example, town and community councils—what practical support can the Welsh Government provide to ensure that those service are sustainable in the longer term?

14:42 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

The Member, I think, will be well aware of the pressures that are on the Welsh Government's budget as a result of the cuts that are being made upon Wales by the UK coalition Government. In respect of individual decisions, where local authorities may enter into contracts with town or community councils, or indeed with social enterprises, it is for them to determine the nature of those contracts and for them to determine the way in which those services are delivered.

Rwy'n credu y bydd yr Aelod yn ymwybodol iawn o'r pwysau sydd ar gyllideb Llywodraeth Cymru yn sgîl y toriadau sy'n cael eu gwneud yng Nghymru gan Lywodraeth glymblaid y DU. Mewn perthynas â phenderfyniadau unigol, lle y gall awdurdodau lleol ymrwymo i gontractau gyda chynghorau tref neu gymuned neu'n wir gyda mentrau cymdeithasol, mater iddynt hwy yw penderfynu ar natur y contractau hynny a'r ffordd y caiff y gwasanaethau hynny eu darparu.

## Cefnogaeth i Gyn-filwyr y Lluoedd Arfog

## Support for Armed Forces Veterans

14:43 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gefnogaeth i gyn-filwyr y Lluoedd Arfog yng Nghymru? OAQ(4)0487(PS)*

*7. Will the Minister make a statement on support for Armed Forces veterans in Wales? OAQ(4)0487(PS)*

14:43 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

As I said yesterday, we owe an immense debt of gratitude to our armed forces and to our veterans and we are committed to supporting our ex-servicemen and servicewomen through our armed forces package of support.

Fel y dywedais ddoe, rydym yn ddyledus iawn i'n lluoedd arfog a'n cyn-filwyr ac rydym wedi ymrwymo i gefnogi ein cyn-filwyr drwy ein pecyn cymorth i'r lluoedd arfog.

14:43 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer. It is also important to recognise the extraordinary sacrifices that the families of the brave servicemen and servicewomen make on our behalf. Will you make a statement on the support available to the families of armed forces veterans in Wales?

Diolch i chi am eich ateb. Mae hefyd yn bwysig cydnabod yr aberth eithriadol y mae teuluoedd y milwyr dewr yn ei wneud ar ein rhan. A wnewch chi roi datganiad am y gefnogaeth sydd ar gael i deuluoedd cyn-filwyr y lluoedd arfog yng Nghymru?

14:43 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Our package of support for the armed forces community includes support for the families of armed forces veterans in devolved areas such as health, education and housing. These include the homebuy shared-equity scheme, which has been extended to cover widows and widowers of personnel killed in action. We made £2 million of capital funding available in 2013-14 to support housing for personnel leaving the armed forces, and all local authorities in Wales provide a total disregard of war disablement pension, war widow's pension and armed forces compensation scheme for council tax support and housing benefit.

Mae ein pecyn cymorth ar gyfer cymuned y lluoedd arfog yn cynnwys cefnogaeth i deuluoedd cyn-filwyr y lluoedd arfog mewn meysydd datganoledig fel iechyd, addysg a thai. Mae'r rhain yn cynnwys y cynllun cymorth prynu a rhannu ecwiti sydd wedi ei ymestyn i gynnwys gweddwon a gwŷr gweddw milwyr a laddwyd wrth ymladd. Rhyddhawyd £2 filiwn o gyllid cyfalaf gennym yn 2013-14 i gefnogi tai ar gyfer milwyr sy'n gadael y lluoedd arfog. Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn llwyr ddiystyru pensiwn anabledd rhyfel, pensiwn rhyfel gwragedd gweddw a chynllun iawndal y lluoedd arfog wrth ddarparu cymorth gyda'r dreth gyngor a budd-daliadau tai.

14:44 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Minister, 'The Welsh Government Package of Support for the Armed Forces in Wales: Annual Report 2012' stated that a review of the value and viability of an armed forces card, which would provide access to public services for members of the armed forces and veterans, was being undertaken. Could you please provide a progress report on this matter?

Weinidog, roedd 'Pecyn Cymorth Llywodraeth Cymru i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru: Adroddiad Blynyddol 2012' yn datgan bod adolygiad ar y gweill o werth a hyfywedd cerdyn y lluoedd arfog, a fyddai'n darparu mynediad i wasanaethau cyhoeddus ar gyfer aelodau o'r lluoedd arfog a chyn-filwyr. A allwch chi ddarparu adroddiad cynnydd ar y mater hwn?

14:44 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

I think, Llywydd, that I did so yesterday when I explained the work that we were doing in respect of the defence discount card, which my predecessor initiated.

Rwy'n credu, Lywydd, fy mod wedi gwneud hynny ddoe pan esboniais y gwaith roeddem yn ei wneud o ran y cerdyn disgownt amddiffyn a gychwynnodd fy rhagflaenydd.

14:44 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Minister, you mentioned what is being done for families, and I am sure that that is much appreciated. Are you able to expand in particular on what is being done to help children at school who also may be affected by family members or veterans suffering from post-traumatic stress disorder, please?

Weinidog, soniasoch am yr hyn sy'n cael ei wneud ar gyfer teuluoedd, ac rwy'n siŵr bod hynny'n cael ei werthfawrogi'n fawr. A allwch ehangu yn benodol os gwelwch yn dda ar yr hyn sy'n cael ei wneud i helpu plant ysgol a allai hefyd fod yn cael eu heffeithio pan fo aelodau o'r teulu neu gyn-filwyr yn dioddef o anhwylder straen wedi trawma?

14:45 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Yes. We actually have given considerable support to dependents of those in the armed forces in terms of support at school. What I will do is send the Member an update on the plans that we implemented from last year.

Gallaf. Mewn gwirionedd, rydym wedi rhoi cefnogaeth sylweddol i ddibynyddion y rhai hynny yn y lluoedd arfog o ran cymorth yn yr ysgol. Yr hyn a wnaf yw anfon y wybodaeth ddiweddaraf sydd gennym am y cynlluniau sydd ar y gweill ers y llynedd at yr Aelod.

14:45 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Minister, the Gurkha Company Mandalay has been based in Brecon for 40 years and we now have a significant number not only of serving personnel, but also of retired personnel and their dependent families living in the community of Brecon, and they are much admired and there is great affection for them. However, many of that community are growing older, with increasing health and social care needs. What can the Welsh Government do, as part of its programme, to support Brecon Town Council and Powys County Council in creating a community liaison role so that we can make sure that services for this community can be developed to address health, social care and educational needs?

Weinidog, mae'r Gurkha Company Mandalay wedi ei leoli yn Aberhonddu ers 40 mlynedd ac erbyn hyn mae gennym nifer sylweddol, nid yn unig o filwyr sy'n gwasanaethu, ond milwyr sydd wedi ymddeol hefyd ac sydd â theuluoedd dibynnol yn byw yng nghymuned Aberhonddu. Cânt eu hedmygu a'u hoffi'n fawr. Fodd bynnag, mae llawer o'r gymuned hon yn mynd yn hŷn, gyda mwyfwy o anghenion iechyd a gofal cymdeithasol. Beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud, fel rhan o'i rhaglen, i gynorthwyo Cyngor Tref Aberhonddu a Chyngor Sir Powys i greu rôl gyswllt cymunedol fel y gallwn wneud yn siŵr bod modd datblygu gwasanaethau ar gyfer y gymuned hon i fynd i'r afael ag anghenion iechyd, gofal cymdeithasol ac addysgol?

14:45 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

The Member raises an important issue. I explained yesterday, during the debate, what was being done within the national health service in respect of veterans and it may be that there is support available from that source. If she has specific ideas or specific issues that she wants me to follow through with the Minister for health, I will be happy to do so.

Mae'r Aelod yn codi mater pwysig. Esboniais ddoe, yn ystod y ddadl, yr hyn a oedd yn cael ei wneud o fewn y gwasanaeth iechyd gwladol o ran cyn-filwyr ac efallai bod cefnogaeth ar gael o'r ffynhonnell honno. Os oes ganddi syniadau penodol neu faterion penodol y mae am i mi eu trafod gyda'r Gweinidog iechyd, byddaf yn hapus i wneud hynny.

### Contractau ar gyfer Gwasanaethau Crwner

### Contracts for Coroner Services

14:46 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

*8. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mewn perthynas â chontractau ar gyfer gwasanaethau crwner? OAQ(4)0481(PS)*

*8. What discussions has the Minister had with the WLGA in relation to contracts for coroner's services? OAQ(4)0481(PS)*

14:46 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Dim.

None.

14:46 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Weinidog, mae'r crwner yng Ngheredigion yn rhoi gwaith 'exclusive' i dri ymgymerwr yn unig pan fo marwolaeth sydyn yn digwydd ac yn cau allan holl ymgymerwyr eraill. Nid wyf yn ymwybodol fod y gwaith hwn erioed wedi cael ei dendro. Mae'r awdurdod lleol wedi methu dwyn perswâd ar y crwner i newid yr arfer hwn. A ydych yn cytuno gyda fi fod angen i'r Swyddfa Gartref rhoi arweiniad clir i bob crwner yng Nghymru sicrhau arfer da a gwerth am arian ac a wnewch chi godi pwysigrwydd y mater hwn gyda'r Swyddfa Gartref a hefyd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru?

Minister, the coroner in Ceredigion gives exclusive work to three undertakers only in cases of sudden death and excludes all the other undertakers. I am not certain that this work has even been put out to tender. The local authority has failed to persuade the coroner to change this practice. Do you agree with me that the Home Office should give clear guidance to every coroner in Wales to secure good practice and value for money and will you raise the importance of this matter with the Home Office and also with the Welsh Local Government Association?

14:47 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

The Member raises some important issues, I think, in respect of the way in which coroners exercise their services at a local level. She will be aware that, of course, functions relating to coroners are not devolved. The issue that she raises, however, may touch on a number of aspects of UK and EU competition law, from what I have heard her say, and it may be that she will wish to raise those in that light. Certainly, if she writes to me, I will be happy to raise them with the UK Government. I think that, in practice, it is the Ministry of Justice and not the Home Office, but I would be happy to take any of those issues forward.

Mae'r Aelod yn codi rhai materion pwysig, rwy'n meddwl, o ran y ffordd y mae crwneriaid yn cyflawni eu gwasanaethau ar lefel leol. Bydd hi'n ymwybodol, wrth gwrs, nad yw swyddogaethau sy'n ymwneud â chrwneriaid wedi'u datganoli. Mae'n bosibl fod y mater y mae'n ei godi, fodd bynnag, yn cyffwrdd ar nifer o agweddau ar gyfraith cystadleuaeth y DU a'r UE, o'r hyn rwyf wedi'i chlywed yn ei ddweud, ac mae'n bosibl y bydd yn dymuno codi'r rheiny yn y cyd-destun hwnnw. Yn sicr, os yw'n ysgrifennu ataf, byddaf yn hapus i'w codi gyda Llywodraeth y DU. Credaf, yn ymarferol, mai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac nid y Swyddfa Gartref, ond byddwn yn barod i drafod unrhyw un o'r materion hynny.

14:47 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Minister, will you join me in welcoming the publication in June of the first annual report from the Chief Coroner for England and Wales? Clearly, it is an important document—it is the first time that it has actually been issued. Will you also join with me in emphasising the contents of that report, in that it is for coroners not only to determine the cause of death, but also, particularly, to write reports with a view to preventing future deaths?

Weinidog, a wnewch chi ymuno â mi i groesawu adroddiad blynyddol cyntaf Prif Grwner Cymru a Lloegr a gyhoeddwyd ym mis Mehefin? Yn amlwg, mae'n ddogfen bwysig—dyma'r tro cyntaf iddo gael ei gyhoeddi mewn gwirionedd. A wnewch chi hefyd ymuno â mi i bwysleisio cynnwys yr adroddiad hwnnw, o ran dyletswydd crwneriaid nid yn unig i bennu achos marwolaeth ond hefyd yn benodol i ysgrifennu adroddiadau gyda'r bwriad o atal marwolaethau yn y dyfodol?

14:48 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Yes, I am very happy to join the Member in welcoming that report. He will be aware that the Chief Coroner's role was only created by the Coroners and Justice Act in 2009 and we would expect, certainly, to have an input into these issues going forward. However, I am very happy to agree with the Member and to take those issues forward.

Ydw, rwy'n hapus iawn i ymuno â'r Aelod i groesawu'r adroddiad hwnnw. Bydd yn ymwybodol mai yn 2009 yn unig y cafodd rôl y Prif Grwner ei chreu gan Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder a byddem yn sicr yn disgwyl cael mewnbwn yn y materion hyn yn y dyfodol. Fodd bynnag, rwy'n hapus iawn i gytuno â'r Aelod ac i symud ymlaen ar y materion hyn.

### Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus

### Reforming Public Services

14:48 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

*9. A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)0480(PS)*

*9. Will the Minister outline his priorities for reforming public services in Wales? OAQ(4)0480(PS)*

14:48 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

We published our plans and priorities for reforming public services on 8 July.

Cyhoeddwyd ein cynlluniau a'n blaenoriaethau ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus ar 8 Gorffennaf.

14:48 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Thank you for your reply, Minister. Given your Government's clear preference for local authority mergers, have you had any discussions regarding the differences between council tax rates between authorities? I am sure that you would agree with me that, if you have not, that would be irresponsible, and, surely, if mergers do go ahead, would you consider this to be a golden opportunity to finally introduce a fair system of local taxes such as local income taxes?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. O ystyried ffafriaeth amlwg eich Llywodraeth i uno awdurdodau lleol, a ydych wedi cael unrhyw drafodaethau ynglŷn â gwahaniaethau yng nghyfraddau'r dreth gyngor rhwng un awdurdod a'r llall? Rwy'n siŵr y byddech yn cytuno â mi, os nad ydych wedi cael trafodaethau o'r fath, y byddai hynny'n anghyfrifol ac yn sicr, os yw'r uno'n mynd yn ei flaen, a fyddech yn ystyried bod hwn yn gyfle euraidd o'r diwedd i gyflwyno system deg o drethi lleol megis treth incwm leol?

14:49 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

May I first of all say to the Member that I have certainly had a number of conversations about the impact of local authority mergers on council tax levels, particularly where local authorities volunteer to merge or are subsequently merged? In respect of the future of local government finance, I think that it is well worth us looking at the future of local government finance in the round, but I am not sure that doing that at the same time as a process of reform of local government would be wise. So, I would see that as a longer-term issue. Specifically in respect of local income tax, I think that that would be an issue on which many Members here would have quite strong views.

A gaf fi ddweud yn gyntaf wrth yr Aelod fy mod yn sicr wedi cael nifer o sgyrsiau am effaith uno awdurdodau lleol ar lefelau'r dreth gyngor, yn enwedig lle mae awdurdodau lleol yn gwirfoddoli i uno neu'n cael eu huno ar ôl hynny? O ran dyfodol cyllido llywodraeth leol, rwy'n meddwl ei bod yn werth i ni edrych ar bob agwedd sy'n ymwneud â dyfodol cyllido llywodraeth leol, ond nid wyf yn siŵr y byddai gwneud hynny ar yr un pryd â phroses ddiwygio llywodraeth leol yn beth doeth. Felly, byddwn yn gweld hynny fel mater mwy hirdymor. Yn benodol mewn perthynas â threth incwm leol, rwy'n meddwl y byddai hwnnw'n fater y byddai gan lawer o Aelodau yma farn eithaf cryf yn ei gylch.

14:50 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Minister, the leader of Powys County Council has said that he anticipates that voluntary and community groups, in addition to town and community councils, will have to pick up the delivery of some services traditionally delivered by the local authority. The vast majority of voluntary groups are not able to access legal and administrative support, which is available to local authorities, in delivering public services. Could I ask what support the Welsh Government can provide to these groups?

Weinidog, mae arweinydd Cyngor Sir Powys wedi dweud ei fod yn rhagweld y bydd yn rhaid i grwpiau gwirfoddol a chymunedol, yn ogystal â chynghorau tref a chymuned, ddarparu rhai gwasanaethau a ddarparwyd yn draddodiadol gan yr awdurdod lleol. Nid yw'r mwyafrif helaeth o grwpiau gwirfoddol yn gallu cael cymorth cyfreithiol a gweinyddol, sydd ar gael i awdurdodau lleol, mewn perthynas â darparu gwasanaethau cyhoeddus. A gaf fi ofyn pa gymorth y gall Llywodraeth Cymru ei ddarparu i'r grwpiau hyn?

14:50 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Well, the support that the Welsh Government can give is obviously significantly reduced by the cuts imposed on our budget by the UK coalition Government. However, we have worked in the past with a variety of organisations, such as through our social enterprise strategy. We have worked with organisations such as the Wales Council for Voluntary Action in order to provide a variety of guidance to organisations that are taking on new demands, including the management of what were previously services run by sections of the public, including local authorities.

Wel, mae'r gefnogaeth y gall Llywodraeth Cymru ei rhoi yn amlwg yn cael ei lleihau'n sylweddol gan y toriadau yn ein cyllideb gan Lywodraeth glymblaid y DU. Fodd bynnag, yn y gorffennol rydym wedi gweithio gydag amryw o sefydliadau, er enghraifft drwy ein strategaeth mentrau cymdeithasol. Rydym wedi gweithio gyda sefydliadau megis Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i ddarparu amrywiaeth o ganllawiau i gyrff sy'n ymateb i alwadau newydd, gan gynnwys rheoli'r hyn a arferai fod yn wasanaethau a gâi eu darparu gan adrannau cyhoeddus, yn cynnwys awdurdodau lleol.

## Ad-drefnu Llywodraeth Leol

## The Reconfiguration of Local Government

14:51 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynigion Llywodraeth Cymru i ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru? OAQ(4)0495(PS)*

*10. Will the Minister make a statement on progress with Welsh Government proposals to reconfigure local government in Wales? OAQ(4)0495(PS)*

14:51 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

The deadline for expressions of interest for voluntary mergers from local authorities is 28 November. We will be considering proposals following that date. Fully developed cases for merger would then be submitted by June 2015.

Y dyddiad cau ar gyfer datganiadau o ddiddordeb mewn uno gwirfoddol gan awdurdodau lleol yw 28 Tachwedd. Byddwn yn ystyried cynigion ar ôl y dyddiad hwnnw. Yna, bydd achosion wedi'u datblygu'n llawn dros uno yn cael eu cyflwyno erbyn Mehefin 2015.

14:51 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister, for that answer. Obviously, everyone is focused on the big picture of the proposed reorganisation of the unitary authorities in Wales. Under the unitary authorities, there are 736 town and community councils across the whole of Wales. Do you envisage them having a role—an enhanced role, I should say—in delivering some of the services that are currently delivered by our unitary authorities, given that the capacity of some of those town and community councils is quite considerable?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Yn amlwg, mae pawb yn canolbwyntio ar ddarlun mawr ad-drefnu arfaethedig yr awdurdodau unedol yng Nghymru. O dan yr awdurdodau unedol, mae yna 736 o gynghorau tref a chymuned ledled Cymru gyfan. A ydych yn rhagweld y byddant yn cael rôl—rôl ychwanegol, dylwn ddweud—yn darparu rhai o'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd gan ein hawdurdodau unedol, o ystyried bod capasiti rhai o'r cynghorau tref a chymuned hynny'n eithaf sylweddol?

He will be aware that Barry, for example, which is the largest of the town and community councils that are in his region, has already undertaken support for certain services previously provided by the Vale of Glamorgan Council. However, as he knows, the town and community councils vary hugely in size and capacity. I would certainly expect that, in our White Paper in the new year, we will have something to say, however, about the role of town and community councils.

Bydd yn ymwybodol fod y Barri, er enghraifft, sef y mwyaf o blith y cynghorau tref a chymuned yn ei ranbarth, eisoes wedi cefnogi rhai gwasanaethau a ddarparwyd yn flaenorol gan Gyngor Bro Morgannwg. Fodd bynnag, fel y gŵyr ef, mae'r cynghorau tref a chymuned yn amrywio'n fawr o ran eu maint a'u gallu. Fodd bynnag, byddwn yn sicr yn disgwyl y bydd gennym rywbeth i'w ddweud yn ein Papur Gwyn yn y flwyddyn newydd am rôl y cynghorau tref a chymuned.

14:52 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Mae comisiwn Williams, wrth gwrs, wedi argymell uno bwrdd iechyd lleol Powys â'r cyngor sir. Gwnaethoch chi gyffwrdd ar hynny mewn ateb blaenorol. Yr hyn na wnaethoch chi ei ddweud, wrth gwrs, oedd a ydych yn cytuno â'r argymhelliad hwnnw, ac a fyddech yn cytuno y byddai gwneud hynny yn darparu enghraifft i ddangos pa wahaniaeth y byddai un corff yn gallu ei wneud wrth integreiddio gwasanaethau?

The Williams commission, of course, has recommended the merger of Powys local health board and the council. You touched upon that in a previous answer. What you did not say, of course, is whether you agree with that recommendation, and would you agree that doing that would provide an exemplar to show what difference a single body could make in integrating services?

14:53 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Well, I think that we have given our response previously to the specific recommendations of the Williams commission. There is work going on, as I said earlier, between the Powys local health board, Powys County Council and Welsh Government to look at what would be the implications of such a merger. These issues are not simple. There may well be benefits, particularly in the field of adult social services and social care, and the alignment there with health on a closer basis. However, there are many, many difficult issues to be resolved.

Wel, rwy'n credu ein bod wedi rhoi ein hymateb eisoes i argymhellion penodol comisiwn Williams. Mae gwaith yn mynd rhagddo, fel y dywedais yn gynharach, rhwng bwrdd iechyd lleol Powys, Cyngor Sir Powys a Llywodraeth Cymru sy'n edrych i weld beth fyddai goblygiadau uno o'r fath. Nid yw'r materion hyn yn syml. Mae'n ddigon posibl y ceir manteision, yn enwedig ym maes gwasanaethau cymdeithasol i oedolion a gofal cymdeithasol, a'r modd y mae hyn yn cydredeg yn agosach ag iechyd. Fodd bynnag, mae yna lawer iawn o faterion anodd eu datrys.

### Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod

### Female Genital Mutilation

14:53 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

*11. A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i ddileu anffurfio organau cenhedlu benywod yng Nghymru? OAQ(4)0490(PS)*

*11. Will the Minister outline the Welsh Government's approach to eradicating female genital mutilation in Wales? OAQ(4)0490(PS)*

14:53 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Yes. The Welsh Government has zero tolerance for female genital mutilation. It is child abuse; it is a crime; and it is a violation of human rights. Eradicating FGM is one of our core aims in tackling violence against women, through working collaboratively with communities and a range of public services.

Gwnaf. Mae gan Lywodraeth Cymru bolisi dim goddefgarwch ar anffurfio organau cenhedlu benywod. Mae'n gam-drin plant; mae'n drosedd; ac mae'n tramgwyddo hawliau dynol. Mae cael gwared ar anffurfio organau cenhedlu benywod yn un o'n hamcanion craidd wrth drechu trais yn erbyn menywod, drwy gydweithio gyda chymunedau ac ystod o wasanaethau cyhoeddus.

14:54 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

I would like to thank the Minister for his very strong statement there, and, of course, for the indications of the work that the Welsh Government has done previously, alongside the UK Border Agency and with schools in Wales too. One of the major strands of work announced by the UK Government at the Girl Summit back in July was a prevention programme with the NHS in England to help identify those most at risk and to care appropriately for FGM survivors. I am wondering what discussions you have had with the Minister for health regarding the Welsh NHS's response to this challenge, particularly, perhaps, with regard to training for front-line staff.

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad cryf iawn ar hynny, ac wrth gwrs, am gyfeirio at y gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r blaen, ochr yn ochr ag Asiantaeth Ffiniau'r DU a chydag ysgolion yng Nghymru hefyd. Un o'r prif feysydd gwaith a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn nigwyddiad 'Girl Summit' yn ôl ym mis Gorffennaf oedd rhaglen atal gyda'r GIG yn Lloegr er mwyn helpu i ganfod pwy sydd fwyaf mewn perygl ac i ofalu'n briodol am ferched sydd wedi dioddef yn y ffordd hon. Tybed pa drafodaethau rydych wedi'u cael gyda'r Gweinidog iechyd ynglŷn ag ymateb GIG Cymru i'r her hon, yn arbennig, efallai, o ran hyfforddi staff y rheng flaen.

14:54 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Well, in fact, the Welsh NHS has already been highly active in this area. There was an FGM workshop for health professionals to discuss how NHS Wales might identify, record and implement robust mechanisms to protect girls and women from FGM, and a programme of work is currently being developed from that workshop. All local health boards in Wales are to establish an FGM lead by December 2014, and there will be health-specific training to enable practitioners to identify and tackle FGM, and there will be minimum data sets established to address the prevalence and risk of FGM.

Wel, mewn gwirionedd, mae'r GIG yng Nghymru eisoes wedi bod yn weithgar iawn yn y maes hwn. Cynhaliwyd gweithdy ar anffurfio organau cenhedlu benywod i weithwyr iechyd proffesiynol ar gyfer trafod sut y gallai GIG Cymru nodi, cofnodi a gweithredu systemau cadarn ar gyfer diogelu merched a menywod rhag yr arfer, ac mae rhaglen waith yn cael ei datblygu o'r gweithdy ar hyn o bryd. Rhaid i bob bwrdd iechyd lleol yng Nghymru benodi arweinydd ar anffurfio organau cenhedlu benywod erbyn mis Rhagfyr 2014, a rhoddir hyfforddiant iechyd penodol i alluogi ymarferwyr i adnabod a mynd i'r afael â'r arfer. Bydd setiau data sylfaenol yn cael eu sefydlu i roi sylw i nifer yr achosion a'r risg o anffurfio organau cenhedlu benywod.

14:55 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Thank you for that, Minister, because I know that, the last time you were questioned about this, you said that you would speak to your health colleague, and, clearly, you have done that. You also said that you would speak to the four police and crime commissioners in Wales to find out why there had been no FGM prosecutions here in Wales, and I wonder whether you could update us on that.

Diolch i chi, Weinidog, oherwydd y tro diwethaf i chi gael eich holi am hyn, rwy'n gwybod eich bod wedi dweud y byddech yn siarad â'ch cydweithiwr iechyd, ac mae'n amlwg eich bod wedi gwneud hynny. Dywedasoch hefyd y byddech yn siarad â'r pedwar comisiynydd heddlu a throseddu yng Nghymru i gael gwybod pam na fu unrhyw erlyniadau am anffurfio organau cenhedlu benywod yma yng Nghymru. Tybed a allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ynglŷn â hynny.

14:55 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Yes, I have raised those issues with the police and crime commissioners at my last meeting with them. Let me say that I also raised it in the meeting I had with the chief constables last week as well. I think I am right in saying that I have had one formal response from one of the police and crime commissioners. They are aware of our concerns in this area. The chief constables say to us that it is obviously a highly complex area in terms of personal relationships within communities, where they are trying to address these issues, but they are well aware of the priority that we as a Government give to this issue.

Do, codais y materion hynny gyda'r comisiynwyr heddlu a throseddu yn fy nghyfarfod diwethaf â hwy. Gadewch i mi ddweud hefyd fy mod wedi codi'r mater yn y cyfarfod a gefais gyda'r prif gwnstabliaid yr wythnos diwethaf. Rwy'n credu fy mod yn iawn yn dweud i mi dderbyn un ymateb ffurfiol gan un o'r comisiynwyr heddlu a throseddu. Maent yn ymwybodol o'n pryderon yn y maes hwn. Mae'r prif gwnstabliaid yn dweud wrthym ei fod yn amlwg yn faes cymhleth iawn o ran y berthynas bersonol rhwng pobl yn y cymunedau, lle maent yn ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn, ond maent yn ymwybodol iawn o'r flaenoriaeth rydym ni fel Llywodraeth yn ei roi i'r mater hwn.

## Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru

## The Mid and West Wales Fire Service

14:56 **William Powell** Bywgraffiad Biography

*12 A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwasanaeth tân yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0494(PS)*

*12. Will the Minister make a statement on the fire service in Mid and West Wales? OAQ(4)0494(PS)*

14:56 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

The Mid and West Wales Fire and Rescue Authority is responsible for delivering preventative and responsive services across its area. Like the other fire and rescue authorities in Wales, it has a good record in reducing fires and fire casualties since the service was devolved.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau ataliol ac ymatebol ar draws ei ardal. Fel yr awdurdodau tân ac achub eraill yng Nghymru, mae ganddo hanes da o ran lleihau nifer y bobl a gafodd eu hanafu mewn tanau a damweiniau tân ers i'r gwasanaeth gael ei ddatganoli.

14:56 **William Powell** Bywgraffiad Biography

I would like to thank the Minister very much for that response. As you may well know, one the most onerous demands on the fire service in Mid and West Wales and, indeed, elsewhere is caused by having to respond to false alarms caused by automated fire systems. This is a particular issue in Aberystwyth, where there were apparently 261 such calls in 2013-14. This has led to a review of the current provision in the Aberystwyth area. Minister, given that many of these alarm systems are located in public buildings, such as local authority headquarters or, indeed, student accommodation, what are you prepared to do to help to drive down the frequency of such calls, because that could assist with saving precious resource, and also with enhancing public safety?

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r Gweinidog yn am ei ymateb. Fel y byddwch yn gwybod, mae'n siŵr, un o'r galwadau mwyaf beichus ar y gwasanaeth tân yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru ac mewn mannau eraill yn wir, yw gorfod ymateb i alwadau ffug a achoswyd gan systemau tân awtomatig. Mae hon yn broblem benodol yn Aberystwyth, lle cafwyd 261 o alwadau o'r fath yn 2013-14 yn ôl pob golwg. Mae hyn wedi arwain at adolygu'r ddarpariaeth bresennol yn ardal Aberystwyth. Weinidog, o gofio bod llawer o'r systemau larwm hyn yn cael eu gosod mewn adeiladau cyhoeddus, megis pencadlys yr awdurdod lleol, neu yn wir, mewn adeiladau llety i fyfyrwyr, beth rydych yn barod i'w wneud i helpu i sicrhau nad yw galwadau o'r fath yn digwydd mor aml, gan y gallai hynny helpu gydag arbed adnoddau gwerthfawr yn ogystal â gwella diogelwch y cyhoedd?

14:57 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Well we fund, I think, the fire and rescue authorities reasonably generously to address issues of community safety, and I would regard this as a matter for those authorities to take forward, not just with public authorities, let me say, but with the owners of private buildings as well.

Wel rwy'n meddwl ein bod yn ariannu'r awdurdodau tân ac achub yn rhesymol o hael i fynd i'r afael â materion diogelwch cymunedol a byddwn yn ystyried hwn yn fater i'r awdurdodau hynny ei godi, nid yn unig ag awdurdodau cyhoeddus, gadewch i mi ddweud, ond gyda pherchnogion adeiladau preifat yn ogystal.

14:58 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Minister, I recently met with the mid and west wales fire service officers who are working with Age Cymru to help to encourage people to have their electric blankets checked before the winter. Given the damage that electric blankets cause—more than 5,000 house fires a year across the UK—what work is the Welsh Government doing to help to raise awareness of this particular issue, and what discussions have you had with the fire service regarding preventing domestic fires?

Weinidog, cyfarfûm yn ddiweddar â swyddogion gwasanaeth tân canolbarth a gorllewin Cymru sy'n gweithio gydag Age Cymru er mwyn helpu i annog pobl i gael eu blancedi trydan wedi'u harchwilio cyn y gaeaf. O ystyried y niwed y mae blancedi trydan yn ei achosi—dros 5,000 o danau yn y cartref bob flwyddyn ar draws y DU—pa waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu i godi ymwybyddiaeth o'r mater penodol hwn a pha drafodaethau rydych wedi'u cael gyda'r gwasanaeth tân ynglŷn ag atal tanau yn y cartref?

14:58 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Well, I think that the Member has taken this opportunity to raise that issue, which is obviously an important one, but I think that it is a matter for the community fire safety work of the fire and rescue authorities.

Wel, rwy'n credu bod yr Aelod wedi bachu ar y cyfle hwn i godi'r mater, sy'n amlwg yn un pwysig, ond credaf mai mater ar gyfer gwaith diogelwch tân cymunedol yr awdurdodau tân ac achub yw hwn.

## Cyfrifoldebau Gorfodi Llywodraeth Leol

## The Enforcement Responsibilities of Local Government

14:58 **Russell George** Bywgraffiad Biography

*13. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfrifoldebau gorfodi llywodraeth leol yng nghanolbarth Cymru? OAQ(4)0486(PS)*

*13. Will the Minister make a statement on the enforcement responsibilities of local government in mid Wales? OAQ(4)0486(PS)*

14:58 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Local government is responsible for a range of regulatory and enforcement activity, including trading standards, environmental health and licensing.

Mae llywodraeth leol yn gyfrifol am ystod o weithgareddau rheoleiddio a gorfodi, yn cynnwys safonau masnach, iechyd yr amgylchedd a thrwyddedu.

14:59 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister. It appears that local authorities across Wales have different ways of tackling offences such as dog fouling and littering. In 2013-14, Conwy council issued fines totalling £176,000, while Powys County Council issued fines totalling £150. What is your view on the best way that local authorities can tackle the problems of litter and dog fouling?

Diolch i chi, Weinidog. Mae'n ymddangos bod gan awdurdodau lleol ledled Cymru wahanol ffyrdd o fynd i'r afael â throseddau megis cŵn yn baeddu a gollwng sbwriel. Yn 2013-14, rhoddodd cyngor Conwy ddirwyon gwerth cyfanswm o £176,000, tra roedd cyfanswm y dirwyon a roddwyd gan Gyngor Sir Powys yn £150. Beth yw eich barn ynglŷn â'r ffordd orau i awdurdodau lleol fynd i'r afael â phroblemau sbwriel a baw cŵn?

14:59 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

I honestly think that these are matters for local authorities themselves to resolve.

Rwy'n credu'n wirioneddol mai materion i'r awdurdodau lleol eu hunain eu datrys yw'r rhain.

## Colegau Diogel

## Secure Colleges

14:59 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

*14. Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal ynghylch colegau diogel yng Nghymru? OAQ(4)0493(PS)*

*14. What recent discussions has the Minister held regarding secure colleges in Wales? OAQ(4)0493(PS)*

14:59 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Soniodd y comisiynydd plant am y mater y bore yma. Byddwn ni'n ymateb yn fuan i ymgynghoriad gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar yr egwyddorion sy'n sail i'r rheolau arfaethedig ar gyfer colegau diogel.

The children's commissioner discussed this issue this morning, and we will be responding soon to a UK Government consultation on the principles underpinning the proposed rules for secure colleges.

15:00 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Thanks for the answer. I think the UK Government, however, is pressing ahead with a planning application for the establishment of the first secure college at Glen Pava in Leicestershire. Given that youth justice has not yet been devolved, will the Welsh Government have any involvement in overseeing? There are concerns. You may know that the Howard League for Penal Reform, for example, announced yesterday that it opposes the principle. What role will the Welsh Government have, given that the college will serve offenders from both England and Wales?

Diolch am yr ateb. Rwy'n meddwl, fodd bynnag, fod Llywodraeth y DU yn bwrw ymlaen gyda chais cynllunio ar gyfer sefydlu'r coleg diogel cyntaf yn Glen Pava yn Swydd Gaerlŷr. O ystyried nad yw cyfiawnder ieuenctid yn fater wedi'i ddatganoli hyd yma, a fydd rhan gan Lywodraeth Cymru yn y broses oruchwylio? Mae yna bryderon. Efallai eich bod yn gwybod bod Cynghrair Howard er Diwygio Cosbau, er enghraifft, wedi cyhoeddi ddoe ei fod yn gwrthwynebu'r egwyddor. Pa rôl fydd gan Lywodraeth Cymru, o gofio y bydd y coleg yn gwasanaethu troseddwyr o Gymru a Lloegr?

15:00 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

This is an issue that I would expect to discuss with my counterparts in Whitehall. As I explained in the answer, there is a consultation on the principles underpinning the rules for secure colleges, and we will be pursuing those discussions with the Ministry of Justice. It has been in touch with us on these issues.

Mae hwn yn fater y byddwn yn disgwyl ei drafod â'm cymheiriaid yn Whitehall. Fel yr eglurais yn yr ateb, mae ymgynghoriad ar y gweill ar yr egwyddorion sy'n sail i'r rheolau ar gyfer colegau diogel, a byddwn yn mynd ar drywydd y trafodaethau hynny gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae wedi bod yn cysylltu â ni ar y materion hyn.

**Blaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth Leol**

**Priorities for Local Government**

15:01 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

*15. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei flaenoriaethau ar gyfer llywodraeth leol yng ngorllewin Cymru dros y 12 mis nesaf? OAQ(4)0479(PS)*

*15. Will the Minister make a statement on his priorities for local government in west Wales for the next 12 months? OAQ(4)0479(PS)*

15:01 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

My priority is the reform of local government in Wales.

Fy mlaenoriaeth yw diwygio llywodraeth leol yng Nghymru.

15:01 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Thank you for that short answer, Minister. As you will no doubt be aware, Pembrokeshire County Council recently voted to increase council tax by 3.4% in 2014-15, yet if Pembrokeshire returned to the old Dyfed model as suggested by the Williams commission, I am given to understand that there could be a 26% rise in council tax in Pembrokeshire. What assessment has the Welsh Government made of the effect of mergers on council tax levels across Wales, particularly in areas such as Pembrokeshire where there could be substantial increases for council tax payers?

Diolch i chi am yr ateb byr, Weinidog. Fel y gwyddoch, mae'n siŵr, yn ddiweddar pleidleisiodd Cyngor Sir Penfro i gynyddu treth y cyngor 3.4% yn 2014-15, ac eto pe bai Sir Benfro yn dychwelyd i hen fodel Dyfed fel yr awgrymwyd gan gomisiwn Williams, rwy'n deall y gallai fod cynnydd o 26% yn y dreth gyngor yn Sir Benfro. Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith yr uno ar lefelau'r dreth gyngor ledled Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd fel Sir Benfro lle gallai fod cynnydd sylweddol i'r rhai sy'n talu'r dreth gyngor?

15:01 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

I look forward to Pembrokeshire County Council coming forward with a proposal for voluntary merger with one of its neighbouring authorities, and then to considering any questions that may arise in respect of council tax at that point.

Edrychaf ymlaen at weld Cyngor Sir Penfro yn cyflwyno cynnig ar gyfer uno'n wirfoddol gydag un o'r awdurdodau cyffiniol, ac yna at ystyried unrhyw gwestiynau a allai godi mewn perthynas â'r dreth gyngor ar yr adeg honno.

15:02 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

15:02

## Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Burfa Murco, Aberdaugleddau

## Statement: Update on Murco Refinery, Milford Haven

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on the Minister for Economy, Science and Transport, Edwina Hart.

Rwy'n galw ar Edwina Hart, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

15:02 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

I am today, as agreed, updating Members on the Murco refinery following my statement last week. This is a difficult time for the employees of the company, their families, and the wider community in Pembrokeshire. We now need to focus on doing all we can to maximise the opportunities for employment at the site, and ensure the employment and skills are retained for the future prosperity of the region.

Fel y cytunwyd, rwyf heddiw'n cyflwyno'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau am burfa Murco yn dilyn fy natganiad yr wythnos diwethaf. Mae hwn yn gyfnod anodd i weithwyr y cwmni, eu teuluoedd, a'r gymuned ehangach yn Sir Benfro. Mae angen i ni bellach ganolbwyntio ar wneud popeth o fewn ein gallu i wneud y gorau o'r cyfleoedd gwaith ar y safle a sicrhau bod cyflogaeth a sgiliau yn cael eu cadw er ffyniant y rhanbarth yn y dyfodol.

Yesterday I chaired a meeting of the Murco taskforce. We discussed a range of issues, including support for the Murco employees and contractors, business support, the role of enterprise zones and the issues with connectivity and transport. In terms of support for the employees, we will of course provide support for those facing redundancy through our ReAct programme. I have been asked by the taskforce to consider the use of the ProAct scheme, which has been used to great effect in the past, and I have instructed officials to consider the proposal and provide me with further advice.

Ddoe cadeiriais gyfarfod o dasglu Murco. Buom yn trafod amrywiaeth o faterion, yn cynnwys cymorth i weithwyr Murco a chontractwyr, cymorth busnes, rôl ardaloedd menter a materion yn ymwneud â chysylltedd a chludiant. O ran cymorth i'r gweithwyr, byddwn wrth gwrs yn rhoi cymorth i'r rhai sy'n wynebu cael eu diswyddo drwy ein rhaglen ReAct. Rwyf wedi gofyn i'r tasglu ystyried y defnydd o'r cynllun ProAct, a ddefnyddiwyd yn effeithiol iawn yn y gorffennol, ac rwyf wedi cyfarwyddo swyddogion i ystyried y cynnig a rhoi cyngor pellach i mi.

We will also be working with the Confederation of British Industry and other business leaders on opportunities across the sector to bring employers together with prospective employees. We will therefore be holding a series of events, starting with a jobs fair event on 10 December at the Bridge Innovation Centre.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda Chydffederasiwn Diwydiant Prydain ac arweinwyr busnes eraill ar gyfleoedd ar draws y sector i ddod â chyflogwyr ynghyd â darpar weithwyr. Felly, byddwn yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau, gan ddechrau gyda Ffair swyddi ar 10 Rhagfyr yng Nghanolfan Arloesi'r Bont.

We have taken immediate measures to ensure that the apprentices on site can continue their learning pathway. I am very grateful to Valero Energy Corporation for agreeing to offer placements to all the Murco apprentices onto its excellent apprenticeship programme so that they can maintain their studies.

Rydym wedi rhoi camau ar waith ar unwaith i sicrhau y gall y prentisiaid ar y safle barhau â'u llwybr dysgu. Rwy'n ddiolchgar iawn i Valero Energy Corporation am gytuno i gynnig lle i holl brentisiaid Murco ar ei raglen brentisiaeth wych fel y gallant ddal ati gyda'u hastudiaethau.

The taskforce will also be taking forward a work programme that maximises the skills and training activities on site to support the employers and the wider contractor workforce, with opportunities to skill up so that that they are able to transfer their skills and enter new sectors. I will be working with the Deputy Minister for Skills and Technology to take this work forward.

Bydd y tasglu hefyd yn bwrw ymlaen â rhaglen waith sy’n manteisio i’r eithaf ar y sgiliau a’r gweithgareddau hyfforddi ar y safle i gefnogi’r cyflogwyr a’r gweithlu ehangach o gontractwyr, gyda chyfleoedd i wella’u sgiliau er mwyn iddynt allu trosglwyddo eu sgiliau a mynd i mewn i sectorau newydd. Byddaf yn gweithio gyda’r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg i symud y gwaith hwn yn ei flaen.

We will also continue to support business growth in the area. Business Wales will offer an enhanced service from its Pembroke Dock offices, and will be providing an additional presence on the high street to ensure that we provide advice and support to local businesses to explore new markets and for those wishing to set up in business.

Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi twf busnesau yn yr ardal. Bydd Busnes Cymru yn cynnig gwasanaeth gwell o’i swyddfeydd yn Noc Penfro a bydd yn darparu presenoldeb ychwanegol ar y stryd fawr er mwyn sicrhau ein bod yn darparu cyngor a chefnogaeth i fusnesau lleol archwilio marchnadoedd newydd ac ar gyfer rhai sydd am sefydlu busnes.

I will be introducing a special round of the Welsh economic growth fund that will be open to support businesses in creating and safeguarding employment in Pembrokeshire. That £3 million fund will sit alongside a £500,000 new round of the SME growth fund that I am committing to, aimed at supporting smaller and micro-sized companies to maximise the employment and growth opportunities in the region.

Byddaf yn cyflwyno rownd arbennig o gronfa twf economaidd Cymru a fydd yn agor i gynorthwyo busnesau i greu a diogelu swyddi yn Sir Benfro. Bydd y gronfa £3 miliwn yn cymryd ei lle ochr yn ochr â rownd newydd gwerth £500,000 o gronfa twf busnesau bach a chanolig rwy’n ymrwymo iddi gyda’r nod o gynorthwyo cwmnïau o faint micro i fanteisio i’r eithaf ar gyfleoedd cyflogaeth a thwf yn y rhanbarth.

We will of course be exploring the use of European moneys to meet our goals and be working with the UK Government to consider the use of the European Union’s globalisation adjustment fund.

Wrth gwrs, byddwn yn archwilio’r defnydd o arian Ewropeaidd i gyflawni ein nodau ac yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i ystyried y defnydd o gronfa addasu i effeithiau globaleiddio yr Undeb Ewropeaidd.

The energy sector is integral to the economic fabric of the local area and is a specific priority of the Haven Waterway enterprise zone. Today, I am announcing the appointment of Mr Stan McIlvenny OBE as the new chair of the Haven Waterway enterprise zone. He is currently the chief executive and company secretary of the Port of Waterford Company, and brings a wealth of experience and expertise in the port sector across shipping, logistics, warehousing, rail and fleet transport. He will take up his position with immediate effect and will chair tomorrow’s meeting of the enterprise zone board. I know that he will be keen to give early consideration to the boundaries of the zone and the opportunities it can deliver in light of the Murco announcement.

Mae’r sector ynni yn rhan annatod o wead economaidd yr ardal leol ac yn un o flaenoriaethau penodol ardal fenter Dyfrffordd y Daugleddau. Heddiw, rwy’n cyhoeddi penodiad Mr Stan McIlvenny OBE yn gadeirydd newydd ardal fenter Dyfrffordd y Daugleddau. Ar hyn o bryd, ef yw prif weithredwr ac ysgrifennydd Port of Waterford Company, ac mae ganddo ehangder o brofiad ac arbenigedd yn y sector porthladdoedd ym meysydd morgludiant, logisteg, warysau, rheilffyrdd a chludiant fflyd. Bydd yn dechrau ei swydd ar unwaith ac yn cadeirio cyfarfod bwrdd yr ardal fenter yfory. Gwn y bydd yn awyddus i roi ystyriaeth gynnar i ffiniau’r ardal fenter a’r cyfleoedd y gall ei sicrhau yn sgil cyhoeddiad Murco.

I am also keen that we look at how we enhance connectivity within the area to promote business opportunities. I have specifically accelerated the superfast project to bring early benefits to the Haven enterprise zone, and good progress has already been made with nearly 23,000 premises in the area already able to receive superfast broadband services. We are also finalising the details of how we can provide additional telecommunications support to businesses in the enterprise zone, and the Deputy Minister for Skills and Technology will be making an announcement on this later in the month.

Rwyf hefyd yn awyddus i ni edrych ar sut i wella cysylltedd yn yr ardal er mwyn hyrwyddo cyfleoedd busnes. Rwyf wedi mynd ati’n benodol i gyflymu’r prosiect cyflym iawn i ddod â manteision cynnar i ardal fenter y Daugleddau ac mae cynnydd da eisoes wedi’i wneud gyda bron i 23,000 o dai yn yr ardal eisoes yn gallu derbyn gwasanaethau band eang cyflym iawn. Rydym hefyd yn cwblhau manylion ynghylch sut y gallwn ddarparu cefnogaeth delathrebu ychwanegol i fusnesau yn yr ardal fenter a bydd y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg yn gwneud cyhoeddiad ar hyn yn ddiweddarach yn y mis.

In terms of transport links, I have been asked by the taskforce to consider the issue of the dualling of the A40. I have instructed my officials to accelerate to the fullest extent possible the programme for delivering improvements at Llanddewi Velfrey. I have also asked my officials to conduct further urgent work to explore additional ways to improve the A40, including the potential for dualling. This work will be complete within six months. As a Government, we are determined to do everything in our power to support the workforce and the local community of Pembrokeshire, and we will explore every avenue with the company and partners to maximise the economic opportunities for the region. As part of this, I have decided to enhance the membership of the taskforce to bring in additional expertise.

O ran cysylltiadau trafnidiaeth, mae'r tasglu wedi gofyn i mi ystyried mater deuoli'r A40. Rwyf wedi cyfarwyddo fy swyddogion i gyflymu cymaint ag sy'n bosibl ar y rhaglen i sicrhau gwelliannau yn Llanddewi Felffre. Rwyf hefyd wedi gofyn i fy swyddogion wneud gwaith brys pellach i archwilio ffyrdd ychwanegol o wella'r A40, gan gynnwys y potensial ar gyfer gwaith deuoli. Bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau cyn pen chwe mis. Fel Llywodraeth, rydym yn benderfynol o wneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi'r gweithlu a chymuned leol Sir Benfro a byddwn yn archwilio pob opsiwn gyda'r cwmni a phartneriaid i wneud y gorau o'r cyfleoedd economaidd ar gyfer y rhanbarth. Yn rhan o hyn, rwyf wedi penderfynu ehangu aelodaeth y tasglu i gynnwys arbenigwyr ychwanegol.

I have asked Roger Evans MBE to chair the taskforce. Roger is managing director and plant director at Schaeffler and is a member of the St Athan and Cardiff Airport enterprise zone board. I am grateful to Roger for agreeing to take up this challenge. I know that his years of experience in the sector and personal commitment will provide the drive for the agenda going forward. I have also asked Emma Watkins, director of CBI Wales, to join the group. Emma's background and expertise will help us to link in with anchor companies across Wales. Roger and Emma will work alongside the existing membership of the taskforce, which includes representatives from Murphy Oil Corporation, Murco, Pembrokeshire County Council, Pembrokeshire College, Unite the Union, and the Welsh and UK Governments. I am grateful for their work to date.

Rwyf wedi gofyn i Roger Evans MBE i gadeirio'r tasglu. Mae Roger yn rheolwr gyfarwyddwr a chyfarwyddwr safle yn Schaeffler ac mae'n aelod o fwrdd ardal fenter Sain Tathan a Maes Awyr Caerdydd. Rwy'n ddiolchgar i Roger am gytuno i ymgymryd â'r her hon. Gwn y bydd ei flynyddoedd o brofiad yn y sector a'i ymrwymiad personol yn sbardun i'r agenda yn y dyfodol. Rwyf hefyd wedi gofyn i Emma Watkins, cyfarwyddwr CBI Cymru, i ymuno â'r grŵp. Bydd cefndir ac arbenigedd Emma yn ein helpu i gysylltu â chwmnïau angori ar draws Cymru. Bydd Roger ac Emma yn gweithio ochr yn ochr ag aelodaeth bresennol y tasglu, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Murphy Oil Corporation, Murco, Cyngor Sir Penfro, Coleg Sir Benfro, Undeb Unite, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Rwy'n ddiolchgar am eu gwaith hyd yma.

The taskforce will focus on delivery—delivery of a package of support and assistance for those affected, and delivery of interventions to support the economic growth of the area. We will continue to provide advice and support for the workforce through our delivery partners, and I have asked the taskforce to extend that support mechanism to the contractor network. We must ensure that all those affected have the right information and skills to make the difficult choices ahead of them. The wider Murco workforce is highly skilled and has an excellent reputation, and we will work with businesses partners in Wales and further to identify new employment opportunities for those affected by redundancy.

Bydd y tasglu yn canolbwyntio ar gyflenwi—cyflenwi pecyn cymorth ar gyfer y rhai sy'n cael eu heffeithio a chyflenwi ymyriadau i gefnogi twf economaidd yr ardal. Byddwn yn parhau i roi cyngor a chefnogaeth i'r gweithlu drwy ein partneriaid cyflenwi ac rwyf wedi gofyn i'r tasglu ymestyn y mecanwaith cefnogi i gynnwys y rhwydwaith contractwyr. Rhaid i ni sicrhau bod pawb yr effeithir arnynt yn cael y wybodaeth a'r sgiliau cywir i wneud y dewisiadau anodd sydd o'u blaenau. Mae gweithlu ehangach Murco yn fedrus iawn a chanddo enw rhagorol, a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid busnesau yng Nghymru ac ymhellach i nodi cyfleoedd cyflogaeth newydd ar gyfer y rhai sy'n cael eu heffeithio gan ddiswyddiadau.

15:08 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

I thank the Minister for her update this afternoon on the situation at the Murco refinery. Last Friday, I held a joint surgery with my local MP and the Secretary of State for Wales to discuss the issues now facing those affected by the collapse of the Murco sale. Naturally, a number of issues were raised that afternoon. As I am sure the Minister will appreciate, it was a very emotional and difficult afternoon. Since her statement last week, can the Minister tell us what specific discussions she has had with the UK Government regarding Murco and the oil refinery site? In light of those specific discussions, what new joint action will the Welsh Government be taking? I am sure that we would all agree that a collaborative approach between the UK and Welsh Governments is now more important than ever, and so I hope that the spirit in which previous intergovernmental working has happened will continue. Last week, you made it clear that some informal discussions had taken place last Wednesday morning about what further interest there might be, and so I wonder whether you might be in a position to provide some further information on what steps have been taken by officials since those initial discussions.

Diolch i'r Gweinidog am roi'r newyddion diweddaraf y prynhawn yma ar y sefyllfa ym mhurfa Murco. Ddydd Gwener diwethaf, cynhaliais gymhorthfa ar y cyd â fy AS lleol ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru i drafod y materion sydd bellach yn wynebu'r rhai yr effeithir arnynt gan y methiant i werthu Murco. Yn naturiol, cafodd nifer o faterion eu codi y prynhawn hwnnw. Fel rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn gwerthfawrogi, roedd yn brynhawn emosiynol ac anodd iawn. Ers ei datganiad yr wythnos diwethaf, a all y Gweinidog ddweud wrthym pa drafodaethau penodol y mae wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch Murco a'r burfa olew? Yng ngoleuni'r trafodaethau penodol hynny, pa gamau newydd ar y cyd y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd? Rwy'n siŵr y byddem i gyd yn cytuno bod agwedd gydweithredol rhwng y Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru bellach yn bwysicach nag erioed ac felly rwy'n gobeithio y bydd yr ysbryd a oedd yn sail i waith rhynglywodraethol blaenorol yn parhau. Yr wythnos diwethaf, gwnaethoch hi'n eglur fod rhai trafodaethau anffurfiol wedi digwydd fore dydd Mercher diwethaf ynglŷn ag unrhyw ddiddordeb pellach a allai fod, ac felly, tybed a ydych mewn sefyllfa i roi rhagor o wybodaeth ynghylch pa gamau a gymerwyd gan swyddogion ers y trafodaethau cychwynnol hynny.

As Members have previously recognised, this is a particularly difficult period for the workers at the refinery site, and it is essential that they have the appropriate support to help them to support their families. I very much welcome the fact that today's statement confirms that the taskforce will take forward a work programme that maximises the skills and training activities on site to support the employers and the wider contractor workforce to upskill.

Fel y mae'r Aelodau wedi cydnabod o'r blaen, mae hwn yn gyfnod arbennig o anodd i weithwyr y burfa ac mae'n hanfodol eu bod yn cael y gefnogaeth briodol i'w helpu i gynnal eu teuluoedd. Croesawaf yn fawr iawn y ffaith bod y datganiad heddiw yn cadarnhau y bydd y tasglu yn datblygu rhaglen waith sy'n manteisio i'r eithaf ar y sgiliau a'r gweithgareddau hyfforddi ar y safle i gefnogi'r cyflogwyr a'r gweithlu ehangach o gontractwyr i wella'u sgiliau.

I would be grateful if the Minister could give us an indication of when this particular work programme will be fully operational. It is essential that there are short, medium and longer-term packages in place. There needs to be something that can build on some of the successes that the Welsh Government and, indeed, UK Government have had elsewhere. In Newport, for example, the creation of the not-for-profit regeneration firm Newport Unlimited helped tackle huge steel industry job losses. So, perhaps the Minister could tell us whether there are any plans to establish similar models in Pembrokeshire.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog roi syniad i ni pa bryd y bydd y rhaglen waith benodol yn gwbl weithredol. Mae'n hanfodol fod yna becynnau tymor hwy, tymor canolig a thymor byr ar waith. Mae angen cael rhywbeth a all adeiladu ar rai o'r llwyddiannau y mae Llywodraeth Cymru ac yn wir, Llywodraeth y DU wedi'u cael mewn mannau eraill. Yng Nghasnewydd, er enghraifft, mae creu'r cwmni adfywio dielw Newport Unlimited wedi helpu i fynd i'r afael â cholli swyddi ar raddfa enfawr yn y diwydiant dur. Felly, efallai y gallai'r Gweinidog ddweud wrthym a oes unrhyw gynlluniau i sefydlu modelau tebyg yn Sir Benfro.

I welcome the fact that ReAct support will be made available to the workforce and that the Minister will consider using the ProAct scheme, but I would be grateful if the Minister could tell us what other training opportunities will be made available to these workers, given the specific nature of their work. I note from today's statement that she will be working with the Deputy Minister for Skills and Technology, but could she tell us what discussions she has already had with the Deputy Minister on that particular issue?

Croesawaf y ffaith y bydd cymorth ReAct ar gael i'r gweithlu ac y bydd y Gweinidog yn ystyried defnyddio'r cynllun ProAct, ond byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog ddweud wrthym pa gyfleoedd hyfforddi eraill a fydd ar gael i'r gweithwyr hyn o ystyried natur benodol eu gwaith. Sylwaf o ddatganiad heddiw y bydd hi'n gweithio gyda'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, ond a allai ddweud wrthym pa drafodaethau y mae hi eisoes wedi'u cael gyda'r Dirprwy Weinidog ar y mater penodol hwnnw?

I am sure that the Minister will agree that regenerative funding will play a vital role in supporting the local economy and local businesses. In relation to mitigating the effect of this on businesses in the supply chain, I am pleased that the Minister has today announced that Business Wales will now offer an enhanced service from its Pembroke Dock offices and will be providing an additional presence on the high street. Given that Pembrokeshire has, in the past, received very little regeneration funding compared with other parts of Wales, it is essential that cast-iron guarantees are made to ensure that Pembrokeshire will receive the adequate funding it so desperately needs.

Rwy'n sicr y bydd y Gweinidog yn cytuno y bydd cyllid adfywio yn chwarae rôl hanfodol yn cefnogi'r economi leol a busnesau lleol. Mewn perthynas â lliniaru effaith hyn ar fusnesau yn y gadwyn gyflenwi, rwy'n falch fod y Gweinidog wedi cyhoeddi heddiw y bydd Busnes Cymru bellach yn cynnig gwasanaeth ychwanegol o'i swyddfeydd yn Noc Penfro a bydd yn darparu presenoldeb ychwanegol ar y stryd fawr. O ystyried mai ychydig iawn o arian adfywio y mae Sir Benfro wedi'i gael yn y gorffennol o gymharu â rhannau eraill o Gymru, mae'n hanfodol fod gwarantau cadarn yn cael eu rhoi i sicrhau y bydd Sir Benfro yn cael y cyllid digonol y mae cymaint o'i angen.

I very much welcome the fact that a special round of the Welsh economic growth fund totalling £3 million will sit alongside a £500,000 new round of the SME growth fund. However, under the circumstances, can the Minister expand on this specific announcement and tell us when she envisages these funds being made available and when they will be open for use?

Croesawaf yn fawr y ffaith y bydd rownd arbennig o gronfa twf economaidd Cymru gwerth cyfanswm o £3 miliwn yn cymryd lle ochr yn ochr â rownd newydd gwerth £500,000 o gronfa twf busnesau bach a chanolig. Fodd bynnag, o dan yr amgylchiadau, a all y Gweinidog ymhelaethu ar y cyhoeddiad penodol hwn a dweud wrthym pa bryd y mae'n rhagweld y daw'r cronfeydd hyn ar gael a pha bryd y byddant yn agored i'w defnyddio?

I am pleased that the Minister has reported that the taskforce is looking at ways forward. It is good to hear that the Welsh Government is taking the appropriate steps as a matter of urgency. The Minister will not be surprised that I am absolutely delighted that she has instructed her officials to conduct work to explore the dualling of the A40. She will know that this is something for which I have been campaigning for many years. I welcome that this work will be completed in six months' time, but can she confirm today that, once this work has been completed, she will publish the findings of that work and make an oral statement in this Chamber?

Rwy'n falch fod y Gweinidog wedi adrodd bod y tasglu yn edrych ar ffyrdd ymlaen. Mae'n dda clywed bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r camau priodol ar waith fel mater o frys. Ni fydd y Gweinidog yn synnu fy mod wrth fy modd ei bod wedi cyfarwyddo ei swyddogion i wneud gwaith ar archwilio'r posibilrwydd o ddeuoli'r A40. Bydd yn gwybod bod hyn yn rhywbeth y bûm yn ymgyrchu drosto ers blynyddoedd lawer. Croesawaf y ffaith y bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau ymhen chwe mis ond a wnaiff hi gadarnhau heddiw y bydd yn cyhoeddi canfyddiadau'r gwaith wedi iddo gael ei gwblhau ac y bydd yn gwneud datganiad ar lafar yn y Siambr hon?

I am also pleased to note in today's statement that Valero has agreed to offer placements to all of the Murco apprentices on its excellent apprenticeship programme. Given this development, can the Minister outline what support the Welsh Government can provide to Valero and what discussions she has had with Valero to see what other roles it can play to support some of the Murco employees?

Rwyf hefyd yn falch o nodi yn y datganiad heddiw fod Valero wedi cytuno i gynnig lle i bob un o brentisiaid Murco ar ei rhaglen brentisiaeth wych. O ystyried y datblygiad hwn, a all y Gweinidog amlinellu pa gymorth y gall Llywodraeth Cymru ei ddarparu i Valero a pha drafodaethau y mae hi wedi'u cael gyda Valero i weld pa rolau eraill y gallai eu chwarae i gefnogi rhai o weithwyr Murco?

In closing, Presiding Officer, can I once again thank the Minister for her statement this afternoon and for the open dialogue that she has had with Members on this very serious matter? I have no doubt that both the UK and Welsh Governments will continue to work tirelessly to explore all alternatives for the site and to support the workers at the refinery during this very difficult period. I look forward to hearing more about the outcomes from the taskforce in due course.

Wrth gloi, Lywydd, a gaf fi ddiolch eto i'r Gweinidog am ei datganiad y prynhawn yma ac am y ddeialog agored y mae wedi'i chael gyda'r Aelodau ar y mater hynod o ddifrifol hwn? Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n ddiflino i edrych ar yr holl ddewisiadau eraill ar gyfer y safle a chefnogi gweithwyr y burfa dros y cyfnod anodd hwn. Edrychaf ymlaen at glywed mwy am y canlyniadau gan y tasglu maes o law.

15:14

## Edwina Hart [Bywgraffiad] [Biography]

Thank you for your comments. I am sure that you had a very difficult time at the surgery that you held on the Friday, because it is very difficult speaking to people who are facing redundancy and when they are really gloomy, sometimes, about their future prospects.

Diolch i chi am eich sylwadau. Rwy'n siŵr eich bod wedi cael amser anodd iawn yn y gymhorthfa a gynhaliwyd gennych ddydd Gwener am ei bod yn anodd iawn siarad â phobl sy'n wynebu colli eu swyddi a phan fyddant ar brydiau'n wirioneddol ddigalon ynglŷn â'u rhagolygon ar gyfer y dyfodol.

In terms of discussions with the UK Government, I have had regular dialogue with Baroness Randerson on this matter. Baroness Randerson was invited to the taskforce yesterday, but unfortunately, because of other Government business in the House of Lords to do with our legislation, she was not able to attend. However, she did send an official, and there will be an open dialogue between us on all these relevant matters.

O ran trafodaethau gyda Llywodraeth y DU, rwyf wedi cael trafodaethau rheolaidd gyda'r Farwnes Randerson ar y mater hwn. Cafodd y Farwnes Randerson ei gwahodd i'r tasglu ddoe, ond yn anffodus, oherwydd busnes Llywodraeth arall yn Nhŷ'r Arglwyddi yn ymwneud â'n deddfwriaeth, ni allodd fynychu'r cyfarfod. Fodd bynnag, anfonodd swyddog, a bydd deialog agored rhyngom ar yr holl faterion perthnasol hyn.

I have also written to Matthew Hancock, the Minister of State for Skills and Enterprise, because there is an indication that there might be support from the UK Government to firm up what other support there could be from the UK Government. Jane Hutt has also written to Danny Alexander in light of the Secretary of State for Wales's comments about support from the UK Government, to see what money or funding might be available to assist us with any developments on that particular site. That is all ongoing work. The close relationship that we have had with the UK Government in trying to find a buyer and facilitate all that I am sure will continue, on both sides. It is important that we ensure that we do the best for the workers and the area within the situation.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Matthew Hancock, y Gweinidog Gwladol dros Sgiliau a Menter oherwydd ceir arwyddion y gallai fod cefnogaeth gan Lywodraeth y DU i gryfhau unrhyw gymorth arall a allai ddod gan Lywodraeth y DU. Hefyd, mae Jane Hutt wedi ysgrifennu at Danny Alexander yn sgîl sylwadau Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynglŷn â chymorth gan Lywodraeth y DU i weld pa arian neu gyllid a allai fod ar gael i'n cynorthwyo gyda datblygiadau ar y safle dan sylw. Mae hynny i gyd yn waith sy'n mynd rhagddo. Mae'r berthynas agos sydd wedi bod rhyngom a Llywodraeth y DU wrth geisio dod o hyd i brynwr a hyrwyddo hynny i gyd, rwy'n siŵr y bydd honno'n parhau ar y ddwy ochr. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau ein bod yn gwneud ein gorau i'r gweithwyr a'r ardal yn y sefyllfa hon.

In terms of workers, I have had several initial discussions with the Deputy Minister about what issues we need to take forward. Yesterday, her officials attended the taskforce, and they are working closely with Jobcentre Plus, in addition to working with the college about what we need to develop. Some of the issues were about paying for people to take an additional qualification that would allow them to work in another part of their industry. Those discussions are ongoing. We will have proposals on those particular elements.

O ran gweithwyr, rwyf wedi cael nifer o drafodaethau cychwynnol gyda'r Dirprwy Weinidog ynglŷn â pha faterion y mae angen i ni fwrw ymlaen â hwy. Ddoe, mynychodd ei swyddogion gyfarfod y tasglu ac maent yn gweithio'n agos gyda'r Ganolfan Byd Gwaith yn ogystal â gwaith gyda'r coleg ynglŷn â'r hyn sydd angen i ni ei ddatblygu. Roedd rhai o'r materion yn ymwneud â thalu i bobl geisio am gymhwyster ychwanegol a fyddai'n eu galluogi i weithio mewn rhan arall o'u diwydiant. Mae'r trafodaethau hynny'n parhau. Bydd gennym argymhellion ar yr elfennau penodol hynny.

We are also aware that some of these people are so highly skilled that they are also going to be targeted now. Companies are already approaching workers from the North sea or for projects in the middle east. Obviously, that is good for them in terms of what they want to do with employment, but the worry for us is the skills lost to the Welsh economy if we cannot keep them in some way. Hence why we have started to look at ProAct about whether we can get some sort of involvement, paying them until almost the end of the process so that we have the opportunity to find jobs for them in Wales. That is why it is so important that we have had the involvement of the CBI, because it is dealing with the anchor companies in terms of which anchor companies in Wales might like to take these skilled people or what further training we might have to do. There is quite a lot of work involved in that.

Rydym yn ymwybodol hefyd fod rhai o'r bobl hyn mor hynod o fedrus fel eu bod hwythau hefyd yn mynd i gael eu targedu yn awr. Mae cwmnïau eisoes yn cysylltu â gweithwyr o fôr y Gogledd neu ar gyfer prosiectau yn y dwyrain canol. Yn amlwg, mae hynny'n dda iddynt o ran yr hyn y maent am ei wneud ynglŷn â chyflogaeth ond y pryder i ni yw'r sgiliau sy'n cael eu colli o economi Cymru os na allwn eu cadw mewn rhyw ffordd. Dyna pam rydym wedi dechrau edrych ar ProAct i weld a allwn gael rhyw fath o gyfranogiad, gan eu talu bron tan ddiwedd y broses fel ein bod yn cael cyfle i ddod o hyd i swyddi ar eu cyfer yng Nghymru. Dyna pam y mae mor bwysig ein bod yn cael cyfraniad y CBI am ei fod yn delio â'r cwmnïau angori o ran pa gwmnïau angori yng Nghymru a fyddai'n hoffi cymryd y bobl fedrus hyn neu pa hyfforddiant pellach y gallai fod yn rhaid i ni ei wneud. Mae cryn dipyn o waith ynghlwm wrth hynny.

In terms of the informal discussions, we did have some informal discussions last week with some interested parties. It is obviously a matter for Murphy Oil whether it decides to go ahead with any of those discussions. In fact, at the taskforce only yesterday, somebody raised an issue that they had a contact and whether it would be possible for us to direct them to Murphy Oil. We will do everything to facilitate that, but the final decisions on these matters will be for Murphy Oil in Little Rock.

O ran y trafodaethau anffurfiol, cawsom rai trafodaethau anffurfiol yr wythnos diwethaf gyda rhai partïon sydd â diddordeb. Yn amlwg, Murphy Oil sydd i benderfynu a yw'n symud ymlaen â'r trafodaethau hynny. Mewn gwirionedd, yn y tasglu ddoe ddiwethaf, nododd rhywun fod ganddynt gyswllt ac a fyddai'n bosibl i ni eu cyfeirio at Murphy Oil. Byddwn yn gwneud popeth i hwyluso hynny ond materion i Murphy Oil yn Little Rock yw'r penderfyniadau terfynol ar y materion hyn.

In terms of the work programme, this has actually started now in terms of skills. We brought forward the proposals for a skills fair from January to December so that it could get on the ground much more quickly, before people make decisions and do anything and so that they can get help and advice. There will obviously be short-term and medium-term packages, and everything is up for discussion on this agenda. There is no in or out on any of the discussions on this agenda. As I have said to the taskforce under Roger Evans, you must suggest to us whatever you think is the right thing to do on this particular agenda. We are obviously very concerned about the supply chain and the impact on the supply chain. We think that it is important that we recognise that that impact on quite a small tier in terms of employment can be quite dramatic. Hence we have decided to put the money into WEGF, because WEGF might attract employers that are thinking of investing to actually gee them into investing. This will be up and running fairly shortly. I have signed off the submission today and we want to get that money out. Likewise with the £500,000, we want that out of the door and we want people to come forward to deal with these issues.

Mae'r rhaglen waith wedi dechrau bellach o ran sgiliau. Rydym wedi symud yr argymhellion ar gyfer ffair sgiliau o fis Ionawr yn ôl i fis Rhagfyr fel bod modd i'r gwaith gychwyn yn gynt, cyn i bobl wneud penderfyniadau a gwneud gwneud unrhyw beth ac er mwyn iddynt gael cymorth a chyngor. Yn amlwg, bydd pecynnau ar gael ar gyfer y tymor byr a'r tymor canolig ac mae popeth yn agored i'w drafod mewn perthynas â'r agenda hon. Nid oes unrhyw beth na ellir ei drafod neu sy'n rhaid ei drafod ar yr agenda hon. Fel y dywedais wrth y tasglu dan gadeiryddiaeth Roger Evans, mae'n rhaid i chi awgrymu beth bynnag y credwch yw'r peth iawn i'w wneud ar yr agenda benodol hon. Rydym yn amlwg yn bryderus iawn am y gadwyn gyflenwi a'r effaith ar y gadwyn gyflenwi. Rydym yn credu ei bod yn bwysig i ni gydnabod y gallai'r effaith ar haen eithaf bach o ran cyflogaeth fod yn eithaf dramatig. Felly rydym wedi penderfynu rhoi'r arian i mewn i Gronfa Twf Economaidd Cymru gan y gallai'r Gronfa hon ddenu cyflogwyr sy'n ystyried buddsoddi i'w hysgogi i fuddsoddi mewn gwirionedd. Bydd hyn yn weithredol yn weddol fuan. Rwyf wedi cymeradwyo'r cais heddiw ac rydym yn awyddus i gael yr arian hwnnw allan. Yn yr un modd gyda'r £500,000, rydym am weld hwnnw'n mynd allan ac rydym am i bobl ddod ymlaen i ddelio â'r materion hyn.

On the question of Valero, I had the opportunity of speaking to the chief executive of Valero on Saturday. My officials have been in close dialogue. It has been marvellous as a company in terms of taking on the apprentices. It is very much a key company for us, so we want to help and assist. If it can do more to help and if we can help it to do more, it is certainly something that we will look at.

O ran mater Valero, cefais gyfle i siarad â phrif weithredwr Valero ddydd Sadwrn. Mae fy swyddogion wedi bod mewn trafodaethau agos â hwy. Mae'r cwmni wedi bod yn wych o ran cyflogi prentisiaid. Mae'n sicr yn gwmni allweddol i ni felly rydym yn awyddus i helpu a chynorthwyo. Os gall wneud mwy i helpu ac os gallwn ei helpu i wneud mwy, mae'n sicr yn rhywbeth y byddwn yn edrych arno.

In terms of the A40, yes, there will be progress on the assessment of this. There will have to be a business case, but I am happy to publish the work that arises from this. You will appreciate that there will be issues about environmental considerations and all those issues. I might have to buy property along the route if I decide to go ahead with it. [Laughter.] So, I think that it is important to recognise that there are a lot of issues here that we need to deal with. May I say, Presiding Officer, that I would be more than happy on a regular basis to update Members, whether it in an oral or a written statement, because I think that it is important that we keep a consensus in this Chamber about the support that we are able to give?

O ran yr A40, bydd gwaith yn mynd rhagddo ar asesu hyn. Bydd yn rhaid cael achos busnes ond rwy'n fodlon cyhoeddi'r gwaith sy'n codi o hyn. Byddwch yn deall y bydd materion yn codi ynghylch ystyriaethau amgylcheddol a'r holl faterion hynny. Efallai y bydd yn rhaid i mi brynu eiddo ar hyd y llwybr pe bawn yn penderfynu mynd ymlaen ag ef. [Chwerthin.] Felly, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig cydnabod bod yna lawer o faterion yma y mae angen i ni i ddelio â hwy. A gaf fi ddweud, Lywydd, y byddwn yn fwy na bodlon rhoi diweddariad rheolaidd i'r Aelodau, boed ar ffurf datganiad ysgrifenedig neu ar lafar, gan fy mod yn credu ei bod yn bwysig i ni gadw'r consensws yn y Siambr hon ynghylch y cymorth y gallwn ei roi?

15:19 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

It is at a time like this that open lines of communication are hugely important. The reason being that employees need to know exactly what is happening. I am pleased to put on record my thanks for your prompt statement today, Minister, following yesterday's meeting of the taskforce, and for your speedy appointment of the new chair of the Haven enterprise zone with port experience, and I look forward to meeting with him and the new appointments that you have made to strengthen the team. I also want to place on record my thanks to the commitment that Valero has shown to the apprentices who started out on their futures and, at least, they have secured those for now.

Ar adeg fel hon, mae llinellau cyfathrebu agored yn hynod o bwysig. Y rheswm am hynny yw bod angen i weithwyr wybod yn union beth sy'n digwydd. Mae'n bleser gennyf gofnodi fy niolch am eich datganiad prydlon heddiw, Weinidog, yn dilyn cyfarfod ddoe o'r tasglu ac am fynd ati mor gyflym i benodi cadeirydd newydd ardal fenter y Deugleddau â phrofiad gwaith ym maes porthladdoedd. Edrychaf ymlaen at ei gyfarfod ef a'r bobl newydd rydych wedi'u penodi i gryfhau'r tîm. Rwyf hefyd am gofnodi fy niolch i'r ymrwymiad y mae Valero wedi'i ddangos i'r prentisiaid a ddechreuodd ar eu gyrfaoedd i'r dyfodol, ac maent o leiaf wedi diogelu'r rheiny am y tro.

I do not think that any of us here will lose sight of the fact that Pembrokeshire still retains a strong energy sector with the LNG terminal, the Valero refinery and Pembroke B, the largest gas-fired power station in Europe. We have recognised—you most certainly have, Minister—that the immediate priority for staff will be to discuss job opportunities within the area, and we certainly do not want, as you have already mentioned, to lose the skills that exist currently in Pembrokeshire and in west Wales. There have been parallels drawn over the weekend with what happened a decade ago in Newport at the end of the steelmaking at Llanwern. I do not entirely agree with the analogy, because, as I have previously said, Pembrokeshire still retains a strong energy sector. However, what the success of Newport Unlimited teaches us is that regeneration on this sort of scale requires a decade-long commitment, and is that your ambition and vision for the Haven enterprise zone? It is my belief that there is a tremendous opportunity to consolidate Pembrokeshire's position as the UK's energy hub by diversifying into alternative energy generation and the training and skills that will deliver that. Is that something that the taskforce will be looking at in the longer term?

Nid wyf yn credu y bydd unrhyw un ohonom yma yn colli golwg ar y ffaith bod Sir Benfro yn dal i feddu ar sector ynni cryf gyda therfynell LNG, purfa Valero a Phenfro B, yr orsaf ynni nwy fwyaf yn Ewrop. Rydym wedi cydnabod—rydych chi'n bendant wedi gwneud hynny, Weinidog—mai'r flaenoriaeth gyntaf i staff fydd trafod cyfleoedd gwaith yn yr ardal, ac fel rydych eisoes wedi sôn, yn bendant nid ydym yn dymuno colli'r sgiliau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn Sir Benfro ac yng ngorllewin Cymru. Dros y penwythnos, tynnwyd sylw at y tebygrwydd rhwng yr hyn sy'n digwydd yno a'r hyn a ddigwyddodd ddegawd yn ôl yng Nghasnewydd wrth i'r gwaith dur yn Llanwern ddod i ben. Nid wyf yn cytuno'n llwyr â'r gyfatebiaeth oherwydd, fel y dywedais o'r blaen, mae gan Sir Benfro sector ynni cryf o hyd. Fodd bynnag, yr hyn y mae llwyddiant Newport Unlimited yn ei ddysgu i ni yw bod adfywio ar raddfa o'r fath yn galw am ymrwymiad dros ddegawd, ac ai dyna yw eich uchelgais a'ch gweledigaeth ar gyfer ardal fenter y Daugleddau? Yn fy marn i, mae yna gyfle gwych i atgyfnerthu sefyllfa Sir Benfro fel canolbwynt ynni'r DU drwy arallgyfeirio i gynhyrchu ynni amgen a'r hyfforddiant a'r sgiliau a fydd yn cyflawni hynny. A yw hynny'n rhywbeth y bydd y tasglu yn edrych arno yn y tymor hwy?

Finally, so that I do not repeat everything that Paul Davies has said, I will repeat this: I welcome your commitment to accelerate the upgrading of the A40. I will declare an interest, as I drive on it at least four times a week. I also ask, Minister, if you will provide a regular update on progress on that. I, like Paul, have lobbied for upgrades and dualling on the A40, but probably for a lot longer than he has.

Yn olaf, fel nad wyf yn ailadrodd popeth y mae Paul Davies wedi'i ddweud, rwyf am ailadrodd hyn: rwy'n croesawu eich ymrwymiad i gyflymu'r broses o uwchraddio'r A40. Rwy'n datgan buddiant gan fy mod yn gyrru ar hyd-ddi o leiaf bedair gwaith yr wythnos. Weinidog, rwyf hefyd yn gofyn i chi ddarparu diweddariad rheolaidd ar y datblygiadau sydd ynghlwm wrth hynny. Fel Paul, rwyf innau wedi lobïo dros uwchraddio a deuoli'r A40, ond ers llawer mwy o amser nag y mae ef wedi'i wneud yn ôl pob tebyg.

15:22

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Thank you very much. Obviously, our concern is the workforce, and we have been working very closely with Unite, the union that represents the workforce, and it is integral to the discussions that have taken place on the taskforce. In fact, it participated very well yesterday and had a good understanding with the company, I think, about how they need to take matters forward.

Diolch yn fawr iawn. Yn amlwg, ein pryder yw'r gweithlu, ac rydym wedi bod yn gweithio'n agos iawn gydag Unite, yr undeb sy'n cynrychioli'r gweithlu, ac mae'n rhan annatod o'r trafodaethau a gafodd y tasglu. Mewn gwirionedd, cymerodd ran dda iawn ddoe ac roedd ganddo ddealltwriaeth dda gyda'r cwmni, rwy'n credu, ynglŷn â'r modd y mae angen iddynt symud y materion hyn yn eu blaenau.

In terms of using the skills, we have the opportunity for individuals, although it might not be satisfactory, to remain working in Wales, perhaps in the Hitachi project in Ynys Môn, and, nearer, we have Hinkley as well. Some of those skills will be relevant, and some of the individuals will probably remain living in Pembrokeshire but work away. However, my principal concern is to keep as many of the skilled jobs within the Pembrokeshire and south Wales area as possible, and I think that the issue about enhancing what we have there currently in terms of the businesses is the way forward here.

O ran defnyddio'r sgiliau, er efallai na fydd yn foddhaol, mae yna gyfle i unigolion barhau i weithio yng Nghymru, o bosibl ym mhrosiect Hitachi ar Ynys Môn, ac yn agosach, mae gennym Hinkley hefyd. Bydd rhai o'r sgiliau hynny'n berthnasol a bydd rhai o'r unigolion yn parhau i fyw yn Sir Benfro yn ôl pob tebyg, ond gan weithio i ffwrdd. Fodd bynnag, yr hyn rwyf fwyaf o eisiau ei wneud yw cadw cynifer â phosibl o'r swyddi medrus yn ardal Sir Benfro a de Cymru, ac rwy'n credu mai mater o wella'r hyn sydd gennym yno ar hyn o bryd o ran y busnesau yw'r ffordd ymlaen yma.

I note everybody's comments about Newport Unlimited, which I would not necessarily share in any shape or form, bearing in mind that I had to establish a taskforce to deal with some of the issues in Newport last year, which took the discussions much further afield than Newport. However, I understand the commitment in terms of funding, and I think that we will have to see how the initial short-term measures and the medium-term measures go before we decide on what type of further commitment we can make there. Also, in terms of employment opportunities, I think that William Graham raised the South Hook power station issues and who can be involved in undertaking all that work, and that is very important. I will certainly continue to update Members on progress on all matters that were raised in my statement today.

Nodaf sylwadau pawb am Newport Unlimited, na fyddwn o reidrwydd yn eu rhannu mewn unrhyw fodd, o gofio y bu'n rhaid i mi sefydlu tasglu i ddelio â rhai o'r materion yng Nghasnewydd y llynedd a aeth â'r trafodaethau lawer ymhellach na Chasnewydd. Fodd bynnag, rwy'n deall yr ymrwymiad o ran cyllid ac rwy'n meddwl y bydd yn rhaid i ni weld sut y mae'r mesurau tymor byr cychwynnol a'r mesurau tymor canolig yn mynd rhagddynt cyn i ni benderfynu ar ba fath o ymrwymiad pellach y gallwn ei wneud yno. Hefyd, o ran cyfleoedd cyflogaeth, rwy'n credu bod William Graham wedi codi'r materion ynghylch gorsaf bŵer South Hook a phwy all wneud yr holl waith hwnnw, ac mae hynny'n bwysig iawn. Byddaf yn sicr yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar y cynnydd a wneir mewn perthynas â'r holl faterion a godwyd yn fy natganiad heddiw.

15:24

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

I would also like to thank the Minister for coming back to the Chamber with an oral statement on this very important matter and for the opportunity to question her on the content. I would like to start with the one piece of extremely heart-warming news in this statement, which was that the apprentices will be taken on by Valero. I think that that is very positive.

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog hefyd am gyflwyno datganiad ar lafar i'r Siambr ar y mater pwysig hwn ac am y cyfle i'w holi ar y cynnwys. Hoffwn ddechrau gyda'r un darn o newyddion hynod o galonogol yn y datganiad hwn, sef y bydd y prentisiaid yn cael eu cyflogi gan Valero. Credaf fod hynny'n gadarnhaol iawn.

It comes in a context where we know that the Government budget for apprenticeships next is going to be cut and, as Pembrokeshire College is so strongly associated with the work in the Haven and will need to pick up a lot of the skills needs now, following what has happened to Murco, I very much hope that the Minister will be able to discuss with the Deputy Minister for skills how that skills gap can be plugged, Although Valero has taken up those who are already on apprenticeships, this was a track for a number of people in the area to increase their skills, and it is a hole that will not be plugged over the forthcoming years unless we react to that.

Daw o fewn cyd-destun lle y gwyddom fod cyllideb y Llywodraeth ar gyfer y prentisiaethau nesaf yn mynd i gael ei thorri a chan fod cysylltiad mor gryf rhwng Coleg Sir Benfro â'r gwaith yn yr Aber a bod angen sicrhau'r sgiliau sydd eu hangen yn awr, yn dilyn beth a ddigwyddodd i Murco, rwy'n gobeithio'n fawr y bydd y Gweinidog yn gallu trafod gyda'r Dirprwy Weinidog sgiliau sut y gellir cau'r bwlch sgiliau. Er bod Valero wedi cyflogi'r rhai sydd eisoes ar brentisiaethau, roedd hwn yn llwybr i nifer o bobl yn yr ardal gynyddu eu sgiliau ac mae'n dwll na chaiff ei gau dros y blynyddoedd nesaf oni bai ein bod yn ymateb i hynny.

Although I welcome the Welsh economic growth fund announcement and the SME growth fund announcement, it was not clear from the statement—I am sorry, Minister—whether this was additional money. I would just like to have clarification about that, and how quickly this money, which you said that you had signed off, might become available in terms of the application process and so forth. The one thing that does concern me now is that many of the local companies and businesses in the area will have been very much reliant not just on the employment in Murco but also in the supply chain employment, and there will be a local business knock-on. We did have some relief from business rates when we looked at things like the foot-and-mouth disease outbreak and the impact of that. This is a specific thing in a specific area, but I would like the Government to examine the potential for some sort of temporary relief if necessary. We do not know quite how it will pan out, of course. If necessary, I would like the Minister to say whether she is looking at that or will commission work to examine that.

Er fy mod yn croesawu'r cyhoeddiad ar gronfa twf economaidd Cymru a'r cyhoeddiad ar gronfa twf busnesau bach a chanolig, nid oedd yn glir o'r datganiad—mae'n ddrwg gennyf, Weinidog—a oedd hwn yn arian ychwanegol. Hoffwn gael eglurhad ynglŷn â hynny, a pha mor gyflym y bydd yr arian hwn y dywedwch eich bod wedi'i gymeradwyo ar gael o ran y broses ymgeisio ac yn y blaen. Yr un peth sy'n peri pryder i mi yn awr yw y bydd llawer o'r cwmnïau a'r busnesau lleol yn yr ardal wedi bod yn ddibynnol iawn nid yn unig ar gyflogaeth Murco ond hefyd ar gyflogaeth y gadwyn gyflenwi, a bydd effaith ganlyniadol ar fusnesau lleol. Cawsom rywfaint o ryddhad ar ardrethi busnes yn sgîl edrych ar bethau fel yr achosion o glwy'r traed a'r genau ac effaith hynny. Mae hyn yn rhywbeth penodol mewn ardal benodol ond hoffwn i'r Llywodraeth edrych ar y potensial o gael rhyw fath o ryddhad dros dro os oes angen. Nid ydym yn gwybod yn iawn sut y bydd yn datblygu, wrth gwrs. Os bydd angen, hoffwn i'r Gweinidog ddweud a yw'n edrych ar hynny, neu a fydd yn comisiynu gwaith i edrych ar hynny.

I very much welcome the fact, since I asked her last week about European money, that there is further analysis of the EU's own globalisation adjustment fund, which is precisely for these kinds of issues. I would assume that the UK Government has to make the formal application for that, but I would very much hope that the Welsh Ministers will be involved in leading and putting pressure on the UK Government, because it is not very keen sometimes on doing these applications if they affect the rebate. Nevertheless, we would like to see something like this put together, if possible, for the areas. It does demonstrate the value of being members of the European Union if we can access these kinds of initial funding.

Ers i mi ofyn iddi yr wythnos diwethaf ynghylch arian o Ewrop, rwy'n croesawu'n fawr y dadansoddiad pellach o gronfa addasu'r UE ei hun i effeithiau globaleiddio, sy'n bodoli ar gyfer yr union fathau hyn o faterion. Byddwn yn tybio bod yn rhaid i Lywodraeth y DU wneud y cais ffurfiol am hwnnw, ond byddwn yn gobeithio'n fawr y bydd Gweinidogion Cymru yn cymryd rhan yn arwain a rhoi pwysau ar Lywodraeth y DU, gan nad yw'n awyddus iawn weithiau i wneud y ceisiadau hyn os ydynt yn effeithio ar yr ad-daliad. Serch hynny, byddem yn hoffi gweld rhywbeth fel hyn yn cael ei roi at ei gilydd, os yn bosibl, ar gyfer yr ardaloedd hyn. Mae'n dangos gwerth bod yn aelodau o'r Undeb Ewropeaidd os gallwn gael gafael ar y math hwn o gyllid cychwynnol.

I note from your statement that the new chair, who I welcome as the chair of the Haven Waterway Enterprise Zone board, is looking at the boundaries of the zone. Perhaps the whole of the Severn estuary is a little too big as the boundary of the zone, but I would like to understand a little more about what might be examined there. The reason for asking that is that you have just mentioned Hinkley, for example. Yes, there is an energy hub in Pembrokeshire, but it is part of an energy development right across the Severn, from Hinkley down to the tidal lagoon in Swansea and on to the marine tidal developments in Ramsey Sound. How will the zone—whether it has new boundaries or not—fit into those wider developments? That is the key question here.

Sylwaf o'ch datganiad fod y cadeirydd newydd rwy'n ei groesawu fel cadeirydd bwrdd Ardal Fenter Dyfrffordd y Daugleddau yn edrych ar ffiniau'r ardal. Efallai fod aber Hafren yn ei gyfanrwydd ychydig yn rhy fawr fel ffin i'r ardal, ond hoffwn ddeall ychydig mwy am yr hyn y gellid ei archwilio yno. Y rheswm dros ofyn hyn yw eich bod newydd grybwyll Hinkley, er enghraifft. Oes, mae canolfan ynni yn Sir Benfro, ond mae'n rhan o ddatblygiad ynni ar draws yr Hafren, o Hinkley i lawr at y morlyn llanw yn Abertawe ac ymlaen at y datblygiadau llanw morol yn Swnt Dewi. Sut y bydd yr ardal—pa un a oes iddi ffiniau newydd ai peidio—yn ffitio yn y datblygiadau ehangach hynny? Dyna'r cwestiwn allweddol yma.

Part of that, of course, is transport links. I very much welcome the improvements at Llanddewi Velfrey that you have mentioned and announced today. I am not one of those convinced that a complete dualling of the A40 is essential for economic development. We must get the balance right between tourism, the environmental impact and the access to markets. So, I would look at the business case and make my decision based on that business case. However, I have never convinced, until now, that a complete dualling of that is correct. Of course, in the past we have put in additional other infrastructure, including more train services to west Wales, which has taken and relieved some of the pressure there. I hope that when you look at improving infrastructure links, you will find that it is not just the roads that you look at, but all transport links, including rail. You have mentioned broadband and telecommunications as an important part of that.

Rhan o hynny, wrth gwrs, yw cysylltiadau trafnidiaeth. Croesawaf yn fawr iawn y gwelliannau yn Llanddewi Felffre rydych wedi'u crybwyll a'u cyhoeddi heddiw. Nid wyf yn un o'r rheiny sy'n argyhoeddedig bod deuoli'r A40 yn llwyr yn hanfodol ar gyfer datblygiad economaidd. Mae'n rhaid i ni gael y cydbwysedd yn iawn rhwng twristiaeth, yr effaith ar yr amgylchedd a chyrraedd marchnadoedd. Felly, byddwn yn edrych ar yr achos busnes ac yn gwneud fy mhenderfyniad ar ei sail. Fodd bynnag, nid wyf wedi fy argyhoeddi hyd yn hyn mai deuoli llwyr yw'r ateb cywir. Wrth gwrs, yn y gorffennol rydym wedi ychwanegu seilwaith arall, yn cynnwys mwy o wasanaethau trên i orllewin Cymru, sydd wedi lleddfu rhywfaint o'r pwysau yno. Pan fyddwch yn ystyried gwelliannau i'r cysylltiadau seilwaith, gobeithio y gwelwch nad ar y ffyrdd yn unig y byddwch yn edrych, ond ar bob cysylltiad trafnidiaeth, yn cynnwys rheilffyrdd. Rydych wedi sôn am fand eang a thelathrebu fel rhan bwysig o hynny.

The final point that I would like to raise with you is the timing of all this. It seems to me that the taskforce is clearly a short-term measure to try to plug an immediate economic gap within the Pembrokeshire economy. It is the Haven Waterway Enterprise Zone that will be doing the long-term work. One thing that has been raised with me since your statement last week, however, is what happened to the retail arm. I did mention this last week in terms of it having been sold off. Some people have concerns that that, in effect, asset stripped Murco and made it easier for this decision to close the refinery to be made. I do not have the knowledge to make a decision around that, but it is something of concern to people that they are seeing one aspect—a successful part of the business—being sold off, and that that has made it easier for this particular refinery to be closed in this way. Whatever the truth or not of that, is there something specific that you can still be doing, because Murco still wants to use the refinery as a delivery mechanism for the retail side? Is there something flowing from that that is part of the package that the taskforce will be concentrating on?

Y pwynt olaf yr hoffwn ei godi gyda chi yw amseriad hyn i gyd. Mae'n ymddangos i mi fod y tasglu yn amlwg yn fesur tymor byr i geisio llenwi bwlch ar unwaith yn economi Sir Benfro. Ardal Fenter Dyfrffordd y Daugleddau fydd yn gwneud y gwaith tymor hir. Un peth a godwyd gyda mi ers eich datganiad yr wythnos diwethaf, fodd bynnag, yw beth ddigwyddodd i'r gangen fanwerthu. Soniais am hyn yr wythnos diwethaf o ran ei fod wedi'i werthu. Mae rhai pobl yn poeni bod hynny i bob pwrpas wedi cael gwared ar asedau Murco a gwneud y penderfyniad i gau'r burfa yn haws. Nid oes gennyf wybodaeth i benderfynu ynglŷn â hynny, ond mae'n rhywbeth sy'n peri pryder i bobl eu bod yn gweld un agwedd— rhan lwyddiannus o'r busnes—yn cael ei gwerthu, ac mae hynny wedi'i gwneud yn haws cau'r burfa benodol hon yn y modd hwn. Beth bynnag yw'r gwir ynghylch hynny, a oes rhywbeth penodol y gallwch barhau i wneud, gan fod Murco yn dal yn awyddus i ddefnyddio'r burfa fel mecanwaith darparu ar gyfer yr ochr fanwerthu? A oes rhywbeth yn deillio o hynny sy'n rhan o'r pecyn y bydd y tasglu yn canolbwyntio arno?

15:29 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Thank you for your comments. Like you, I very much welcome the approach taken by Valero, but there was a discussion, which Pembrokeshire College was part of yesterday, about how we deal with apprenticeships in future in that area, and about having more shared apprenticeships and how we can support those. I think that that will be very useful in the type of economy that we have in Pembrokeshire. So, there will be more work to do on that particular area. I think that shared apprentices have proved excellent everywhere.

Diolch i chi am eich sylwadau. Fel chithau, rwy'n croesawu agwedd Valerio yn fawr iawn, ond roedd Coleg Sir Benfro yn rhan o drafodaeth ddoe ynglŷn â'r modd rydym yn ymdrin â phrentisiaethau yn yr ardal yn y dyfodol, ac ynglŷn â chael mwy o rannu prentisiaethau a sut y gallwn gefnogi hynny. Rwy'n credu y bydd hynny'n ddefnyddiol iawn yn y math o economi sydd gennym yn Sir Benfro. Felly, bydd mwy o waith i'w wneud yn y maes penodol hwnnw. Credaf fod rhannu prentisiaethau wedi gweithio'n rhagorol ym mhob man.

You make an excellent point on European money. It will be the UK Government that will have to ask for it. I can assure you that we will be keeping the pressure on across the piece. I will be asking Baroness Randerson to keep the pressure on from the Wales Office on this particular matter, because it is an opportunity to show the benefits of European Union membership, how Europe deals with a difficult situation, coming to the fore with giving cash. There has to be a discussion there and I think that there has to be an application there. That is absolutely clear.

Rydych yn gwneud pwynt ardderchog ynghylch arian Ewropeaidd. Llywodraeth y DU fydd yn gorfod gofyn amdano. Gallaf eich sicrhau y byddwn yn cadw'r pwysau ar bethau. Byddaf yn gofyn i'r Farwnes Randerson gadw'r pwysau ar y mater penodol hwn yn Swyddfa Cymru am ei fod yn gyfle i ddangos manteision bod yn aelodau o'r Undeb Ewropeaidd, a'r modd y mae Ewrop yn delio â sefyllfa anodd, gan ddod i'r blaen o ran rhoi arian parod. Mae'n rhaid cael trafodaeth yno a chredaf fod yn rhaid cael ymroddiad yno. Mae hynny'n gwbl glir.

With regard to the money I have announced, the Wales economic growth fund is additional money that I am looking at. It was not something that I was planning to spend, so it is money that I am looking at in my budget, which is additionality. I think that it is important that we do put something upfront. In terms of the Wales economic growth fund we already have the forms, which we want to simplify again, and the mechanism that is in place. I do not anticipate that it is going to take more than a couple of weeks for forms to be available for individuals to apply for these resources. I think that that is important.

O ran yr arian rwyf wedi'i gyhoeddi, arian ychwanegol rwy'n edrych arno yw cronfa twf economaidd Cymru. Nid oedd yn rhywbeth roeddwn yn bwriadu ei wario felly mae'n arian rwy'n ei ystyried fel ychwaneged yn fy nghyllideb. Credaf ei bod yn bwysig i ni wneud rhywbeth ymlaen llaw. O ran cronfa twf economaidd Cymru, eisoes mae gennym y ffurflenni rydym yn awyddus i'w symleiddio eto, ac mae'r mecanwaith yn ei le. Nid wyf yn rhagweld y cymer fwy nag ychydig wythnosau i'r ffurflenni ddod ar gael i unigolion allu gwneud cais am yr adnoddau hyn. Credaf fod hynny'n bwysig.

Turning to local companies and the supply chain, business rates is an issue that has been raised with me and is something that the taskforce will look at by way of whether we want to give temporary relief, as long as we have the evidence to back it up in terms of the use of Government resources. In terms of the zone boundary, I do not think that they were thinking of going out to sea. A lot of comments have been made that certain people are on one side of it and other companies that might take it on are on the other. So, I have asked them to look at that. However, you do make a good point about the wider issues about energy development all across the area, because there is even talk now about looking at a barrage again. It is very important that we pick up on those discussions. I will certainly ask my panel that deals with energy to have a look at this at the same time as all this work is going on; I think that it will be useful for it to do that.

Gan droi at gwmnïau lleol a'r gadwyn gyflenwi, mae ardrethi busnes yn fater sydd wedi'i godi gyda mi ac yn rhywbeth y bydd y tasglu yn ei ystyried i weld a ydym am roi rhyddhad ardrethi dros dro, cyn belled â bod gennym y dystiolaeth i gefnogi hynny mewn perthynas â'r defnydd o adnoddau'r Llywodraeth. O ran ffin yr ardal, nid wyf yn credu eu bod yn ystyried mynd allan i'r môr. Gwnaed llawer o sylwadau fod rhai pobl ar un ochr i ffin yr ardal a chwmnïau eraill a allai wneud defnydd ohono ar yr ochr arall. Felly, rwyf wedi gofyn iddynt edrych ar hynny. Fodd bynnag, rydych yn gwneud pwynt da am y materion ehangach ynghylch datblygu ynni ar draws yr ardal, gan fod sôn yn awr ynghylch ystyried morglawdd eto. Mae'n bwysig iawn ein bod yn nodi'r trafodaethau hynny. Byddaf yn sicr yn gofyn i fy mhanel sy'n ymdrin ag ynni i gael golwg ar hyn wrth i'r holl waith hwn gael ei wneud; rwy'n credu y bydd yn ddefnyddiol iddo wneud hynny.

Moving on to the issues around transport, you are right: I do have to get the balance right on this. That is why I would have to have a business case for the total dualling or for what I need to do on the A40. However, as I have indicated, I am happy to share what information arises from this, because people have told me in the last week, 'You have to do something about the road structure'. I am also keen to do something further about train services. That will be dependent on devolving powers to me to get better rolling stock in and to be able to deal with those areas much better than we are able to currently.

Gan symud ymlaen at y materion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth, rydych yn llygad eich lle: rhaid i mi gael y cydbwysedd yn iawn ar hyn. Dyna pam y byddai'n rhaid i mi gael achos busnes ar gyfer deuoli llawn neu ar gyfer yr hyn y mae angen i mi ei wneud ar yr A40. Fodd bynnag, fel y dywedais, rwy'n hapus i rannu'r wybodaeth sy'n codi o hyn am fod pobl wedi dweud wrthyf yn ystod yr wythnos diwethaf, 'Rhaid i chi wneud rhywbeth am y strwythur ffyrdd'. Rwyf hefyd yn awyddus i wneud rhywbeth pellach ynghylch gwasanaethau trên. Bydd hynny'n dibynnu ar ddatganoli pwerau i mi gael cerbydau gwell i mewn ac i allu delio â'r meysydd hynny'n llawer gwell nag y gallwn ar hyn o bryd.

In terms of the taskforce, it is doing the immediate work, but its immediate work might last six to 12 months. The Haven enterprise zone has the long-term work. It has to look at how it is targeting in the Haven. We are one of the best deep ports in the world; what are we bringing in there? Why is the food stock for the agriculture sector going through Bristol and not going through Milford Haven? There are a lot of key issues that we have to start to identify in our discussions with the Haven board and the enterprise zone. That is very much why I think that my new appointment, who understands shipping and all these issues, will be a very useful addition to the discussions that we are having down there.

O ran y tasglu, mae'n gwneud y gwaith sy'n rhaid ei wneud ar unwaith, ond efallai y bydd ei waith ar unwaith yn para chwech i 12 mis. Ardal fenter y Daugleddau sydd â'r gwaith hirdymor. Rhaid i'r ardal edrych ar y ffordd y mae'n targedu yn yr Aber. Rydym yn un o'r porthladdoedd dwfn gorau yn y byd; beth sy'n cael ei gludo i mewn yno? Pam y mae'r stoc bwyd ar gyfer y sector amaethyddol yn mynd drwy Fryste ac nid drwy Aberdaugleddau? Mae yna lawer o faterion allweddol sy'n rhaid i ni ddechrau eu nodi yn ein trafodaethau â bwrdd y Daugleddau a'r ardal fenter. Dyna'n union pam y credaf y bydd fy mhenodiad newydd, sy'n deall morgludiant a'r holl faterion hyn, yn ychwanegiad defnyddiol iawn at y trafodaethau rydym yn eu cael i lawr yno.

15:32 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Minister, thank you very much for that statement today. The people of Pembrokeshire will be grateful to you for bringing forward such a timely statement in the current difficulties. I want to very much pick up on your point regarding the danger of a brain drain and a skills drain out of the Welsh economy. I think that the steps that have been taken are welcome in that regard. It is also to be strongly welcomed that Valero has extended the opportunity for all current Murco apprenticeships to be recognised and built into its own programme. I was very impressed when I met, over a year ago now, Ed Tomp and his management team at Valero. Their commitment to the wider Pembrokeshire economy was evident at that time and, clearly, this is recognised today. Also, the appointment of Mr Stan McIlvenny OBE, with his international port experience, will be very welcome indeed in that regard, as will the fact that you have refreshed the membership of the taskforce. In the context of its work, Minister, do you consider that there may be some potential for exploring the Sirolli model, which has served so well in the Blaenau Gwent arena and is being explored currently in the Severn valley, as to whether or not that potentially could have something to offer, given the sort of solidarity that we see within the business community in Pembrokeshire at this time of difficulty?

Weinidog, diolch yn fawr iawn am y datganiad heddiw. Bydd pobl Sir Benfro yn ddiolchgar i chi am gyflwyno datganiad mor amserol yn yr anawsterau presennol. Rwy'n awyddus iawn i godi'r pwynt a wnaethoch ynglŷn â'r perygl o golli gwybodaeth a sgiliau o economi Cymru. Credaf fod croeso i'r camau a roddwyd ar waith yn hynny o beth. Dylid croesawu'n fawr hefyd y ffaith fod Valero wedi ymestyn y cyfle i holl brentisiaethau Murco gael eu cydnabod a'u cynnwys yn ei raglen ei hun. Gwnaeth Ed Tomp a'i dîm rheoli yn Valero argraff fawr arnaf pan gyfarfûm â hwy dros flwyddyn yn ôl bellach. Roedd eu hymrwymiad i economi ehangach Sir Benfro yn amlwg ar y pryd ac yn amlwg, caiff hyn ei gydnabod heddiw. Bydd croeso mawr yn wir i benodiad Mr Stan McIlvenny OBE yn y cyswllt hwnnw, gyda'i brofiad rhyngwladol ym maes porthladdoedd, ac i'r ffaith eich bod wedi adfywio aelodaeth y tasglu. Yng nghyd-destun ei waith, Weinidog, a ydych o'r farn y gallai fod rhywfaint o botensial ar gyfer archwilio model Sirolli, sydd wedi gweithio mor dda ym Mlaenau Gwent ac sy'n cael ei archwilio ar hyn o bryd yn nyffryn Hafren, o ran y posibilrwydd y gallai hynny fod â rhywbeth i'w gynnig o ystyried y math o undod a welwn yn y gymuned fusnes yn Sir Benfro ar yr adeg anodd hon?

I do not have the same scepticism with regard to the potential dualling of the A40, although, clearly, a solid and coherent business case is required, but all of the representations that I receive are strongly in support of such an initiative. In the context particularly of the community of Llanddewi Velfrey, which you mention, you have already been active in supporting the community with the petition that it has brought to this Assembly relating to those matters and I would ask you, Minister, to continue your practice of regularly updating us on that, as a committee. It is an area in which Joyce Watson has been particularly active, to give her the credit that is due.

Nid wyf mor amheus o ran y posibilrwydd o ddeuoli'r A40, er y bydd angen achos busnes cadarn a chydlynol, mae'n amlwg, ond mae'r holl sylwadau a ddaeth i fy sylw yn gryf o blaid menter o'r fath. Yng nghyd-destun penodol cymuned Llanddewi Felffre y soniwch amdani, rydych eisoes wedi bod yn weithgar yn cefnogi'r gymuned gyda'r ddeiseb a gyflwynwyd i'r Cynulliad sy'n ymwneud â'r materion hynny a byddwn yn gofyn i chi, Weinidog, barhau â'ch arfer o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ynghylch hynny, fel pwyllgor. Mae'n faes y bu Joyce Watson yn arbennig o weithgar ynddo, i roi'r clod sy'n ddyledus iddi.

In terms of the European Union funding potential, earlier in this session, Rhodri Glyn Thomas referred to the importance of exploring EIB funding, as well as European structural funds. In terms of potential port infrastructure, but also maybe extending the electrification programme further west than has currently been envisaged, would that be an innovative source of funding that you could take up maybe with Baroness Randerson, Matthew Hancock and the other Ministers to whom you have referred?

O ran potensial cyllid yr Undeb Ewropeaidd, yn gynharach yn y sesiwn hon, cyfeiriodd Rhodri Glyn Thomas at bwysigrwydd archwilio cyllid Banc Buddsoddi Ewrop, yn ogystal â chronfeydd strwythurol Ewropeaidd. O ran seilwaith porthladd posibl, ond hefyd efallai o ran ymestyn y rhaglen drydaneiddio ymhellach i'r gorllewin nag a ragwelir ar hyn o bryd, a fyddai hynny efallai'n ffynhonnell flaengar o gyllid y gallech ei thrafod gyda'r Farwnes Randerson, Matthew Hancock a Gweinidogion eraill y cyfeiriwch atynt?

However, in conclusion, Minister, it has been a very welcome interim statement, and we look forward to further statements on these matters. Thank you very much.

Fodd bynnag, i gloi, Weinidog, roedd yn ddatganiad interim sydd i'w groesawu'n fawr ac edrychwn ymlaen at ddatganiadau pellach ar y materion hyn. Diolch yn fawr iawn.

15:35 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

May I say that I very much support what the Member said about the brain drain issues? This is of concern, because I think that it is important that we can keep people within the communities in which they live, and that they do not have to go for work elsewhere. They are very skilled, and they will be offered employment, so we do have to focus on how we can get them into jobs within Pembrokeshire, as well as, of course, as far up as Swansea et cetera, because those are commutable distances that we are talking about.

A gaf fi ddweud fy mod yn cefnogi'n fawr iawn yr hyn a ddywedodd yr Aelod am golli gwybodaeth a sgiliau o'r economi? Mae'n destun pryder am ei bod hi'n bwysig, yn fy marn i, i ni allu cadw pobl yn y cymunedau lle maent yn byw ac nad oes rhaid iddynt fynd i gael gwaith yn rhywle arall. Maent yn fedrus iawn a byddant yn cael cynnig gwaith, felly rhaid i ni ganolbwyntio ar sut y gallwn gael swyddi ar eu cyfer yn Sir Benfro a chyn belled ag Abertawe ac ati wrth gwrs, gan eu bod yn bellteroedd y gellir cymudo iddynt.

In terms of the taskforce, I think that he made a particularly interesting point about the Sirolli model. That has been very successful in developing, in a different way, the aspirations. I will certainly ensure that the taskforce has the opportunity of having a briefing on the Sirolli model, so we might take that into account as just another thing to put into the jigsaw of help and assistance that we are giving, which will be very helpful.

O ran y tasglu, rwy'n meddwl ei fod wedi gwneud pwynt arbennig o ddiddorol am fodel Sirolli. Mae hwnnw wedi llwyddo'n dda i ddatblygu'r uchelgeisiau mewn ffordd wahanol. Yn bendant, byddaf yn sicrhau bod y tasglu'n cael cyfle i gael sesiwn friffio ar fodel Sirolli, felly efallai y byddwn yn ystyried hynny fel elfen arall i'w chynnwys yn y jig-so o help a chymorth rydym yn ei roi, a fydd yn ddefnyddiol iawn.

Your comments on the A40 are welcome, but, of course, you understand that we will have to look in detail at the business case. However, there is no doubt in my mind that, when industry speaks to me, it sees this as being an absolute priority for revitalisation within west Wales.

Mae eich sylwadau ar yr A40 i'w croesawu, ond wrth gwrs, rydych yn deall y bydd yn rhaid i ni edrych yn fanwl ar yr achos busnes. Fodd bynnag, wrth siarad â'r diwydiant, nid oes amheuaeth yn fy meddwl ei fod yn gweld hyn fel blaenoriaeth ddiamod ar gyfer adfywio yng ngorllewin Cymru.

On European funding, I think that we are going to have to put a lot of pressure on to make sure that the bid goes forward. I think that it is essential that we can get what we are able to get. I do not know all the criteria for this currently, and officials are working through it.

O ran arian Ewropeaidd, rwy'n credu ein bod yn mynd i orfod pwyso'n galed i wneud yn siŵr bod y cais yn cael ei gyflwyno. Rwy'n credu ei bod yn hanfodol i ni gael yr hyn y gallwn ei gael. Nid wyf yn gwybod beth yw'r holl feini prawf ar gyfer hyn ar hyn o bryd ac mae swyddogion yn gweithio drwy hynny.

In terms of the EIB, I think that we should use it more if we are looking for money, to be able to help and assist any projects there. I think that it is a very useful vehicle, and you can look at the success of EIB borrowing on other projects within Wales.

O ran Banc Buddsoddi Ewrop, rwy'n credu y dylem ddefnyddio mwy arno, os ydym yn chwilio am arian, er mwyn gallu helpu a chynorthwyo unrhyw brosiectau yno. Rwy'n credu ei fod yn gyfrwng defnyddiol iawn a gallwch edrych ar lwyddiant benthyca o Fanc Buddsoddi Ewrop ar gyfer prosiectau eraill yng Nghymru.

In terms of the electrification, may I say to you that I am having enough difficulty in sorting some of these matters out already, without perhaps going further than Swansea? We would have to look very carefully at a business case on those issues. Let us be absolutely frank: we have everything stacked up for Swansea, and we know what we are doing in terms of the Valley lines, but that might be a stage that we would have to look at. However, I would be more than happy to open up any dialogue, if Members thought that it was of particular benefit. However, in the immediate term, I would like to do what I am capable of doing here, and see what help and assistance I can have from elsewhere, and try to find some real solutions.

O ran trydaneiddio, a gaf fi ddweud wrthych fy mod yn cael digon o anhawster yn rhoi trefn ar rai o'r materion hyn yn barod, heb fynd ymhellach nag Abertawe. Byddai'n rhaid i ni edrych yn ofalus iawn ar achos busnes ar gyfer y materion hynny. Gadewch i ni fod yn gwbl onest: mae popeth wedi'i baratoi ar gyfer Abertawe ac rydym yn gwybod beth rydym yn ei wneud o ran rheilffyrdd y Cymoedd, ond efallai fod hwnnw'n gam y byddai'n rhaid i ni edrych arno. Fodd bynnag, byddwn yn fwy na hapus i agor unrhyw ddeialog, os yw'r Aelodau o'r farn y byddai hynny o fudd penodol. Fodd bynnag, yn y tymor byr iawn, hoffwn wneud yr hyn y gallaf ei wneud yma a gweld pa help a chymorth y gallaf ei gael o rywle arall, a cheisio dod o hyd i rai atebion go iawn.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:38.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:38.*

15:38 **Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Comisiynydd y Lluoedd Arfog** | **Welsh Conservatives Debate: An Armed Forces Commissioner** Y

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Galwaf ar Mark Isherwood i wneud y cynnig.

I call on Mark Isherwood to move the motion.

Cynnig NDM5614 Paul Davies

Motion NDM5614 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu swydd Comisiynydd y Lluoedd Arfog.

1. Calls upon the Welsh Government to establish an Armed Forces Commissioner.

15:38

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

Our armed forces do an incredible job. Each and every one of them deserves all possible help and support. Creating the position of armed forces commissioner in Wales could be an excellent opportunity to ensure that that happens. Working with charities, local authorities and health boards, the commissioner would be the first point of contact on all issues relating to support for our armed forces. He or she would engage with, listen to and act upon the experiences of all veterans, and the wider armed forces community in Wales. As well as having the power to make strong recommendations for improvement to the Welsh Government, the commissioner would also work to ensure that those improvements are made.

Mae ein lluoedd arfog yn gwneud gwaith anhygoel. Mae pob un ohonynt yn haeddu pob help a chymorth posibl. Gallai creu swydd comisiynydd y lluoedd arfog yng Nghymru fod yn gyfle gwych i sicrhau bod hynny'n digwydd. Gan weithio gydag elusennau, awdurdodau lleol a byrddau iechyd, y comisiynydd fyddai'r pwynt cyswllt cyntaf ar yr holl faterion sy'n ymwneud â chefnogi ein lluoedd arfog. Byddai ef neu hi yn gwrando ac yn gweithredu ar brofiadau pob cyn-filwr a chymuned ehangach y lluoedd arfog yng Nghymru. Yn ogystal â chael y pŵer i wneud argymhellion cadarn ar gyfer gwella i Lywodraeth Cymru, byddai'r comisiynydd hefyd yn gweithio i sicrhau bod y gwelliannau hynny'n cael eu gwneud.

The Scottish Government announced in January that it would be appointing a commissioner for veterans there, and, in June, a former naval officer was announced in this role, to work with charities, local authorities, and health boards on veterans' issues, to help shape future policy development. There are currently estimated to be 5,000 regular personnel, 3,000 reservists, and 220,000 veterans in Wales. There is, therefore, clearly scope for such a role to exist within Wales. However, by embracing the armed forces community, our proposal for Wales goes further, encompassing serving men and women, veterans and their families.

Cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ym mis Ionawr y byddai'n penodi comisiynydd ar gyfer cyn-filwyr yno, ac ym mis Mehefin, cyhoeddwyd bod cyn-swyddog o'r llynges wedi'i benodi i'r swydd, i weithio gydag elusennau, awdurdodau lleol, a byrddau iechyd ar faterion yn ymwneud â chyn-filwyr, er mwyn helpu i lywio datblygiadau polisi yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, amcangyfrifir bod 5,000 o bersonél rheolaidd, 3,000 o filwyr wrth gefn, a 220,000 o gyn-filwyr yng Nghymru. Felly, mae'n amlwg fod lle i swydd o'r fath yng Nghymru. Fodd bynnag, drwy gynnwys cymuned y lluoedd arfog, mae ein cynnig ar gyfer Cymru yn mynd ymhellach, gan gwmpasu dynion a menywod sy'n gwasanaethu, cyn-filwyr a'u teuluoedd.

An armed forces commissioner would complement the work of the new armed forces service complaints ombudsman, proposed by the UK Government, and represent needs identified by representatives of the armed forces and armed forces charities at this Assembly's cross-party group on armed forces and cadets.

Byddai comisiynydd y lluoedd arfog yn ategu gwaith ombwdsmon newydd ar gyfer cwyno am y lluoedd arfog a argymhellwyd gan Lywodraeth y DU i gynrychioli anghenion a nodwyd gan gynrychiolwyr y lluoedd arfog ac elusennau lluoedd arfog yng ngrŵp trawsbleidiol y Cynulliad ar y lluoedd arfog a chadetiaid.

As the Royal British Legion's manifesto 2015 states, significant challenges remain for veterans and their families:

Fel y mae maniffesto'r Lleng Brydeinig Frenhinol ar gyfer 2015 yn datgan, mae heriau sylweddol yn parhau ar gyfer cyn-filwyr a'u teuluoedd:

'Veterans and their spouses are more likely than other citizens to be unemployed, to suffer from hearing loss, and experience back pain and limb problems. A significant minority of the working-age community are struggling financially, and we are particularly concerned that those with a Service related illness or injury receive the special consideration they deserve.'

'Mae cyn-filwyr a'u partneriaid yn fwy tebygol na phobl eraill o fod yn ddi-waith, i ddioddef o golli clyw a phroblemau poen cefn a phoenau yn y coesau a'r breichiau. Mae lleiafrif sylweddol o'r gymuned o oedran gweithio yn wynebu trafferthion ariannol ac rydym yn arbennig o awyddus i weld y rhai sydd â salwch neu anaf cysylltiedig â'u gwasanaeth yn cael yr ystyriaeth arbennig y maent yn ei haeddu.'

Combat Stress has stated that the number of troops who have served in Afghanistan seeking help from it has increased by an average of 50% each year. The charity states that, on average, it takes over 13 years from service discharge for veterans to make the first approach for help, by which time their condition is often highly complex. A Ministry of Defence-funded study, published by the King's Centre for Military Health Research, found that Iraq and Afghanistan veterans are more likely to commit a violent offence during their lifetime than their civilian counterparts.

Mae elusen Combat Stress wedi datgan fod nifer y milwyr sydd wedi gwasanaethu yn Afghanistan ac sy'n ceisio cymorth ganddi wedi cynyddu 50% ar gyfartaledd bob blwyddyn. Mae'r elusen yn datgan ei bod yn cymryd dros 13 mlynedd ar gyfartaledd i gyn-filwyr ofyn am gymorth am y tro cyntaf ar ôl cael eu rhyddhau o wasanaeth ac erbyn hynny mae eu cyflwr yn aml yn gymhleth iawn. Gwelodd astudiaeth gan y Weinyddiaeth Amddiffyn a ariannwyd gan Ganolfan Ymchwil Iechyd Milwrol King's fod cyn-filwyr o Irac ac Afghanistan yn fwy tebygol o gyflawni trosedd dreisgar yn ystod eu hoes na'u cymheiriaid sifil.

The Royal British Legion manifesto 2015 recommends that veterans should be offered evidence-based treatments for mental health problems within a maximum of eight weeks from referral, to be provided by practitioners with an understanding of veterans' needs. The manifesto states that research by the legion has found that working-age veterans are more likely than the general population to report depression, and concludes that it is vital that veterans are not just signposted to the fastest available treatment within an allocated time frame, but that they receive the treatment with the best evidence base for their particular condition.

Mae maniffesto'r Lleng Brydeinig Frenhinol ar gyfer 2015 yn argymell y dylai cyn-filwyr gael cynnig triniaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer problemau iechyd meddwl o fewn wyth wythnos fan bellaf i gael eu hatgyfeirio, i'w ddarparu gan ymarferwyr sydd â dealltwriaeth o anghenion cyn-filwyr.  Mae'r maniffesto'n nodi bod ymchwil gan y lleng wedi canfod bod cyn-filwyr o oedran gweithio yn fwy tebygol na'r boblogaeth yn gyffredinol i sôn am iselder a daw i'r casgliad ei bod yn hanfodol nad cael eu cyfeirio at y driniaeth gyflymaf sydd ar gael o fewn ffrâm amser benodol yn unig y bydd cyn-filwyr, ond yn hytrach eu bod yn cael y driniaeth gyda'r sylfaen dystiolaeth orau ar gyfer eu cyflwr penodol.

Approximately 4% of veterans suffer from post-traumatic stress disorder, equating to almost 9,000 veterans in Wales. Estimates suggest that 13% of veterans suffer from drink problems, while homelessness, which the Welsh Government describes as one of the most extreme forms of social exclusion, is common among the veterans population. The all-Wales veterans mental health service, with £485,000 annual funding, and now rebranded as the Veterans' NHS Wales service, cannot meet the full spectrum or scale of need. Of the 158 veterans referred in 2012, only 100 were treated over a 12-month period, only 24 service user feedback forms were completed, and only 39 veterans were discharged. As I noted here yesterday, in 2012, Health Care Inspectorate Wales said that very few veterans were aware of the Veterans' NHS Wales service. The extra £100,000 for Veterans' NHS Wales this year has led to a waiting times drop, but this must not be a one-off.

Mae tua 4% o gyn-filwyr yn dioddef o anhwylder straen wedi trawma, sy'n cyfateb i bron 9,000 o gyn-filwyr yng Nghymru. Mae amcangyfrifon yn awgrymu bod 13% o gyn-filwyr yn dioddef o broblemau yfed, ac mae digartrefedd, y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgrifio fel un o'r mathau mwyaf eithafol o allgau cymdeithasol, yn gyffredin ymysg cyn-filwyr. Ni all gwasanaeth iechyd meddwl cyn-filwyr Cymru gyfan, gyda £485,000 o gyllid blynyddol, ac sydd wedi'i ailenwi bellach yn wasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr, ddiwallu sbectrwm llawn na graddau'r angen. O blith y 158 o gyn-filwyr a atgyfeiriwyd yn 2012, dim ond 100 a gafodd driniaeth dros gyfnod o 12 mis, dim ond 24 o ffurflenni adborth defnyddwyr gwasanaeth a lenwyd, a dim ond 39 o gyn-filwyr a gafodd eu rhyddhau yn sgîl cwblhau eu triniaeth. Fel y nodais yma ddoe, yn 2012, dywedodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru mai ychydig iawn o gyn-filwyr oedd yn ymwybodol o wasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr. Mae'r £100,000 ychwanegol ar gyfer GIG Cymru i Gyn-filwyr eleni wedi arwain at leihau amseroedd aros, ond rhaid i hyn fod yn fwy na digwyddiad untro'n unig.

Public Health Wales has recently undertaken a review of Veterans' NHS Wales and recommended that a greater emphasis should be placed upon reducing the referral-to-assessment time; that a standard system should be introduced ensuring that, at assessment, veterans are consistently provided with clear information about the manner in which the service operates; that health boards should identify veterans clinical experts in community mental health teams, crisis resolution and home treatment services and local primary mental health support services, to include a consultant psychiatrist capable of providing second opinions; and that local services should take steps to ensure that veterans receive timely crisis care. The report highlighted the projected increase in demand for veterans therapy services in the future and raised concerns that the small scale of Veterans' NHS Wales can render provision vulnerable where staff vacancies exist.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynnal adolygiad o GIG Cymru i Gyn-filwyr yn ddiweddar ac argymhellodd y dylid rhoi mwy o bwyslais ar leihau'r amser rhwng atgyfeirio ac asesu; y dylid cyflwyno system safonol i sicrhau bod cyn-filwyr yn cael gwybodaeth glir yn gyson wrth gael eu hasesu am y modd y mae'r gwasanaeth yn gweithredu; y dylai byrddau iechyd ddynodi arbenigwyr clinigol ar gyfer cyn-filwyr mewn timau iechyd meddwl cymunedol, gwasanaethau triniaeth yn y cartref i ddatrys argyfwng a gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol, i gynnwys seiciatrydd ymgynghorol sy'n gallu darparu ail farn; ac y dylai gwasanaethau lleol gymryd camau i sicrhau bod cyn-filwyr yn cael gofal argyfwng amserol. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cynnydd a ragwelir yn y galw am wasanaethau therapi ar gyfer cyn-filwyr yn y dyfodol ac yn mynegi pryderon y gallai maint bach GIG Cymru i Gyn-filwyr fygwth y ddarpariaeth lle ceir swyddi gwag.

Two years ago, I met a decorated young ex-soldier who served in the Royal Regiment of Wales and Parachute Regiment in Kosovo, Northern Ireland and Iraq. After leaving the army, he was jailed after being convicted of criminal damage, assault and harassment. His barrister told the court that, 'If he was still in the army he would get help, his scars are not of his making. No-one seems interested.'

Ddwy flynedd yn ôl, cyfarfûm â chyn-filwr ifanc a oedd wedi ennill medalau ar ôl gwasanaethu yng Nghatrawd Frenhinol Cymru a'r Gatrawd Parasiwt yn Kosovo, Gogledd Iwerddon ac Irac. Ar ôl gadael y fyddin, cafodd ei garcharu ar ôl ei gael yn euog o ddifrod troseddol, ymosod ac aflonyddu. Dywedodd ei fargyfreithiwr wrth y llys, 'Pe bai'n dal yn y fyddin, byddai'n cael help, nid ef sy'n gyfrifol am ei greithiau. Mae'n ymddangos nad oes gan neb ddiddordeb.'

The Howard League for Penal Reform reported in 2011 that the male prison population of ex-service personnel is possibly the largest and most under-reported subset. A UK conference in July looked at collaborative efforts to form an alliance to provide specialist support and rehabilitation for veterans in the criminal justice system, in the context of the UK Government inquiry into proposals for UK veteran treatment courts alongside veteran reintegration programmes. Many of these issues could be rolled out in Wales.

Nododd Cynghrair Howard er Diwygio Cosbau yn 2011 mai cyn-filwyr yw'r is-set fwyaf o bosibl a'r un y soniwyd leiaf amdani o blith dynion a garcharwyd. Edrychodd cynhadledd a gynhaliwyd ar gyfer y DU ym mis Gorffennaf ar ymdrechion cydweithredol i ffurfio cynghrair i ddarparu cefnogaeth arbenigol a chymorth ailsefydlu i gyn-filwyr yn y system cyfiawnder troseddol, yng nghyd-destun ymchwiliad Llywodraeth y DU i argymhellion ynglŷn â llysoedd ar gyfer trin cyn-filwyr y DU ochr yn ochr â rhaglenni ailintegreiddio cyn-filwyr. Gellid cyflwyno llawer o'r pethau hyn yng Nghymru.

We welcome the Minister's announcement yesterday that his officials are working with the MOD to promote the UK Government's defence discount service and defence privilege card, providing discounts for the armed forces community. This complements rather than replaces the armed forces card, which Welsh Conservatives have long campaigned for, offering service personnel and veterans in Wales free bus travel, free entry to council swimming pools, and free entry to Cadw heritage sites. Furthermore, it would emphasise the NHS priority care available to those with service-related conditions.

Rydym yn croesawu cyhoeddiad y Gweinidog ddoe fod ei swyddogion yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn i hyrwyddo gwasanaeth disgownt amddiffyn a cherdyn braint amddiffyn Llywodraeth y DU, sy'n darparu gostyngiadau i gymuned y lluoedd arfog. Mae hyn yn ategu yn hytrach na chymryd lle cerdyn y lluoedd arfog y bu'r Ceidwadwyr Cymreig yn ymgyrchu amdano ers amser maith ac sy'n cynnig teithiau bws am ddim, mynediad am ddim i byllau nofio'r cynghorau a safleoedd treftadaeth Cadw i filwyr a chyn-filwyr. Ar ben hynny, byddai'n pwysleisio gofal â blaenoriaeth y GIG sydd ar gael i'r rhai sydd â chyflyrau'n gysylltiedig â'u gwasanaeth.

Sadly, the previous Welsh Government voted against the implementation of such a card. However, after the Welsh Conservative debate on 7 November 2012, the Welsh Government said that it would be setting up a veterans ID card task and finish group. This was established in January 2014 and on 26 March, the previous Minister for local government said that,

Yn anffodus, pleidleisiodd y Llywodraeth flaenorol yn erbyn gweithredu cerdyn o'r fath. Fodd bynnag, ar ôl dadl y Ceidwadwyr Cymreig ar 7 Tachwedd 2012, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen ar gerdyn adnabod i gyn-filwyr. Cafodd ei sefydlu yn Ionawr 2014 ac ar 26 Mawrth, dywedodd y cyn Weinidog llywodraeth leol,

'The group is presenting its findings to my next armed forces expert group. I am not quite sure of the date, but that is in the very near future. It is certainly something that I am committed to also.'

'Mae'r grŵp yn cyflwyno ei ganfyddiadau i fy ngrŵp arbenigol nesaf ar y lluoedd arfog. Nid wyf yn hollol siŵr o'r dyddiad, ond yn y dyfodol agos iawn. Mae'n sicr yn rhywbeth rwyf wedi ymrwymo iddo hefyd. '

We therefore hope that the new Minister will finally ensure the launch of this card.

Felly, rydym yn gobeithio y bydd y Gweinidog newydd yn sicrhau bod y cerdyn hwn yn cael ei lansio o’r diwedd.

An armed forces commissioner for Wales would aid resettlement. The average length of service in the armed forces is nine years and ex-forces personnel often struggle to fully reintegrate into society. A commissioner would champion the right to priority care and to fair and just social care provision, ensuring that the armed forces community receives the social benefits, delivered at a devolved level, that they deserve. The loyalty, dedication and courage of our armed forces set a fine example and we should show our gratitude.

Byddai comisiynydd lluoedd arfog i Gymru yn cynorthwyo’r broses o ailsefydlu. Mae hyd cyfartalog gwasanaeth yn y lluoedd arfog yn naw mlynedd ac mae cyn-filwyr yn aml yn ei chael hi’n anodd ailintegreiddio llawn yn y gymdeithas. Byddai comisiynydd yn hyrwyddo’r hawl i ofal â blaenoriaeth ac i ddarparu gofal cymdeithasol teg a chyfiawn, gan sicrhau bod cymuned y lluoedd arfog yn cael y manteision cymdeithasol y maent yn eu haeddu wedi’u darparu ar lefel ddatganoledig. Mae teyrngarwch, ymroddiad a dewrder ein lluoedd arfog wedi gosod esiampl dda a dylem ddangos ein diolch.

Although the Welsh Government appointed Sir Deian Hopkins as an adviser on how to commemorate the centenary of world war one, the role of a veterans commissioner obviously does not exist in Wales. Our vision is to have more of a holistic approach for the role within Wales so that support is provided to the whole armed forces community. Veterans and the wider armed forces community would benefit from a dedicated commissioner, tasked with providing greater support and improving services in Wales.

Er bod Llywodraeth Cymru wedi penodi Syr Deian Hopkins i gynghori ar sut y dylid nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf, mae’n amlwg nad yw swydd comisiynydd cyn-filwyr yn bodoli yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw cael ymagwedd fwy cyfannol at y swydd yng Nghymru fel bod cymorth yn cael ei ddarparu i gymuned y lluoedd arfog yn ei chyfanrwydd. Byddai cyn-filwyr a chymuned ehangach y lluoedd arfog yn elwa o gael comisiynydd ymroddedig yn gyfrifol am ddarparu mwy o gymorth a gwella gwasanaethau yng Nghymru.

A Welsh armed forces commissioner would be the first role of its kind in the UK, dedicated both to veterans and the wider armed forces community. With an overall objective of improving outcomes for veterans and serving forces, the commissioner would engage with the community, as well as with public services. Prioritising issues such as mental health needs and housing, the commissioner would also hold public bodies to account for the implementation of their armed forces community covenants, launched by the UK Government in May 2011 as part of a wider armed forces covenant package. As the Royal British Legion describes, community covenants are voluntary statements of mutual support between armed forces and civilian communities.

Comisiynydd y lluoedd arfog yng Nghymru fyddai’r swydd gyntaf o’i math yn y DU sy’n ymroddedig i gyn-filwyr a chymuned ehangach y lluoedd arfog fel ei gilydd. Gyda nod cyffredinol o wella canlyniadau i gyn-filwyr a milwyr, byddai’r comisiynydd yn ymgysylltu â’r gymuned yn ogystal â gwasanaethau cyhoeddus. Gan flaenoriaethu materion fel anghenion iechyd meddwl a thai, byddai’r comisiynydd hefyd yn dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif am weithredu cyfamodau cymunedol y lluoedd arfog a lansiwyd gan Lywodraeth y DU ym mis Mai 2011 fel rhan o becyn cyfamod ehangach ar gyfer y lluoedd arfog. Mae’r Lleng Brydeinig Frenhinol yn disgrifio cyfamodau cymunedol fel datganiadau gwirfoddol o gydgefnogaeth rhwng lluoedd arfog a chymunedau sifil.

This week is an important opportunity to reflect on the sacrifices made by so many during conflict. It also provides an opportunity to look ahead and to ensure that our armed forces receive all possible support.

Mae’r wythnos hon yn gyfle pwysig i fyfyrio ar yr aberth a wnaed gan gynifer o bobl ar adeg rhyfel. Mae hefyd yn gyfle i edrych ymlaen ac i sicrhau bod ein lluoedd arfog yn cael pob cymorth posibl.

15:48

## Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography

Let us make no mistake that everyone in this Chamber supports our veterans and we had an excellent debate yesterday. The debt that we owe them is immeasurable, but the crucial point is: how do we deliver that support in reality? I am not too sure, I am afraid, that a commissioner would be of benefit.

Gadewch i ni yn sicrhau bod pawb yn y Siambr hon yn cefnogi ein cyn-filwyr a chawsom ddadl wych ddoe. Mae’r ddyled sydd arnom iddynt yn anfesuradwy ond y pwynt hollbwysig yw: sut y medrwn ddarparu cefnogaeth o’r fath mewn gwirionedd? Mae arnaf ofn nad wyf yn rhy siŵr y byddai comisiynydd yn fanteisiol.

Plaid Cymru supports the establishment of a veterans ombudsman and a veterans affairs Minister with a seat at Cabinet, but for now that would be on a UK model because, of course, it is not a devolved issue. The Ministry of Defence should take responsibility and consider mental health checks prior to joining the forces to identify people who may need support and also following personnel discharge. Again, I spoke yesterday of the Ministry of Defence’s duty of care, which does seem rather lacking.

Mae Plaid Cymru yn cefnogi sefydlu ombwdsmon cyn-filwyr a Gweinidog materion cyn-filwyr gyda sedd yn y Cabinet ond am y tro byddai hynny ar fodel y DU oherwydd, wrth gwrs, nid yw’n fater sydd wedi’i ddatganoli. Dylai’r Weinyddiaeth Amddiffyn gymryd cyfrifoldeb ac ystyried cynnal archwiliadau iechyd meddwl cyn i bobl ymuno â’r lluoedd arfog er mwyn nodi pwy a allai fod angen cefnogaeth a hefyd yn dilyn eu rhyddhau o’u gwasanaeth. Unwaith eto, siaradais ddoe am ddyletswydd gofal y Weinyddiaeth Amddiffyn, sy’n ymddangos braidd yn brin.

We all agree that we need to collect better data on veterans in respect of disability benefits. The Department for Work and Pensions has no idea and is therefore not in a position to help meet the needs of veterans. There could, for example, be student-type loans for veterans to spend on retraining to help them to re-enter employment and to, in fact, even give them some hope.

Rydym i gyd yn cytuno bod angen i ni gasglu gwell data ar gyn-filwyr mewn perthynas â budd-daliadau anabledd. Nid oes gan yr Adran Gwaith a Phensiynau unrhyw syniad ac felly nid yw mewn sefyllfa i helpu i ddiwallu anghenion cyn-filwyr. Er enghraifft, gallai fod benthyciadau tebyg i'r rhai ar gyfer myfyrwyr ar gael i gyn-filwyr eu gwario ar ailhyfforddi i'w helpu i gael gwaith eto ac i roi rhywfaint o obaith iddynt.

As part of the discharge scheme, drug and alcohol tests should be made available and access to relationship advice and counselling is a must, particularly for those in a family-breakdown situation. However, I am not so sure that that is a commissioner's role. Some personnel can be away from their loved ones, as I experienced in Afghanistan. I was not away for six months, but some of the people I spoke to were away for six months at a time. When they do hit a crisis, there must be a protocol established for sharing information between all the agencies involved. Is that a commissioner's role or a Government role?

Fel rhan o'r cynllun rhyddhau, dylai profion cyffuriau ac alcohol fod ar gael ac mae mynediad at gyngor cydberthynas a chwnsela yn hanfodol, yn enwedig i rai sy'n mynd drwy chwalfa deuluol. Fodd bynnag, nid wyf mor siŵr mai rôl comisiynydd yw hynny. Gall rhai milwyr fod i ffwrdd oddi wrth eu hanwyliaid, fel y profais innau yn Afghanistan. Nid oeddwn i ffwrdd am chwe mis, ond roedd rhai o'r bobl y siaradais â hwy i ffwrdd am chwe mis ar y tro. Pan fyddant yn wynebu argyfwng, rhaid bod protocol wedi'i sefydlu ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng yr holl asiantaethau sydd ynghlwm â'r mater. Ai rôl comisiynydd neu rôl y Llywodraeth yw hynny?

I include, of course, the third sector in that sharing of information, because where would we be in Wales without it? I think this can be done with the power of a Minister with an adequate budget. I am sure if you speak to the majority of veterans, you will hear that what they really want is a well-paid job and decent housing. With the greatest of respect, cards for free swimming and entrance to Cadw sites are all very well, but these people, I believe, deserve a little bit more than that. They need to hold their heads high and it is society that should salute them.

Rwy'n cynnwys y trydydd sector mewn rhannu gwybodaeth o'r fath, wrth gwrs, oherwydd ble fyddem ni heb y trydydd sector yng Nghymru? Rwy'n credu y gellir gwneud hyn gyda phŵer Gweinidog â chyllideb ddigonol. Os siaradwch â'r rhan fwyaf o gyn-filwyr, rwy'n siŵr y byddwch yn clywed mai'r hyn y maent ei eisiau mewn gwirionedd yw swydd sy'n talu'n dda a chartref gweddus. Gyda'r parch mwyaf, mae cardiau ar gyfer nofio am ddim a mynediad i safleoedd Cadw i gyd yn dda iawn, ond yn fy marn i, mae pobl yn haeddu ychydig mwy na hynny. Mae angen iddynt ddal eu pennau'n uchel a dylai'r gymdeithas eu parchu.

15:50

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Recent conflict has proven that the war to end all wars that killed over 40,000 Welsh soldiers was anything but. In this, the centenary year of the first world war, it is critical that we use the prominence of our past to make a difference to our serving and ex-serving armed forces personnel today.

Mae gwrthdaro diweddar wedi profi bod y rhyfel i roi terfyn ar bob rhyfel a laddodd dros 40,000 o filwyr o Gymru yn unrhyw beth ond hynny. Yn ystod blwyddyn canmlwyddiant y rhyfel byd cyntaf, mae'n hollbwysig ein bod yn defnyddio'r sylw i'n gorffennol i wneud gwahaniaeth i'n milwyr a'n cyn-filwyr yn y lluoedd arfog heddiw.

In Wales, there are currently 5,000 regular service personnel, 3,000 reservists and 220,000 veterans. As a nation, Wales provides around 8% of all armed forces recruits and each year 24,000 people leave the British armed forces, yet they, along with those currently serving, need and deserve much more support and easy access to services than is currently the reality.

Yng Nghymru, ceir 5,000 o filwyr gwasanaeth rheolaidd, 3,000 o filwyr wrth gefn a 220,000 o gyn-filwyr ar hyn o bryd. Fel cenedl, mae Cymru yn darparu tua 8% o'r holl recriwtiaid i'r lluoedd arfog a phob blwyddyn mae 24,000 o bobl yn gadael lluoedd arfog Prydain, ac eto, ynghyd â'r rhai sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd, maent angen ac yn haeddu llawer mwy o gefnogaeth a mynediad hawdd at wasanaethau nag sydd i'w weld ar hyn o bryd .

We support the armed forces community covenant and the Welsh Conservatives aim to bring forward proposals for an armed forces card. We must legislate, empower and negotiate tangible ways to support the returning or retired service personnel.

Rydym yn cefnogi cyfamod cymunedol y lluoedd arfog ac mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn bwriadu cyflwyno cynigion ar gyfer cerdyn y lluoedd arfog. Mae'n rhaid i ni ddeddfu, grymuso a thrafod ffyrdd pendant o gefnogi'r lluoedd arfog sy'n dychwelyd neu sydd wedi ymddeol.

Of the UK's ex-service community, 52% suffer long-term illness, disability or infirmity in comparison with 35% of the general population. More than 1,000 veterans have been treated by Veterans' NHS Wales, but there are still those who face huge difficulty in accessing mental health care, housing solutions and other services, which are so readily available to others.

O blith cyn-filwyr y DU, mae 52% yn dioddef o salwch hirdymor, anabledd neu wendid o gymharu â 35% o'r boblogaeth gyffredinol. Mae mwy na 1,000 o gyn-filwyr wedi cael eu trin gan GIG Cymru y Cyn-filwyr, ond mae'n dal i fod rhai sy'n wynebu anawsterau mawr i gael mynediad at ofal iechyd meddwl, tai a gwasanaethau eraill sydd ar gael mor rhwydd i bobl eraill.

The prevalence of post-traumatic stress disorder among those deployed to Iraq, Afghanistan, or even both, has been found to be 20% higher than that of the general population. In addition, alcohol misuse is three times more common. Veterans of direct combat in Afghanistan and Iraq with PTSD are 53% more likely to commit a violent crime than those in non-combat roles. Mental health problems related to combat have been attributed to many of the suicides of the 21 serving soldiers and 29 veterans—and that was in 2012 alone.

Gwelwyd bod nifer yr achosion o anhwylder straen wedi trawma ymysg y rhai a fu'n gwasanaethu yn Irac neu Affganistan, neu'r ddau le hyd yn oed, 20% yn uwch nag yn y boblogaeth yn gyffredinol. Yn ogystal, mae camddefnydd o alcohol dair gwaith yn fwy cyffredin. Mae cyn-filwyr a fu'n brwydro'n uniongyrchol yn Affganistan ac Irac sy'n dioddef o anhwylder straen wedi trawma 53% yn fwy tebygol o gyflawni trosedd dreisgar na rhai nad ydynt yn ymladd yn uniongyrchol. Priodolwyd problemau iechyd meddwl yn gysylltiedig ag ymladd i sawl un o'r 21 achos o hunanladdiad ymhlith milwyr sy'n gwasanaethu a 29 o gyn-filwyr—a hynny ar gyfer 2012 yn unig.

We warmly welcome the announcement of the £100,000 increase to the NHS veterans fund to tackle mental health pressures, but we need to ensure that this is not a one-off. I would urge the Welsh Government to listen to the recommendations of the Royal British Legion, which recommends that all veterans are offered treatment for mental health problems within eight weeks of referral and by practitioners who understand their needs.

Rydym yn croesawu'n fawr y cyhoeddiad ynghylch y cynnydd o £100,000 i gronfa cyn-filwyr y GIG i fynd i'r afael â phwysau iechyd meddwl, ond mae angen i ni sicrhau nad digwyddiad untro'n unig yw hwn. Byddwn yn annog Llywodraeth Cymru i wrando ar argymhellion y Lleng Brydeinig Frenhinol, sy'n argymell y dylai pob cyn-filwr gael cynnig triniaeth ar gyfer problemau iechyd meddwl o fewn wyth wythnos i gael ei atgyfeirio gan ymarferwyr sy'n deall eu hanghenion.

It is alarming that 52% of those who leave service life early are only still in work after just six months. The Welsh Government must act quickly to provide some retraining opportunities to our brave men and women. However, I ask the Minister: how are you going to implement this? The recent shift in focus of your future training schemes means that they are so often focused on the very young.

Mae'n frawychus mai dim ond 52% o'r rhai sy'n gadael gwasanaeth yn gynnar sy'n dal mewn gwaith ar ôl dim ond chwe mis. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu'n gyflym i ddarparu cyfleoedd ailhyfforddi i'n dynion a'n menywod dewr. Fodd bynnag, gofynnaf i'r Gweinidog: sut rydych yn mynd i weithredu hyn? Mae'r newid diweddar yn ffocws eich cynlluniau hyfforddi yn y dyfodol yn golygu eu bod mor aml yn canolbwyntio ar yr ifanc iawn.

Forces Watch has noted a strong link between PTSD and homelessness. One in 10 rough sleepers in the UK were ex-service personnel. In addition to the impact of PTSD, the Royal British Legion has identified the serious shortage of affordable housing in Wales as a reason for the statistic. The Welsh Government should follow the lead of the Scottish Government, because it has provided £1 million to build 38 new homes for physically and psychologically disabled ex-service personnel.

Mae Forces Watch wedi nodi cysylltiad cryf rhwng anhwylder straen wedi trawma a digartrefedd. Mae un o bob 10 o bobl sy'n cysgu allan yn y DU yn gyn-filwr. Yn ogystal ag effaith anhwylder straen wedi trawma, mae'r Lleng Brydeinig Frenhinol wedi nodi prinder difrifol o dai fforddiadwy yng Nghymru fel rheswm dros yr ystadegyn. Dylai Llywodraeth Cymru ddilyn esiampl Llywodraeth yr Alban, oherwydd ei bod wedi darparu £1 miliwn ar gyfer adeiladu 38 o gartrefi newydd i gyn-filwyr sy'n anabl yn gorfforol ac yn seicolegol.

Following the last strategic defence review, with a larger burden placed on reservists and the inevitable redundancies of regulars, we can expect to see all these pressures surrounding help for our current and ex-service personnel increase.

Yn dilyn yr adolygiad amddiffyn strategol diwethaf, gyda'r baich mwy ar filwyr wrth gefn a diswyddiadau anochel milwyr rheolaidd, gallwn ddisgwyl gweld yr holl bwysau hyn ynglŷn â chymorth i'n milwyr cyfredol a'n cyn-filwyr yn cynyddu.

Scottish Minister for Transport and Veterans, Keith Brown, has announced a Scottish veterans commissioner to be established to champion the interests of ex-servicemen and servicewomen, with a remit to work with service charities, local authorities and health boards to identify any areas in public services that might provide greater support to veterans, and to help shape future policy development and opportunities. We need to ensure that Wales has a commissioner with a remit to address the concerns of not only veterans, but the wider military community. They could prioritise issues such as health, employment and housing, and take further steps to generally improve the lives of our serving and ex-serving military personnel.

Mae Keith Brown, Gweinidog Trafnidiaeth a Chyn-filwyr yr Alban, wedi cyhoeddi eu bod yn sefydlu comisiynydd cyn-filwyr ar gyfer yr Alban er mwyn hyrwyddo buddiannau cyn-filwyr a milwyr, gyda chylch gwaith i weithio gydag elusennau'r lluoedd arfog, awdurdodau lleol a byrddau iechyd i nodi unrhyw feysydd gwasanaethau cyhoeddus a allai roi mwy o gymorth i gyn-filwyr, ac i helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu polisïau a chyfleoedd yn y dyfodol. Mae angen i ni sicrhau bod gan Gymru gomisiynydd gyda chylch gwaith i fynd i'r afael â phryderon y gymuned filwrol ehangach yn ogystal â chyn-filwyr. Gallent flaenoriaethu materion fel iechyd, cyflogaeth a thai, a rhoi camau pellach ar waith yn gyffredinol i wella bywydau ein milwyr a'n cyn-filwyr yn y lluoedd arfog.

We have come a long way in the last century, since world war one, when shell-shock was seen as cowardice and punishable by firing squad. We must do more to help our sailors, soldiers and airmen and airwomen of past and present. Look at how we have led the way here with the establishment of a children's commissioner. Let us lead the way again and, please, let us legislate for an armed forces commissioner here in Wales.

Rydym wedi dod yn bell yn y ganrif ddiwethaf ers y rhyfel byd cyntaf, pan oedd siel-syfrdandod yn cael ei weld fel llwfrdra a allai wynebu'r gosb eithaf. Mae'n rhaid i ni wneud mwy i helpu ein morwyr, ein milwyr, a'n hawyrenwyr yn y gorffennol a'r presennol. Edrychwch ar sut rydym wedi arwain y ffordd yma gyda sefydlu comisiynydd plant. Gadewch i ni arwain y ffordd unwaith eto ac os gwelwch yn dda, gadewch i ni ddeddfu ar gyfer sefydlu comisiynydd y lluoedd arfog yma yng Nghymru.

15:55

## Peter Black Bywgraffiad Biography

I think that we established in the debate yesterday the level of need in terms of veterans in Wales, and we certainly discussed a lot of the issues that have already been mentioned here today. Again, I reiterate the debt that we owe to those members of the armed forces, and those who have been in the armed forces, in terms of their bravery and the commitment that they have made to the country, and the contribution that they have made to maintaining the peace over many decades.

Rwy'n credu ein bod wedi pennu lefel yr angen yn y ddadl ddoe o ran cyn-filwyr yng Nghymru ac yn sicr, trafodwyd llawer o'r materion sydd eisoes wedi'u crybwyll yma heddiw. Unwaith eto, rwy'n ailadrodd y ddyled sydd arnom i'r aelodau hynny o'r lluoedd arfog, a'r rhai sydd wedi bod yn y lluoedd arfog, o ran eu dewrder a'u hymroddiad i'r wlad, a'u cyfraniad i gynnal heddwch dros sawl degawd.

I think that this motion is of a different order. We are being asked today to set up a commissioner, which has a cost and, of course, has responsibilities. My concern is with the motion, which we will be opposing for a number of reasons. We have already touched on one of those reasons, which is that this is a non-devolved function. The armed forces are, of course, a UK Government function. Any commissioner that was set up to deal with the armed forces would find the same problems that the children's commissioner has in terms of being able to deal with issues that are not devolved, and would have problems in being able to reconcile those, because they would not be recognised by the UK Government.

Credaf fod y cynnig hwn o fath gwahanol. Heddiw, gofynnir i ni sefydlu swydd comisiynydd, sydd â chost ynghlwm wrthi, a chyfrifoldebau wrth gwrs. Y cynnig sy'n peri pryder i mi, a byddwn yn ei wrthwynebu am nifer o resymau. Rydym eisoes wedi sôn am un o'r rhesymau hynny, sef mai swyddogaeth heb ei datganoli yw hon. Un o swyddogaethau Llywodraeth y DU yw'r lluoedd arfog wrth gwrs. Byddai unrhyw swydd comisiynydd a sefydlir i ddelio â'r lluoedd arfog yn wynebu'r un problemau â'r comisiynydd plant o ran gallu delio â materion nad ydynt wedi'u datganoli, a byddai'n wynebu problemau o ran gallu cysoni'r materion hynny, oherwydd ni fyddent yn cael eu cydnabod gan Lywodraeth y DU.

I would agree that there is a case for a commissioner of sorts being set up for veterans. However, I think that that has to be set up at a UK level, where they would have the full force of the UK Government and be able to work with devolved Governments in terms of dealing with a whole range of problems—some devolved, some non-devolved. The DWP has been mentioned as one particular issue, in terms of resolving that.

Byddwn yn cytuno bod achos dros sefydlu comisiynydd o ryw fath ar gyfer cyn-filwyr. Fodd bynnag, rwy'n credu bod yn rhaid ei sefydlu ar lefel y DU, lle byddai'n cael grym llawn Llywodraeth y DU ac yn gallu gweithio gyda Llywodraethau datganoledig i ymdrin ag ystod eang o broblemau—rhai wedi'u datganoli a rhai heb eu datganoli. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cael ei chrybwyll fel un mater penodol o ran datrys hynny.

Of course, we are getting a bit of an industry in terms of creating commissioners. We have the children's commissioner; we have the older persons' commissioner; and, we are talking about setting up a sustainability commissioner. When you look at the budgets for those various offices, you will see that, on average, they are spending about £1 million each, in terms of running those offices. That is money that could be spent on support services. I would rather see the Welsh Government's limited resources being spent on better mental health facilities for those servicemen and ex-servicemen suffering from PTSD; on better housing; and on better education and childcare for veterans. That would be a better use of money in this particular case, certainly given that the Welsh Government does not have a direct responsibility for the armed forces, although, of course, it takes a huge interest in that and does a lot of work, which we have to acknowledge.

Wrth gwrs, mae creu comisiynwyr wedi mynd yn dipyn o ddiwydiant i ni. Mae gennym gomisiynydd plant; mae gennym gomisiynydd pobl hŷn; ac rydym yn sôn am sefydlu comisiynydd cynaliadwyedd. Pan edrychwch ar y cyllidebau ar gyfer y gwahanol swyddi hynny, gwelwch eu bod yn gwario £1 miliwn yr un ar gyfartaledd, o ran rhedeg y swyddi hynny. Dyna arian y gellid ei wario ar wasanaethau cymorth. Byddai'n well gennyf weld adnoddau cyfyngedig Llywodraeth Cymru yn cael ei wario ar gyfleusterau iechyd meddwl gwell ar gyfer y milwyr a'r cyn-filwyr sy'n dioddef o anhwylder straen wedi trawma; ar well tai; ac ar addysg a gofal plant gwell i gyn-filwyr. Byddai hynny'n well defnydd o arian yn yr achos penodol hwn, yn sicr o ystyried nad oes gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb uniongyrchol dros y lluoedd arfog, er bod ganddi ddiddordeb mawr yn y mater wrth gwrs ac mae'n gwneud llawer o waith, sy'n rhaid i ni ei gydnabod.

Of course, it is not just the Welsh Government that works with veterans and the armed forces. There are champions of veterans of the armed forces in every local health board and local council in Wales. The Welsh Government provides access to support for veterans through the all-Wales mental health and wellbeing service for veterans. As has been said, a lot more could be done in terms of that, in making sure that that service is seamless. Service personnel and veterans have priority status in the homebuy scheme and, of course, veterans get disabled facilities grants from local authorities, automatic entitlement to blue badges, and eased access to concessionary travel if they have been seriously injured. There are a lot of other arrangements and investments in terms of not just celebrating and commemorating the sacrifice that those veterans have made, but also offering them support.

Wrth gwrs, nid Llywodraeth Cymru yn unig sy'n gweithio gyda chyn-filwyr a'r lluoedd arfog. Ceir hyrwyddwyr cyn-filwyr y lluoedd arfog ar bob bwrdd iechyd lleol a chyngor lleol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu mynediad i gyn-filwyr at gymorth drwy wasanaeth iechyd meddwl a lles Cymru gyfan ar gyfer cyn-filwyr. Fel y dywedwyd, gellid gwneud llawer mwy o ran hynny i sicrhau bod y gwasanaeth yn ddi-dor. Mae gan aelodau'r lluoedd arfog a chyn-filwyr statws blaenoriaeth yn y cynllun cymorth prynu ac wrth gwrs, mae cyn-filwyr yn cael grantiau cyfleusterau i'r anabl gan awdurdodau lleol, hawl awtomatig i fathodynnau glas, a mynediad haws i deithio rhatach os ydynt wedi cael eu hanafu'n ddifrifol. Mae yna lawer o drefniadau a buddsoddiadau eraill, nid yn unig ar gyfer dathlu a choffáu aberth y cyn-filwyr hynny, ond er mwyn cynnig cymorth iddynt hefyd.

I think that I would be the first to say that a lot more needs to be done, but I have to question whether that 'lot more' amounts to a commissioner and a commissioner's office costing £1 million. I say, yes, take this to the UK Government by all means, and say to it, 'This is something that you need to be setting up'. However, from the point of view of Wales, we have a lot more investment to make in those veterans and those armed forces personnel, in terms of basic health, education and housing before we start going down this route. I would be opposed to abrogating the Welsh Government's responsibilities by passing them on to a commissioner who stands independent from the Government.

Rwy'n meddwl mai fi fyddai'r cyntaf i ddweud bod angen gwneud llawer mwy, ond rhaid i mi gwestiynu a yw 'llawer mwy' yn golygu comisiynydd a swydd comisiynydd sy'n costio £1 miliwn. Rwy'n dweud, ie, ewch â hyn at Lywodraeth y DU ar bob cyfrif, a dywedwch wrthi, 'Mae hyn yn rhywbeth y mae angen i chi ei sefydlu'. Fodd bynnag, o safbwynt Cymru, mae gennym lawer mwy o fuddsoddiad i'w wneud yn y cyn-filwyr a milwyr y lluoedd arfog o ran iechyd sylfaenol, addysg a thai cyn i ni ddechrau dilyn y trywydd hwn. Byddwn yn gwrthwynebu cefnu ar gyfrifoldebau Llywodraeth Cymru drwy eu trosglwyddo i gomisiynydd sy'n annibynnol ar y Llywodraeth.

15:59 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

I welcome the opportunity to contribute in the debate today. Sometimes, the simplest things are, hopefully, the easiest things to get through. However, listening to the other parties, obviously, they are not wishing to support the motion today. This idea came from the all-party group on the armed services. In that group, there seemed to be unanimity on what a good idea this was, and, ultimately, how it could act as a critical friend, shall we say, of Government and work with Government to improve the lot of armed services personnel, and, importantly, their families, when considering service provision. Arguments have been put that the armed services are not a devolved competence, in which case, then, perhaps we should hand back a lot more of what is decided in this building, thinking about health, education and other aspects that the other commissioners comment on, such as the children's commissioner and the older persons' commissioner.

Croesawaf y cyfle i gyfrannu yn y ddadl heddiw. Weithiau, y pethau symlaf, gobeithio, yw'r pethau hawsaf i'w gwireddu. Fodd bynnag, o wrando ar y pleidiau eraill, mae'n amlwg nad ydynt yn dymuno cefnogi'r cynnig heddiw. Daeth y syniad hwn gan y grŵp trawsbleidiol ar y lluoedd arfog. Roedd y grŵp hwnnw i'w weld yn unfryd ei farn fod hwn yn syniad da ac yn y pen draw, ynghylch y modd y gallai weithredu fel cyfaill beirniadol, gawn ni ddweud, i'r Llywodraeth a gweithio gyda'r Llywodraeth i wella bywydau milwyr y lluoedd arfog ac yn bwysig iawn, eu teuluoedd, wrth ystyried gwasanaethau. Cyflwynwyd dadleuon nad yw'r lluoedd arfog yn gymhwysedd datganoledig, ac os felly, efallai y dylem drosglwyddo llawer mwy o'r hyn a benderfynir yn yr adeilad hwn yn ôl, o ran iechyd, addysg ac agweddau eraill y mae'r comisiynwyr eraill yn gwneud sylwadau arnynt, megis y comisiynydd plant a'r comisiynydd pobl hŷn.

If you take that argument, perhaps we should not comment on a lot of things. Ultimately, however, this could make a real difference. If you look at the model that the Scottish Government has put forward, I commend what the Scottish Government has done, looking at bringing this critical-friend approach to the development of armed services provision in Scotland, which, like us, does not have competence devolved to it for the armed services, but which ultimately recognises its responsibility in delivering housing, health, education and job opportunities to veterans and their families in the community.

Os cymerwch y ddadl honno, efallai na ddylem gyflwyno sylwadau ar lawer o bethau. Yn y pen draw, fodd bynnag, gallai hyn wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Os edrychwch ar y model y mae Llywodraeth yr Alban wedi ei gyflwyno, rwy'n cymeradwyo'r hyn y mae Llywodraeth yr Alban wedi'i wneud gyda'r bwriad o edrych ar y dull cyfaill beirniadol hwn o ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer y lluoedd arfog yn yr Alban nad oes ganddi, fel ninnau, gymhwysedd datganoledig dros y lluoedd arfog, ond sydd, yn y pen draw, yn cydnabod ei chyfrifoldeb i ddarparu tai, iechyd, addysg a chyfleoedd gwaith i gyn-filwyr a'u teuluoedd yn y gymuned.

I do think that we need to recognise that, I believe, the Government is very sincere in its goal and ambition to improve the lot that it wants to offer to ex-service personnel here in Wales. However, just in this Assembly alone, three different Ministers have held the responsibility for armed services personnel and the responsibility that the ministerial portfolio covers. That is three Ministers in three years. Ultimately, the priorities will change on a personal level, because, obviously, a Minister comes into portfolio with new ideas and, ultimately, their own priorities as to how they want to deliver on those ideas.

Yn fy marn i, rwy'n credu bod angen i ni gydnabod bod y Llywodraeth yn ddiffuant iawn yn ei nod a'i huchelgais i wella'r hyn y mae am ei gynnig i gyn-filwyr yma yng Nghymru. Fodd bynnag, yn y Cynulliad hwn yn unig, mae tri Gweinidog gwahanol wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros filwyr y lluoedd arfog a chyfrifoldebau'r portffolio gweinidogol. Dyna dri Gweinidog mewn tair blynedd. Yn y pen draw, bydd y blaenoriaethau yn newid ar lefel bersonol am y bydd Gweinidog yn amlwg yn dod â syniadau newydd i'w bortffolio ac yn y pen draw, eu blaenoriaethau eu hunain o ran sut y maent am gyflawni'r syniadau hynny.

If we look at the way the services are developing, the service model is becoming a far different model from the way that the services operated historically. We are moving to a more territorial, part-time model of service provision, with an estimated 30,000 to 35,000 territorials within the family of the armed services, and that will create different challenges and it will create different opportunities, and it will rely on a different response from Government in terms of the support that the Government makes available. Also, what we have to make sure is that, ultimately, all the services that Government provides, and the support that Government provides, are linked up to provide the best effect. I remember the inquiry that the health committee in the last Assembly delivered on PTSD and the provision that the health service in Wales provided for veterans. I think that all members of that committee were taken aback by how disjointed the provision was and, ultimately, how many people fell between the cracks, despite the best endeavours of the service to work in the best interests of the people who presented first to the GP's surgery, and then were progressed through the health system here in Wales. So, we do need, I believe—after looking at the Scottish model, and after listening to the discussion in the all-party group on the armed services here in Wales—a simple formula to create a critical friend of Government to offer that support and to offer that observation, such as the older persons' commissioner did earlier in the week with the very telling, but very welcome, report that her office provided on care homes here in Wales. I look forward to listening to what the Government's response will be to that report, but that, surely, is a way of identifying the problem and improving the service that we have here in Wales. I think that by doing this—what is on the agenda today—we could achieve the same goal.

Os ydym yn edrych ar y ffordd y mae'r gwasanaethau'n datblygu, mae'r model gwasanaeth yn dod yn fodel gwahanol iawn i'r ffordd yr arferai'r gwasanaethau weithredu yn hanesyddol. Rydym yn symud tuag at fodel mwy tiriogaethol, rhan-amser o ddarparu gwasanaethau, gydag amcangyfrif o 30,000 i 35,000 o filwyr tiriogaethol yn rhan o deulu'r lluoedd arfog, a bydd hynny'n creu gwahanol heriau a chyfleoedd gwahanol, a bydd yn dibynnu ar ymateb gwahanol gan y Llywodraeth o ran y gefnogaeth y bydd yn ei chynnig. Hefyd, yr hyn sy'n rhaid i ni wneud yn siŵr ohono yw bod yr holl wasanaethau y mae'r Llywodraeth yn eu darparu a'r holl gymorth yn cydgysylltu yn y pen draw er mwyn sicrhau'r effaith orau. Rwy'n cofio'r ymchwiliad a gynhaliwyd gan y pwyllgor iechyd yn y Cynulliad diwethaf ar anhwylder straen wedi trawma a darpariaeth y gwasanaeth iechyd yng Nghymru ar gyfer cyn-filwyr. Credaf fod holl aelodau'r pwyllgor hwnnw wedi'u synnu gan ba mor dameidiog oedd y ddarpariaeth ac yn y pen draw, gan faint o bobl a ddisgynnodd rhwng y craciau er gwaethaf ymdrechion gorau'r gwasanaeth i weithio er lles y bobl a ddaeth i sylw meddygon teulu yn gyntaf cyn cael eu symud drwy'r system iechyd yma yng Nghymru. Felly, ar ôl edrych ar fodel yr Alban ac ar ôl gwrando ar y drafodaeth yn y grŵp trawsbleidiol ar y lluoedd arfog yma yng Nghymru, rwy'n credu bod angen fformiwla syml i greu cyfaill beirniadol i'r Llywodraeth er mwyn cynnig y gefnogaeth honno a'r lefel o arsylwi a welwyd gan y comisiynydd pobl hŷn yn gynharach yn yr wythnos yn yr adroddiad trawiadol a mawr ei angen a ddarparwyd gan ei swyddfa ar gartrefi gofal yma yng Nghymru. Edrychaf ymlaen at wrando ar ymateb y Llywodraeth i'r adroddiad hwnnw, ond yn sicr, mae'n ffordd o gofnodi'r broblem a gwella'r gwasanaeth sydd gennym yma yng Nghymru. Drwy wneud hyn—yr hyn sydd ar yr agenda heddiw—credaf y gallem gyflawni'r un nod.

I have heard from other parts of the Chamber today that the other parties—the Liberals, for example—do not want to set up a £1 million commissioner. No-one is talking of a £1 million commissioner. As I understand it, in Scotland, for example, which has a bigger complement, shall we say, of veterans, the cost there is £250,000. That is not a small sum of money, but we are not looking at a model of delivery along the lines of the children's commissioner or the older persons' commissioner; we are talking about a different type of model, which would work with Government to improve things for service personnel and their families here in Wales: we have over 200,000 veterans, 5,000 service personnel and 3,000 reservists at the moment. However, under all that, we have a plethora of families who depend on the services that need to be put in place for the service personnel who have been bereaved in conflict or are suffering mental illness or severe injury. That is where I think we can make a real game changer in delivering this function here in Wales. I regret that I have heard from other parties that they are not prepared to support the motion today.

Rwyf wedi clywed o rannau eraill o'r Siambr heddiw nad yw'r pleidiau eraill—y Rhyddfrydwyr, er enghraifft—yn dymuno sefydlu comisiynydd gwerth £1 miliwn. Nid oes neb yn siarad am gomisiynydd gwerth £1 miliwn. Yn ôl a ddeallaf, yn yr Alban, er enghraifft, sydd â nifer fwy o gyn-filwyr, mae'r gost yno'n £250,000. Nid yw hynny'n swm bach o arian, ond nid ydym yn edrych ar fodel tebyg i'r comisiynydd plant neu'r comisiynydd pobl hŷn; rydym yn sôn am fath gwahanol o fodel a fyddai'n gweithio gyda'r Llywodraeth i wella pethau ar gyfer milwyr a'u teuluoedd yma yng Nghymru: mae gennym dros 200,000 o gyn-filwyr, 5,000 o filwyr a 3,000 o filwyr wrth gefn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, yn sail i hyn i gyd, mae gennym lu o deuluoedd yn dibynnu ar y gwasanaethau sydd angen eu rhoi ar waith ar gyfer y lluoedd arfog, sydd wedi cael profedigaeth o ganlyniad i ymladd neu sy'n dioddef o salwch meddwl neu anaf difrifol. Dyna lle rwy'n credu y gallwn wneud gwahaniaeth go iawn drwy ddarparu'r swyddogaeth hon yma yng Nghymru. Rwy'n gresynu fy mod wedi clywed gan bleidiau eraill nad ydynt yn barod i gefnogi'r cynnig heddiw.

16:04

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Finish now, please.

Gorffennwch yn awr, os gwelwch yn dda.

16:04

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

I think that that is a backward step, but I look forward to continuing the debate.

Credaf fod hynny'n gam yn ôl, ond rwy'n edrych ymlaen at barhau'r ddadl.

16:05 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

It is appropriate at this time, when we mark the one hundredth anniversary of the start of the first world war, that we recognise the enormous debt we owe to those who are serving and who have served in our armed forces. They serve our country with dedication, at the risk of their lives, and we owe it to them to provide the care and support they so richly deserve.

A ninnau'n nodi canmlwyddiant dechrau'r rhyfel byd cyntaf, mae'n briodol ar hyn o bryd i ni gydnabod ein dyled enfawr i'r rhai sy'n gwasanaethu ac sydd wedi gwasanaethu yn ein lluoedd arfog. Maent yn gwasanaethu ein gwlad gydag ymroddiad, gan roi eu bywydau mewn perygl, ac mae'n ddyletswydd arnom i ddarparu'r gofal a'r gefnogaeth y maent yn ei haeddu i'r fath raddau.

At present, it is estimated that there are more armed forces veterans in the United Kingdom than at any time since the second world war, as mentioned earlier by my colleagues. There are more than 215,000 veterans in Wales alone. It is not only the veterans—we are also talking about the families directly involved. When their loved ones are away on the front line in a war for eight, nine or 10 years, the family living without their loved ones go through stress. I do not think anyone in this Chamber knows how those families feel. They also have to be looked after, not only the veterans, because they are separated from the family. Children lose their loved ones for years. The wife loses her husband for many years, and that lost time does affect the family very strongly. The people who serve in the armed forces are very well aware of it, but not the people in the Chamber.

Ar hyn o bryd, amcangyfrifir bod mwy o gyn-filwyr y lluoedd arfog yn y Deyrnas Unedig nag ar unrhyw adeg ers yr ail ryfel byd, fel y crybwyllwyd yn gynharach gan fy nghydweithwyr. Mae mwy na 215,000 o gyn-filwyr yng Nghymru yn unig. Nid yn unig cyn-filwyr—rydym hefyd yn sôn am y teuluoedd sy'n rhan uniongyrchol o hyn. Pan fydd eu hanwyliaid i ffwrdd ar y rheng flaen mewn rhyfel am wyth, naw neu 10 mlynedd, mae'r teulu sy'n byw heb eu hanwyliaid yn mynd drwy straen. Nid wyf yn meddwl fod neb yn y Siambr hon yn gwybod sut y mae'r teuluoedd hynny'n teimlo. Rhaid edrych ar eu hôl hwy hefyd, nid cyn-filwyr yn unig, am eu bod yn cael eu gwahanu oddi wrth eu teuluoedd. Mae plant yn colli eu hanwyliaid am flynyddoedd. Mae'r wraig yn colli ei gŵr am flynyddoedd lawer ac mae'r amser a gollir yn effeithio'n fawr iawn ar y teulu. Mae'r bobl sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog yn ymwybodol iawn o hyn, ond nid yw hynny'n wir am y bobl yn y Siambr.

Leaving the military, often after a long period of service, presents former service personnel with many challenges. It often means having to relocate, move homes, find new employment and undergo a change of lifestyle. Veterans can sometimes struggle to obtain information about the services that are available to them when returning to civilian life. I would like to see the establishment of a network of one-stop shops for veterans, as they have in Scotland, to ensure that they are fully aware of the advice and support available to them 24 hours a day, seven days a week. Health bodies need to be reminded of their obligation to offer priority treatment and care.

Mae gadael y fyddin, yn aml ar ôl cyfnod hir o wasanaeth, yn creu heriau niferus i gyn-aelodau'r lluoedd arfog. Mae'n aml yn golygu gorfod adleoli, symud cartref, dod o hyd i swydd newydd a newid ffordd o fyw. Weithiau, bydd cyn-filwyr yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt wrth ddychwelyd i fywyd sifil. Hoffwn weld rhwydwaith o siopau un stop ar gyfer cyn-filwyr yn cael ei sefydlu, fel sydd ganddynt yn yr Alban, er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r cyngor a'r cymorth sydd ar gael iddynt 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Mae angen atgoffa cyrff iechyd am eu rhwymedigaeth i gynnig triniaeth a gofal â blaenoriaeth.

16:07 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

You talk about a one-stop shop for veterans; that seems slightly different from the sort of commissioner that your leader has just been talking about, which is a sort of pared-down version of that.

Rydych yn sôn am siop un stop ar gyfer cyn-filwyr; mae hynny'n ymddangos ychydig yn wahanol i'r math o gomisiynydd y mae eich arweinydd newydd fod yn sôn amdano, sy'n rhyw fath o fersiwn symlach o hynny.

16:07 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

That is actually what Scotland is doing anyway. What we are asking is: why can you not just understand that, if it is good for Scotland, it is good for Wales? We are all saying it.

Dyna mewn gwirionedd y mae'r Alban yn ei wneud beth bynnag. Yr hyn rydym yn ei ofyn yw: pam na allwch chi ddeall os yw'n dda ar gyfer yr Alban, ei fod yn beth da i Gymru? Rydym i gyd yn dweud ei fod.

Health bodies need to be reminded of their obligation to offer priority treatment and care for veterans whose health problems result from their service, particularly in the field of mental health. Post-traumatic stress disorder is an anxiety disorder caused by experiencing stressful or distressing events. Someone with PTSD will often relive the traumatic event through nightmares and flashbacks. They may experience feelings of isolation, irritability and guilt, in some cases leading to increased alcohol and drug misuse and sometimes suicidal feelings. We all know what has happened in America with its veterans and how they are dealing with them; a lot of armed forces veterans have committed suicide.

Mae angen atgoffa cyrff iechyd am eu rhwymedigaeth i gynnig triniaeth a gofal â blaenoriaeth i gyn-filwyr y mae eu problemau iechyd yn deillio o'u gwasanaeth, yn enwedig ym maes iechyd meddwl. Anhwylder gorbryder yw anhwylder straen wedi trawma sy'n cael ei achosi gan ddigwyddiadau trallodus neu rai sy'n peri straen. Bydd rhywun sy'n dioddef o anhwylder straen wedi trawma yn aml yn ail-fyw'r digwyddiad trawmatig drwy hunllefau ac ôl-fflachiau. Efallai y byddant yn profi teimladau o unigedd, anniddigrwydd ac euogrwydd, gan arwain mewn rhai achosion at fwy o gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol a theimladau hunanladdol weithiau. Rydym i gyd yn gwybod beth sydd wedi digwydd yn America gyda'i chyn-filwyr a sut y maent yn delio â hwy; mae llawer o gyn-filwyr y lluoedd arfog wedi cyflawni hunanladdiad.

The symptoms of mental health problems need to be recognised early and greater support is required from the NHS for service personnel, veterans and their families. The Welsh Conservatives have also campaigned for the introduction of an armed forces card that would be available to veterans and existing services personnel. This would offer a wide range of benefits, including a free bus pass, free entry to council-run swimming pools and Cadw heritage sites. The Welsh Government has stated previously that a review of the value and viability of such a card was being undertaken. I believe that an armed forces card would reinforce the rights of veterans and help them to reintegrate and play a full role in our society. I hope that the Welsh Government will move speedily to introduce such a card as soon as possible.

Mae angen adnabod symptomau problemau iechyd meddwl yn gynnar ac mae angen mwy o gefnogaeth gan y GIG i filwyr, cyn-filwyr a'u teuluoedd. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi ymgyrchu hefyd dros gyflwyno cerdyn y lluoedd arfog a fyddai ar gael i gyn-filwyr a milwyr presennol yn y lluoedd arfog. Byddai hyn yn cynnig amrywiaeth eang o fanteision, yn cynnwys tocyn bws am ddim, mynediad am ddim i byllau nofio sy'n cael eu rhedeg gan y cynghorau a safleoedd treftadaeth Cadw. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan yn flaenorol bod adolygiad o werth a hyfywedd cerdyn o'r fath yn cael ei gynnal. Rwy'n credu y byddai cerdyn y lluoedd arfog yn atgyfnerthu hawliau cyn-filwyr ac yn eu helpu i ailintegreiddio a chwarae rhan lawn yn ein cymdeithas. Gobeithiaf y bydd Llywodraeth Cymru yn symud yn gyflym i gyflwyno cerdyn o'r fath cyn gynted ag y bo modd.

It is clear that more must be done to co-ordinate and to shape services for our veterans. I believe that this can best be done by creating the post of a veterans commissioner in Wales. This has been done in Scotland and I believe that Wales should follow suit. Wales has a long and proud relationship with the armed forces. I believe that we have a duty to recognise the long history of courage, sacrifice and service of our servicemen and women, past and present. I hope that the National Assembly will acknowledge that debt of gratitude today by supporting this motion. Thank you.

Mae'n amlwg bod yn rhaid gwneud mwy i gydlynu ac i lunio gwasanaethau ar gyfer ein cyn-filwyr. Credaf mai'r ffordd orau o wneud hyn yw creu swydd comisiynydd cyn-filwyr yng Nghymru. Mae hyn wedi cael ei wneud yn yr Alban ac rwy'n credu y dylai Cymru wneud yr un peth. Mae gan Gymru berthynas hir a balch gyda'r lluoedd arfog. Rwy'n credu ei bod yn ddyletswydd arnom i gydnabod hanes hir o ddewrder, aberth a gwasanaeth ein milwyr yn y gorffennol a'r presennol. Gobeithiaf y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cydnabod y ddyled honno heddiw drwy gefnogi'r cynnig hwn. Diolch.

16:10

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, Leighton Andrews.

I call the Minister for Public Services, Leighton Andrews.

16:10 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Thank you, Deputy Presiding Officer. The Welsh Government will oppose the motion to establish an armed forces commissioner in Wales. Yesterday in Plenary, I set out our support for the armed forces community here, and I believe that good progress is being made across all areas of Wales in support for our armed forces community. Our expert group already provides me with advice and expertise on matters relating to the armed forces community in Wales. It has multi-agency membership, including service support organisations such as the Royal British Legion, SSAFA, 160 Brigade and many others. At the last meeting with the group in June, my predecessor discussed with the group the establishment of an armed forces and veterans commissioner for Scotland and whether there was a need for one in Wales, and it was suggested that we review the establishment of the post in Scotland and learn from it.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu'r cynnig i sefydlu comisiynydd y lluoedd arfog yng Nghymru. Ddoe yn y Cyfarfod Llawn, nodais ein cefnogaeth i gymuned y lluoedd arfog yma, ac rwy'n credu bod cynnydd da yn cael ei wneud ym mhob ardal o Gymru o ran y gefnogaeth i gymuned ein lluoedd arfog. Mae ein grŵp arbenigol eisoes yn darparu cyngor ac arbenigedd ar fy nghyfer ar faterion sy'n ymwneud â chymuned y lluoedd arfog yng Nghymru. Mae ganddo aelodaeth amlasiantaethol, yn cynnwys sefydliadau cefnogi'r lluoedd arfog megis y Lleng Brydeinig Frenhinol, Cymdeithas y Milwyr, Morwyr, Awyrenwyr a'u Teuluoedd, Brigâd 160 a llawer o rai eraill. Yn y cyfarfod diwethaf gyda'r grŵp ym mis Mehefin, trafododd fy rhagflaenydd y penderfyniad i sefydlu comisiynydd y lluoedd arfog a chyn-filwyr ar gyfer yr Alban ac a oedd angen un yng Nghymru, ac awgrymwyd ein bod yn adolygu'r penderfyniad i sefydlu'r swydd yn yr Alban ac yn dysgu ohono.

Our revised package of support for the armed forces community was launched last year. This provides commitments across a range of Welsh Government departments, including areas such as health, education and housing. It is right, as others have said in the Chamber, to remind the Welsh Conservatives that the responsibility for the armed forces is not devolved. Our support focuses on support after they have left the services. The Ministry of Defence is responsible for the welfare of serving forces personnel and for preparing for transition into civilian life. In terms of our own package of support, schemes already in place for some time include the £485,000 per annum for the all-Wales veterans' health and wellbeing service, with an extra £100,000 invested this year to ensure that veterans receive faster access to assessment and treatment: 1,100 people have been referred to the service so far. The homebuy shared equity scheme has been extended to cover widows and widowers of personnel killed in action. All local authorities in Wales provide a total disregard of war disablement pension and an armed forces compensation scheme for council tax support and housing benefit. There is automatic entitlement to blue badges for seriously injured service personnel, and we provided £2 million in 2013 to provide housing for armed forces service leavers. Each local authority in Wales has signed a community covenant and has armed forces champions and lead officers in place to push forward and implement this work in providing support for the armed forces community, and local health boards provide similar support.

Cafodd ein pecyn diwygiedig o gefnogaeth i gymuned y lluoedd arfog ei lansio y llynedd. Mae'n darparu ymrwymiadau ar draws ystod o adrannau Llywodraeth Cymru, yn cynnwys meysydd fel iechyd, addysg a thai. Fel y mae eraill wedi'i ddweud yn y Siambr, mae'n iawn i ni atgoffa'r Ceidwadwyr Cymreig nad yw'r cyfrifoldeb dros y lluoedd arfog wedi'i ddatganoli. Mae ein cefnogaeth yn canolbwyntio ar gymorth ar ôl iddynt adael y lluoedd arfog. Y Weinyddiaeth Amddiffyn sy'n gyfrifol am les milwyr sy'n gwasanaethu ac am eu paratoi ar gyfer newid i fywyd sifil. O ran ein pecyn cymorth ni ein hunain, mae cynlluniau eisoes ar waith ers peth amser yn cynnwys y £485,000 y flwyddyn ar gyfer gwasanaeth iechyd a lles cyn-filwyr Cymru, gyda £100,000 ychwanegol wedi'i fuddsoddi eleni i sicrhau bod cyn-filwyr yn cael eu hasesu a'u trin yn gynt: mae 1,100 o bobl wedi cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth hyd yn hyn. Mae'r cynllun cymorth prynu a rhannu ecwiti wedi cael ei ymestyn i gynnwys gweddwon a gwŷr gweddw milwyr a laddwyd wrth ymladd. Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn diystyru pensiwn anabledd rhyfel yn llwyr a chynllun iawndal y lluoedd arfog ar gyfer cymorth gyda'r dreth gyngor a budd-dal tai. Mae hawl awtomatig i fathodynnau glas ar gyfer aelodau o'r lluoedd arfog a anafwyd yn ddifrifol ac rydym wedi rhyddhau £2 filiwn yn 2013 i ddarparu tai i bobl sy'n gadael gwasanaeth yn y lluoedd arfog. Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi llofnodi cyfamod cymunedol ac wedi penodi hyrwyddwyr y lluoedd arfog a swyddogion arweiniol i ddatblygu a gweithredu'r gwaith hwn drwy ddarparu cymorth i gymuned y lluoedd arfog, ac mae byrddau iechyd lleol yn darparu cymorth tebyg.

Armed forces champions' events have been held to bring together everyone who holds an armed forces champion role across Wales. Feedback from these events has been very helpful, providing the service providers with the opportunity to share good practice, identify areas for cross-organisational work, and improve the signposting of their services. I will be attending the next armed forces champions' event on 27 November to hear about further progress and improve collaborative working.

Cynhaliwyd digwyddiadau gan hyrwyddwyr y lluoedd arfog i ddod â phawb sy'n cyflawni rôl hyrwyddwr y lluoedd arfog ledled Cymru at ei gilydd. Mae adborth o'r digwyddiadau hyn wedi bod yn ddefnyddiol iawn, gan roi cyfle i ddarparwyr gwasanaethau rannu arferion da, nodi meysydd ar gyfer gwaith traws-sefydliadol, a thynnu mwy o sylw at eu gwasanaethau. Byddaf yn mynychu digwyddiad nesaf hyrwyddwyr y lluoedd arfog ar 27 Tachwedd i glywed am gynnydd pellach a gwella gweithio ar y cyd.

As I said yesterday, in some local health board areas, veterans forums have been formed to bring together all organisations involved in delivering services for our armed forces community. These are developing joint local initiatives that support the needs of our ex-servicemen and women and their families. We have supported, of course, the existing defence privilege card, and we will be giving further financial support to the advertising for that card. This is a UK Government initiative, but we have made provision that has been match-funded by the Ministry of Defence. The launch of that card will be happening later this month.

Fel y dywedais ddoe, mewn rhai byrddau iechyd lleol, ffurfiwyd fforymau i gyn-filwyr i ddwyn ynghyd yr holl sefydliadau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau ar gyfer cymuned ein lluoedd arfog. Mae'r rhain yn datblygu mentrau lleol ar y cyd sy'n cefnogi anghenion ein cyn-filwyr a'u teuluoedd. Rydym wedi cefnogi'r cerdyn braint amddiffyn presennol, wrth gwrs, a byddwn yn rhoi cymorth ariannol pellach ar gyfer hysbysebu'r cerdyn. Cynllun Llywodraeth y DU yw hwn, ond rydym wedi sicrhau darpariaeth sydd wedi denu arian cyfatebol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn. Bydd lansio'r cerdyn yn digwydd yn nes ymlaen y mis hwn.

As I said yesterday, I recently helped launch the Royal British Legion's pop-in advice and information centre in Cardiff. The legion is in the process of carrying out a major programme of modernisation and infrastructure investment to ensure that more effective services will be delivered to the armed forces community. The need for these hubs to support our armed forces community has been highlighted for a number of years. This is progress that is being made with a targeted response. While I was with the Royal British Legion, I was presented with its manifesto for 2015, and it was interesting to note that, within that document, there was no mention of the need for an armed forces commissioner for Wales. I will be meeting the legion again in the near future to discuss further joint working to deliver more effective support for our armed forces community.

Fel y dywedais ddoe, yn ddiweddar cynorthwyais i lansio canolfan alw heibio am gyngor a gwybodaeth y Lleng Brydeinig Frenhinol yng Nghaerdydd. Mae'r lleng yn y broses o gynnal rhaglen foderneiddio fawr a buddsoddi mewn seilwaith er mwyn sicrhau y caiff mwy o wasanaethau effeithiol eu darparu i gymuned y lluoedd arfog. Ers nifer o flynyddoedd, amlygwyd yr angen am y canolfannau hyn i gefnogi cymuned ein lluoedd arfog. Mae'n ddatblygiad sy'n cael ei wneud drwy ymateb wedi'i dargedu. Pan oeddwn gyda'r Lleng Brydeinig Frenhinol, cyflwynwyd ei maniffesto ar gyfer 2015 i mi, ac roedd yn ddiddorol nodi nad oedd unrhyw sôn yn y ddogfen honno am yr angen am gomisiynydd y lluoedd arfog yng Nghymru. Byddaf yn cyfarfod â'r lleng eto yn y dyfodol agos i drafod cydweithio pellach er mwyn darparu cymorth mwy effeithiol ar gyfer cymuned ein lluoedd arfog.

Deputy Presiding Officer, I think that we have an extensive range of support in place for our armed forces community. We will not be supporting this motion.

Ddirprwy Lywydd, rwy'n meddwl fod gennym ystod helaeth o gymorth ar gyfer cymuned ein lluoedd arfog. Ni fyddwn yn cefnogi'r cynnig hwn.

16:14

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Galwaf ar William Graham i ymateb i'r ddadl.

I call William Graham to reply to the debate.

16:14

## William Graham Bywgraffiad Biography

Thank you, Deputy Presiding Officer. All Members agree that our armed forces do a truly incredible job on a daily basis and that each and every one of them deserves all our possible help and support. So, we believe that creating the position of an armed forces commissioner in Wales would be an excellent opportunity to ensure that that happens. The commissioner would work with charities, local authorities and health boards and would be the first point of contact on all issues relating to support for our armed forces.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae pob Aelod yn cytuno bod ein lluoedd arfog yn gwneud gwaith gwirioneddol anhygoel bob dydd, a bod pob un ohonynt yn haeddu ein holl gymorth a phob cefnogaeth bosibl. Felly, rydym yn credu y byddai creu swydd comisiynydd y lluoedd arfog yng Nghymru yn gyfle gwych i sicrhau bod hynny'n digwydd. Byddai'r comisiynydd yn gweithio gydag elusennau, awdurdodau lleol a byrddau iechyd a dyma fyddai'r pwynt cyswllt cyntaf ar yr holl faterion sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer ein lluoedd arfog.

The Scottish Government has recently appointed a veterans commissioner, who will work with charities, local authorities and health boards to identify any areas in public service that might provide greater support to veterans. It is the first post in the United Kingdom of its kind, and we believe that the Welsh Government needs to follow Scotland's example and extend this role to support all armed forces and veterans in Wales. We much regret the Minister's present stance on this matter.

Yn ddiweddar, penododd Llywodraeth yr Alban gomisiynydd y cyn-filwyr a fydd yn gweithio gydag elusennau, awdurdodau lleol a byrddau iechyd i nodi unrhyw feysydd yn y gwasanaeth cyhoeddus a allai roi mwy o gymorth i gyn-filwyr. Dyma'r swydd gyntaf o'i math yn y Deyrnas Unedig ac rydym yn credu bod angen i Lywodraeth Cymru ddilyn esiampl yr Alban ac ymestyn y swydd hon i gefnogi pob un o filwyr y lluoedd arfog a chyn-filwyr yng Nghymru. Mae safbwynt presennol y Gweinidog ar y mater hwn yn destun siom fawr i ni.

It is probably worth quoting from that Royal British Legion community covenant launched in June, which calls for five practical policy changes, to which the Minister has partially referred, to be made by all local authorities that would benefit the armed forces and make sure that veterans do not experience any disadvantages as a result of their service. These are: to make tangible changes to social housing allocations policy; to fully disregard military compensation payments when means testing for council delivered support—already partly agreed; to prioritise disabled facilities grant applications where the disability is as a result of service in the armed services; to consider the needs of the armed forces community when planning local services and to offer a school place to armed forces children who apply mid-term, increasing class sizes to accept them where necessary. We know that all 22 local authorities in Wales are fully signed up to the armed services community covenant, and the Welsh Conservatives welcome the work of both the Welsh and United Kingdom Governments in achieving this goal.

Yn ôl pob tebyg, mae'n werth dyfynnu o gyfamod cymunedol y Lleng Brydeinig Frenhinol a lansiwyd ym mis Mehefin, sy'n galw am bum newid polisi ymarferol y cyfeiriodd y Gweinidog atynt yn rhannol, ac sydd i'w gwneud gan bob awdurdod lleol er budd y lluoedd arfog ac i wneud yn siŵr nad yw cyn-filwyr yn wynebu unrhyw anfanteision o ganlyniad i'w gwasanaeth, sef: gwneud newidiadau pendant i'r polisi dyrannu tai cymdeithasol; llwyr ddiystyru taliadau iawndal milwrol wrth wneud prawf modd am gymorth gan y cyngor—sydd eisoes wedi'i gytuno'n rhannol; blaenoriaethu ceisiadau am grantiau cyfleusterau i'r anabl pan fo'r anabledd yn deillio o wasanaeth yn y lluoedd arfog; ystyried anghenion cymuned y lluoedd arfog wrth gynllunio gwasanaethau lleol a chynnig lle mewn ysgol i blant y lluoedd arfog sy'n gwneud cais ar ganol tymor, gan ymestyn maint dosbarthiadau i'w derbyn yn ôl yr angen. Gwyddom fod pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru wedi ymrwymo'n llwyr i gyfamod cymunedol y lluoedd arfog ac mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn croesawu gwaith Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyflawni'r nod hwn.

Over the years, as any student of history will tell you, after the parades and the medals have been awarded, soldiers, sailors and, latterly, airmen have been disregarded. Yesterday, I met with the director of BT Wales—and I hope that that is not unknown to our Minister—and she gave me good hope in that it is doing its very best to employ people from the armed services where the opportunity arises in BT. That is a definite and real step forward. I will also mention, if I may, the Pontypool-based charity, Hire a Hero, which does exactly what it says. It is a worthwhile commitment to helping our armed forces personnel once they have left the service to get back into work. As Lindsay Whittle reminded us, what they want is a job, a well-paid job, and the respect and support of the community as life goes on.

Dros y blynyddoedd, fel y bydd unrhyw fyfyriwr hanes yn dweud wrthych, ar ôl i'r gorymdeithiau a'r medalau gael eu cyflwyno, câi milwyr a llongwyr, ac awyrenwyr yn fwy diweddar, eu diystyru. Ddoe, cyfarfûm â chyfarwyddwr BT Cymru—ac rwy'n gobeithio bod ein Gweinidog yn gwybod hynny—a rhoddodd obaith i mi ei bod yn gwneud ei gorau glas i gyflogi pobl o'r lluoedd arfog pan fo cyfle i'w gael yn BT. Mae hynny'n gam pendant a real ymlaen. Rwyf am sôn hefyd, os caf i, am yr elusen sydd wedi'i lleoli ym Mhont-y-pŵl, Hire a Hero, sy'n gwneud yn union beth y mae'n ei ddweud. Mae'n ymrwymiad gwerth chweil i helpu ein milwyr i fynd yn ôl i weithio ar ôl iddynt adael y gwasanaeth. Fel y cawsom ein hatgoffa gan Lindsay Whittle, yr hyn y maent ei eisiau yw swydd, swydd sy'n talu'n dda, a pharch a chefnogaeth y gymuned fel y mae bywyd yn mynd yn ei flaen.

So many men and women have served their country with distinction and they deserve the best help that can be provided when they return to civilian life. We pay tribute to the immense sacrifice and commitment of those who have served in our armed forces, particularly during this week of remembrance.

Felly, mae llawer o ddynion a menywod wedi gwasanaethu eu gwlad gyda chlod ac maent yn haeddu'r cymorth gorau y gellir ei roi pan fyddant yn dychwelyd i fywyd sifil. Rydym yn rhoi teyrnged i aberth ac ymrwymiad aruthrol y rheiny sydd wedi gwasanaethu yn ein lluoedd arfog, yn enwedig yn ystod wythnos y cofio yr wythnos hon.

We already know that the responsibility for the healthcare of regular service personnel falls to the Ministry of Defence. For reservists, the responsibility falls to both the Ministry of Defence and the NHS, and for veterans' families and the bereaved, it is the NHS.

Rydym eisoes yn gwybod mai'r Weinyddiaeth Amddiffyn sydd â chyfrifoldeb dros ofal iechyd milwyr rheolaidd. Yn achos milwyr wrth gefn, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn a'r GIG yn rhannu cyfrifoldeb, a'r GIG sy'n gyfrifol am deuluoedd cyn-filwyr a'r rhai sydd wedi cael profedigaeth.

We have heard today many calls and much support, and we must now take this opportunity—and I am sorry that the Minister will not agree with our suggestion today—because if we fail to give the support and respect to our ex-servicemen, we are failing in our duty as a community and as a nation.

Rydym wedi clywed llawer o alwadau a llawer o gefnogaeth heddiw ac mae'n rhaid i ni gymryd y cyfle hwn yn awr—ac mae'n ddrwg gennyf na fydd y Gweinidog yn cytuno â'n hawgrym heddiw—oherwydd os methwn â rhoi cefnogaeth a pharch i'n cyn-filwyr, rydym yn methu yn ein dyletswydd fel cymuned ac fel cenedl.

16:18

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod, felly, gohiriwyd y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The question is that the motion is agreed. Does any Member object? There is objection, and so voting on this item will be deferred until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Adnoddau Dŵr

## Welsh Conservatives Debate: Water Resources

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Aled Roberts a gwelliant 2 yn enw Elin Jones.*

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Aled Roberts, and amendment 2 in the name of Elin Jones.*

16:18 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Galwaf ar Antoinette Sandbach i wneud y cynnig.

I call on Antoinette Sandbach to move the motion.

Cynnig NDM5616 Paul Davies

Motion NDM5616 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi bod gan Gymru gyfoeth o adnoddau naturiol.

1. Notes Wales’s rich wealth of natural resources.

2. Yn nodi'r rôl bwysig y mae dŵr yn ei chwarae o ran cynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru ar hyn o bryd ac at y dyfodol.

2. Notes the important role water has in the current and future economic, social and environmental sustainability of Wales.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried ffyrdd o fanteisio ar botensial dŵr i economi Cymru.

3. Calls on the Welsh Government to consider ways to capitalise on the potential that water can bring to the Welsh economy.

4. Yn galw ar y Cynulliad Cenedlaethol i ymgysylltu ar lefel genedlaethol a rhyngwladol i sicrhau bod pwysigrwydd adnoddau dŵr i gymunedau yn cael ei nodi a gweithio tuag at gynnwys gwybodaeth ar labeli ynghylch ôl troed dŵr cynhyrchion a gwasanaethau.

4. Calls for the National Assembly to engage at a national and international level to ensure the importance of water resources to communities is identified and work towards including labelling information on the water footprint of products and services.

16:18 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

Just a few moments ago, the Rosetta probe landed on the comet, which is a pretty historic moment, but if that probe turned its cameras back to Earth, what it is likely to see is water, because our seas and oceans are one of the key things that are visible from space. So, we have tabled our debate today to look at how, by effectively harnessing water, we can improve the economic and sustainability outlook of Wales.

Dim ond ychydig funudau yn ôl, glaniodd y chwiliedydd Rosetta ar y gomed, sydd yn foment eithaf hanesyddol, ond pe bai’r chwiliedydd honno’n troi ei chamerâu yn ôl i gyfeiriad y Ddaear, yr hyn y mae'n debygol o’i weld yw dŵr, oherwydd bod ein moroedd a’n cefnforoedd yn un o'r pethau allweddol y gellir eu gweld o'r gofod. Felly, rydym wedi cyflwyno ein dadl heddiw i edrych ar sut, drwy ddefnyddio dŵr yn effeithiol, y gallwn wella rhagolygon economaidd a chynaliadwyedd Cymru.

In terms of the amendments, we accept amendment 1. On amendment 2, we accept that sewage should be devolved to the National Assembly for Wales, but we are looking at whether the ecosystems services approach in terms of river basin management means that it is sensible to devolve issues along the English-Welsh border, or whether there is another way of approaching it. I know that it is an extremely complex issue. However, we are very lucky in Wales not to be short of water, and I think that the recent rainfall in parts of Wales demonstrates that admirably this week. When we have droughts, they often mean only a reduction in reservoir levels or a hosepipe ban, and they do not have the severe impacts such as the loss of life that we see in other parts of the world.

O ran y gwelliannau, rydym yn derbyn gwelliant 1. O ran gwelliant 2, rydym yn derbyn y dylid datganoli carthion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond rydym yn ystyried a yw'r dull gwasanaethau ecosystemau o safbwynt rheoli basnau afonydd yn golygu ei bod yn synhwyrol datganoli materion ar sail y ffin rhwng Cymru a Lloegr, neu a oes ffordd arall o weithredu. Gwn ei fod yn fater hynod o gymhleth. Fodd bynnag, rydym yn ffodus iawn yng Nghymru nad oes prinder dŵr, ac rwy’n meddwl bod y glaw diweddar mewn rhannau o Gymru yn dangos hynny’n glir yr wythnos hon. Ar adegau o sychder yma, yn aml maent ond yn arwain at ostyngiad mewn lefelau cronfeydd dŵr neu waharddiad ar ddefnyddio pibelli dyfrhau, ac nid ydynt yn cael yr un effeithiau difrifol fel colli bywydau ag y gwelwn mewn rhannau eraill o'r byd.

It is worth noting that there are 1.2 billion people living on earth who have no access to safe drinking water, and that the 'British Medical Journal' estimates that, at any one time, more than half the hospital beds worldwide are occupied by people with water-related diseases. Although we have lots of water, we have a duty to look after the water that we have, to manage it correctly, to reduce waste and to make it work to help power and drive our country forward.

Mae'n werth nodi bod 1.2 biliwn o bobl yn byw ar y ddaear nad oes ganddynt fynediad at ddŵr yfed diogel, a bod y 'British Medical Journal' yn amcangyfrif, ar unrhyw un adeg, bod mwy na hanner y gwelyau mewn ysbytai ledled y byd yn cael eu defnyddio gan bobl sydd â chlefydau sy'n gysylltiedig â dŵr. Er bod gennym lawer o ddŵr, mae gennym ddyletswydd i ofalu am y dŵr sydd gennym, ei reoli yn gywir, lleihau gwastraff a gwneud iddo weithio i helpu i symud a gyrru ein gwlad ymlaen.

There are currently three water companies serving Wales. The largest and the one that covers most of Wales is Dŵr Cymru. It supplies approximately 2.7 million people with the equivalent of 308 Olympic-size swimming pools' worth of water every day, and it manages a large portfolio of reservoirs and pipelines. There is also, obviously, Dee Valley Water and Severn Trent Water, which serve specific areas across the English-Welsh border.

Mae tri chwmni dŵr yn gwasanaethu Cymru ar hyn o bryd. Y mwyaf a'r un sy'n gwasanaethu'r rhan fwyaf o Gymru yw Dŵr Cymru. Mae'n cyflenwi tua 2.7 miliwn o bobl â'r hyn sy'n cyfateb i werth 308 o byllau nofio maint Olympaidd o ddŵr bob dydd, ac mae'n rheoli portffolio mawr o gronfeydd dŵr a phiblinellau. Hefyd, yn amlwg, mae Dŵr Dyffryn Dyfrdwy a Severn Trent Water, sy'n gwasanaethu ardaloedd penodol ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr.

It is clear that climate change is linked to water resource, and the failure to tackle climate change can create water shortages in parts of the world, largely due to adverse weather patterns and rising sea levels. Flooding can also be tied into the issue of climate change, and there are estimates that the average damage from river and sea flooding here in Wales is more than £200 million. Recent years have shown the enormous cost that flooding can have on the Welsh economy. I appreciate that the Welsh Government has brought in measures to tackle the risks of flooding and to try to reduce those risks. However, the UK climate change risk assessment identified that 20% of power generation capacity in Wales is at significant likelihood of flooding. This could rise to 30% by 2020 and 50% in the 2080s. There is no evidence that this issue has been addressed, and I would be interested, Minister, to hear what measures are in place to tackle this concern.

Mae'n amlwg bod newid yn yr hinsawdd yn gysylltiedig ag adnoddau dŵr, a gall y methiant i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd greu prinder dŵr mewn rhannau o'r byd, yn bennaf oherwydd patrymau tywydd gwael a lefelau'r môr yn codi. Gall llifogydd hefyd gael eu cysylltu â newid yn yr hinsawdd, ac amcangyfrifir bod y difrod cyfartalog sy'n deillio o afonydd a'r môr yn gorlifo yma yng Nghymru yn fwy na £200 miliwn. Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi dangos cost enfawr llifogydd ar economi Cymru. Rwy'n sylweddoli bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno mesurau i fynd i'r afael â'r perygl o lifogydd ac i geisio lleihau'r peryglon hynny. Fodd bynnag, nododd asesiad risg newid yn yr hinsawdd y DU fod 20% o gapasiti cynhyrchu ynni yng Nghymru yn wynebu tebygrwydd arwyddocaol o lifogydd. Gallai hyn godi i 30% erbyn 2020 a 50% yn y 2080au. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod y mater hwn wedi derbyn sylw, a byddai gennyf ddiddordeb, Weinidog, clywed pa fesurau sydd ar waith i fynd i'r afael â'r pryder hwn.

When thinking about flooding, there is also the obvious cost to agriculture and the food supply and to businesses in most areas prone to flooding, which could also have knock-on effects for households in these areas and further afield. As you know, Minister, a lot of our property is on the coast and is particularly vulnerable to flooding. A Wales Audit Office report states that flooding is likely to become more frequent and have more severe consequences in the future due to population growth, climate change and changing land use.

Wrth feddwl am lifogydd, mae cost amlwg hefyd i amaethyddiaeth a'r cyflenwad bwyd ac i fusnesau yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd sy'n tueddu i orlifo, a gallai hyn gael effeithiau canlyniadol hefyd ar gyfer cartrefi yn yr ardaloedd hyn ac ymhellach i ffwrdd. Fel y gwyddoch, Weinidog, mae llawer o'n heiddo ar yr arfordir ac mae'n arbennig o agored i lifogydd. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi bod llifogydd yn debygol o ddigwydd yn amlach ac arwain at ganlyniadau mwy difrifol yn y dyfodol oherwydd y twf yn y boblogaeth, y newid yn yr hinsawdd a'r newid mewn defnydd tir.

The value of effective flood management should be considered not only for its role in protecting people and the environment, but also the role that it has in safeguarding jobs and promoting growth. We need to consider the cost that severe floods can have on businesses, tourism, transport and agriculture. I know, Minister, that you will know the vulnerability of the transport network in north Wales where the railway line runs right across the Welsh coast, and the impact that the severe storms had on that transport infrastructure just last year.

Dylid ystyried pwysigrwydd rheoli llifogydd yn effeithiol, nid yn unig oherwydd ei rôl wrth ddiogelu pobl a'r amgylchedd, ond hefyd oherwydd ei rôl wrth ddiogelu swyddi a hybu twf. Mae angen i ni ystyried cost bosibl llifogydd difrifol i fusnesau, twristiaeth, trafnidiaeth ac amaethyddiaeth. Rwy'n gwybod, Weinidog, y byddwch yn gwybod pa mor fregus yw'r rhwydwaith trafnidiaeth yn y Gogledd lle mae'r rheilffordd yn rhedeg ar draws arfordir Cymru, a'r effaith a gafodd y stormydd difrifol ar y seilwaith trafnidiaeth y llynedd.

As the UK climate change risk assessment for Wales highlighted, businesses in Wales are at relatively high risk of tidal flooding, because most of the population and associated businesses are near the coast. It is not only the cost that are borne at the time of the floods, but the costs of the loss of business, damage to infrastructure and higher insurance premiums. As I have already highlighted, a failure to tackle climate change can increase the likelihood of flooding. With the failure to tackle carbon dioxide emissions that we have highlighted in a number of debates in recent weeks, and the uncertainty that the Welsh Government will meet its emission targets, the risk of flooding looks likely to remain high.

Fel y dangosodd asesiad o risg newid hinsawdd y DU ar gyfer Cymru, mae busnesau yng Nghymru yn wynebu perygl cymharol uchel o lifogydd llanw, gan fod y rhan fwyaf o'r boblogaeth a'r busnesau cysylltiedig yn agos i'r arfordir. Yn ogystal â'r gost sy'n cael ei hysgwyddo adeg y llifogydd, mae costau eraill yn deillio o golli busnes, difrod i seilwaith a phremiymau yswiriant uwch. Fel rwyf eisoes wedi'i nodi, gall methu â mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd gynyddu'r tebygolrwydd o lifogydd. Oherwydd y methiant i fynd i'r afael ag allyriadau carbon deuocsid a amlygwyd gennym mewn nifer o ddadleuon dros yr wythnosau diwethaf, a'r ansicrwydd a fydd Llywodraeth Cymru yn cyrraedd ei thargedau o safbwynt allyriadau, mae'n ymddangos y bydd y perygl o lifogydd yn aros yn uchel.

The motion also talks about the important role that water plays in the future environmental sustainability of Wales. There are many opportunities where water can be harnessed to produce power and to help make Wales a centre for renewable energy schemes. Many years ago, water mills were used to grind corn and to provide power. Today, hydropower, harnessed in the right way and without causing disruption to the local ecosystem, can help us meet our energy needs for many years to come.

Mae'r cynnig hefyd yn sôn am rôl bwysig dŵr o safbwynt cynaliadwyedd amgylcheddol Cymru yn y dyfodol. Mae llawer o gyfleoedd lle y gall dŵr gael ei ddefnyddio i gynhyrchu ynni a helpu i wneud Cymru yn ganolfan ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy. Flynyddoedd lawer yn ôl, cafodd melinau dŵr eu defnyddio i falu ŷd a darparu ynni. Heddiw, gall ynni dŵr, o'i ddefnyddio yn y ffordd gywir fel nad yw'n aflonyddu ar yr ecosystem leol, ein helpu i ddiwallu ein hanghenion ynni am flynyddoedd lawer i ddod.

The schemes being developed at the moment in Pembrokeshire and the tidal lagoon planned in south Wales could have a similar impact on the way that we think about water as an energy source, and I know that my colleagues will talk about individual schemes, but I wanted to stress the importance of these schemes succeeding and proceeding. In my area of north Wales, discussions about a similar tidal lagoon are taking place, and I hope that tidal power will become an energy source for the future here in Wales. These marine renewable schemes have the potential to support thousands of jobs in Wales, and that potential needs to be maximised. The tidal lagoons will also have a knock-on effect of developing tourism and, potentially, sporting opportunities. They could also have a positive impact on coastal and flood defences.

Gallai'r cynlluniau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd yn Sir Benfro a'r morlyn llanw arfaethedig yn ne Cymru gael effaith debyg ar y ffordd rydym yn meddwl am ddŵr fel ffynhonnell ynni, ac rwy'n gwybod y bydd fy nghyd-Aelodau yn siarad am gynlluniau unigol, ond roeddwn eisiau pwysleisio pa mor bwysig yw sicrhau bod y cynlluniau hyn yn llwyddo ac yn mynd rhagddynt. Yn fy ardal yng ngogledd Cymru, mae trafodaethau am forlyn llanw tebyg yn cael eu cynnal, ac rwy'n gobeithio y bydd ynni'r llanw yn dod yn ffynhonnell ynni ar gyfer y dyfodol yma yng Nghymru. Mae gan y cynlluniau morol adnewyddadwy hyn y potensial i gynnal miloedd o swyddi yng Nghymru, ac mae angen manteisio i'r eithaf ar y potensial hwnnw. Bydd y morlynnoedd llanw hefyd yn cael effaith ganlyniadol datblygu twristiaeth ac, o bosibl, cyfleoedd chwaraeon. Gallent hefyd gael effaith gadarnhaol ar amddiffyn yr arfordir ac amddiffyn rhag llifogydd.

While talking about renewables, the issue of anaerobic digestion is worth mentioning. Dŵr Cymru has invested in a £70 million programme of AD plants, and in its Tremorfa plant, the process, which captures gas from waste water received, drives a turbine that produces 21,000,000 kW of electricity a year, the equivalent of powering 4,000 homes. Minister, you know that I have advocated more anaerobic digestion, particularly in rural areas, and I am keen to see how more of those schemes can go ahead and deliver power to local communities effectively. At the moment, the schemes are offsetting the energy costs that Dŵr Cymru is incurring, but, as things develop further and excess energy is produced, the infrastructure needs to be put into place to move into local communities. It works in Germany, where bioenergy villages are being created, but it would take a change in public perception and public understanding that locating anaerobic digesters near villages will not cause any more disruption than their existing sewage plants would.

Wrth siarad am ynni adnewyddadwy, mae'n werth cyfeirio at bwnc treulio anaerobig. Mae Dŵr Cymru wedi buddsoddi mewn rhaglen safleoedd treulio anaerobig gwerth £70 miliwn, ac yng ngwaith Tremorfa, mae'r broses, sy'n dal nwy o ddŵr gwastraff sy'n cael ei dderbyn, yn gyrru tyrbin sy'n cynhyrchu 21,000,000 kW o drydan y flwyddyn, sy'n cyfateb i ddarparu ynni i 4,000 o gartrefi. Weinidog, rydych yn gwybod fy mod wedi siarad o blaid rhagor o gynlluniau treulio anaerobig, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, ac rwy'n awyddus i weld sut y gall mwy o'r cynlluniau hyn gael eu datblygu a darparu ynni ar gyfer cymunedau lleol yn effeithiol. Ar hyn o bryd, mae'r cynlluniau yn gwneud iawn am y costau ynni sy'n cael eu hysgwyddo gan Dŵr Cymru, ond, wrth i bethau ddatblygu ymhellach ac wrth i ynni dros ben gael ei gynhyrchu, mae angen rhoi'r seilwaith ar waith i symud i mewn i gymunedau lleol. Mae'n gweithio yn yr Almaen, lle mae pentrefi bio-ynni yn cael eu creu, ond byddai angen newid mewn canfyddiad y cyhoedd a dealltwriaeth y cyhoedd na fydd lleoli treulwyr anerobig ger pentrefi yn achosi mwy o aflonyddwch na'u gweithfeydd carthion presennol.

The Welsh Government needs to take a closer look at developing community-based renewable energy projects. Ynni'r Fro is currently not making the most of its opportunities as it could have done. In the last two years, over £1.5 million has been spent, but only one project has been completed. I know that there are others in the pipeline, but certainly those involved have described dealing with the consenting system as being 'like wading through treacle', and it is clear that there are lessons to be learned about the outcomes of that scheme, given the amount of public money involved.

Mae angen i Lywodraeth Cymru edrych yn fanylach ar ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy yn y gymuned. Nid yw Ynni'r Fro yn manteisio i'r eithaf ar ei gyfleoedd ar hyn o bryd. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae dros £1.5 miliwn wedi cael ei wario, ond dim ond un prosiect sydd wedi ei gwblhau. Rwy'n gwybod bod prosiectau eraill ar y gweill, ond mae'r rhai sy'n ymwneud â'r maes wedi disgrifio ymdrin â'r system gydsynio fel 'cerdded drwy driog', ac mae'n amlwg bod gwersi i'w dysgu o ganlyniadau'r cynllun hwn, o ystyried faint o arian cyhoeddus sydd wedi'i wario.

16:28

## Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You are certainly right that there are lessons to be learned. The Ynni'r Fro scheme is, of course, the first scheme of its sort anywhere in the United Kingdom, and part of the purpose of that scheme was to do exactly that: to learn those lessons. If you actually read the whole of the independent mid-term analysis of Ynni'r Fro, what you will learn is that those lessons have been addressed and the structures have been changed as a consequence. You shake your head. I did it; I know these things.

Rydych yn sicr yn gywir bod gwersi i'w dysgu. Cynllun Ynni'r Fro, wrth gwrs, yw'r cynllun cyntaf o'i fath unrhyw le yn y Deyrnas Unedig, ac un o amcanion y cynllun oedd gwneud yr union beth hwnnw: dysgu'r gwersi hynny. Os ydych yn darllen y dadansoddiad canol tymor annibynnol cyfan o Ynni'r Fro, yr hyn a ddysgwch yw bod y gwersi hynny wedi cael eu dysgu ac mae'r strwythurau wedi cael eu newid o ganlyniad. Rydych yn ysgwyd eich pen. Fi oedd yn gyfrifol; rwy'n gwybod y pethau hyn.

16:28

## Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The sum of £1.5 million has been spent and only 24 kW of installed capacity has been built and, given the time frame over which that has happened, I hardly think that it counts as delivery of the Government's objectives.

Mae swm o £1.5 miliwn wedi cael ei wario, a dim ond 24 kW o gapasiti gosodedig sydd wedi cael ei adeiladu ac, o ystyried yr amser a gymerodd i hynny ddigwydd, go brin ei bod yn cyfrif fel cyflawni amcanion y Llywodraeth.

Given the importance of water here in Wales, I am looking forward to hearing the contributions that other Members are going to make in this important debate.

O ystyried pwysigrwydd dŵr yma yng Nghymru, rwy'n edrych ymlaen at glywed cyfraniadau Aelodau eraill at y ddadl bwysig hon.

16:29

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf wedi dethol y ddau welliant i'r cynnig. Galwaf ar William Powell i gynnig gwelliant 1 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

I have selected the two amendments to the motion. I call on William Powell to move amendment 1 tabled in the name of Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 2 and renumber accordingly:*

*Yn nodi'r manteision posibl y mae ynni dŵr a storfa bwmp yn eu cynnig i gynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru.*

*Notes the potential benefits to Wales's economic, social and environmental sustainability offered by hydropower and pumped storage.*

16:29

## William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 1.

Cynigiaf welliant 1.

I thank the Welsh Conservatives very much for bringing for this important debate forward today. Few would disagree that Wales has an abundant resource in terms of water, and that is something that will become increasingly important in the decades ahead. As such, we need to be working on ways of maximising its full potential, while also embracing the range of applications that water has across our economy. Given this, it will be no surprise that our amendment draws attention to the benefits to the Welsh economy that can be derived from the further development of marine renewables and, indeed, from pump storage facilities. In recent years, we have seen a variety of projects, be they wind, wave, or tidal-based, being developed around our coastline. These present Wales with an enormous opportunity to entrench a wide range of highly skilled jobs in the creation of a full supply chain that can support projects and eventually develop into a component export economy, as we have seen in other European countries such as Denmark.

Rwy’n diolch yn fawr iawn i'r Ceidwadwyr Cymreig am ddod â’r ddadl bwysig hon gerbron heddiw. Byddai’r rhan fwyaf o bobl yn cytuno bod gan Gymru adnodd helaeth o ran dŵr, ac mae hynny'n rhywbeth a fydd yn dod yn gynyddol bwysig yn y degawdau i ddod. O’r herwydd, mae angen i ni ddatblygu dulliau o fanteisio’n llawn ar ei botensial, gan fynd ati hefyd i gofleidio'r ystod o ddefnyddiau sydd gan ddŵr ledled ein heconomi. O ystyried hyn, nid yw'n syndod bod ein gwelliant yn tynnu sylw at y manteision i economi Cymru sy’n gallu deillio o ddatblygu ynni adnewyddadwy’r môr ymhellach ac, yn wir, o gyfleusterau storfa bwmp. Yn y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld nifer o brosiectau, boed yn brosiectau gwynt, tonnau, neu lanw, yn cael eu datblygu o amgylch ein harfordir. Mae'r prosiectau hyn yn gyfle enfawr i Gymru sefydlu amrywiaeth eang o swyddi tra medrus wrth greu cadwyn gyflenwi lawn sy’n gallu cefnogi prosiectau ac yn y pen draw datblygu i fod yn economi allforio cydrannau, fel rydym wedi’i weld mewn gwledydd Ewropeaidd eraill fel Denmarc.

However, such economic opportunities are not limited to salt water. Across Wales, we are seeing more and more communities exploring small-scale hydro projects, often with the assistance of schemes such as Ynni’r Fro. While few would argue that such programmes do have refinements and improvements that are needed, we must always remember that new sectors do not spring up overnight, and we need to look to the longer term to see what benefits can be achieved. In that connection, I had a very useful meeting with Chris Blake, the chair of Community Energy Cymru, who gave me a rounded understanding of the way in which Ynni’r Fro has been operating during these first few years. That is why it is essential that we improve it for the longer term. These improvements can only be made in tandem with the planning reforms that we are currently scrutinising. This will be a key priority for my party as the planning Bill proceeds.

Fodd bynnag, nid yw cyfleoedd economaidd o'r fath yn cael eu cyfyngu i ddŵr halen. Ledled Cymru, rydym yn gweld mwy a mwy o gymunedau’n archwilio prosiectau hydro ar raddfa fach, yn aml gyda chymorth cynlluniau megis Ynni'r Fro. Er mai ychydig o bobl a fyddai’n dadlau nad oes angen mireinio a gwella rhaglenni o'r fath, mae'n rhaid i ni gofio bob amser nad yw sectorau newydd yn cael eu creu dros nos, ac mae angen i ni edrych yn fwy hirdymor i weld pa fanteision sy’n bosibl. Yn y cyswllt hwn, cefais gyfarfod buddiol iawn â Chris Blake, cadeirydd Ynni Cymunedol Cymru, a roddodd wybodaeth gynhwysfawr i mi am sut y mae Ynni'r Fro wedi bod yn gweithredu yn ystod y blynyddoedd cyntaf hyn. Dyna pam ei bod yn hanfodol ein bod yn mynd ati i’w wella yn fwy hirdymor. Gall y gwelliannau hyn ond cael eu gwneud ar y cyd â'r diwygiadau cynllunio ein bod wrthi’n craffu arnynt ar hyn o bryd. Bydd hon yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer fy mhlaid wrth i'r Bil cynllunio fynd rhagddo.

Sticking to that long-term perspective, we must also be looking at our water resources in terms of pumped storage. As Members will be aware, Wales already benefits from several operational schemes in Snowdonia. These bring huge benefits in terms of retaining water upstream during peak downfalls, and also allow us to deliver near constant low-carbon electricity to the grid at key pressure points. This can also help to overcome the variability in some renewables generation and also stabilise demand on the grid through overnight charging. This issue has been very much one that has dominated the media in recent weeks—keeping the lights on must be our priority.

Gan gadw at y persbectif hirdymor hwn, mae'n rhaid i ni hefyd edrych ar ein hadnoddau dŵr o safbwynt storfa bwmp. Fel y gŵyr yr Aelodau, mae Cymru eisoes yn manteisio ar sawl cynllun gweithredol yn Eryri. Mae'r rhain yn dod â manteision enfawr o safbwynt cadw dŵr i fyny'r afon pan fydd lefel y dŵr sy’n disgyn ar ei huchaf, a hefyd yn ein galluogi i ddarparu trydan carbon isel bron yn ddi-dor ar gyfer y grid mewn gwasgbwyntiau allweddol. Gall hyn hefyd helpu i oresgyn natur amrywiol cynhyrchu rhai mathau o ynni adnewyddadwy a hefyd sefydlogi’r galw ar y grid drwy wefru dros nos. Mae'r mater hwn wedi cael sylw mawr yn y cyfryngau dros yr wythnosau diwethaf—rhaid i ni sicrhau mai cadw'r goleuadau ymlaen yw ein blaenoriaeth.

Wales’s geography is perfect for taking further advantage of this technology, and I would repeat my previous calls for the Welsh Government to begin the long process of scoping out new opportunities in this area for long-term economic gain.

Mae daearyddiaeth Cymru yn berffaith ar gyfer manteisio ymhellach ar y dechnoleg hon, a byddwn yn ailadrodd fy ngalwadau blaenorol ar i Lywodraeth Cymru ddechrau’r broses hir o chwilio am gyfleoedd newydd yn y maes hwn ar gyfer budd economaidd hirdymor.

Moving away from this area, it is also important to stress the value that water has to the economy in terms of retail products. Indeed, my own region of Mid and West Wales is replete with examples of companies that market our Welsh water across the world. It is essential that we remember the importance of the value that they add to our natural resource and the fact that it highlights the wider Welsh brand, which has already proven increasingly successful, on our agricultural products for example through the commendable work of Hybu Cig Cymru. There is no doubt that important lessons can be learned from that sector and applied to others.

Gan symud i ffwrdd o'r maes hwn, mae hefyd yn bwysig pwysleisio gwerth dŵr i'r economi o safbwynt cynhyrchion manwerthu. Yn wir, mae fy rhanbarth fy hun, sef Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn gyforiog o enghreifftiau o gwmnïau sy'n marchnata ein dŵr Cymru ledled y byd. Mae'n hanfodol ein bod yn cofio pwysigrwydd y gwerth y maent yn ei ychwanegu at ein hadnoddau naturiol a'r ffaith ei fod yn tynnu sylw at y brand Cymreig ehangach, sydd eisoes wedi profi'n fwyfwy llwyddiannus, er enghraifft ar ein cynnyrch amaethyddol, drwy waith clodwiw Hybu Cig Cymru. Nid oes amheuaeth y gall gwersi pwysig gael eu dysgu o'r sector hwnnw a'u cymhwyso i sectorau eraill.

Finally, I would like to welcome the reference made to water footprinting. A recent report by the Water Footprint Network highlighted that, for more than 40 years, humanity's demand on nature has exceeded what our planet can replenish. While population has risen fourfold in the last century, the water footprint has increased sevenfold. It shows that shortages are forecast in 200 of the world's 263 river basins; that wildlife populations have more than halved since the 1970s; and that freshwater species are declining fastest, with three quarters lost since the 1970s. Clearly, these issues should have a place within the future generations Bill, which we are currently scrutinising. I would welcome a commitment from the Minister to take the opportunity, in his reply, to commit to building this into his Stage 2 amendments.

Yn olaf, hoffwn groesawu'r cyfeiriad a wnaed at ôl troed dŵr. Yn ôl adroddiad diweddar y Rhwydwaith Ôl Troed Dŵr, ers dros 40 mlynedd mae galw'r ddynoliaeth ar natur wedi bod yn fwy na'r hyn y gall ein planed ei ailgyflenwi. Er bod y boblogaeth wedi cynyddu bedair gwaith yn y ganrif ddiwethaf, mae'r ôl troed dŵr wedi cynyddu seithwaith. Mae'n dangos bod prinder dŵr yn cael ei ragweld ar gyfer 200 o'r 263 o fasnau afonydd y byd; bod poblogaethau bywyd gwyllt wedi mwy na haneru ers y 1970au; a bod rhywogaethau dŵr croyw yn lleihau yn gyflymach nag unrhyw beth arall, gyda thri chwarter wedi'u colli ers y 1970au. Yn amlwg, dylai'r materion hyn gael lle ym Mil cenedlaethau'r dyfodol, rydym wrthi'n craffu arno hyn o bryd. Byddwn yn croesawu ymrwymiad gan y Gweinidog i gymryd y cyfle, yn ei ateb, i ymrwymo i gynnwys hyn yn ei welliannau Cam 2.

16:34

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Galwaf ar Llyr Gruffydd i gynnig gwelliant 2 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

I call on Llyr Gruffydd to move amendment 2, tabled in the name of Elin Jones.

*Gwelliant 2—Elin Jones*

*Amendment 2—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw am ddatganoli dŵr a charffosiaeth yn llawn, gan sicrhau bod y cymhwysedd deddfwriaethol yn gyson â'r ffin cenedlaethol yn unol â'r argymhelliad yr adroddiad Silk Rhan 2.*

*Calls for the full devolution of water and sewerage with legislative competence aligned with the national border, as recommended in the Silk Part 2 report.*

16:34

## Llyr Gruffydd [Bywgraffiad] [Biography]

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf y gwelliant ar ran Plaid Cymru.

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I propose the amendment on behalf of Plaid Cymru.

Yn sicr, rwy'n croesawu'r cynnig a'r ffaith bod y Ceidwadwyr yn nodi bod gan Gymru gyfoeth o adnoddau naturiol. Rydym i gyd yn ymwybodol o hynny, o safbwynt ynni, o safbwynt bwyd ac, yn y cyd-destun hwn, o safbwynt dŵr. Rydym, mewn gwirionedd, yn un o wledydd cyfoethocaf y byd pan mae'n dod i adnoddau naturiol, sydd, wrth gwrs, yn destun gwrthdaro a rhyfeloedd ar draws y byd, fel y mae ar hyn o bryd, ac yn gynyddol felly, mae'n siŵr, dros y blynyddoedd i ddod.

Certainly, I welcome this motion and the fact that the Conservatives note that Wales has a wealth of natural resources. We are all aware of that in terms of energy and food and, in this context, in terms of water. We are, in fact, one of the wealthiest countries in the world when it comes to natural resources, which is the cause of conflict across the globe, as is currently the case and will increasingly be the case, probably, over ensuing years.

Wrth gwrs, mae angen y pwerau arnom i fedru rheoli'r adnoddau hyn yn gyfrifol, yn gynaliadwy ac mewn ffordd sy'n dod â budd teg i bobl Cymru. Dyna pam y mae ein gwelliant yn galw am ddatganoli dŵr a charthffosiaeth yn llawn, gan sicrhau bod y cymhwysedd deddfwriaethol yn gyson â'r ffin genedlaethol, yn unol â'r argymhelliad yn adroddiad Silk rhan 2.

Of course, we need the powers to be able to control these resources in a responsible and sustainable manner, which will bring benefits to the people of Wales. That is why our amendment calls for the devolution of water and sewerage fully in order to ensure that the legislative competence is aligned with the national border as recommended in the Silk part 2 report.

Mae'r setliad datganoli dŵr presennol yn un dyrys. Nid oes amheuaeth am hynny. Mae'r ffaith bod dŵr yn cael ei gyfeirio ato'n benodol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 yn adlewyrchu ei bwysigrwydd. I'ch atgoffa, wrth gwrs, mae dŵr ac amddiffyn rhag llifogydd wedi'u datganoli, ond nid yw rheoleiddio'r diwydiant wedi'i ddatganoli, ac nid yw carthffosiaeth chwaith. Mae cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ar hyn o bryd yn gyfyngedig i benodiad a gweithrediad y ddau ymgymerwr dŵr, sef Dŵr Cymru a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy, sydd â'u hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Nawr, mae cwmnïoedd sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr, fel Severn Trent, er bod rhan o'u weithrediadau yng Nghymru, yn fater i Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Nawr, mae hynny'n ddryslyd, wrth gwrs, yn enwedig i gwsmeriaid Dŵr Cymru yn Lloegr, efallai, sy'n gorfod edrych i gyfeiriad y Cynulliad hwn yn y cyd-destun hwn, wrth gwrs. Fodd bynnag, hefyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol hawl i ymyrryd os yw'n credu y gallai penderfyniad gan y Cynulliad gael effaith andwyol ddifrifol ar adnoddau dŵr, cyflenwad dŵr neu ansawdd y dŵr yn Lloegr.

There is no doubt that the current devolution settlement in terms of water is complex. The fact that water is referred to specifically in the Government of Wales Act 2006 reflects its importance. To remind you, water and flood defences are devolved, but the regulation of the water industry is not devolved, and neither is sewerage. The Assembly's legislative competence at present is limited to the appointment and actions of the two water companies, namely Dŵr Cymru Welsh Water and Dee Valley Water, which cover areas that are wholly or mainly in Wales. Now, companies working wholly or mainly in England, like Severn Trent Water, even though some of their operations are in Wales, are a matter for the UK Government. That is confusing, of course, particularly for Dŵr Cymru Welsh Water customers in England, perhaps, who have to look to this Assembly in this context. However, under the Government of Wales Act 2006, the Secretary of State has a right to intervene if he or she believes that any decision by the Assembly could have a serious detrimental effect on water resources, supply of water or water quality in England.

Mae Silk rhan 2, wrth gwrs, yn gwneud argymhellion clir o safbwynt dŵr: y dylid datganoli pwerau dros garthffosiaeth; y dylid alinio'r ffin ar gyfer cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer dŵr gyda'r ffin genedlaethol, sy'n gwneud synnwyr ym mhob un maes datganoledig arall bron iawn; y dylid sefydlu wedyn protocol rhynglywodraethol ffurfiol mewn perthynas â materion trawsffiniol; ac y dylid dileu pwerau deddfwriaethol a gweithredol presennol yr Ysgrifennydd Gwladol i ymyrryd mewn perthynas â dŵr, ond, wrth gwrs, ein bod yn cydnabod bod protocol rhynglywodraethol yn cael ei roi yn ei le. Hyd y gwelaf, mae'r rhan fwyaf o bleidiau yn gefnogol o hynny, ac felly rwy'n gobeithio'n fawr y bydd y gwelliant yn cael ei basio.

Silk part 2 makes clear recommendations in terms of water: that powers over sewerage should be devolved; that the border should be aligned with the national border in terms of legislative competence for water, which makes sense in virtually every other field of devolution; that we should establish an intergovernmental protocol on a formal level in relation to cross-border issues; and that the current legislative powers of the Secretary of State to intervene in relation to water should be abolished, while acknowledging that an intergovernmental protocol would be put in place. As far as I can see, most parties are supportive of those proposals and, therefore, I very much hope that the amendment will be carried today.

Mae potensial economaidd dŵr yn ystyriaeth bwysig arall o fewn y cynnig, a'r realiti yw nad yw dŵr yn cael ei brynu a'i werthu fel 'commodity', ac felly nid oes marchnad 'wholesale' i ddŵr mewn gwirionedd, na phris, yn yr ystyr honno, iddo. Nid oes grid cenedlaethol, fel sydd yna ar gyfer trydan, i'w drosglwyddo o gwmpas y wlad, chwaith. Os ystyriwch chi, yn ôl tystiolaeth ddiweddar gan Ddŵr Cymru i bwyllgor amgylchedd y Cynulliad hwn, fod 1,000 litr o ddŵr yn pwyso tunnell, a bod tunnell o ddŵr yn costio £1.50, yna mae'n glir ei fod yn rhy drwm ac yn rhy rhad, mewn gwirionedd, wrth ystyried creu'r seilwaith y fyddai ei angen i symud dŵr yn bell iawn, dim ots beth mae rhywun fel Boris Johnson yn ei feddwl ynglŷn â datrys problemau dŵr Llundain.

The economic potential of water is an important consideration within the motion, and the reality is that water is not traded as a commodity and, therefore, there is no wholesale market for water, or a price, as such. There is no national grid, as we have for electricity, so that it can be transported across the country. If you consider, according to recent evidence from Welsh Water to the Assembly's environment committee, that 1,000 litres weighs a tonne and that a tonne of water costs £1.50, then, clearly, it is too heavy and too cheap for the infrastructure that would need to be built to move water over long distances, no matter what people like Boris Johnson think about resolving the problems of London.

Fodd bynnag, mae gwerth economaidd dŵr, wrth gwrs, mewn gwirionedd, y tu hwnt i werth y dŵr ei hun. Rydym yn hapus i gefnogi gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol ar ynni dŵr, ac mae nifer fawr o brosiectau yr ydym ni hefyd yn eu cefnogi ac yn hapus iawn i'w hyrwyddo. Un enghraifft yw cwmni o'r enw Hydro-Québec, sydd efallai yn fodel y gallem ni yng Nghymru fod yn dysgu oddi wrtho. Mae'n dod o dan berchenogaeth lwyr Llywodraeth Québec, er ei fod hyd braich, wrth gwrs, oherwydd corfforaeth gyhoeddus ydyw. Mae wedi bod yn rhan bwysig o ddatblygu economaidd yr ardal ers y 1960au, gan defnyddio cynlluniau hydro. Mae 99% o'r ynni a gynhyrchir gan y cwmni yn dod o ddŵr, ond mae'r cwmni hwnnw'n cynhyrchu, yn trosglwyddo ac yn dosbarthu trydan i'w gwsmeriaid, ac mae'n enghraifft, rwy'n meddwl, y gallem fod yn ei hefelychu yng Nghymru.

However, the economic value of water, of course, is beyond the value of the water itself. We are happy to support the Liberal Democrat amendment on hydro power, and there are many projects that we support and are happy to promote. One example is a company called Hydro-Québec, which perhaps is a model that we in Wales could learn lessons from. The company is owned entirely by the Québec Government, albeit an arm's-length company, as it is a public corporation. It has been an important part of the area's economic development since the 1960s, using hydro schemes. Some 99% of the energy produced by the company comes from water, but this company produces, transfers and distributes electricity to its customers, and this is an example that I believe we could emulate in Wales.

Yr elfen hollbwysig arall, wrth gwrs, yw gwarchod adnoddau dŵr. Mae prinder dŵr yn amlwg yn mynd i fod yn broblem gynyddol, felly mae angen edrych ar ddefnydd dŵr yn y cartref, o safbwynt mesuryddion dŵr, casglu dŵr glaw a defnyddio dŵr llwyd fel adnodd. Rwyf yn rhagweld y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn edrych yn ôl ar ein hoes ni mewn anghrediniaeth lwyr ein bod ni wedi bod yn defnyddio dŵr yfed prin i olchi ein ceir ac i fflysio ein tai bach. Dyna, rwy'n meddwl, yw un o'r negeseuon a ddylai fod yn dod allan o'r ddadl hon y prynhawn yma.

The other crucial element, of course, is the protection of our water resources. Water shortage will become an increasing problem, therefore we need to look at water usage in the home, in terms of water meters, gathering rain water and the use of grey water as a resource. I anticipate that future generations will look back in complete disbelief at our age given that we use scarce drinking water to wash our cars and to flush our toilets. That, in my view, is one of the messages that should come out of this debate this afternoon.

16:39

## Paul Davies Bywgraffiad Biography

I am delighted to take part in this afternoon's debate on the importance of water resources here in Wales.

Mae'n bleser gennyf gymryd rhan yn y ddadl y prynhawn hwn ar bwysigrwydd adnoddau dŵr yma yng Nghymru.

As Members will be aware, the Welsh Government ended its consultation on its water strategy for Wales in July this year, the aim of which was to develop a more integrated approach to managing water as part of natural resource management. I hope that the Minister will use this afternoon's debate as an opportunity to update the Chamber on what work has been done since that consultation ended.

Fel y gŵyr yr Aelodau, daeth ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ei strategaeth dŵr ar gyfer Cymru i ben ym mis Gorffennaf eleni, a'i nod oedd datblygu dull mwy integredig o reoli dŵr fel rhan o reoli adnoddau naturiol. Gobeithio y bydd y Gweinidog yn defnyddio'r ddadl y prynhawn yma fel cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr am y gwaith sydd wedi ei wneud ers i'r ymgynghoriad hwnnw ddod i ben.

We all want to see the Welsh water industry develop and flourish, so it is crucial that issues such as water quality, integrated water management and drainage matters are all seriously considered when drawing up this particular strategy. In Pembrokeshire—and no other county has more blue flag, green coast or seaside awards—the issue of bathing water quality is also of particular importance, given the key role it plays in attracting visitors to the area and therefore the huge contribution that it makes to the tourism industry.

Mae pob un ohonom yn awyddus i weld y diwydiant dŵr yng Nghymru yn datblygu ac yn ffynnu, felly mae'n hanfodol bod materion megis ansawdd dŵr, rheoli dŵr mewn ffordd integredig a materion draenio i gyd yn cael eu hystyried o ddifrif wrth lunio'r strategaeth benodol hon. Yn Sir Benfro—ac nid oes gan unrhyw sir arall fwy o wobrau baner las, arfordir glas neu lan môr—mae ansawdd dŵr ymdrochi hefyd yn arbennig o bwysig, o ystyried ei rôl allweddol wrth ddenu ymwelwyr i'r ardal ac felly'r cyfraniad enfawr y mae'n ei wneud at y diwydiant twristiaeth.

I am pleased that Pembrokeshire County Council has been working in partnership with agencies including Natural Resources Wales, Dŵr Cymru, Keep Wales Tidy and Pembrokeshire Coast National Park Authority to produce a strategy on beaches over a three-year period from 2013 to 2015. This strategy aims to target resources first on beaches with the poorest water quality, therefore raising standards to ensure that the water is safe at those beaches. Secondly, it focuses on regaining awards at beaches where they have been lost, and to ensure that water quality does not deteriorate at any of Pembrokeshire's beaches. Perhaps the Minister will outline in his response to this debate what specific work the Welsh Government is currently undertaking in relation to bathing water and beaches to best support local authorities and, indeed, local communities that are working to ensure that the water quality at Welsh beaches is of the best possible standard. Securing high-quality water at our beaches is crucial to the tourism industry. Therefore, it is important that the Government is doing all that it can to ensure the highest standard of bathing water at Welsh beaches.

Rwy'n falch bod Cyngor Sir Penfro wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro i lunio strategaeth ar draethau dros gyfnod o dair blynedd rhwng 2013 a 2015. Nod y strategaeth hon yw canolbwyntio adnoddau yn gyntaf ar draethau sydd â'r ansawdd dŵr gwaethaf, gan fynd ati i godi safonau er mwyn sicrhau bod y dŵr yn ddiogel ar y traethau hynny. Yn ail, mae'n canolbwyntio ar adennill gwobrau ar gyfer traethau sydd wedi'u colli, a sicrhau nad yw ansawdd y dŵr yn gwaethygu ar unrhyw un o draethau Sir Benfro. Efallai y bydd y Gweinidog yn amlinellu yn ei ymateb i'r ddadl hon pa waith penodol y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud ar hyn o bryd mewn perthynas â dŵr ymdrochi a thraethau er mwyn cefnogi awdurdodau lleol ac, yn wir, cymunedau lleol sy'n gweithio i sicrhau bod ansawdd y dŵr ar draethau Cymru o'r safon gorau posibl. Mae sicrhau dŵr o ansawdd uchel ar ein traethau yn hanfodol i'r diwydiant twristiaeth. Felly, mae'n bwysig bod y Llywodraeth yn gwneud popeth yn ei gallu i sicrhau bod y dŵr ymdrochi ar draethau Cymru o'r safon uchaf.

Improving bathing water standards is not the only area where Pembrokeshire is actively working to manage and improve water resources. We all remember the terrible coastal flooding that hit some areas of Wales particularly hard at the start of the year. Indeed, areas such as Newgale, Little Haven and Broad Haven in my constituency were all particularly affected by the weather, and this has very much highlighted the importance of adequate drainage for both waste water and surface water. The Minister's predecessor rightly announced that the Welsh Government would consult on national standards for sustainable drainage systems for new developments, as well as seeking ways to encourage the use of these systems to deal with capacity problems in developed areas. As the winter now approaches, it would be worth while hearing from the current Minister what progress has been made on this issue. Dŵr Cymru is developing and using new, innovative solutions to manage the amount of surface water entering our sewers. Indeed, Members may be aware of RainScape, where £80 million will be invested up to 2020 in things such as basins and planters, swales, porous paving and even geo-cellular storage. Our water assets are of strategic importance to the Welsh economy. They are essential to supporting business and providing jobs. Reference has already been made to the importance of water in the retail sector, and we have great companies in Wales selling water all over the world.

Nid gwella safonau dŵr ymdrochi yw'r unig faes lle mae Sir Benfro yn gweithio i reoli a gwella adnoddau dŵr. Rydym i gyd yn cofio'r llifogydd arfordirol ofnadwy a darodd rai ardaloedd o Gymru yn arbennig o galed ddechrau'r flwyddyn. Yn wir, cafodd ardaloedd megis Niwgwl, Aber Bach ac Aberllydan yn fy etholaeth eu heffeithio'n ddrwg gan y tywydd, ac mae hyn wedi tynnu llawer o sylw at bwysigrwydd draenio digonol ar gyfer dŵr gwastraff a dŵr wyneb. Cyhoeddodd rhagflaenydd y Gweinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar safonau cenedlaethol ar gyfer systemau draenio cynaliadwy ar gyfer datblygiadau newydd, yn ogystal â chwilio am ffyrdd o annog y defnydd o'r systemau hyn i fynd i'r afael â phroblemau capasiti mewn ardaloedd sydd wedi'u datblygu. Wrth i'r gaeaf agosáu, byddai'n werth clywed gan y Gweinidog presennol am y cynnydd sydd wedi'i wneud ar y mater hwn. Mae Dŵr Cymru yn datblygu ac yn defnyddio atebion newydd, arloesol i reoli faint o ddŵr wyneb sy'n mynd i mewn i'n carthffosydd. Yn wir, efallai y bydd yr Aelodau'n ymwybodol o GlawLif, lle y bydd £80 miliwn yn cael ei fuddsoddi hyd at 2020 mewn pethau fel basnau a phlanwyr, pantiau, palmentydd mân-dyllog a hyd yn oed storfeydd geo-gellog. Mae ein hasedau dŵr o bwysigrwydd strategol i economi Cymru. Maent yn hanfodol i gefnogi busnesau a darparu swyddi. Cyfeiriwyd eisoes at bwysigrwydd dŵr yn y sector manwerthu, ac mae gennym gwmnïau gwych yng Nghymru sy'n gwerthu dŵr ar draws y byd.

In Pembrokeshire, agriculture and tourism are the two biggest industries, both reliant on our water assets in very different ways. Indeed, we know that water resources support jobs in areas such as fisheries, where more than 55,000 rod licences are issued in Wales for recreational fishermen, as well as 50 commercial freshwater licences. We must therefore ensure that any water strategy brought forward by the Welsh Government addresses the key economic role that water can play in a number of different sectors. In closing, Deputy Presiding Officer, I think that all Members here share the same ambition for our water assets to flourish, so that we can maximise the economic, social and environmental benefits for Wales. I look forward, therefore, to the Welsh Government's response to the water strategy consultation, which I believe will highlight a number of areas where we can constructively work together. I look forward to Wales being a global leader in relation to water quality and management, and I urge Members to support our motion here this afternoon.

Yn Sir Benfro, amaethyddiaeth a thwristiaeth yw'r ddau ddiwydiant mwyaf, ac mae'r ddau yn dibynnu ar ein hasedau dŵr mewn ffyrdd gwahanol iawn. Yn wir, rydym yn gwybod bod adnoddau dŵr yn cynnal swyddi ym meysydd fel pysgodfeydd, lle mae dros 55,000 o drwyddedau gwialen yn cael eu cyhoeddi yng Nghymru ar gyfer pysgotwyr hamdden, yn ogystal â 50 o drwyddedau dŵr croyw masnachol. Rhaid i ni sicrhau, felly, bod unrhyw strategaeth ddŵr sy'n cael ei chyflwyno gan Lywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â rôl economaidd allweddol dŵr mewn nifer o sectorau gwahanol. Wrth gloi, Ddirprwy Lywydd, rwy'n meddwl bod yr holl Aelodau yma yn rhannu'r un uchelgais i weld ein hasedau dŵr yn ffynnu, fel y gallwn wneud y gorau o'r manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i Gymru. Edrychaf ymlaen, felly, at ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar y strategaeth ddŵr, a fydd, rwy'n credu, yn tynnu sylw at nifer o feysydd lle y gallwn gydweithio yn adeiladol. Rwy'n edrych ymlaen at weld Cymru'n arweinydd byd-eang ym meysydd ansawdd a rheoli dŵr, ac rwy'n annog yr Aelodau i gefnogi ein cynnig yma'r prynhawn yma.

16:43

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Previous speakers have already said how important water is, but nobody, as yet, has found a substitute for water. We can send rockets up into space and even land on comets, but we cannot do without water. Water is vital to the survival of the human population, as well as most of the animal kingdom. The average person in England and Wales uses 150 litres of water a day. We are using about 50% more water than we used to 25 years ago because of things like power showers and other household appliances. So, the fact that we have a lot of water in Wales is both an opportunity and a threat—a threat because, if we do not husband our water satisfactorily, we will miss out on an opportunity.

Mae siaradwyr blaenorol eisoes wedi dweud pa mor bwysig yw dŵr, ond nid oes neb, hyd yma, wedi canfod unrhyw beth sy'n gallu cymryd lle dŵr. Gallwn anfon rocedi i fyny i'r gofod a hyd yn oed glanio ar gomedau, ond ni allwn wneud heb ddŵr. Mae dŵr yn hanfodol i oroesiad y boblogaeth ddynol, yn ogystal â'r rhan fwyaf o'r byd anifeiliaid. Ar gyfartaledd, mae pob person yng Nghymru a Lloegr yn defnyddio 150 litr o ddŵr y dydd. Rydym yn defnyddio tua 50% yn fwy o ddŵr nag yr oeddem yn ei ddefnyddio 25 mlynedd yn ôl oherwydd pethau fel cawodydd pŵer ac offer arall ar gyfer y cartref. Felly, mae'r ffaith fod gennym lawer o ddŵr yng Nghymru yn gyfle ac yn fygythiad—yn fygythiad oherwydd, os nad ydym yn gofalu am ein dŵr yn foddhaol, byddwn yn colli cyfle.

I am also very interested to get the results of the Welsh Government's consultation on its water strategy, including the possibility of introducing metering to all customers. That would be an equitable system where businesses and households pay for what they use, being more transparent and fair, but it also recognises the fact that water is a finite resource and that we, therefore, need to use it wisely. So, while Designed to Smile is a great Welsh Government initiative, I do hope that the Minister for Natural Resources will make a plea for people not to have the water running when they brush their teeth, because a simple and effective water-saving measure used by Ken Livingstone when he was Mayor of London is something that we could also be deploying in Wales. We need to spend less time flushing water away—a golden resource lost—and move towards a focus on husbanding it, as others have already alluded to. Grey water is just as important a resource as drinking water.

Rwyf hefyd yn awyddus iawn i weld canlyniadau ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ei strategaeth ddŵr, gan gynnwys y posibilrwydd o gyflwyno mesuryddion ar gyfer pob cwsmer. Byddai honno'n system deg lle mae busnesau a chartrefi yn talu am yr hyn y maent yn ei ddefnyddio, a byddai'n fwy tryloyw ac yn decach. Ond mae hefyd yn cydnabod y ffaith fod dŵr yn adnodd cyfyngedig ac, felly, mae'n rhaid i ni ei ddefnyddio'n ddoeth. Felly, er bod Cynllun Gwên yn fenter wych gan Lywodraeth Cymru, rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn annog pobl i beidio â gadael y dŵr i redeg pan fyddant yn brwsio eu dannedd, am fod mesur arbed dŵr syml ac effeithiol a ddefnyddiwyd gan Ken Livingstone pan oedd yn Faer Llundain yn rhywbeth y gallem ei defnyddio yng Nghymru hefyd. Mae angen i ni dreulio llai o amser yn fflysio dŵr i ffwrdd—adnodd aur yn cael ei golli—a symud tuag at ganolbwyntio ar ofalu amdano, fel y mae eraill eisoes wedi cyfeirio ato. Mae dŵr llwyd yn adnodd lawn cyn bwysiced â dŵr yfed.

Given that 80% of the land in use in Wales is agricultural, we most definitely need to ask farmers to pay more attention to water, in husbanding it for use on their farms and for irrigation, and in preventing flooding, and also as a way of creating wealth. I mean, how many farmers have streams whizzing down through their land and are not tapping into it as a source of energy? We need to retain more rainwater in the land, like the peat bog restoration projects in Hiraethog and Snowdonia, because that tops up the water table, which is an essential resource in the event of droughts that could happen with climate change in the future. However, we also need to introduce a much more —. We need to be much more careful about the pollution of water from poor farming practices, and I do hope that, in the next rural development programme, Natural Resources Wales and the Welsh Government can introduce clauses into farm payments to address problems of water pollution from the farming industry. So, things like the adequate storage of slurry and waste—

O ystyried bod 80% o'r tir sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru yn dir amaethyddol, mae'n rhaid i ni ofyn i ffermwyr roi mwy o sylw i ddŵr, wrth ofalu amdano ar eu ffermydd ac ar gyfer dyfrhau, ac i atal llifogydd, a hefyd fel ffordd o greu cyfoeth. Hynny yw, faint o ffermwyr sydd â nentydd yn gwibio i lawr drwy eu tir ond nad ydynt yn eu defnyddio fel ffynhonnell ynni? Mae angen i ni gadw mwy o ddŵr glaw yn y tir, fel y prosiectau adfer corsydd mawn yn Hiraethog ac Eryri, oherwydd bod hynny'n ychwanegu at y lefel trwythiad, sy'n adnodd hanfodol os bydd sychder, sy'n bosibilrwydd oherwydd y newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae angen hefyd i ni gyflwyno—. Mae angen i ni fod yn llawer mwy gofalus ynglŷn â llygru dŵr oherwydd arferion ffermio gwael, ac rwy'n gobeithio, yn y rhaglen datblygu gwledig nesaf, y gall Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru gynnwys cymalau yn y taliadau fferm i fynd i'r afael â phroblemau llygru dŵr yn y diwydiant ffermio. Felly, mae pethau fel storio slyri a gwastraff digonol—

16:47 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Will you take an intervention on that point?

A wnewch dderbyn ymyriad ar y pwynt hwnnw?

16:47 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Yes.

Gwnaf.

16:47 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

I think that there has been a huge improvement in some of the river quality measures, which has been largely due to changes in farming practice. Indeed, the two recent pollution incidents that happened have not been from farmers; they have happened from Dŵr Cymru and large sewage releases, two of which happened in north Wales very recently.

Rwy'n meddwl bod gwelliant mawr wedi bod mewn rhai o'r mesurau ansawdd afonydd, sydd wedi deillio'n bennaf o newidiadau mewn arferion ffermio. Yn wir, nid ffermwyr a oedd wrth wraidd y ddau ddigwyddiad llygredd diweddar; roeddynt yn deillio o Dŵr Cymru a charthion yn cael eu gollwng ar raddfa fawr, gyda dau ohonynt yn digwydd yng ngogledd Cymru yn ddiweddar iawn.

16:48 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Okay. That is good to know, but that does not mean to say that there could not be more effort to reduce the amount of fertiliser and things that kill bugs in crops, because all of those treatments inevitably pollute the water. Actually, husbanding the water more carefully on the land reduces the need to clean up the water, which in itself is a cost in terms of climate change.

Iawn. Mae'n dda gwybod hynny, ond nid yw hynny'n golygu na ellid gwneud mwy i leihau gwrtaith a'r pethau sy'n lladd bygiau mewn cnydau, gan ei bod yn anochel bod pob un o'r triniaethau hynny yn llygru'r dŵr. Mewn gwirionedd, mae defnyddio'r dŵr yn fwy gofalus ar y tir yn lleihau'r angen i lanhau'r dŵr, sy'n gost ynddi hi ei hun o safbwynt newid yn yr hinsawdd.

There is some interesting research going on in Leicestershire around water-friendly farming, which I hope will give us the evidence that we need about what works and what does not work in terms of the way that agri-environment money is spent, and spent wisely, so that it is not literally being poured down the drain. There do not seem to be very clear indicators at the moment from the project that is going on in Leicestershire as to exactly the best way of approaching that. We know that the energy used in the treatment and delivery of drinking water—

Mae rhywfaint o waith ymchwil diddorol yn cael ei wneud yn Swydd Gaerlŷr ym maes ffermio sy'n ystyriol o ddŵr, a gobeithiaf y bydd yn rhoi'r dystiolaeth sydd ei hangen arnom am yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio o ran y ffordd y mae arian amaeth-amgylchedd yn cael ei wario, a'i wario'n ddoeth, fel nad yw'n cael ei dywallt i lawr y draen yn llythrennol. Nid yw'n ymddangos bod dangosyddion clir iawn ar hyn o bryd yn deillio o'r prosiect yn Swydd Gaerlŷr ynglŷn â sut yn union i fynd i'r afael â hynny. Rydym yn gwybod bod yr ynni a ddefnyddir wrth drin a darparu dŵr yfed—

16:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Finish with this now, please.

Gorffennwch â hyn yn awr, os gwelwch yn dda.

16:49 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

[Continues.]—is really important. I had hoped to speak about fracking and the huge quantities of water that could be used in that, but I have run out of time.

[Yn parhau.] —yn bwysig iawn. Roeddwn wedi gobeithio siarad am ffracio a'r symiau enfawr o ddŵr y gellid eu defnyddio ar gyfer hynny, ond mae fy amser wedi dod i ben.

16:49 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

I think that it looks like we agree that water is one of Wales's most abundant natural resources—sometimes, of course, it feels like we have it in overabundance. I am certainly convinced that I have shrunk in the wash over the years. However, I think that it is quite something—I do not know whether it is a good something or a bad something in view of what Jenny Rathbone has been talking about—that Welsh Water is able to provide most of us in Wales with enough water simply by capturing just 3% of our annual rainfall.

Credaf ei bod yn edrych fel ein bod yn cytuno bod dŵr yn un o adnoddau naturiol mwyaf helaeth Cymru—weithiau, wrth gwrs, mae'n teimlo fel bod gennym ormod ohono. Rwy'n sicr yn argyhoeddedig fy mod wedi crebachu yn y golch dros y blynyddoedd. Fodd bynnag, credaf ei bod yn drawiadol iawn—nid wyf yn gwybod a yw'n beth da neu'n beth drwg o ystyried yr hyn y mae Jenny Rathbone wedi bod yn siarad amdano—bod Dŵr Cymru yn gallu darparu digon o ddŵr i'r rhan fwyaf ohonom yng Nghymru drwy ddal dim ond 3% o'n glawiad blynyddol.

Now, Antoinette Sandbach and William Powell have spoken about rivers and streams, where powers can be harnessed by individuals and communities. That community element feeds into good will and strong buy-in for the whole idea of renewable energy—good will that has already been tested by the Welsh Government's insistence on conflating renewable energy targets and large-scale on-shore wind development. Perhaps if it had paid a little bit more attention to the paltry 7% target for other sources of renewable energy, we would not have such an unhappy performance on Ynni'r Fro.

Yn awr, mae Antoinette Sandbach a William Powell wedi sôn am afonydd a nentydd, a'r ffaith fod unigolion a chymunedau yn gallu eu defnyddio i gynhyrchu ynni. Mae'r elfen gymunedol honno yn cyd-fynd ag ewyllys da a chefnogaeth gadarn i'r holl syniad o ynni adnewyddadwy—ewyllys da sydd eisoes wedi cael ei brofi gan benderfyniad Llywodraeth Cymru i gyfuno targedau ynni adnewyddadwy a datblygiadau gwynt ar y tir ar raddfa fawr. Efallai pe bai wedi rhoi ychydig bach mwy o sylw i'r targed pitw o 7% ar gyfer ffynonellau ynni adnewyddadwy eraill, ni fyddai gennym berfformiad mor anhapus o safbwynt Ynni'r Fro.

As we look to reduce our reliance on fossil fuels, we need a complete energy mix and water is key to that mix, but not just in terms of generation. One of the main criticisms of wind-generated energy is that it is random and that some of it is, therefore, wasted. Water can be used to store energy produced by wind turbines by creating pressure, yet the use of water as effectively a battery remains under-developed.

Wrth i ni geisio lleihau ein dibyniaeth ar danwydd ffosil, mae angen cymysgedd ynni cyflawn arnom, ac mae dŵr yn allweddol i'r cymysgedd hwnnw, ond nid yn unig o safbwynt cynhyrchu. Un o'r prif feirniadaethau o ynni a gynhyrchir gan y gwynt yw ei natur anghyson a'r ffaith fod rhywfaint ohono, felly, yn cael ei wastraffu. Gall dŵr gael ei ddefnyddio i storio ynni a gynhyrchir gan dyrbinau gwynt drwy greu gwasgedd, ond mae'r defnydd o ddŵr fel batri i bob diben heb ei ddatblygu'n llawn o hyd.

As well as inland waterways, we have 1,500 miles of lovely coastline. Along the south Wales coast, we have one of the highest tidal ranges in the world, and I think that it is so exciting that Swansea bay in my region could be home to the world's first energy-generating tidal lagoon. The implications for this idea go well beyond the energy generation levels of what we usually think of as a community scheme. It lends itself entirely to being part of a national infrastructure, be that Wales or the UK. The plans of Tidal Lagoon Power Ltd are for 320 MW installed capacity and 14 hours of reliable generation every day, which would mean power for 155,000 homes—the equivalent of 90% of Swansea bay's annual domestic electricity use for 120 years. That is pretty impressive. The benefits of this scheme are not only in relation to the reduction on reliance on coal and gas. The scheme offers benefits to our supply chain—something that William Powell talked about a little earlier.

Yn ogystal â dyfrffyrdd mewndirol, mae gennym 1,500 o filltiroedd o arfordir hyfryd. Ar hyd arfordir de Cymru, mae gennym un o'r amrediadau llanw uchaf yn y byd, ac rwy'n meddwl ei bod mor gyffrous y gallai bae Abertawe yn fy rhanbarth fod yn gartref i'r morlyn llanw cyntaf yn y byd i gynhyrchu ynni. Mae goblygiadau'r syniad hwn yn mynd ymhell y tu hwnt i'r lefelau cynhyrchu ynni a gysylltir fel arfer â chynllun cymunedol. Mae'n cynnig ei hun yn gyfan gwbl i fod yn rhan o seilwaith cenedlaethol, boed hynny ar lefel Cymru neu'r DU. Mae cynlluniau Tidal Lagoon Power Ltd yn ymwneud â chapasiti gosodedig o 320 MW ac 14 awr o ynni dibynadwy bob dydd, a fyddai'n darparu pŵer i 155,000 o gartrefi—sy'n cyfateb i 90% o ddefnydd trydan domestig blynyddol bae Abertawe am 120 o flynyddoedd. Mae hynny'n eithaf trawiadol. Nid yw manteision y cynllun hwn yn gyfyngedig i leihau dibyniaeth ar lo a nwy. Mae'r cynllun yn cynnig manteision i'n cadwyn gyflenwi—rhywbeth y soniodd William Powell amdano ychydig yn gynharach.

Tidal Lagoon Power Ltd has plans for five further lagoons across the UK; three of those lagoons could be in Wales. Research undertaken by the Centre for Economics and Business Research shows that, at its peak, the programme could sustain up to 71,000 jobs across the UK, with the Swansea scheme alone supporting nearly 2,000 jobs and contributing £316 million to Welsh GVA.

Mae gan Tidal Lagoon Power Ltd gynlluniau ar gyfer pum morlyn arall ledled y DU; gallai tri o'r morlynnoedd hyn fod yng Nghymru. Mae gwaith ymchwil gan y Ganolfan Ymchwil Economeg a Busnes yn dangos y gallai'r rhaglen gynnal hyd at 71,000 o swyddi ledled y DU pan ei bod yn ei hanterth, gyda chynllun Abertawe yn unig yn cynnal bron i 2,000 o swyddi ac yn cyfrannu £316 miliwn at werth ychwanegol gros Cymru.

Denmark and Germany led the world in developing wind power and, as a result, most of the world's wind turbines are produced in those two nations. With our coastal advantage, the new engineering expertise being grown in our universities and our head start, Wales now has the opportunity to lead the world in harnessing the power of tidal waters as well as improving our manufacturing base.

Mae Denmarc a'r Almaen wedi arwain y byd wrth ddatblygu ynni gwynt ac, o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o dyrbinau gwynt y byd yn cael eu cynhyrchu yn y ddwy wlad. Gyda'n mantais arfordirol, yr arbenigedd peirianneg newydd sy'n tyfu yn ein prifysgolion a'n manteision yn y maes hwn, erbyn hyn mae cyfle i Gymru arwain y byd wrth ddefnyddio grym dyfroedd llanw yn ogystal â gwella ein sylfaen weithgynhyrchu.

Before leaving the exciting world of tidal lagoons, it is worth remembering that 40 of those new jobs that I mentioned would arise directly from tourism and leisure opportunities. The developers claim that it would attract 100,000 visitors to enjoy a unique experience, adding considerably to the value of Swansea bay as a destination draw. I hope that Visit Wales and VisitBritain are already turning their minds to how they might capitalise on this gift of an attraction.

Cyn gadael byd cyffrous morlynnoedd llanw, mae'n werth cofio y byddai 40 o'r swyddi newydd y soniais amdanynt yn codi yn uniongyrchol o gyfleoedd twristiaeth a hamdden. Mae'r datblygwyr yn honni y byddai'n denu 100,000 o ymwelwyr i fwynhau profiad unigryw, gan ychwanegu yn sylweddol at werth bae Abertawe fel cyrchfan poblogaidd. Gobeithiaf fod Croeso Cymru a VisitBritain eisoes yn ystyried sut y gallent fanteisio ar y rhodd hon o atyniad.

Finally, I want to look again at our inland waterways and remind Members of the work that my colleague Nick Ramsay has done over the years to raise the profile of Welsh canals in this Assembly. These attract over 7 million leisure visits every year with their natural built and social heritage. The restoration of waterways in Scotland has been a key plank of regeneration policy for some time, and Members may remember Nick explaining that the reopening of the Forth and Clyde canal and the Union canal through an initial investment of £100 million generated £342 million of private sector inward investment, and created over 5,000 new jobs, turning around an area that had previously been written off.

Yn olaf, rwyf am edrych eto ar ein dyfrffyrdd mewndirol ac atgoffa'r Aelodau am y gwaith y mae fy nghyd-Aelod Nick Ramsay wedi ei wneud dros y blynyddoedd i godi proffil camlesi Cymru yn y Cynulliad hwn. Mae'r rhain yn denu dros 7 miliwn o ymweliadau hamdden bob blwyddyn oherwydd eu treftadaeth adeiledig a chymdeithasol naturiol. Mae adfer dyfrffyrdd yn yr Alban wedi bod yn rhan allweddol o bolisi adfywio ers peth amser, ac efallai y bydd yr Aelodau'n cofio Nick yn esbonio bod ailagor camlas Forth a Clyde a chamlas Union drwy fuddsoddiad cychwynnol o £100 miliwn wedi creu mewnfuddsoddiad gwerth £342 miliwn gan y sector preifat, ac wedi creu dros 5,000 o swyddi newydd, gan weddnewid ardal a gafodd ei hystyried yn anaddas cyn hynny.

Thanks to the work of enthusiastic volunteers, my region is home to stretches of navigable canal, some of which I have already been lucky enough to enjoy for myself. So, surely, Scotland's experience should be informing regeneration ideas for the Swansea and Neath valleys—no strangers to deprivation themselves. The Neath and Tennant canals already enhance the wellbeing of local people, but just a few feet between them prevent them becoming a glorious—

Diolch i waith gwirfoddolwyr brwdfrydig, mae fy rhanbarth yn gartref i ddarnau o gamlesi mordwyol, ac rwyf eisoes wedi bod yn ddigon ffodus i fwynhau rhai ohonynt fy hun. Felly, siawns y dylai profiad yr Alban fod yn llywio syniadau adfywio ar gyfer Cwm Tawe a Chwm Nedd—sydd wedi profi amddifadedd eu hunain. Mae camlesi Castell-nedd a Thennant eisoes yn gwella lles pobl leol, ond mae ychydig droedfeddi yn unig rhyngddynt yn eu hatal rhag bod yn—

## 16:54 Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Quickly now, please.

Yn gyflym yn awr, os gwelwch yn dda.

## 16:54 Suzy Davies Bywgraffiad Biography

[Continues.]—treat for tourists too. That is plenty for the Welsh Government to consider as it licks its wounds on Ynni'r Fro.

[Yn parhau.] – gyrchfan arbennig i ymwelwyr hefyd. Dyna ddigon i Lywodraeth Cymru gnoi cil drosto wrth iddi lyfu ei chlwyfau oherwydd Ynni'r Fro.

16:54 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

I am grateful for the opportunity to speak in this important debate. The sustainable use of our natural resources is a vitally important matter, and it is crucial that we consider it on a holistic basis, with particular regard to how our use of resources will affect future generations. Clearly, a balance needs to be struck between exploiting these resources, whether finite or renewable, and ensuring environmental sustainability.

Rwy’n ddiolchgar am y cyfle i siarad yn y ddadl bwysig hon. Mae’r defnydd cynaliadwy o'n hadnoddau naturiol yn fater hollbwysig, ac mae'n hanfodol ein bod yn ei ystyried ar sail gyfannol, gan roi sylw arbennig i sut y bydd ein defnydd o adnoddau yn effeithio ar genedlaethau'r dyfodol. Yn amlwg, mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng manteisio ar yr adnoddau hyn, boed yn gyfyngedig neu'n adnewyddadwy, a sicrhau cynaliadwyedd amgylcheddol.

That is why, today, I want to focus on how water and the use of other natural resources in Wales relate to the provision in the Well-being of Future Generations (Wales) Bill or, as we commonly call it, the FG Bill. As we know, the FG Bill provides for six statutory wellbeing goals that will require public bodies to improve the long-term economic, social and environmental wellbeing of Wales. How we manage and make use of our natural resources will play an important part in this. Our water resources are coming under increased pressure as a consequence of climate change, a growing population and increased consumption. I am pleased that the Welsh Government’s approach to water management takes these challenges into account in order to ensure that our water supply is sustainable and resilient. One of the FG Bill’s six wellbeing goals is to have a resilient Wales, and we have the necessary ground here to build on. Our water resources are the primary building block for green growth in Wales. After all, as many have mentioned, we have plenty of it. Using water for this ties into the other wellbeing goals in the FG Bill, namely a prosperous Wales and a more equal Wales. We can look to the future and aim to create jobs in this sector—jobs that themselves will be sustainable and for the long term—by focusing on the economic opportunities that the use of water and other natural resources bring. This green growth strategy will help us to boost employment numbers and tackle poverty. I firmly believe, as I always have, that the best way to lift people out of poverty is to ensure that they are in a job and earn a fair day’s pay for a fair day’s work.

Dyna pam, heddiw, rwyf am ganolbwyntio ar sut mae dŵr a'r defnydd o adnoddau naturiol eraill yng Nghymru yn berthnasol i’r ddarpariaeth ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), neu, fel rydym yn cyfeirio ato fel arfer, y Bil FG. Fel y gwyddom, mae'r Bil FG yn darparu ar gyfer chwe nod llesiant statudol a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hirdymor Cymru. Bydd ein dulliau o reoli a defnyddio ein hadnoddau naturiol yn rhan bwysig o’r gwaith hwn. Mae ein hadnoddau dŵr yn dod o dan bwysau cynyddol o ganlyniad i’r newid yn yr hinsawdd, poblogaeth sy'n tyfu a defnydd cynyddol. Rwy’n falch bod dull Llywodraeth Cymru o reoli dŵr yn ystyried yr heriau hyn, er mwyn sicrhau bod ein cyflenwad dŵr yn gynaliadwy ac yn gydnerth. Un o chwe nod llesiant y Bil FG yw sicrhau Cymru gydnerth, ac mae gennym y sylfeini angenrheidiol yma i adeiladu arnynt. Ein hadnoddau dŵr yw'r conglfaen sylfaenol ar gyfer twf gwyrdd yng Nghymru. Wedi'r cyfan, fel y mae llawer o bobl wedi’i nodi, mae gennym ddigon ohono. Mae defnyddio dŵr i’r diben hwn yn cyd-fynd â’r nodau llesiant eraill yn y Bil FG, sef Cymru lewyrchus a Chymru fwy cyfartal. Gallwn edrych tua’r dyfodol a cheisio creu swyddi yn y sector hwn—swyddi a fydd yn gynaliadwy ac yn hirdymor—drwy ganolbwyntio ar y cyfleoedd economaidd sy’n deillio o ddefnyddio dŵr ac adnoddau naturiol eraill. Bydd y strategaeth twf gwyrdd yn ein helpu i gynyddu nifer y bobl sy’n gweithio a mynd i'r afael â thlodi. Credaf yn gryf, fel erioed, mai'r ffordd orau o gael pobl allan o dlodi yw sicrhau bod ganddynt swydd a’u bod yn ennill cyflog teg am ddiwrnod teg o waith.

Finally, water is a valuable component of our energy mix in Wales. As we seek to build a more sustainable Wales and draw a greater proportion of our energy from renewable sources in order to lower our carbon emissions in line with the FG Bill’s wellbeing goals, water has a very important part to play in this. However, at the same time, it is important that we have a mix of energy resources, including renewables such as solar, water and wind, as well as the controlled use of fossil fuels, such as coal and shale oil and gas. There could be many job opportunities in these fields. We would be foolish not to at least explore the potential that these home-grown resources would have in terms of our balanced energy mix, provided that public and operational safety issues are wholly addressed first.

Yn olaf, mae dŵr yn rhan bwysig o'n cymysgedd ynni yng Nghymru. Wrth i ni geisio adeiladu Cymru fwy cynaliadwy a sicrhau bod cyfran fwy o'n hynni yn dod o ffynonellau adnewyddadwy er mwyn lleihau ein hallyriadau carbon yn unol â nodau llesiant y Bil FG, mae gan ddŵr gyfraniad pwysig iawn i’w wneud. Fodd bynnag, ar yr un pryd, mae'n bwysig bod gennym gymysgedd o adnoddau ynni, gan gynnwys ynni adnewyddadwy fel solar, dŵr a gwynt, yn ogystal â'r defnydd a reolir o danwydd ffosil, megis glo ac olew a nwy siâl. Gallai fod llawer o gyfleoedd gwaith yn y meysydd hyn. Byddai’n gamgymeriad mawr i ni beidio ag o leiaf archwilio potensial yr adnoddau cynhenid hyn i gyfrannu at ein cymysgedd ynni cytbwys, ar yr amod ein bod yn rhoi sylw cynhwysfawr yn gyntaf i faterion diogelwch y cyhoedd a diogelwch gweithredol.

To conclude, I am glad that we have had this debate here in the Chamber. The sustainable use of our natural resources will be crucial if we are to drive down overall carbon emissions, create green jobs and set ourselves on the way to meeting the six wellbeing goals of the FG Bill. While a balanced energy mix is crucial, we have to ensure that our use of resources is sustainable so that we can create a more equal, prosperous and resilient Wales for future generations.

I gloi, rwy’n falch ein bod wedi cael y ddadl hon yma yn y Siambr. Bydd defnydd cynaliadwy o'n hadnoddau naturiol yn hanfodol er mwyn lleihau allyriadau carbon yn gyffredinol, creu swyddi gwyrdd a’n helpu i gyflawni chwe nod llesiant y Bil FG. Er bod cymysgedd ynni cytbwys yn hanfodol, mae'n rhaid i ni sicrhau bod ein defnydd o adnoddau yn gynaliadwy fel y gallwn greu Cymru fwy cyfartal, lewyrchus a chydnerth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

16:58 **Russell George** Bywgraffiad Biography

The central aim of our motion is to recognise the potential of a resource that I believe is undervalued and, perhaps, taken for granted. The question for us as Members in this Chamber is how we can better utilise a resource that, if exploited sustainably and effectively, could have an overwhelmingly positive impact on Wales's economic environment and local communities.

Nod canolog ein cynnig yw cydnabod potensial adnodd nad yw'n cael ei werthfawrogi ddigon yn fy marn i ac sydd efallai'n cael ei gymryd yn ganiataol. Y cwestiwn i ni fel Aelodau yn y Siambr hon yw sut y gallwn wella'r defnydd o adnodd a allai gael effaith hynod gadarnhaol ar amgylchedd economaidd a chymunedau lleol Cymru o'i ddefnyddio mewn ffordd gynaliadwy ac effeithiol.

The Welsh Government's programme for government set out a clear objective to ensure that we make the best possible use of our ultimate resources as a nation, namely land, water and air. That is an aim that I think we can all support. Technical advice note 8, the Welsh Government's guidance on land use with regard to renewable energy, focuses nearly entirely on offshore wind, at the expense, I would say, of other technology. So, it will be no surprise to Members in this Chamber that I again call for TAN 8 to be reviewed in its entirety on the grounds that it is not fit for purpose and it does not promote a genuine energy mix.

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn pennu amcan clir i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau posibl o'n prif adnoddau fel cenedl, sef tir, dŵr ac aer. Dyna amcan rwy'n meddwl y gallwn i gyd ei gefnogi. Mae nodyn cyngor technegol 8, canllawiau Llywodraeth Cymru ar ddefnydd tir o safbwynt ynni adnewyddadwy, yn canolbwyntio bron yn gyfan gwbl ar wynt ar y môr, ar draul, byddwn yn dweud, mathau eraill o dechnoleg. Felly, ni fydd yn syndod i'r Aelodau yn y Siambr hon fy mod yn galw unwaith eto am adolygu TAN 8 yn ei gyfanrwydd ar y sail nad yw'n addas i'r diben ac nad yw'n hyrwyddo cymysgedd ynni gwirioneddol.

We have heard from Suzy Davies and others with regard to hydropower. Hydropower, I believe, has not been exploited to its full extent and there are still many barriers to developing it, largely from Natural Resources Wales, with regard to permissions and licensing processes. Earlier this year, a young professional in my constituency, who moved back to Montgomeryshire from Gloucestershire to start up a small, renewable energy business, experienced great difficulties with the licensing process for hydroelectric schemes, having first entered the licensing process in September 2012. A committed group of people outside Newtown, with regard to Penarth weir just outside Newtown, also came across a brick wall after many years of trying to build a hydro scheme there. So, I think that the Welsh Government needs to take a far more proactive approach to ensuring that its renewable energy policy is fit for purpose. I believe that Community Energy Wales should be put on a firm footing with financial support from the Welsh Government.

Rydym wedi clywed Suzy Davies ac eraill yn trafod ynni dŵr. Nid ydym wedi manteisio'n llawn ar ynni dŵr, yn fy marn i, ac mae'r gwaith o'i ddatblygu yn wynebu sawl rhwystr o hyd, yn bennaf oherwydd prosesau caniatâd a thrwyddedu Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn gynharach eleni, cafodd gweithiwr proffesiynol ifanc yn fy etholaeth a oedd wedi symud yn ôl i Sir Drefaldwyn o Swydd Gaerloyw i ddechrau busnes ynni adnewyddadwy bach anawsterau mawr gyda'r broses drwyddedu ar gyfer cynlluniau hydrodrydanol, ar ôl dechrau'r broses drwyddedu ym mis Medi 2012. Cafodd grŵp ymroddedig o bobl y tu allan i'r Drenewydd, a oedd yn ymwneud â chored Penarth ar gyrion Drenewydd, broblemau mawr hefyd ar ôl blynyddoedd lawer o geisio adeiladu cynllun ynni dŵr yno. Felly, credaf fod angen i Lywodraeth Cymru fabwysiadu dull gweithredu llawer mwy rhagweithiol er mwyn sicrhau bod ei pholisi ynni adnewyddadwy yn addas i'r diben. Rwy'n credu y dylai Ynni Cymunedol Cymru gael ei osod ar sylfaen gadarn gyda chymorth ariannol Llywodraeth Cymru.

To talk about waterways and canals, the restoration of Montgomery canal could bring a significant social and economic boost to the area and to tourism. In August, I was pleased to take a trip up the Montgomery canal, courtesy of the Heulwen Trust, which is a charity that exists to support disabled children and adults to enjoy themselves. It has two boats and I went on one along Montgomery canal to understand some of the issues that it presented to me, which included the need to dredge parts of the canal and to clear weeds, both of which were preventing the full enjoyment of the canal. Therefore, hopefully the Welsh Government will mirror some of the ways in which Scotland has opened up and regenerated its waterways and look to empower local communities to protect and promote these important assets.

O ran dyfrffyrdd a chamlesi, gallai adfer camlas Trefaldwyn roi hwb gymdeithasol ac economaidd sylweddol i'r ardal ac i dwristiaeth. Ym mis Awst, roeddwn wrth fy modd yn mynd ar daith ar hyd camlas Trefaldwyn, trwy garedigrwydd Ymddiriedolaeth Heulwen, sef elusen sy'n bodoli i gynorthwyo plant ac oedolion anabl i'w mwynhau eu hunain. Mae gan yr elusen ddau gwch ac euthum ar un ohonynt ar hyd camlas Trefaldwyn i ddeall rhai o'r problemau sy'n wynebu'r gamlas, gan gynnwys yr angen i garthu rhannau o'r gamlas a chlirio chwyn, dwy broblem a oedd yn rhwystro pobl rhag mwynhau'r gamlas yn llawn. Felly, gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn efelychu rhai o'r pethau sydd wedi digwydd yn yr Alban i agor i fyny ac adfywio ei dyfrffyrdd a cheisio grymuso cymunedau lleol i ddiogelu a hyrwyddo'r asedau pwysig hyn.

Finally, I would like to talk about water management with regard to flood risk. Both Lake Vyrnwy and the Clywedog dam near Llanidloes are in my constituency. As far as I am concerned, those two dams exist for two reasons. One is to provide water to parts of England and the other is to prevent flooding in my constituency and beyond. There is a clear conflict between the two. The water utility companies want the dams to be topped up to the max, for obvious reasons in times of drought, but in doing so, when there are large amounts of rainfall, the dams need to be drawn down quickly and often tip over the top. That causes flooding to agricultural land upstream in my constituency, which is of huge cost to the farming industry and landowners. Unfortunately, in the past, it has caused lots of damage to equipment and land. In my view, the balance between the two is wrong. So, I am pleased that Natural Resources Wales has agreed to do a well-overdue review of the two dams. It has been 25 years since one of the dams was last reviewed with regard to its processes and procedures, so I am pleased that it has done that. I am also pleased that a local liaison group will be set up soon as well.

Yn olaf, hoffwn siarad am reoli dŵr o safbwynt peryglon llifogydd. Mae Llyn Efyrnwy ac argae Clywedog ger Llanidloes yn fy etholaeth. Hyd y gwn i, mae’r ddau argae yn bodoli am ddau reswm. Un yw darparu dŵr i rannau o Loegr a'r llall yw atal llifogydd yn fy etholaeth a thu hwnt. Mae gwrthdaro amlwg rhwng y ddau. Mae'r cwmnïau cyfleustodau dŵr am i'r argaeau gael eu llenwi i’r lefel uchaf bosibl, am resymau amlwg ar adegau o sychder, ond wrth wneud hynny, pan fydd llawer o law, mae angen i’r argaeau gael eu tynnu i lawr yn gyflym, ac mae'r dŵr yn llifo drosodd yn aml. Mae hynny’n achosi llifogydd ar dir amaethyddol i fyny'r afon yn fy etholaeth, gan arwain at gost enfawr i'r diwydiant ffermio a thirfeddianwyr. Yn anffodus, yn y gorffennol, mae wedi achosi llawer o ddifrod i offer a thir. Yn fy marn i, mae’r cydbwysedd rhwng y ddau yn anghywir. Felly, rwy’n falch bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cytuno i gynnal adolygiad o'r ddau argae – mae’n hen bryd i hynny ddigwydd. Nid yw prosesau na gweithdrefnau’r naill argae na’r llall wedi’u hadolygu ers 25 mlynedd, felly rwy’n falch ei fod wedi gwneud hynny. Rwyf hefyd yn falch y bydd grŵp cyswllt lleol yn cael ei sefydlu cyn bo hir.

However, in conclusion, the economic and environmental potential of water is untapped, its value has not yet been truly quantified, but it is a resource that could have a significant economic and social benefit for Wales in years to come and that is surely beyond dispute.

Fodd bynnag, i gloi, nid ydym yn manteisio ar botensial economaidd ac amgylcheddol dŵr, nid yw ei werth wedi cael ei fesur yn wirioneddol hyd yma, ond mae'n adnodd a allai fod o fudd economaidd a chymdeithasol sylweddol i Gymru yn y blynyddoedd i ddod, ac rwy’n siŵr bod pawb yn cytuno â hynny.

17:03

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Carl Sargeant.

I call the Minister for Natural Resources, Carl Sargeant.

17:04

## Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Thank you, Deputy Presiding Officer. It has been a very interesting debate with many contributions from across the Chamber. I think, in general, there is much agreement around this Chamber in terms of the importance of the water resource and that it is one of our greatest natural assets.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae wedi bod yn ddadl ddiddorol iawn gyda llawer o gyfraniadau o bob rhan o'r Siambr. Rwy'n credu, yn gyffredinol, bod llawer o gytundeb yn y Siambr hon ynglŷn â phwysigrwydd adnoddau dŵr a'r ffaith fod dŵr yn un o'n hasedau naturiol pwysicaf.

Our water resources are essential for our health, for the wellbeing of our society, the success of our economy and that of our natural environment and wildlife. We cannot be complacent and we need to continue to manage our water resources in the way that makes the most of the opportunities provided, while ensuring that future generations, as Jeff Cuthbert said, will also benefit from this.

Mae ein hadnoddau dŵr yn hanfodol ar gyfer ein hiechyd, er lles ein cymdeithas, llwyddiant ein heconomi a llwyddiant ein hamgylchedd naturiol a’n bywyd gwyllt. Ni allwn orffwys ar ein rhwyfau ac mae angen i ni barhau i reoli ein hadnoddau dŵr mewn ffordd sy'n manteisio’n llawn ar y cyfleoedd sydd ar gael, gan sicrhau y bydd cenedlaethau'r dyfodol, fel y dywedodd Jeff Cuthbert, hefyd yn elwa ar hyn.

To achieve this, we are building on current practice to take a more integrated approach to align our natural resource management programme. My predecessor gave a statement to the Assembly in May this year on the release of the consultation of the draft water strategy for Wales. The final version of that, which I know Paul Davies was interested in, will be available early in the new year, where we will set out the importance that we attach to water resources and how we can plan to manage this vital resource in the long term.

I gyflawni hyn, rydym yn datblygu arfer cyfredol er mwyn gweithredu mewn ffordd fwy integredig i alinio ein rhaglen rheoli adnoddau naturiol. Gwnaeth fy rhagflaenydd ddatganiad yn y Cynulliad ym mis Mai eleni ar gyhoeddi ymgynghoriad y strategaeth ddŵr ddrafft i Gymru. Bydd fersiwn derfynol y strategaeth, a gwn fod gan Paul Davies ddiddordeb ynddi, ar gael yn gynnar yn y flwyddyn newydd, a bydd yn nodi pa mor bwysig yw adnoddau dŵr i ni a sut y gallwn gynllunio i reoli'r adnodd hanfodol hwn yn yr hirdymor.

Our aim is to meet the future needs of sustainable and resilient environments and the need to ensure that there is sufficient reliable water resources and waste water services available to encourage green growth and job creation. Where Antoinette Sandbach, in her opening contribution, said that she would like sewage devolved to Wales, I am quite interested in the powers around that rather than just the sewage. [Laughter.] It would certainly be something that we would welcome in Wales.

Ein nod yw diwallu anghenion amgylcheddau cynaliadwy a chydnerth yn y dyfodol a'r angen i sicrhau bod digon o adnoddau dŵr a gwasanaethau dŵr gwastraff dibynadwy ar gael i hybu twf gwyrdd a chreu swyddi. Pan ddywedodd Antoinette Sandbach, yn ei chyfraniad agoriadol, y byddai'n hoffi gweld carthion yn cael eu datganoli i Gymru, mae gennyf ddiddordeb yn y pwerau sy'n gysylltiedig â hynny yn hytrach na dim ond y carthion. [Chwerthin.] Byddai'n sicr yn rhywbeth y byddem yn ei groesawu yng Nghymru.

We are already working with many companies that rely on water to support their businesses, producing everything from paper to steel, through to cakes, bread and, indeed, beer. Alongside industrial users, well-managed water resources support great jobs in the tourism and fishing industry, too. The effective management of water underpins thousands of jobs in the sector and provides opportunities to attract many more businesses to Wales.

Rydym eisoes yn gweithio gyda llawer o gwmnïau sy'n dibynnu ar ddŵr i gefnogi eu busnesau, sy'n cynhyrchu popeth o bapur i ddur, cacennau, bara ac, yn wir, cwrw. Ochr yn ochr â defnyddwyr diwydiannol, mae adnoddau dŵr a reolir yn dda yn cefnogi swyddi pwysig yn y diwydiant twristiaeth a physgota, hefyd. Mae rheoli dŵr yn effeithiol yn sylfaen i filoedd o swyddi yn y sector ac yn darparu cyfleoedd i ddenu llawer mwy o fusnesau i Gymru.

*Antoinette Sandbach a gododd—*

*Antoinette Sandbach rose—*

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

I will give way in a second, if I may. I would like to address some of the issues that Members have raised in the Chamber today. Indeed, again, Paul Davies raised the important issue around SuDS and where we are as a Government on that. Development of an interim standard is on the way in terms of that process. We are looking, following that process, to whether we would indeed consider implementing the full Schedule 3 to the Flood and Water Management Act 2010. It is something that we are taking seriously. There is a great programme in Llanelli, which is protecting our communities, in operation as we speak.

Ildiaf mewn eiliad, os caf fi. Hoffwn drafod rhai o'r materion y mae'r Aelodau wedi'u codi yn y Siambr heddiw. Yn wir, unwaith eto, cododd Paul Davies y mater pwysig yn ymwneud â SDCau a sefyllfa'r Llywodraeth yn y cyswllt hwnnw. Mae'r gwaith o ddatblygu safon dros dro yn yr arfaeth o safbwynt y broses honno. Rydym yn edrych, yn dilyn y broses honno, a fyddem yn wir yn ystyried gweithredu Atodlen 3 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn llawn. Mae'n rhywbeth rydym yn ei gymryd o ddifrif. Mae rhaglen wych yn Llanelli, sy'n diogelu ein cymunedau, ar waith wrth i ni siarad.

I will take the intervention if I have time.

Byddaf yn derbyn yr ymyriad os oes gennyf amser.

17:06

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

I am very grateful to the Minister. Obviously, the motion speaks about the water footprint. Cardiff University, particularly Professor Falconer, is undertaking quite intensive research on the water footprint. Do you not agree, Minister, that using the water footprint gives consumers the choice to see which products consume the most resources and that it is a better measure than food miles may be?

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Gweinidog. Yn amlwg, mae'r cynnig yn siarad am yr ôl troed dŵr. Mae Prifysgol Caerdydd, a'r Athro Falconer yn benodol, yn ymgymryd â gwaith ymchwil cymharol ddwys ar yr ôl troed dŵr. Onid ydych yn cytuno, Weinidog, bod defnyddio'r ôl troed dŵr yn rhoi'r dewis i ddefnyddwyr weld pa gynhyrchion sy'n defnyddio'r adnoddau mwyaf, a'i fod yn fesur gwell na thaith bwyd efallai?

17:07

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

I will outline the plans on that a little bit later in the contribution if I have time.

Byddaf yn amlinellu'r cynlluniau ar hynny ychydig yn nes ymlaen yn y cyfraniad os oes gennyf amser.

Following the latest 2014 review of Welsh water companies' business plans, Ofwat has told me that the companies will be investing £3 billion in improving infrastructure and services over the next five years, whilst, on average, Welsh customers will see their bills reduced by around 5% before inflation.

Yn dilyn adolygiad diweddaraf 2014 o gynlluniau busnes cwmnïau dŵr Cymru, mae Ofwat wedi dweud wrthyf y bydd y cwmnïau yn buddsoddi £3 biliwn i wella'r seilwaith a'r gwasanaethau dros y pum mlynedd nesaf, tra, ar gyfartaledd, y bydd biliau cwsmeriaid yng Nghymru yn gostwng tua 5% cyn chwyddiant.

The quality of our water is also an important consideration for the economy, while we have picturesque lakes and clean coastal waters that so much of Wales is famous for, and it is a fantastic draw for the thousands of visitors every year. I would like to touch on the issue that Paul Davies raised again. He gave some great challenges today and great opportunities to explain where Wales is in relation to the UK as a whole, particularly on the issue he raises around bathing water and bathing water standards. This is why, this week, I was happy to announce that the quality of Wales's bathing waters was better than ever before, with nearly 90% more water than in any previous year meeting the highest European standards, and all 102 identified bathing waters meeting the required standard. This is in marked contrast to what is happening in England, where the number of beaches meeting the highest standards fell to 80.7% and at least 20 beaches are expecting to fail the revised 2015 standards. I am very proud of the work that is going on with local authorities and NRW to make sure that our bathing waters are fit for purpose.

Mae ansawdd ein dŵr hefyd yn ystyriaeth bwysig ar gyfer yr economi, gan fod gennym lynnoedd prydferth a dyfroedd arfordirol glân mewn cymaint o rannau o Gymru, sy'n atyniad gwych i'r miloedd o ymwelwyr bob blwyddyn. Hoffwn grybwyll y mater a gododd Paul Davies eto. Nododd rhai heriau mawr heddiw a chyfleoedd gwych i esbonio sefyllfa Cymru yng nghyd-destun y DU gyfan, yn enwedig wrth godi'r mater o ddŵr ymdrochi a safonau dŵr ymdrochi. Dyna pam, yr wythnos hon, roedd yn dda gennyf gyhoeddi bod ansawdd dyfroedd ymdrochi Cymru yn well nag erioed o'r blaen, gyda bron i 90% yn fwy o ddŵr na'r flwyddyn flaenorol yn bodloni'r safonau Ewropeaidd uchaf, a phob un o'r 102 o ddyfroedd ymdrochi a nodwyd yn bodloni'r safon ofynnol. Mae hyn yn wahanol iawn i'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr, lle mae nifer y traethau sy'n bodloni'r safonau uchaf wedi gostwng i 80.7%, a lle mae disgwyl i o leiaf 20 o draethau beidio â bodloni safonau diwygiedig 2015. Rwy'n falch iawn o'r gwaith sy'n cael ei wneud gydag awdurdodau lleol a CNC i sicrhau bod ein dyfroedd ymdrochi yn addas i'r diben.

During the debate, the issue around flooding was raised. Again, Russell George raised the issue of wind power. I was not quite sure how that related to water, but I am sure that when he continued with this contribution he raised the issue around the impact of different types of renewable energy, which I recognise that he has some concerns on. Our investment of around £240 million in flooding coastal defences over the last year has indicated a positive intervention where only—I say only, but it is significant—1% of our at-risk homes were flooded. That equates to around 350 homes being affected by flooding during the winter period, where, again, in England, around 6,000 homes were affected by the flooding. Again, we make sure that we are strategic in where we make our investment in flood defences. That is why the shoreline management plans are so important. I have already issued two, and there are two more to follow shortly.

Yn ystod y ddadl, cyfeiriwyd at faterion yn ymwneud â llifogydd. Unwaith eto, cododd Russell George y mater o ynni gwynt. Nid oeddwn yn hollol siŵr sut oedd hynny'n berthnasol i ddŵr, ond rwy'n siŵr, pan barhaodd â'r cyfraniad hwn iddo godi'r mater o effaith y gwahanol fathau o ynni adnewyddadwy, ac rwy'n cydnabod bod ganddo rai pryderon yn y cyswllt hwn. Mae ein buddsoddiad o tua £240 miliwn mewn systemau amddiffyn rhag llifogydd dros y flwyddyn ddiwethaf wedi dangos ymyriad cadarnhaol lle mai dim ond—rwy'n dweud dim ond, ond mae'n arwyddocaol—1% o'n cartrefi mewn perygl wedi dioddef llifogydd. Mae hynny'n cyfateb i tua 350 o gartrefi yn cael eu heffeithio gan lifogydd yn ystod y gaeaf, lle, unwaith eto, yn Lloegr, cafodd tua 6,000 o gartrefi eu heffeithio gan y llifogydd. Unwaith eto, rydym yn sicrhau ein bod yn gweithredu'n strategol wrth benderfynu ble i fuddsoddi mewn amddiffynfeydd rhag llifogydd. Dyna pam y mae'r cynlluniau rheoli traethlin mor bwysig. Rwyf eisoes wedi cyhoeddi dau, a bydd dau arall yn dilyn cyn bo hir.

The issue of metering was raised. We will look further at the issues of metering, reducing water consumption and addressing the issues that Jenny Rathbone raised about running water while brushing your teeth. That is a small intervention, but it has a major impact in terms of water usage, and it is something that we are taking very seriously.

Codwyd y mater o fesuryddion. Byddwn yn edrych ymhellach ar y materion yn ymwneud â mesuryddion, lleihau'r defnydd o ddŵr a mynd i'r afael â'r materion a gododd Jenny Rathbone ynglŷn â rhedeg dŵr wrth frwsio dannedd. Ymyriad bach yw hwnnw, ond mae'n cael effaith fawr ar y defnydd o ddŵr, ac mae'n rhywbeth rydym yn ei gymryd o ddifrif.

May I touch on the very important issue of power generation? Large volumes of cooling water are already used in the efficient generation of electricity in power stations across Wales. I am very supportive of the principle of hydropower and, again, both in north Wales and in the project in Pembrokeshire that the Member raised earlier on, that is something that I am very keen to ensure that we can support as much as we can in Wales.

A gaf fi gyfeirio at y mater pwysig iawn o gynhyrchu pŵer? Mae llawer iawn o ddŵr oeri eisoes yn cael ei ddefnyddio er mwyn cynhyrchu trydan yn effeithlon mewn gorsafoedd pŵer ledled Cymru. Rwy'n gefnogol iawn i'r egwyddor o ynni dŵr ac, unwaith eto, yng ngogledd Cymru ac yn y prosiect yn Sir Benfro a nododd yr Aelod yn gynharach, dyna rywbeth rwy'n awyddus iawn i sicrhau y gallwn ei gefnogi cymaint ag sy'n bosibl yng Nghymru.

With regard to amendment 1, I have already recognised the issue of the full devolution of powers for water and sewerage. We support that amendment, and we will be voting accordingly. We also support amendment 2 in terms of the issue regarding the settlement of other powers. The issue around the other amendment we will be supporting too. So, we will not be opposing any of the votes today.

O ran gwelliant 1, rwyf eisoes wedi cydnabod y mater o ddatganoli'n llawn pwerau ar gyfer dŵr a charthffosiaeth. Rydym yn cefnogi'r gwelliant hwnnw, a byddwn yn pleidleisio yn unol â hynny. Rydym hefyd yn cefnogi gwelliant 2 ynglŷn â'r mater yn ymwneud â setliad pwerau eraill. Byddwn yn cefnogi'r mater sy'n gysylltiedig â'r gwelliant arall hefyd. Felly, ni fyddwn yn gwrthwynebu unrhyw un o'r pleidleisiau heddiw.

The last point that Antoinette Sandbach brought up was around labelling. I think that there is an important debate to be had regarding the resilience of water supply and the impact on other countries as well. I think that there is more work that we need to do, and I am keen for my department to look at external reference groups as well to see how that may be sourced, but I understand that the devolution settlement with regard to quality and labelling is something that we will have to consider, in terms of where responsibility lies regarding determination. However, it is something that I am sure that, as a whole, we should be very positive about, and the actions that we are taking as a Welsh Government and third parties across Wales in terms of opportunities, but we must continue to manage our water resources very carefully. Thank you for the opportunity to respond to this debate today, Deputy Presiding Officer.

Roedd pwynt olaf Antoinette Sandbach yn ymwneud â labelu. Credaf fod trafodaeth bwysig i'w chynnal ynglŷn â gwydnwch cyflenwadau dŵr a'r effaith ar wledydd eraill hefyd. Rwy'n meddwl bod angen i ni wneud mwy o waith, ac rwyf am weld fy adran yn edrych ar grwpiau cyfeirio allanol hefyd i ystyried sut i wneud y gwaith, ond rwy'n sylweddoli bod y setliad datganoli o safbwynt ansawdd a labelu yn rhywbeth y bydd yn rhaid i ni ei ystyried, o ran pwy sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, mae'n rhywbeth rwy'n siŵr, yn gyffredinol, y dylem fod yn gadarnhaol iawn yn ei gylch, a'r camau sy'n cael eu rhoi ar waith gennym fel Llywodraeth Cymru a chan drydydd partïon ledled Cymru o ran cyfleoedd, ond mae'n rhaid i ni barhau i reoli ein hadnoddau dŵr yn ofalus iawn. Diolch i chi am y cyfle i ymateb i'r ddadl hon heddiw, Ddirprwy Lywydd.

17:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Galwaf ar Antoinette Sandbach i ymateb i'r ddadl.

I call on Antoinette Sandbach to respond to the debate.

17:12 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

I am very grateful, Minister, that you dealt with that last point, because none of our contributions, including my own, focused on the water footprint, and there is groundbreaking research going on, as I said, at Cardiff University. I think that Jenny Rathbone might be quite horrified to know that a cup of coffee that is made out of coffee beans effectively uses up 150 litres of water, if you take into account the amount of water required to grow the beans and then to transport them into Europe. I think that that is why the water footprint issue is such an important one. Not only does it tell us what the resources are that we are using in our own consumption, but I think that it will give Wales, potentially, a huge competitive advantage when we are producing livestock in largely extensive farming systems. I think that our products, such as Welsh lamb and beef, could be produced with quite a low water footprint and it would be good to look at the development of that on the international stage.

Rwy'n ddiolchgar iawn, Weinidog, eich bod wedi ymdrin â'r pwynt olaf hwnnw, oherwydd ni wnaeth unrhyw un o'n cyfraniadau, gan gynnwys fy nghyfraniad fy hun, ganolbwyntio ar yr ôl troed dŵr, ac mae ymchwil arloesol yn mynd rhagddo, fel y dywedais, ym Mhrifysgol Caerdydd. Rwy'n meddwl y byddai Jenny Rathbone yn dychryn o bosibl o wybod bod paned o goffi sy'n cael ei wneud o ffa coffi yn defnyddio 150 litr o ddŵr mewn gwirionedd, os ydych yn ystyried faint o ddŵr sydd ei angen i dyfu'r ffa ac yna eu cludo i Ewrop. Dyna pam rwy'n credu bod ôl troed dŵr yn fater mor bwysig. Nid yn unig y mae'n dweud wrthym ba adnoddau rydym yn eu defnyddio o safbwynt ein defnydd ein hunain, ond credaf y bydd yn rhoi mantais gystadleuol enfawr i Gymru, o bosibl, pan fyddwn yn cynhyrchu da byw mewn systemau ffermio llai dwys yn bennaf. Rwy'n credu y gallai ein cynhyrchion, megis cig oen a chig eidion Cymru, gael eu cynhyrchu ag ôl troed dŵr cymharol isel a byddai'n dda edrych ar ddatblygiad hynny ar y llwyfan rhyngwladol.

I am extremely grateful to everyone who contributed to the debate, and I shall be looking up Hydro-Québec and seeing whether that is the sort of example that would be useful here. I know, certainly, from William Powell's contribution, that Dinorwig in north Wales is an incredibly impressive hydro storage facility, and if any of you have not visited it, may I invite you to go and do so? It is a tourist attraction in its own right, but it generates huge amounts of electricity for the electricity network and it is the most amazing feat of engineering, so it is well worth visiting, and there are lots of other things to see near it too.

Rwy'n hynod ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at y ddadl, a byddaf yn ymchwilio i Hydro-Québec i weld ai dyna'r math o esiampl a fyddai'n ddefnyddiol yma. Rwy'n gwybod, yn sicr, yn sgîl cyfraniad William Powell, bod Dinorwig yng ngogledd Cymru yn gyfleuster storio hydrodrydanol hynod drawiadol, ac os nad ydych wedi ymweld ag ef, a gaf fi eich annog i wneud hynny? Mae'n atyniad i dwristiaid ynddo ei hun, ond mae'n cynhyrchu llawer iawn o drydan ar gyfer y rhwydwaith trydan ac mae'n enghraifft o waith peirianneg o'r safon uchaf, felly mae'n werth ymweld, ac mae llawer o bethau eraill i'w gweld yn yr ardal hefyd.

Paul Davies talked about the importance of bathing water quality standards and while I have not had an opportunity to go to visit the beaches of Pembrokeshire, I would very much love to at some point in the future. Clearly, they are a key asset for Wales in drawing in tourism, and I know that many people have spoken extremely highly of them.

Soniodd Paul Davies am bwysigrwydd safonau ansawdd dŵr ymdrochi, ac er nad wyf wedi cael cyfle i ymweld â thraethau Sir Benfro, byddwn wrth fy modd yn gwneud hynny rywbryd yn y dyfodol. Yn amlwg, maent yn ased allweddol i Gymru wrth ddenu ymwelwyr, a gwn fod llawer o bobl wedi eu canmol yn fawr iawn.

Jenny Rathbone talked about the reuse of water, as did others, and I think that it is very important to look at that grey water recycling and the opportunities that are there to try to capture some of that grey water. At the moment, as Llyr Huws Gruffydd said, people might be amazed that we are just flushing drinking water literally down the drain.

Soniodd Jenny Rathbone am ailddefnyddio dŵr, fel y gwnaeth eraill, ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn edrych ar ailgylchu dŵr llwyd a'r cyfleoedd sydd ar gael i geisio dal rhywfaint o'r dŵr llwyd. Ar hyn o bryd, fel y dywedodd Llyr Huws Gruffydd, efallai y bydd pobl yn synnu ein bod yn fflysio dŵr yfed i lawr y draen yn llythrennol.

Russell George never fails to take the opportunity to try to persuade the Welsh Government away from its ideological fixation on onshore wind power and on to water power, which I think that many of us on this side of the Chamber would like to see. There are serious lessons to be learned, Minister. Ynni'r Fro was criticised by its own participants, because of the problem of consenting with hydropower. There really is an issue with NRW and flow-splitting, which was dealt with in the energy report from the Environment and Sustainability Committee. I think that we have a huge opportunity with hydropower. I do not think that Jenny Rathbone realised, when she said that lots of farmers have streams running past their fields, how difficult it is for them to get licences to put in small hydro schemes. There are real barriers to entry there from NRW. I would urge you to look at that report, Minister, and to perhaps listen to your participants in Ynni'r Fro, who have described the difficulty with consenting and licensing.

Mae Russell George yn manteisio ar bob cyfle posibl i geisio dwyn perswâd ar Lywodraeth Cymru i roi'r gorau i'w hobsesiwn ideolegol ag ynni gwynt ar y tir, a newid y pwyslais i bŵer dŵr, ac rwy'n meddwl y byddai llawer ohonom ar yr ochr hon i'r Siambr yn hoffi gweld hynny. Mae gwersi difrifol i'w dysgu, Weinidog. Beirniadwyd Ynni'r Fro gan gyfranogwyr y cynllun ei hun, oherwydd y broblem o gael caniatâd ar gyfer cynlluniau ynni dŵr. Mae problem wirioneddol gyda CNC a llif-hollti, a rhoddwyd sylw i hynny yn adroddiad ynni'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Credaf fod gennym gyfle enfawr gydag ynni dŵr. Nid wyf yn credu bod Jenny Rathbone wedi sylweddoli, pan ddywedodd fod gan lawer o ffermwyr nentydd yn rhedeg heibio eu caeau, pa mor anodd iddynt yw cael trwyddedau i sefydlu cynlluniau ynni dŵr bach. Mae rhwystrau gwirioneddol i fynediad yn y cyswllt hwn gan CNC. Byddwn yn eich annog i edrych ar yr adroddiad hwnnw, Weinidog, ac efallai gwrando ar gyfranogwyr Ynni'r Fro, sydd wedi disgrifio'r anhawster o gael caniatâd a thrwyddedau.

Overall, however, I think that Wales is extremely lucky to have the kind of water resources that we do. I hope that, as a nation, we will maximise the economic benefits of them and ensure that we conserve them for generations to come.

Ar y cyfan, fodd bynnag, rwy'n meddwl bod Cymru yn eithriadol o ffodus i gael y math o adnoddau dŵr ag sydd gennym. Gobeithiaf, fel cenedl, y byddwn yn gwneud y gorau o'r manteision economaidd sy'n deillio ohonynt ac yn sicrhau ein bod yn eu diogelu ar gyfer cenedlaethau i ddod.

17:16

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Mae gwrthwynebiad. Gohiriaf y pleidleiso ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The question is that the motion as unamended be agreed. Does any Member object? There is objection. I will defer the vote on this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Pontydd Hafren

## Welsh Liberal Democrats Debate: The Severn Bridges

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Elin Jones, gwelliant 2 yn enw Paul Davies, a gwelliant 3 yn enw Jane Hutt. Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2 a 3 yn cael ei ddad-ddethol. Os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliant 3 yn cael ei ddad-ddethol.*

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Elin Jones, amendment 2 in the name of Paul Davies, and amendment 3 in the name of Jane Hutt. If amendment 1 is agreed, amendments 2 and 3 will be deselected. If amendment 2 is agreed, amendment 3 will be deselected.*

17:17

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call on Eluned Parrott to move the motion.

Rwy'n galw ar Eluned Parrott i gyflwyno'r cynnig.

Cynnig NDM5615 Aled Roberts

Motion NDM5615 Aled Roberts

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi'r rhagolygon presennol y bydd y cytundeb consesiwn ar gyfer pontydd Hafren yn dod i ben yn 2018 a bod angen cynnal trafodaethau cynnar ynghylch system codi tollau, gwaith cynnal a chadw a pherchnogaeth y pontydd at y dyfodol.

1. Notes the current forecasts that the concession agreement for the Severn Bridges will come to an end in 2018 and that early discussions need to take place as to the future ownership, maintenance and tolling system for the bridges.

2. Yn credu bod y system codi tollau bresennol yn faich annheg ar fusnesau, teithwyr a'r cyhoedd.

2. Believes that the current tolling system is an unfair burden on businesses, commuters and the public.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU ar gynllunio ar gyfer dyfodol y pontydd.

3. Calls on the Welsh Government to work closely with the UK Government on planning for the future of the bridges.

4. Yn galw ar Lywodraeth y DU i ddiddymu'r tollau ar bontydd Hafren unwaith y bydd y costau adeiladu ac atgyweirio presennol yn cael eu talu.

4. Calls on the UK Government to abolish the tolls on the Severn Bridges once the existing construction and repair costs are paid off.

17:17

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

I move the motion.

Cyflwynaf y cynnig.

It is a pleasure to move our motion today on the future of the Severn bridge tolls and to have an opportunity to discuss our different approaches to them. It is my belief that the Severn bridge tolls must end as soon as possible. They are, in my view, an unfair anachronism in a country where tolls on our roads are both rare and, where they do exist, generally low. As far as I am concerned, it is a matter of natural justice for Wales, because where else in Britain do you have to pay just to get in?

Mae'n bleser cyflwyno ein cynnig heddiw ar ddyfodol tollau pont Hafren a chael cyfle i drafod ein hagweddau gwahanol tuag atynt. Yn fy marn i, mae’n rhaid i dollau pont Hafren ddod i ben cyn gynted ag y bo modd. Maent, yn fy marn i, yn anacroniaeth annheg mewn gwlad lle mae tollau ar ein ffyrdd yn brin a, lle maent yn bodoli, yn isel yn gyffredinol. Yn fy marn i, mae'n fater o gyfiawnder naturiol i Gymru, oherwydd ble arall ym Mhrydain y mae’n rhaid i chi dalu dim ond i fynd i mewn?

For many visitors, the tolls are the first thing that they come across when entering Wales, resulting in a very negative first impression of our country. First impressions really do matter. If that lasting impression for many of our visitors is a less than positive one, we need to be doing all that we can to address that. It is an active disincentive for people to come into Wales as tourists, and it is an active disincentive particularly for people to trade regularly with Wales as businesses.

I lawer o ymwelwyr, y tollau yw'r peth cyntaf a welant wrth ddod i mewn i Gymru, sy’n arwain at argraff gyntaf negyddol iawn o'n gwlad. Mae'r argraff gyntaf yn wirioneddol bwysig. Os nad yw’r argraff barhaol ar gyfer llawer o'n hymwelwyr yn gadarnhaol, mae angen i ni wneud popeth posibl i fynd i'r afael â hynny. Mae'n rhwystro pobl rhag dod i mewn i Gymru fel twristiaid, ac mae'n rhwystro pobl rhag masnachu yn rheolaidd â Chymru fel busnesau.

Then, of course, there is the impact of these tolls on our own citizens and our own businesses seeking to trade in England. My colleagues will discuss this in more detail shortly, but I recently visited a Newport haulage company, whose business is spending £0.5 million every year just on the tolls. That is money that could be helping that business to grow, that is money that could be used to take on new members of staff, that is money that could be invested in the local economy, and yet that money is tied up in paying what is essentially a tax on access to Wales.

Wedyn, wrth gwrs, rhaid ystyried effaith y tollau hyn ar ein dinasyddion ein hunain a’n busnesau ein hunain sy'n ceisio masnachu yn Lloegr. Bydd fy nghyd-Aelodau yn trafod hyn yn fanylach cyn bo hir, ond yn ddiweddar ymwelais â chwmni cludiant yng Nghasnewydd sy’n gwario £0.5 miliwn bob blwyddyn ar y tollau yn unig. Gallai’r arian hwn gael ei ddefnyddio i helpu’r busnes i dyfu, gallai’r arian hwn gael ei ddefnyddio i gyflogi aelodau staff newydd, gallai’r arian hwn gael ei fuddsoddi yn yr economi leol, ac eto mae’r arian hwn yn cael ei glymu i dalu’r hyn sydd, yn ei hanfod, yn dreth ar fynediad i Gymru.

The logical case, though, I believe, is as compelling as the appeal to natural justice. At around £15 million a year in costs to the UK Treasury, with the potential to boost the Welsh economy by £107 million a year, the return on investment is around 7:1. It is a low-cost, cost-effective and —to Wales—a very low-risk way to boost the Welsh economy. It is also relatively quick and easy to implement, because once the bridges are returned to public ownership and the debt repaid, it could be implemented immediately and the benefits will be felt straight away. There is no long-term building scheme, and there is no long-term planning process; it is a quick win, which will have immediate results.

Mae'r achos rhesymegol, fodd bynnag, yn fy marn i, yr un mor gryf â'r apêl i gyfiawnder naturiol. Byddai'n costio tua £15 miliwn y flwyddyn i Drysorlys y DU, gyda'r potensial i roi hwb o £107 miliwn y flwyddyn i economi Cymru, sef elw ar fuddsoddi o tua 7:1. Mae'n ffordd gost-isel, gost-effeithiol ac—i Gymru— risg isel iawn o roi hwb i economi Cymru. Mae hefyd yn gymharol gyflym a hawdd i'w weithredu, oherwydd unwaith y bydd y pontydd yn cael eu dychwelyd i berchnogaeth gyhoeddus ac ar ôl ad-dalu'r ddyled, gellid gweithredu ar unwaith a bydd y manteision yn cael eu gweld yn syth. Nid oes unrhyw gynllun adeiladu hirdymor, ac nid oes unrhyw broses cynllunio hirdymor; mae'n gam cyflym ymlaen, a fydd yn cael canlyniadau ar unwaith.

I believe that it can also help us in terms of social justice. It can help us to tackle some of the transport poverty issues that many commuters living in some of our most deprived communities in south-east Wales face. In particular, it can open up to them employment opportunities in a much wider area. It brings opportunity, and it is an opportunity that is often denied to people if they feel that they cannot afford to look to opportunities over the border in England.

Credaf y gall ein helpu hefyd o safbwynt cyfiawnder cymdeithasol. Gall ein helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion tlodi trafnidiaeth sy'n wynebu llawer o gymudwyr sy'n byw mewn rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig yn ne-ddwyrain Cymru. Yn benodol, gall gynnig cyfleoedd gwaith iddynt mewn ardal ehangach o lawer. Mae'n dod â chyfle, ac mae'n gyfle sydd yn aml yn cael ei wrthod i bobl os ydynt yn teimlo na allant fforddio ystyried cyfleoedd dros y ffin yn Lloegr.

I recognise that this is an issue that primarily affects southern Wales on a practical level. However, the Severn bridges are by far the busiest access route into Wales. The policy that we are proposing today will have a significant impact on the economy of Wales as a whole, without using up Wales's borrowing powers, and, in fact, it would have no drag at all on the Welsh budget, because what we propose would be at a cost to the UK Treasury instead.

Rwy'n cydnabod bod hwn yn fater sy'n effeithio ar dde Cymru yn bennaf ar lefel ymarferol. Fodd bynnag, pontydd Hafren yw'r llwybr mynediad prysuraf i mewn i Gymru o bell ffordd. Bydd y polisi rydym yn ei gynnig heddiw yn cael effaith sylweddol ar economi Cymru yn ei chyfanrwydd, heb ddisbyddu pwerau benthyca Cymru, ac, yn wir, ni fyddai'n cael unrhyw effaith o gwbl ar gyllideb Cymru, oherwydd, yn hytrach, byddai'r hyn rydym yn ei gynnig yn gost i Drysorlys y DU.

My colleagues will follow some of these themes during the debate, but I just wanted to put some background on the record. As you all will know, Severn River Crossing plc was the company that took over responsibility for the original Severn bridge and undertook the work to construct the second bridge, which was then completed in 1996. That concession agreement formulated between the crossings company and the UK Government at the time, which has been in place since then, is likely to come to an end in 2018, at which point the bridges will be transferred into public ownership, and a further period will be necessary to recoup some debt that is still outstanding.

Bydd fy nghyd-Aelodau yn dilyn rhai o'r themâu hyn yn ystod y ddadl, ond roeddwn eisiau rhoi rhywfaint o wybodaeth gefndir ar y cofnod. Fel y byddwch i gyd yn gwybod, Severn River Crossing ccc oedd y cwmni a gymerodd gyfrifoldeb am y bont Hafren wreiddiol, gan fynd ati i adeiladu'r ail bont, a gwblhawyd ym 1996. Mae'r cytundeb consesiwn a luniwyd rhwng cwmni'r pontydd a Llywodraeth y DU ar y pryd, a fu ar waith ers hynny, yn debygol o ddod i ben yn 2018, pan fydd y pontydd yn cael eu trosglwyddo i berchnogaeth gyhoeddus, a bydd angen cyfnod pellach i adennill rhywfaint o'r ddyled nad yw wedi'i thalu eto.

It is interesting to see that the Welsh Affairs Select Committee has been looking at this issue too. The report that it published back in 2010 highlighted the remarkable inflexibility of the concession agreement and the fact that the contract was designed heavily in favour of Severn River Crossing plc, leaving very little room to adapt the model according to current demand, preferences, or, indeed, economic strategies, and no opportunity for us to change, for example, the charging regime to reflect economic challenges and the slings and arrows of the economic cycle.

Mae'n ddiddorol gweld bod y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig wedi bod yn edrych ar y mater hwn hefyd. Roedd yr adroddiad a gyhoeddodd yn ôl yn 2010 yn nodi anhyblygrwydd rhyfeddol y cytundeb consesiwn a'r ffaith fod termau'r contract yn ffafriol iawn i Severn River Crossing plc, gan adael ychydig iawn o le i addasu'r model yn ôl y galw presennol, dewisiadau, neu, yn wir, strategaethau economaidd. Nid oedd cyfle chwaith i ni newid, er enghraifft, y drefn codi tâl i adlewyrchu heriau economaidd a slingiau a saethau'r cylch economaidd.

Assurances were not given by civil servants at that time that the UK Government and the Welsh economy would not be burdened with additional costs to modernise the system—and, of course, we know that is what happened. As a result, for a very long time the system for collecting the tolls was, frankly, an old-fashioned embarrassment to Wales. It was a question of chucking coins into a bin, which was not much of an improvement, frankly, on the tolls from the sixteenth century on the penny turnpikes. However, the price of the tolls has remained inflexible and unreasonably high, and a lowering of the tolls has not really been possible, partly because of the way in which the concession was designed and partly because, if we did lower the tolls, it would necessarily extend the contract with that operating company and thereby delay public ownership of the bridges. So, we have been left to grin and bear it as best we can in the short term, in the hope for better things in the future.

Ni chafwyd sicrwydd gan weision sifil ar y pryd na fyddai Llywodraeth y DU ac economi Cymru yn cael eu llethu gan gostau ychwanegol i foderneiddio'r system—ac, wrth gwrs, rydym yn gwybod mai dyna a ddigwyddodd. O ganlyniad, am amser hir iawn, roedd y system ar gyfer casglu tollau, a dweud y gwir, yn embaras hen ffasiwn i Gymru. Roedd yn fater o daflu darnau arian i fin, nad oedd fawr gwell, a dweud y gwir, na'r tollau o'r unfed ganrif ar bymtheg ar y ffyrdd tyrpeg ceiniog. Fodd bynnag, mae pris y tollau wedi aros yn anhyblyg ac yn afresymol o uchel, ac ni fu'n bosibl lleihau'r tollau mewn gwirionedd, yn rhannol oherwydd cynllun y consesiwn ac yn rhannol oherwydd, pe baem yn lleihau'r tollau, byddai'n arwain at ymestyn y contract gyda'r cwmni gweithredol hwnnw, gan oedi perchenogaeth gyhoeddus o'r pontydd o ganlyniad. Felly, rydym wedi gorfod dygymod â'r sefyllfa gorau y gallwn yn y tymor byr, gan obeithio y bydd pethau'n gwella yn y dyfodol.

It has also meant, of course, that the cost of bringing the payment system into the twenty-first century and finally allowing card payments had to be covered using taxpayers' money, rather than funds raised via the tolls. The question, as I say, once we move into public ownership, of how those costs will be incorporated and who will be covering those is a pertinent one given some of the amendments that are tabled today. However, as I say, looking at it in those terms, the history here, the history of our relationship with the Severn bridges, does not cover anyone in glory. However, we can surely, surely do better than that in the future.

Roedd hefyd yn golygu, wrth gwrs, bod y gost o gyflwyno system dalu sy'n perthyn i'r unfed ganrif ar hugain fel bod pobl yn gallu talu â cherdyn o'r diwedd wedi dod o arian y trethdalwyr, yn hytrach nag arian a godwyd drwy'r tollau. Mae'r cwestiwn, fel y dywedais, ar ôl i ni symud i berchnogaeth gyhoeddus, o sut y bydd y costau hyn yn cael eu hymgorffori a phwy fydd yn gyfrifol amdanynt yn un perthnasol o ystyried rhai o'r gwelliannau sydd wedi'u cyflwyno heddiw. Fodd bynnag, fel y dywedais, wrth edrych arno o'r safbwynt hynny, nid oes neb yn haeddu rhyw lawer o ganmoliaeth wrth ysytyried hanes ein perthynas â phontydd Hafren. Fodd bynnag, does bosibl y gallwn wneud yn well na hynny yn y dyfodol?

It has been a while since we have discussed this in the Chamber in any detail, and I think it is important that, as that 2018 deadline draws closer, a clear plan is formulated on what will happen once that concession ends. This is important not only to ensure that the necessary plans can be put in place by Governments, but also that users of that bridge can be kept informed about what the future holds for them.

Nid ydym wedi trafod y pwnc hwn yn fanwl yn y Siambr ers amser maith, ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig, wrth i ddyddiad cau 2018 agosáu, bod cynllun clir yn cael ei lunio ynglŷn â'r hyn a fydd yn digwydd unwaith y bydd y consesiwn yn dod i ben. Mae hyn yn bwysig nid yn unig er mwyn sicrhau bod Llywodraethau'n gallu rhoi'r cynlluniau angenrheidiol ar waith, ond hefyd fel bod defnyddwyr y bont yn cael gwybod am yr hyn a fydd yn digwydd yn y dyfodol.

The Welsh Liberal Democrats have had a clear line on what we believe the future should hold for the bridges for a long time, and the end of the concession agreement provides the ideal opportunity for the current tolling system to be reviewed and, in our view, scrapped altogether.

Mae barn Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar ddyfodol y pontydd wedi bod yn glir ers amser hir, ac mae diwedd y cytundeb consesiwn yn gyfle delfrydol i adolygu'r system codi tollau bresennol ac, yn ein barn ni, ei dileu yn gyfan gwbl.

Regardless of the other parties' views on this, I would like an assurance from the Welsh Government today that it is considering all the options available and will make timely steps forward for making provision for the future, so that the public is well informed.

Waeth beth yw barn y pleidiau eraill ar hyn, hoffwn gael sicrwydd gan Lywodraeth Cymru heddiw ei bod yn ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael, ac y bydd yn cymryd camau amserol ymlaen i wneud darpariaeth ar gyfer y dyfodol, fel bod y cyhoedd yn cael y wybodaeth briodol.

For fairly obvious reasons, we will be voting against all of the amendments tabled in the debate today. It is surprising that, given that the debate provided an opportunity for all parties to put forward their stance on the bridges and the tolls, judging on the basis of the amendments, we appear to be the only party with a way forward that will give any kind of certainty to bridge users on what the future actually looks like for them. We will look later in the debate at the reason why Plaid's call for the responsibility for the tolls to be transferred to the Welsh Government is not, in our view, necessarily desirable. We are grateful that the Tories have called on the UK Government to commission a feasibility study on the effect of abolishing the tolls, but, in fact, we do not believe that this is necessary, because we already know from studies that have already been carried out, that there is a detriment to the Welsh economy on this basis.

Am resymau eithaf amlwg, byddwn yn pleidleisio yn erbyn pob un o'r gwelliannau a gyflwynwyd yn y ddadl heddiw. Mae'n syndod, o gofio bod y ddadl yn gyfle i bob plaid gyflwyno ei safbwynt ar y pontydd a'r tollau, wrth edrych ar y gwelliannau, mae'n ymddangos mai ni yw'r unig blaid sydd â ffordd ymlaen a fydd yn rhoi unrhyw fath o sicrwydd i ddefnyddwyr y bont ynglŷn â'r hyn a fydd yn digwydd yn y dyfodol mewn gwirionedd. Byddwn yn edrych yn nes ymlaen yn y ddadl ar y rheswm pam nad yw galwad Plaid am drosglwyddo cyfrifoldeb am y tollau i Lywodraeth Cymru yn ddymunol o reidrwydd, yn ein barn ni. Rydym yn ddiolchgar bod y Toriaid wedi galw ar Lywodraeth y DU i gomisiynu astudiaeth ddichonoldeb o effaith dileu'r tollau, ond, mewn gwirionedd, nid ydym yn credu bod hyn yn angenrheidiol, gan ein bod eisoes yn gwybod o astudiaethau blaenorol bod niwed i economi Cymru ar y sail hon.

So, to commission a feasibility study to confirm to confirm what we already know is, in my view, an unnecessary duplication there. We will address later the Welsh Government's amendment, which believes that responsibility for future decision making on the tolls should be in the hands of the Welsh Government. I look forward to what I hope will be a lively debate. However, fundamentally, we, as policy-makers, need to be giving bridge users—as individuals and, of course, as businesses—a clear idea of what the future holds, so that they can plan to meet that future with confidence.

Felly, mae comisiynu astudiaeth ddichonoldeb i gadarnhau'r hyn rydym eisoes yn ei wybod, yn fy marn i, yn enghraifft o ddyblygu diangen. Byddwn yn rhoi sylw yn ddiweddarach i welliant Llywodraeth Cymru, sy'n credu mai Llywodraeth Cymru a ddylai fod yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ynglŷn â'r tollau yn y dyfodol. Edrychaf ymlaen at yr hyn a fydd yn ddadl fywiog gobeithio. Fodd bynnag, yn y bôn, fel llunwyr polisi, mae angen i ni sicrhau bod gan ddefnyddwyr y bont—fel unigolion ac, wrth gwrs, fel busnesau— syniad clir o'r hyn a fydd yn digwydd yn y dyfodol, fel y gallant gynllunio ar gyfer y dyfodol yn hyderus.

17:25

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I have selected the three amendments to the motion. If amendment 1 is agreed, amendments 2 and 3 will be deselected. If amendment 2 is agreed, amendment 3 will be deselected. I call on Rhun ap Iorwerth to move amendment 1, tabled in the name of Elin Jones.

Rwyf wedi dethol y tri gwelliant i'r cynnig. Os caiff gwelliant 1 ei dderbyn, bydd gwelliannau 2 a 3 yn cael eu dad-ddethol. Os caiff gwelliant 2 ei dderbyn, bydd gwelliant 3 yn cael ei ddad-ddethol. Rwy'n galw ar Rhun ap Iorwerth i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Amendment 1—Elin Jones*

*Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:*

*Delete point 4 and replace with:*

*4. Yn galw am drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros bennu'r tollau ar bontydd Hafren, yn dilyn y consesiwn, i Lywodraeth Cymru.*

*4. Calls for responsibility for setting tolls on the Severn crossings, following the concession, to be transferred to the Welsh Government.*

*5. Yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i leihau'r tollau ar bontydd Hafren i adlewyrchu costau cynnal a chadw yn unig, ac i barhau i roi ystyriaeth i'r opsiwn tymor hir o ddileu'r tollau.*

*5. Calls on the next Welsh Government to reduce the tolls on the Severn Bridges to reflect maintenance costs only, and for the longer term option of abolishing the tolls to be kept under review.*

17:25

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Cynigiaf welliant 1.

I move amendment 1.

Diolch yn fawr iawn i'r Democratiaid Rhyddfrydol am gyflwyno'r cynnig hwn. Yn amlwg, rydym i gyd yn y Siambr hon, rwyf yn gobeithio, yn sylweddoli pwysigrwydd y pontydd dros yr Hafren i economi Cymru. Mae'n bwysig ein bod yn edrych ar y pontydd a'r tollau ar y pontydd yng nghyd-destun eu heffaith ar yr economi yng Nghymru.

I thank the Liberal Democrats for putting forward this motion. Obviously, all of us in this Chamber, I hope, realise the importance of the bridges across the Severn to the economy of Wales. It is important that we look at the bridges and the tolls on the bridges in the context of their effect on the economy in Wales.

Trof yn syth at ein gwelliant, ac mae'n braf cael cynnig y gwelliant hwnnw, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Mae dau rhan i'r gwelliant hwn. Y cyntaf yw'r egwyddor mai Cymru ddylai gael rheolaeth dros y tollau ar bontydd Hafren. Mae astudiaeth y Llywodraeth, y cyfeiriwyd ati ar agenda heddiw, wedi dangos yn glir mai economi Cymru sy'n cael ei dylanwadu gan y tollau ar bontydd Hafren, ac economi Cymru fyddai'n gallu elwa o newidiadau i'r modd y mae tollau yn cael eu gosod ar bontydd Hafren ar hyn o bryd. Felly, mae'n gwneud synnwyr perffaith ein bod yn symud tuag at sefyllfa lle bydd gan Lywodraeth Cymru rheolaeth dros y penderfyniadau a rheolaeth dros y tollau eu hunain. Er bod Eluned Parrott wedi dweud nad yw hi'n ddymunol, o bosibl, mewn rhai amgylchiadau, i ystyried Llywodraeth Cymru yn cymryd rheolaeth, mae'n rhaid inni gofio mai dim ond y corff sydd â'r archwaeth a'r diddordeb mwyaf mewn gallu newid sy'n debygol o newid y tollau ar y pontydd. Ni fyddai gymaint er budd Llywodraeth San Steffan i newid y tollau, ond y byddai, yn amlwg, yn rhywbeth y byddai Llywodraeth Cymru eisiau edrych arno. Felly, mae hon yn egwyddor bwysig ond yn fater ymarferol pwysig hefyd. Os yw'r grym yma, mae'r grym yn fwy tebygol o gael ei ddefnyddio.

I will turn directly to our amendment, and it is good to move that amendment, tabled in the name of Elin Jones. There are two parts to this amendment. The first is the principle that Wales should have control over the tolls on the Severn bridges. The Government study, referred to on the agenda today, has shown clearly that the Welsh economy is influenced by the tolls on the Severn bridges, and that the economy of Wales could benefit from changes to the way that the tolls are set on the Severn bridges at present. So, it makes perfect sense that we move towards a situation where the Welsh Government has control over the decisions and control over the tolls themselves. Although Eluned Parrott has said that it is not desirable, perhaps, in some circumstances, to consider the Welsh Government taking control, we have to remember that only the body that has the greatest appetite or interest in being able to change is likely to change the tolls on the bridges. It would not be so much in the interests of the Westminster Government to change the tolls, but it would, clearly, be something that the Welsh Government would want to consider. So, it is an important principle, but it is also important practically. If the power lies here, it is more likely to be used.

Symudaf at ail ran ein gwelliant. Rydym yn delio eto â'r ymarferol a mater o egwyddor. Ynglŷn â lefel y tollau fel ag y maent, yn ymarferol, polisi Plaid Cymru yw symud tuag at ostwng lefel y doll ar y pontydd ar hyn o bryd, ac i ostwng y doll i lefel a fyddai'n gallu dod â digon o arian i mewn i dalu am gynnal a chadw ar y pontydd hyn. Mae astudiaethau sydd wedi'u gwneud yn y gorffennol yn amcangyfrif y byddai £2 yn lefel ar gyfer ceir a fyddai'n ddigon i ddod â'r swm hwnnw i mewn. Gan gadw at amcangyfrif o'r math hwnnw, byddai modurwr sy'n talu'r doll unwaith yr wythnos yn arbed sbel dros £200 y flwyddyn. Wrth gwrs, yn ogystal â newid lefel y doll, byddai hefyd angen newid y ffordd y mae'r doll yn gallu cael ei thalu, er mwyn gallu talu ar-lein a thalu yn y ffyrdd hawsaf posibl. Felly, dyna, yn ymarferol, yw'r cam synhwyrol ymlaen, yn ein barn ni.

I turn to the second part of our amendment. We are again dealing with the practical and a matter of principle. In terms of the present level of the tolls, practically, Plaid Cymru policy is to move towards a reduction in the level of the tolls on the bridges at present, and to reduce the toll to a level that would bring in sufficient funding to maintain the bridges. Studies that have been undertaken in the past estimate that £2 would be a level for cars that would be sufficient to bring that sum in. Sticking to that estimate, a motorist paying the toll once a week would save far in excess of £200 a year. Of course, as well as changing the level of the toll, you would also need to change how the toll can be paid, in order to be able to pay online and pay in the easiest possible way. Therefore, that is, practically, the sensible way forward, in our view.

O ran mater o egwyddor, rydym yn cytuno â nod y Democratiaid Rhyddfrydol, sef mai cael gwared ar y doll sy'n ddelfryd yn y pendraw. Rwyf yn sicr yn gweld y pontydd dros yr Hafren fel rhan o'n rhwydwaith ffyrdd ni o fewn yr ynysoedd hyn. Nid wyf yn derbyn, mewn egwyddor, y dylai'r pontydd hynny, sydd mor allweddol i economi Cymru, gael eu trin mewn ffordd sy'n wahanol i weddill y rhwydwaith ffyrdd. Nid yw fel opsiwn ychwanegol fel yr M6 breifat yn ardal Birmingham. Nid oes dewis ond mynd ar draws y pontydd ar draws yr Hafren. Felly, mewn egwyddor, mae hi'n bwysig ein bod yn cadw hynny fel delfryd yn y pendraw. Gwnaf gwpl o bwyntiau, serch hynny.

In terms of the principle, we agree with the aim of the Liberal Democrats, namely that abolishing the toll is the ideal, ultimately. I certainly see the bridges over the Severn as part of our roads network within these islands. I do not accept, in principle, that these bridges, which are so crucial to the Welsh economy, should be dealt with in a way that is different from the rest of the roads network. It is not an additional option, like the private M6 in the Birmingham area. There is no choice but to cross those bridges across the Severn. So, in principle, it is important that we keep that as an ideal. I will make a few comments, despite that.

O ddileu'r doll yn llwyr, byddai sgîl effeithiau, wrth gwrs. Mae amcangyfrif y byddai sgîl effeithiau o bosibl o ran cynnydd yn y traffig dros y pontydd. Byddai eisiau clymu'r ystyriaethau hynny wrth yr angen am ddatblygu'r metro yn y de-ddwyrain ac ati ynghynt. Felly, byddai sgîl effeithiau negyddol o bosibl o ddileu'r doll yn llwyr, a bydd angen ystyried hynny.

By abolishing the toll entirely, there would of course be side effects. It is estimated that there could possibly be side-effects such as increasing traffic over the bridges. Those considerations would need to be tied to the need for developing the metro in south-east Wales earlier and so on. So, there are potentially negative side-effects of abolishing the tolls entirely, which need to be considered.

O symud at y gwelliannau eraill, o ran y Ceidwadwyr, ie, pam lai edrych ar effaith newidiadau i'r tollau, ond rwy'n meddwl bod y dystiolaeth gennym yn barod. O ran gwelliant y Llywodraeth, rydym yn derbyn y gwelliant hwnnw yn sicr.

Moving on to the other amendments, in terms of the Conservatives, yes, why not look at the impact of changes to the tolls, but I think that the evidence is there already. In terms of the Government's amendment, we accept that amendment, certainly.

Mae'r doll wedi bod yn fwrn ar Gymru. Mae'n amlwg ei bod yn amser inni symud ymlaen tuag at sefyllfa lle'r ydym yn cymryd rheolaeth ohoni ac yn edrych o leiaf ar ostwng y doll yn sylweddol.

The toll has been a burden on Wales. It is clear that it is time for us to move forward to a situation where we take control of it and look at least at reducing the toll substantially.

17:30

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call on Nick Ramsay to move amendment 2, tabled in the name of Paul Davies.

Galwaf ar Nick Ramsay i gynnig gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 2—Paul Davies*

*Amendment 2—Paul Davies*

*Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:*

*Delete point 4 and replace with:*

*Yn galw ar Lywodraeth y DU i gynnal astudiaeth ddichonoldeb ynghylch dileu'r tollau ar bontydd Hafren.*

*Calls on the UK Government to commission a feasibility study on the effect of abolishing the Severn Bridge tolls.*

17:31

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

I move amendment 2.

Cynigiaf welliant 2.

I am pleased to contribute to this important debate today and to move the Welsh Conservatives' amendment. Actually, I could probably move all the amendments on the paper today, because they all say similar things—and that is understandable. I am sorry that the Welsh Conservative amendment has fallen out of favour with Eluned Parrott and Rhun ap Iorwerth. That was certainly not the intention. The intention was to add to what is a very positive motion, and one that I think you are today, in this Chamber, getting a lot of support for.

Rwy'n falch o gyfrannu at y ddadl bwysig hon heddiw a chynnig gwelliant y Ceidwadwyr Cymreig. A dweud y gwir, gallwn yn ôl pob tebyg gyflwyno pob un o'r gwelliannau ar y papur heddiw, oherwydd eu bod i gyd yn dweud pethau tebyg—ac mae hynny'n ddealladwy. Mae'n ddrwg gennyf nad yw gwelliant y Ceidwadwyr Cymreig yn ennill cymeradwyaeth Eluned Parrott a Rhun ap Iorwerth. Nid dyna oedd y bwriad yn sicr. Y bwriad oedd ychwanegu at yr hyn sy'n gynnig cadarnhaol iawn, ac yn gynnig rwy'n meddwl sy'n destun llawer o gefnogaeth heddiw yn y Siambr hon.

It is hard to imagine what Wales would be like today had the original Severn bridge not been constructed back in the 1960s or, indeed, had the new Severn crossing not been built in the 1990s. When the Queen opened the original bridge back in the 1960s, she hailed it as a new economic age for the country. In those days, it would cost you 2/6d to cross—and I heard Rhun ap Iorwerth saying that, under Plaid's proposals, we would see that fall maybe to £2 now, but that is what it cost back then: 2/6d. The purpose of the toll back then was to recover the construction costs, no more and no less. Of course, since then, we have been used to the tolls being used to cover maintenance and operation as part of the agreement that has been mentioned between the UK Government and the Severn River Crossing consortium. As we know, this agreement will end in 2018, which, as Eluned Parrott said, provides a window of opportunity to reduce the tolls and to change the system within which the bridges are operated.

Mae'n anodd dychmygu pa fath o wlad fyddai Cymru heddiw pe na bai'r bont Hafren wreiddiol wedi ei hadeiladu yn ôl yn y 1960au, neu, yn wir, pe na bai'r bont Hafren newydd wedi'i hadeiladu yn y 1990au. Pan agorodd y Frenhines y bont wreiddiol yn ôl yn y 1960au, dywedodd ei bod yn cynrychioli oes economaidd newydd ar gyfer y wlad. Yn y dyddiau hynny, roedd yn costio 2/6d i groesi—a chlywais Rhun ap Iorwerth yn dweud, o dan gynigion Plaid, y byddem yn gweld hynny'n gostwng i £2 o bosibl, ond dyna oedd y gost yn y cyfnod hwnnw: 2/6d. Diben y doll yn y cyfnod hwnnw oedd adennill y costau adeiladu, dim mwy a dim llai. Wrth gwrs, ers hynny, rydym wedi arfer â gweld y tollau'n cael eu defnyddio i dalu am waith cynnal a chadw a chostau gweithredol fel rhan o'r cytundeb sydd wedi cael ei grybwyll rhwng Llywodraeth y DU a chonsortiwm Severn River Crossing. Fel y gwyddom, bydd y cytundeb hwn yn dod i ben yn 2018, ac fel y dywedodd Eluned Parrott, bydd hwn yn gyfle i leihau'r tollau a newid y system y mae'r pontydd yn gweithredu oddi mewn iddi.

Now, there are actually two issues here, are there not? There are the tolls themselves—and there is a general view that it would be beneficial to the economy for those to be reduced—and, of course, there is also the congestion at the toll booths. Actually, when you speak to commuters, it is not just the tolls; the congestion at the toll plaza causes them as much frustration as the tolls, particularly at peak times.

Yn awr, onid ydym yn trafod dau fater yn y cyswllt hwn? Y tollau eu hunain—ac mae barn gyffredinol y byddai lleihau'r tollau o fudd i'r economi—ac, wrth gwrs, y tagfeydd wrth y tollbyrth. A dweud y gwir, pan fyddwch yn siarad â chymudwyr, nid y tollau yn unig yw'r broblem; mae'r tagfeydd yn ardal y tollbyrth yn achosi cymaint o rwystredigaeth iddynt â'r tollau, yn enwedig ar adegau prysur.

To take the first point, yes, our amendment calls for an evaluation. It calls on the UK Government to evaluate the effects of scrapping the tolls. I heard Rhun ap Iorwerth say that there could potentially be negative aspects to scrapping the tolls, and Eluned Parrott looked a little bit confused when he said that. However, I know exactly what you were saying: there are potential consequences. In terms of the old Severn crossing, as time passes, that will need increasing maintenance—it is suffering from severe corrosion, as it was a cheap design at the time it was built. There will be costs to that, and my constituents would be very uneasy at any suggestion that the end of that bridge's life could be speeded up by there not being enough money to cover the maintenance of that bridge, and you do have the capacity with the two bridges, which should be protected. So, I understand what Rhun ap Iorwerth was saying.

O ran y pwynt cyntaf, mae'n wir bod ein gwelliant yn galw am werthusiad. Mae'n galw ar Lywodraeth y DU i werthuso effeithiau dileu'r tollau. Clywais Rhun ap Iorwerth yn dweud y gallai dileu'r tollau gael effeithiau negyddol posibl, ac edrychodd Eluned Parrott ychydig yn ddryslyd pan ddywedodd hynny. Fodd bynnag, rwy'n gwybod yn union beth oeddech yn ei ddweud: mae canlyniadau posibl. O ran yr hen bont Hafren, wrth i amser fynd heibio, bydd angen rhagor o waith cynnal a chadw—mae'n dioddef cyrydu difrifol, gan fod y cynllun yn un rhad adeg adeiladu'r bont. Bydd costau i hynny, a byddai fy etholwyr yn anesmwyth iawn gydag unrhyw awgrym y gallai diwedd oes y bont honno gael ei chyflymu oherwydd nad oes digon o arian i dalu am y gwaith cynnal a chadw ar y bont honno, ac mae gennych y capasiti gyda'r ddwy bont, a ddylai gael ei ddiogelu. Felly, rwy'n deall yr hyn yr oedd Rhun ap Iorwerth yn ei ddweud.

When the Welsh Affairs Committee published the results of its inquiry into the Severn crossing toll in 2010, the report highlighted a lack of robust evidence on the impact of the tolls. So, it is not just us saying that we would benefit from more data. The subsequent Welsh Government analysis of the impact of tolling revealed that the effect of the toll is tied to the length and type of journey, not surprisingly, and the data that we do have suggest that, for a car journey between Cardiff and Bristol, the toll is 90% of the cost of the trip—it is slightly less for a business trip. I was chatting to Eluned Parrott about this earlier, and it is easy to forget the freight element as well and the cost for lorries and businesses. My constituents are certainly telling me, as I am sure theirs are telling other Assembly Members as well, the businesses in their own constituencies, that it would be extremely beneficial to lower the cost to lorries.

Pan gyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cymreig ganlyniadau ei ymchwiliad i dollau pont Hafren yn 2010, amlygodd yr adroddiad ddiffyg tystiolaeth gadarn ynglŷn ag effaith y tollau. Felly, nid dim ond ni sy'n dweud y byddai mwy o ddata yn ddefnyddiol. Yn ôl dadansoddiad dilynol Llywodraeth Cymru o effaith y tollau, mae effaith y doll ynghlwm wrth hyd y daith a'r math o daith, ac nid yw hynny'n annisgwyl. Mae'r data sydd gennym yn awgrymu, ar gyfer siwrnai mewn car rhwng Caerdydd a Bryste, bod y doll yn 90% o gost y daith—mae ychydig yn llai ar gyfer taith fusnes. Roeddwn yn siarad ag Eluned Parrott am hyn yn gynharach, ac mae'n hawdd anghofio'r elfen cludo nwyddau hefyd a'r gost i lorïau a busnesau. Mae fy etholwyr yn dweud wrthyf, ac rwy'n siŵr bod etholwyr Aelodau Cynulliad eraill yn dweud yr un peth, yn ogystal â'r busnesau yn eu hetholaethau eu hunain, y byddai o fudd mawr i ostwng y gost i lorïau.

Devolution of the tolls has been mentioned by Plaid Cymru. Welsh Conservatives think that the devolution of the tolls could be a large part of the solution, to give us the levers to lower the tolls here. It is beyond argument that reducing those tolls is far more beneficial to Wales—and of course for trips across to Ireland, as well—than it is to the UK Government. So, I think that it makes sense that the Welsh Government would have far more of a focus on the tolling arrangements for the bridges and the benefits of reducing the tolls.

Mae Plaid Cymru wedi crybwyll datganoli'r tollau. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu y gallai datganoli'r tollau fod yn rhan fawr o'r ateb, er mwyn ein galluogi i ostwng y tollau yma. Nid oes amheuaeth bod lleihau'r tollau yn llawer mwy buddiol i Gymru—ac wrth gwrs ar gyfer teithiau draw i Iwerddon hefyd—nag ydyw i Lywodraeth y DU. Felly, rwy'n meddwl ei bod yn gwneud synnwyr y byddai Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio llawer mwy ar y trefniadau codi tollau ar gyfer y pontydd a manteision lleihau'r tollau.

Aside from the toll and congestion issues, the TAG system has been touched on, which is beneficial to some commuters but not ideal for all and certainly does not work for short journeys. The TAG system is good as far as it goes. There are free-flow options as well: you could have a system similar to the congestion charging in London with tag technology to read number plates, and as Rhun ap Iorwerth said, you could pay on the internet or by phone after you have done the journey. That would certainly get the traffic moving through.

Ar wahân i'r materion yn ymwneud â thollau a thagfeydd, cyfeiriwyd at y system TAG, sydd o fudd i rai cymudwyr ond nid yn ddelfrydol i bawb, ac yn sicr nid yw'n gweithio ar gyfer teithiau byr. Mae'r system TAG yn dda i ryw raddau. Mae opsiynau i sicrhau bod y traffig yn llifo'n rhwydd yn ogystal: gallech gael system debyg i'r system codi tâl yn Llundain gyda thechnoleg tag i ddarllen platiau rhif, ac fel y dywedodd Rhun ap Iorwerth, gallech dalu ar y rhyngrwyd neu dros y ffôn ar ôl i chi gwblhau'r daith. Byddai hynny'n sicrhau bod y traffig yn llifo.

However, one thing is clear: the tolls as they currently stand are prohibitive and we certainly need to see a change to that tolling system and a reduction of the tolls for the benefit of people and businesses in Wales.

Fodd bynnag, mae un peth yn glir: mae'r tollau fel y maent ar hyn o bryd yn ataliol, ac yn sicr, mae angen i ni weld newid i'r system codi tollau a gostyngiad yn y tollau er budd pobl a busnesau yng Nghymru.

17:36

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call on the Minister for Economy, Science and Transport to move formally amendment 3, tabled in the name of Jane Hutt.

Galwaf ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i gynnig gwelliant 3 yn ffurfiol, a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt.

*Gwelliant 3—Jane Hutt*

*Amendment 3—Jane Hutt*

*Dileu pwynt 4 ac yn ei le rhoi:*

*Delete point 4 and replace with:*

*Yn cydnabod, fel a amlinellir yn y gwaith ymchwil economaidd 'Effaith Tollau'r Hafren ar Economi Cymru', bod tollau'r Hafren yn golygu cost o tua £80 miliwn i economi Cymru, ac, felly, credir y dylai Llywodraeth Cymru fod â chyfrifoldeb dros benderfyniadau am dollau yn y dyfodol.*

*Recognises that, as set out in the economic research 'Impact of the Severn Tolls on the Welsh Economy', the Severn tolls cost the Welsh economy around £80 million and, therefore, believes that the Welsh Government should have the responsibility for future decisions on tolling.*

17:36

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

I move amendment 3.

Cynigiaf welliant 3.

17:36

## William Powell Bywgraffiad Biography

When it comes to considerations of whether or not the tolls should be abolished, we would contend that the figures actually speak for themselves. On average, over 80,000 vehicles use the two Severn crossings on a daily basis, with toll prices ranging from £6.40 for cars to £19.20 for heavy-goods vehicles. The tolls are estimated to cost businesses and commuters around £80 million per year, including value added tax. Although there are varying estimates, maintenance costs have been estimated at around £15 million annually.

Wrth ystyried y cwestiwn a ddylid dileu tollau ai peidio, byddem yn dadlau bod y ffigurau mewn gwirionedd yn siarad drostynt eu hunain. Ar gyfartaledd, mae dros 80,000 o gerbydau yn defnyddio'r ddwy bont Hafren bob dydd, gyda phrisiau tollau'n amrywio o £6.40 ar gyfer ceir i £19.20 ar gyfer cerbydau nwyddau trwm. Amcangyfrifir bod y tollau'n costio tua £80 miliwn y flwyddyn i fusnesau a chymudwyr, gan gynnwys treth ar werth. Er bod amcangyfrifon amrywiol, amcangyfrifir bod costau'r gwaith cynnal a chadw tua £15 miliwn y flwyddyn.

It would clearly be unfair if, once the costs and repairs have been paid off, road users continued to have to generate full revenue, which is four times the actual cost of running the bridges. The users of the bridges have paid enough, especially those who regularly do the journey from east to west, and it is high time that they be relieved of this burden.

Byddai'n gwbl annheg, unwaith y bydd y costau a'r gwaith atgyweirio wedi cael eu talu, pe bai defnyddwyr y ffordd yn parhau i orfod creu refeniw llawn, sy'n bedair gwaith yn fwy na chost wirioneddol cynnal y pontydd. Mae defnyddwyr y pontydd wedi talu digon, yn enwedig y rhai sy'n gwneud y daith yn rheolaidd o'r dwyrain i'r gorllewin, ac mae'n hen bryd iddynt gael eu rhyddhau o'r baich hwn.

The Welsh Government commissioned a report, which has already been referred to, on the economic impact that the tolls have on the Welsh economy. This was published back in 2010. Several key impact areas were highlighted in the report, and I will outline some of these now. Three scenarios were considered in terms of the future of the tolls: to reduce the tolls on both bridges by 50%; to remove tolls from the Severn crossings; and to increase the tolls on both bridges by 50%. In terms of traffic and transport, a reduction in the tolls of 50% would result in an estimated 5% increase in total traffic on the bridges, while the removal of the tolls would result in an estimated increase in traffic flow of some 12%. Given that the bridges currently operate well within their capacity, an increase of this level is not thought to have any potential detrimental impact in terms of traffic flows. A traffic analysis also suggested at the time that removing the tolls would result in an increase in commuting across the Severn of some 11%.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru adroddiad, y cyfeiriwyd ato'n gynharach, ar effaith economaidd y tollau ar economi Cymru. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn ôl yn 2010. Tynnwyd sylw at sawl maes effaith allweddol yn yr adroddiad, a byddaf yn amlinellu rhai ohonynt nawr. Cafodd tri senario eu hystyried o safbwynt dyfodol y tollau: lleihau'r tollau 50% ar y ddwy bont; dileu'r tollau ar ddwy bont Hafren; a chynyddu'r tollau 50% ar y ddwy bont. O safbwynt traffig a thrafnidiaeth, byddai gostwng y tollau 50% yn arwain at gynnydd a amcangyfrifir o 5% yng nghyfanswm y traffig ar y pontydd, tra y byddai dileu'r tollau yn arwain at gynnydd a amcangyfrifir yn y llif traffig o tua 12%. O ystyried bod y pontydd yn gweithredu'n dda o fewn eu capasiti ar hyn o bryd, ni chredir y byddai cynnydd ar y lefel hon yn cael unrhyw effaith niweidiol bosibl ar y llif traffig. Hefyd, awgrymodd dadansoddiad o'r traffig ar y pryd y byddai dileu'r tollau yn arwain at gynnydd o tua 11% mewn cymudo ar draws yr Hafren.

For business performance, the impact report stated that half of all businesses surveyed considered the crossings to be either important or very important to their business. Although there are not many logistics or transport concerns that trade predominantly between south-west England and south Wales, it has been estimated that a small number of businesses spend in excess of £200,000 per year on toll costs alone. In some cases, this could account for up to 10% of annual vehicle operating costs for a business, resulting in a significant negative impact on profits and performance for cross-Severn goods companies. South Wales can therefore be seen as a less attractive location for businesses of this type to invest in. Evidence of this can be seen by the fact that Tesco relocated one of its major depots from Magor in Monmouthshire to Avonmouth, citing the tolls as a major contributory factor to that decision.

O ran perfformiad busnes, yn ôl yr adroddiad effaith, roedd hanner y busnesau a holwyd yn credu bod y pontydd naill ai'n bwysig neu'n bwysig iawn i'w busnes. Er nad oes llawer o gwmnïau logisteg neu drafnidiaeth sy'n masnachu'n bennaf rhwng de-orllewin Lloegr a de Cymru, amcangyfrifir bod nifer fach o fusnesau yn gwario dros £200,000 y flwyddyn ar gostau tollau yn unig. Mewn rhai achosion, gallai hyn gyfrif am hyd at 10% o gostau gweithredu cerbydau blynyddol ar gyfer busnes, gan arwain at effaith negyddol sylweddol ar elw a pherfformiad cwmnïau nwyddau sy'n croesi'r Hafren. O ganlyniad, gall ardal de Cymru gael ei hystyried yn lleoliad llai deniadol ar gyfer buddsoddiad gan fusnesau o'r math. Mae'r ffaith fod cwmni Tesco wedi adleoli un o'i brif storfeydd o Fagwyr yn Sir Fynwy i Avonmouth, gan nodi bod y tollau yn ffactor pwysig yn y penderfyniad, yn dystiolaeth o hyn.

The toll costs have also been found to be most significant for those doing short journeys, such as day trips or shopping excursions. Almost a quarter of people surveyed in south-west England said that they would expect to make more trips to Wales if the tolls were removed, as we are proposing. The tolls are clearly discouraging people from visiting Wales, something they would otherwise consider. Given the fact that our visitor economy is so crucial to the future of the wider Welsh economy, the tolls could be said to have a profoundly negative effect in that respect.

Nodwyd hefyd bod costau'r tollau yn fwyaf arwyddocaol i'r rhai sy'n gwneud teithiau byr, megis teithiau dydd neu deithiau siopa. Dywedodd bron i chwarter y bobl a holwyd yn ne-orllewin Lloegr y byddent yn disgwyl gwneud mwy o deithiau i Gymru pe bai'r tollau'n cael eu dileu, fel rydym yn ei gynnig. Mae'n amlwg bod y tollau yn rhwystro pobl rhag ymweld â Chymru, rhywbeth y byddent yn ei ystyried fel arall. O ystyried y ffaith fod ein heconomi ymwelwyr mor bwysig i ddyfodol economi Cymru yn ehangach, gellid dweud bod y tollau'n cael effaith negyddol sylweddol yn hynny o beth.

As previously touched upon, the cost of the tolls for commuters means that the impact on the labour market is indeed significant. The average commuter spends more than £1,500 per year on toll charges and, with Wales having the lowest median wage of the whole of the UK, this amounts to a considerable proportion of a person's annual earnings.

Fel y nodwyd eisoes, mae cost y tollau i gymudwyr yn golygu bod yr effaith ar y farchnad lafur yn arwyddocaol iawn. Mae'r cymudwr cyffredin yn gwario dros £1,500 y flwyddyn ar daliadau toll, a chan mai Cymru sydd â'r cyflog canolrifol isaf yn y DU gyfan, mae hyn yn cyfateb i gyfran sylweddol o enillion blynyddol unigolyn.

Finally, when it comes to productivity, findings have shown that, by removing the tolls, the annual gross value added for south Wales could be boosted by approximately £107 million. This would be a very significant boost indeed to the Welsh economy. It should also be noted that a comparison of the Severn bridge tolls with tolls in the rest of the UK really put into context just how unfair and unproductive these tolls currently are. There are no toll systems in operation in Scotland or Northern Ireland. Most other toll systems across the UK also offer significant discounts when you purchase multiple tickets. The Dartford example is a good case in point. The Welsh Affairs Select Committee found in favour of the proposals that we are bringing forward. In this context, the price of the tolls seems, in conclusion, to be totally unreasonable, and the case for dropping them is compelling.

Yn olaf, o safbwynt cynhyrchiant, mae'r canfyddiadau wedi dangos, drwy ddileu'r tollau, y gallai'r gwerth ychwanegol gros blynyddol ar gyfer de Cymru gynyddu tua £107 miliwn. Byddai hyn yn hwb sylweddol iawn i economi Cymru. Dylid nodi hefyd bod cymharu tollau pont Hafren â thollau yng ngweddill y DU wedi cynnig cyd-destun ar gyfer pa mor annheg ac anghynhyrchiol yw'r tollau hyn ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw systemau toll ar waith yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Mae'r rhan fwyaf o'r systemau toll eraill ledled y DU hefyd yn cynnig gostyngiadau sylweddol pan fyddwch yn prynu tocynnau lluosog. Mae Dartford yn enghraifft dda o hyn. Roedd y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig o blaid y cynigion rydym yn eu cyflwyno. Yn y cyd-destun hwn, mae'n ymddangos bod pris y tollau, i gloi, yn gwbl afresymol, ac mae'r ddadl o blaid eu dileu yn gryf iawn.

17:41

## John Griffiths Bywgraffiad Biography

These are matters of concern spanning quite a long period of time, something I think all Members will be familiar with. Certainly those of us with constituencies adjoining the Severn crossings are very much aware of the level of concern among businesses and the public regarding the tolls and the level of the tolls. Members have set out the impact this has on the Welsh economy, and obviously the Welsh Government study found that the adverse impact on the Welsh economy amounts to some £80 million or so. Undoubtedly, it is a disincentive to business to base itself on the Welsh side of the Severn bridge, and we have seen business decisions, as we have just heard, that illustrate that fact. And, yes, it is a disincentive to visitors as well. There are a lot of people on the English side of the Severn crossings who would find Wales a much more attractive place to visit, in terms of destinations just over the Severn, if the tolls were reduced or abolished. So, there are very important reasons why we need to take a keen interest in the existence of tolls on the Severn crossings and their level. That is why this debate has continued for some period of time and will, I think, intensify as we move towards that 2018 date when, hopefully, the Welsh Government will have responsibility for setting the tolls and deciding whether there should be tolls and, indeed, if so, the level of them. I think that it is absolutely right that Welsh Government should have that responsibility given the importance to the Welsh economy and the opportunities for people here in Wales.

Mae'r materion hyn wedi bod yn peri pryder ers cryn amser, rhywbeth rwy'n credu y bydd pob Aelod yn gyfarwydd ag ef. Yn sicr, mae'r rhai ohonom sy'n cynrychioli etholaethau ger pontydd Hafren yn ymwybodol iawn o lefel y pryder ymysg busnesau a'r cyhoedd ynglŷn â'r tollau a lefel y tollau. Mae'r Aelodau wedi nodi effaith hyn ar economi Cymru, ac yn amlwg nododd astudiaeth Llywodraeth Cymru fod yr effaith andwyol ar economi Cymru yn werth tua £80 miliwn. Yn ddi-os, mae'n rhwystro busnesau rhag sefydlu ar ochr Cymru i bont Hafren, ac rydym wedi gweld penderfyniadau busnes, fel rydym newydd ei glywed, sy'n amlygu'r ffaith honno. Ac, ydy, mae'n rhwystro ymwelwyr hefyd. Byddai Cymru yn lle llawer mwy deniadol i ymweld ag ef i lawer o bobl ar ochr Lloegr i bontydd Hafren, o safbwynt cyrchfannau dros yr Hafren, pe bai'r tollau'n cael eu lleihau neu eu diddymu. Felly, mae rhesymau pwysig iawn pam y mae angen i ni gymryd diddordeb brwd ym modolaeth y tollau ar bontydd Hafren a lefel y tollau. Dyna pam y mae'r ddadl hon wedi parhau am gryn amser a pham y bydd, rwy'n credu, yn dwysáu wrth i ni symud tuag at y dyddiad yn 2018 pan, gobeithio, y bydd Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am bennu'r tollau ac am benderfynu a ddylid cael tollau ac, yn wir, os dylid eu cael, lefel y tollau. Rwy'n meddwl ei bod yn gwbl briodol y dylai Llywodraeth Cymru gael y cyfrifoldeb hwnnw o ystyried y pwysigrwydd i economi Cymru a'r cyfleoedd i bobl yma yng Nghymru.

There are other factors that I think we need to bear in mind as well in terms of the current position and the interplay between the UK Government and Welsh Government on these matters, because I think that decisions have been taken by UK Governments that have impacted on the level of the tolls and these should be recognised in deciding what those levels should be. For example, in 2007, the industrial buildings allowance was abolished, which gained extra revenue for the UK Government with regard to the tolls on the Severn crossings. In 2010, the UK coalition decided to raise VAT, which gained it a windfall income from the tolls on the Severn crossings. Indeed, both of those things increased the adverse impact that I have referred to, as have other Members. There are estimates of well in excess of £100 million, up to £160 million, in terms of the windfall that the UK Government gained, but that has not been factored into the levels of the tolls, and there is a strong argument that it should be.

Rwy'n credu bod ffactorau eraill y mae angen i ni eu hystyried hefyd o safbwynt y sefyllfa bresennol a'r cydadwaith rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar y materion hyn, gan fy mod yn credu bod Llywodraethau'r DU wedi gwneud penderfyniadau sydd wedi effeithio ar lefel y tollau, a dylid cydnabod y rhain wrth benderfynu'r lefelau hynny. Er enghraifft, yn 2007, cafodd y lwfans adeiladau diwydiannol ei ddiddymu, gan sicrhau refeniw ychwanegol i Lywodraeth y DU mewn perthynas â'r tollau ar bontydd Hafren. Yn 2010, penderfynodd Llywodraeth glymblaid y DU gynyddu TAW, gan ennill incwm annisgwyl o'r tollau ar bontydd Hafren. O ganlyniad i'r ddau ffactor hwn, gwaethygodd yr effaith andwyol rwyf wedi cyfeirio ati, fel y gwnaeth Aelodau eraill. Amcangyfrifir bod Llywodraeth y DU wedi ennill ymhell dros £100 miliwn, a hyd at £160 miliwn, o incwm annisgwyl, ond nid yw hynny wedi cael ei ystyried wrth bennu lefelau'r tollau, ac mae dadl gref y dylai hynny ddigwydd.

As we look at tolls elsewhere in the UK, as has already been mentioned, one aspect that is to the fore in the minds of many is the experience with the Humber bridge tolls, where the UK Government conducted a review, wrote off some £150 million of debt, which was to be repaid to the UK Government through the tolls, and then reduced the tolls as a result. So, obviously, people look at these matters and make a strong case as to why the level of tolls should be reduced in the run-up to 2018. I think that that is a very strong argument indeed.

Wrth i ni edrych ar dollau mewn rhannau eraill o'r DU, fel y crybwyllwyd eisoes, un agwedd sy'n dod i feddwl llawer o bobl yw'r profiad gyda thollau pont Humber, lle'r aeth Llywodraeth y DU ati i gynnal adolygiad, dileu tua £150 miliwn o ddyledion, a oedd i'w had-dalu i Lywodraeth y DU drwy'r tollau, ac yna gostwng y tollau o ganlyniad. Felly, yn amlwg, mae pobl yn edrych ar y materion hyn ac yn cyflwyno achos cryf ynglŷn â pham y dylai lefel y tollau gael ei lleihau yn y cyfnod yn arwain at 2018. Credaf fod honno'n ddadl gref iawn yn wir.

Therefore, these are matters that I believe that the Welsh Government should raise with the UK Government, and hopefully bring the benefit of reduced tolls to Wales in the run-up to 2018. I hope very much that the Welsh Government will press that case.

Felly, mae'r rhain yn faterion rwy'n credu y dylai Llywodraeth Cymru eu codi gyda Llywodraeth y DU, a, gobeithio, dod â manteision tollau is i Gymru yn y cyfnod yn arwain at 2018. Rwy'n gobeithio'n fawr y bydd Llywodraeth Cymru yn dadlau'r achos hwnnw.

17:45

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Rwy'n meddwl bod y ffaith bod dau ohonom o'r gogledd wedi siarad ar y pwnc hwn heddiw'n dangos nad yw rhai yn y gogledd jest yn edrych ar y pontydd sy'n mynd dros Ddyfrdwy neu dros Fenai; rydym yn credu bod pontydd dros Hafren o bwys sylweddol i economi Cymru gyfan. Er, mae'n rhaid imi gyfaddef fy mod i wedi croesi Hafren dros y bont ddim ond dwywaith yn fy mywyd, yn hytrach nag ar y trên.

I think the fact that two Members from north Wales have spoken on this issue today demonstrates that some people in north Wales do not think just about the bridges over the Dee or the Menai straits; we do think that the Severn bridges are of considerable importance to the economy of the whole of Wales. However, I have to admit that I have crossed the Severn only twice in my lifetime over the bridge, as opposed to using the train of course.

Rwy'n meddwl bod terfyn y cytundeb hwn yn 2018 yn rhoi cyfle inni i drafod y ffordd ymlaen. Mae'n rhaid inni, hwyrach, gael mwy o fanylion ynglŷn â'r pwysigrwydd a'r gwahanol ffyrdd sy'n ein hwynebu. Mae'n rhaid imi ddweud nad yw'r awgrym sy'n cael ei gynnwys yn y ddadl hon heddiw ar ein rhan ni wedi dod yn hawdd, achos, yn arferol, prif bwrpas ein plaid ni yw datganoli mwy o rymoedd i Gymru ac rydym yn awyddus iawn i weld mwy o rym yn cael ei drosglwyddo yma i Gaerdydd, ond rydym yn credu bod y cyfrifoldebau o ran y penderfyniad hwn yn fwy o bwys na'r hawliau yr ydym yn eu gweld. Rwy'n derbyn yr hyn y mae Rhun ap Iorwerth wedi'i ddweud, sef bod pwysigrwydd y pontydd hyn i economi Cymru yn llawer cryfach. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni hefyd weld sefyllfa lle'r ydym, hwyrach, yn tanseilio dylanwad Cymru a Llywodraeth Cymru ar benderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn Llundain.

I think that the end of this concession in 2018 gives us an opportunity to discuss the way forward. I think that we need greater detail on the importance and the different approaches that are open to us. I have to say that the suggestion made by my party this afternoon in this debate did not come easy, because, usually, our aim as a party is to devolve as many powers to Wales as possible, and we are eager to see more powers devolved to Cardiff. However, we believe that responsibilities in terms of this decision are more important than the devolution of the powers. I accept what Rhun ap Iorwerth said, which is that the importance of these bridges to the Welsh economy is very significant indeed. However, we also have to identify a position where we, perhaps, are undermining the influence of Wales and the Welsh Government on decisions taken in London.

Yn bendant, rwy'n derbyn y ffaith eich bod yn dweud ei bod yn bosibl i ostwng tollau ar y bont i ryw £2 i geir, ond, yn amlwg, y cwbl mae hynny'n ei wneud yw cynnal y gost o gynnal a chadw yn flynyddol. Rwy'n meddwl mai'r hyn sy'n ein poeni ni yw bod problemau sylweddol yn ein hwynebu. Bydd yn rhaid edrych ar ailadeiladu'r pontydd yn y dyfodol, ac, wrth gwrs, mae'r bont wreiddiol yn bont gradd I o ran cadwraeth, sy'n creu problemau unigryw o ran y gost i'r dyfodol. Felly, rydym yn dweud bod yn rhaid inni gael rhyw fath o gydbwysedd rhwng y tensiwn hwn, sef ein bod am gael cyfrifoldeb—hwyrach y byddai hynny'n haws o ran gwneud penderfyniadau am wella systemau ar y pontydd—ond ein bod yn gweld bod mwy o bosibiliadau i'r dyfodol o ran faint o arian sydd ar gael yn y Trysorlys o'i gymharu â maint y gyllideb yma yng Nghaerdydd.

Certainly, I accept the fact that you say that the tolls could be reduced to some £2 for cars, but, obviously, all that would do is cover the annual maintenance costs. I think that what concerns us is that we face substantial problems. We might have to look at reconstructing the bridges in the future, and, of course, the original crossing is a grade I listed structure, which creates particular problems in terms of costs for the future. Therefore, we state that we must strike some sort of balance between this tension of wanting to take on the responsibility—that might make things easier when it comes to decisions on improving systems on the bridges—and seeing greater possibilities for the future in terms of the scale of funding available within the Treasury as compared with the scale of the budget available here in Cardiff.

Wrth ystyried y bil y buasai Llywodraeth Cymru yn ei wynebu yn y dyfodol, mae'n rhaid inni fod yn ymwybodol hefyd o'r holl dyndra yma yng Nghymru, lle mae gwariant ar yr M4 a gwariant ar y system metro yng Nghaerdydd a'r Cymoedd yn creu sefyllfa lle mae ardaloedd eraill yng Nghymru yn gweld bod yr holl arian, o ran gwariant cyfalaf, yn cael ei dynnu i mewn i ran fach o'r wlad.

Given the bill that the Welsh Government could well have to foot in the future, we have to be very aware of all the tensions in Wales, where expenditure on the M4 and expenditure on the metro in Cardiff and the Valleys create a situation where other parts of Wales see all the money, in terms of capital spend, being drawn into one, very small part of the country.

17:49

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

A wnewch chi ildio?

Will you give way?

17:49

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Iawn.

Yes.

17:49

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Diolch yn fawr iawn. A ydych chi'n derbyn, serch hynny, ei bod yn llai tebygol y gallwch chi gyrraedd eich nod o ostwng y tollau os ydy'r grym dros yr hyn sy'n digwydd i'r tollau yn aros yn Llundain?

Thank you very much. Do you accept, however, that it is less likely that you could achieve your aim of reducing the tolls if the power over what happens to them remains in London?

17:49

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Ein nod ni, wrth gwrs, yw dileu'r tollau yn eu cyfanrwydd. Dyna'r hyn rydym yn ei ddweud, ynghyd â'r ffaith bod yn rhaid cael trafodaeth rhwng gwleidyddion yma yng Nghymru a'r Trysorlys o ran dileu'r tollau. Rwy'n meddwl bod y ffaith bod gan y Gweinidog cyllid berthynas gyda Gweinidogion yn y Trysorlys yn creu sefyllfa lle, os ydym yn pwysleisio'r effaith y mae'r tollau hyn yn ei chael ar economi Cymru, ei bod yn bosibl inni, ar y sail honno, ddweud bod cyfrifoldeb gan ynysoedd Prydain. Wrth gwrs, mae'r prif faich ar economi Cymru, ond mae yna gwmnïau trafnidiaeth a phethau yn Lloegr sy'n cwyno am y tollau hyn yn yr un modd—mae'r drafnidiaeth yn dod y ddwy ffordd.

Our aim, of course, is to abolish the tolls entirely. That is the point that we are making, along with the fact that there is a debate that has to be held between politicians here in Wales and the Treasury in terms of the tolls' abolition. I think that the fact that the Minister for finance has established a relationship with Treasury Ministers puts us in a position where, if we continue to highlight the effect that the tolls have on the Welsh economy, it would be possible for us, on that basis, to say that there is a responsibility here that is UK wide. Of course, the main burden falls on the Welsh economy, but there are transport and haulage companies in England that complain about the tolls—the traffic flows in both directions.

Yr hyn yr ydym yn ei ddweud bod yn rhaid inni wthio'r sefyllfa hon fwy yn Llundain nag yr ydym wedi'i wneud. Mae rhyw dair blynedd erbyn hyn i derfyn y cytundeb hwn, ac eto nid oes gennym ffordd glir ymlaen ynglŷn â'n safbwyntiau ni.

What we are saying is that we must bring more pressure to bear in London than we have done previously. We are some three years away from the end of these concessions and yet we have no clear route forward in terms of our own position.

Rydym yn gweld bod cryfder ym mhob un o'r gwelliannau sydd wedi'u rhoi gerbron i ryw raddau, ond, yn y pen draw, byddai pob un o'r gwelliannau yn dileu'r cynnig hwn ein bod ni, yn y lle cyntaf, yn mynd i Lundain ac yn dweud y dylent ddileu'r tollau hyn o ran economi Cymru.

We see that there is merit in all of the amendments put forward, to a certain extent, but, at the end of the day, all of the amendments would delete the point in the motion that we, in the first instance, should go to London and insist that they abolish the tolls for the benefit of the Welsh economy.

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call the Minister for Economy, Science and Transport, Edwina Hart.

Rwy'n galw Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Edwina Hart.

17:51 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

Thank you, Deputy Presiding Officer. I am very pleased to respond to this debate today, because I think that there is an emerging consensus across the Chamber about the needs with regard to the Severn bridge and the fact that the tolling has an adverse economic impact on Wales. The particular point about Tesco was exceptionally well made, because it is a very real example of what has happened as a result of the tolls on the Severn bridge. It is been excellent to see the fact that there is no division across north, south, east or west on this, and that we see it as being a key economic issue for us in the Assembly.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch iawn o ymateb i'r ddadl hon heddiw, gan fy mod yn meddwl bod consensws yn dod i'r amlwg ar draws y Siambr ynglŷn â'r anghenion mewn perthynas â phont Hafren a'r ffaith fod codi tollau yn cael effaith economaidd andwyol ar Gymru. Roedd y pwynt penodol ynglŷn â Tesco yn eithriadol o dda, gan ei bod yn enghraifft wirioneddol o'r hyn sydd wedi digwydd yn sgîl y tollau ar bont Hafren. Mae'n ardderchog nodi'r ffaith nad oes unrhyw raniad rhwng y gogledd, y de, y dwyrain neu'r gorllewin ar y mater hwn, a'n bod yn credu bod hwn yn fater economaidd allweddol i ni yn y Cynulliad.

Of course, this link is very important for us. It is the economic infrastructure. I would not demur at the comments made by Her Majesty when she opened the bridge, may I say, Nick Ramsay, because it is strategic for us as part of the M4 corridor. It is the primary gateway. We have to look at those business markets that we have in southern England and beyond to mainland Europe.

Wrth gwrs, mae'r cysylltiad hwn yn bwysig iawn i ni. Hwn yw'r seilwaith economaidd. Ni fyddwn yn anghydweld â'r sylwadau a wnaed gan Ei Mawrhydi pan agorodd y bont, a gaf fi ddweud, Nick Ramsay, am ei bod yn strategol i ni fel rhan o goridor yr M4. Dyma'r prif borth. Mae'n rhaid i ni edrych ar y marchnadoedd busnes sydd gennym yn ne Lloegr a thu hwnt i dir mawr Ewrop.

While we clearly have a strong interest in the Severn crossing, responsibility for the crossings and the levying of tolls currently lies with the UK Government. These arrangements were set in place in the Severn Bridges Act 1992, which allows Severn River Crossing plc to collect a fixed sum. The funding is to repay the construction and financing costs of the second Severn crossing, as well as the remaining debt from the original Severn bridge and the cost of maintaining and operating both crossings. I think that the point that John Griffiths made about the Humber bridge was very interesting in this regard, as to how decisions made elsewhere could help other regions in the country about issues around tolling and bridges.

Er bod gennym ddiddordeb cryf ym mhontydd Hafren wrth reswm, ar hyn o bryd Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y pontydd ac am godi'r tollau. Mae'r trefniadau hyn yn deillio o Ddeddf Pontydd Hafren 1992, sy'n caniatáu i Severn River Crossing ccc gasglu swm penodedig. Defnyddir y cyllid i ad-dalu costau adeiladu ac ariannu ail bont Hafren, yn ogystal â'r ddyled sy'n weddill o'r bont Hafren wreiddiol a'r gost o gynnal a chadw a gweithredu'r ddwy bont. Credaf fod y pwynt a wnaeth John Griffiths ynglŷn â phont Humber yn ddiddorol iawn yn y cyswllt hwn, o ran sut y gallai penderfyniadau sy'n cael eu gwneud mewn ardaloedd eraill helpu rhanbarthau eraill yn y wlad gyda materion sy'n ymwneud â thollau a phontydd.

The current UK forecast is that the funding required will be met by 2018, at which time the operation of the two crossings will revert to the UK Government. The Secretary of State can—and I think that this is interesting—continue to toll for a further five years in order to build up a maintenance fund. Given the strategic significance of south Wales, we have been in regular discussions—and I want to assure Members on that—and are working closely with the UK Government with a view to coming to an arrangement when the current concession ends in 2018. I have certainly been very active since I have been Minister for transport in raising these matters with the UK Government. I acknowledge our success at this stage, but it is very important that we continue to raise this matter, and I am very hopeful that I have the support of the Chamber on this matter.

Mae rhagolwg cyfredol y DU yn nodi y bydd y cyllid sydd ei angen yn cael ei sicrhau erbyn 2018, pan fydd gweithrediad y ddwy bont yn dychwelyd i Lywodraeth y DU. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gallu—a chredaf fod hyn yn ddiddorol—parhau i godi tollau am bum mlynedd arall er mwyn datblygu cronfa gynnal a chadw. O ystyried arwyddocâd strategol de Cymru, rydym wedi bod mewn trafodaethau rheolaidd—ac rwyf am sicrhau'r Aelodau am hynny—ac rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i geisio dod i drefniant pan ddaw'r consesiwn presennol i ben yn 2018. Rwyf yn sicr wedi bod yn weithgar iawn ers imi fod yn Weinidog trafnidiaeth wrth godi'r materion hyn gyda Llywodraeth y DU. Rwy'n cydnabod ein llwyddiant ar hyn o bryd, ond mae'n bwysig iawn ein bod yn parhau i godi'r mater hwn, ac rwy'n obeithiol iawn bod gennyf gefnogaeth y Siambr ar y mater hwn.

Given their significance to Wales, we are best placed to make the decision on the future of crossings and tolls. While we agree, obviously, with the majority of points in the original motion, we have tabled a Government amendment to replace the final point to reflect the Welsh Government's position relating to the future of the bridges. That is not because I did not have much sympathy with all the Liberal Democrat contributions today, and I understood where they were coming from, but this is the policy position of the Government.

O ystyried eu harwyddocâd i Gymru, rydym yn y sefyllfa orau i wneud y penderfyniad ar ddyfodol pontydd a thollau. Er ein bod yn cytuno, yn amlwg, â'r rhan fwyaf o'r pwyntiau yn y cynnig gwreiddiol, rydym wedi cyflwyno gwelliant y Llywodraeth i ddisodli'r pwynt olaf er mwyn adlewyrchu safbwynt Llywodraeth Cymru ar ddyfodol y pontydd. Nid yw hynny am nad oedd gennyf lawer o gydymdeimlad â holl gyfraniadau'r Democratiaid Rhyddfrydol heddiw, ac roeddwn yn deall eu safbwynt, ond dyma safbwynt polisi'r Llywodraeth.

Also, I have to think that, in terms of what we are doing, we have alluded to the economic work that we have had done, and that study has clearly highlighted some of the economic issues for Wales with the excellent analysis that it undertook, which focused on the negative impact on the economy. We are, in fact, talking, if I recall the figures, about an £80 million-negative impact, and I wonder how that is now exponentially increasing.

Hefyd, mae'n rhaid i mi feddwl, o ran yr hyn rydym yn ei wneud, ein bod wedi cyfeirio at y gwaith economaidd rydym wedi'i gyflawni, a bod yr astudiaeth honno yn amlwg wedi tynnu sylw at rai o'r materion economaidd i Gymru drwy ei dadansoddiad ardderchog, a oedd yn canolbwyntio ar yr effaith negyddol ar yr economi. Rydym, mewn gwirionedd, yn siarad, os rwy'n cofio'r ffigurau, am effaith negyddol gwerth tua £80 miliwn, ac rwy'n meddwl tybed sut y mae hynny'n awr yn cynyddu yn gynt ac yn gynt.

Our first priority would be giving powers to determine the value of the tolls. The only thing that we would have to look at would be the effective maintenance of the bridge. After that, we could look at the reductions. That is why we will be supporting Plaid Cymru's amendment to this motion. However, once the current concession ends, we need to ensure that we get the best deal for Wales, and that is very important.

Ein blaenoriaeth gyntaf fyddai rhoi pwerau i benderfynu gwerth y tollau. Yr unig beth y byddai'n rhaid i ni edrych arno fyddai gwaith cynnal a chadw effeithiol ar y bont. Ar ôl hynny, gallem edrych ar y gostyngiadau. Dyna pam y byddwn yn cefnogi gwelliant Plaid Cymru i'r cynnig hwn. Fodd bynnag, unwaith y daw'r consesiwn presennol i ben, mae angen i ni sicrhau ein bod yn cael y fargen orau i Gymru, ac mae hynny'n bwysig iawn.

May I also say that there are some other interesting issues being raised in this discussion? There is an issue about free-flow technology, and this was one of the recommendations that came from the Wales freight task and finish group when we requested the UK Government to look at installing free-flowing technology, and I was minded when the contribution was made about the inadequate way that the coins go into the bin and all that type of stuff—. We have, obviously, written to the Secretary of State about that particular issue. The history of toll charges is very interesting, is it not, from half a crown all the way up to the numbers that we have with us?

A gaf fi ddweud hefyd bod rhai materion diddorol eraill yn cael eu codi yn y drafodaeth hon? Mae technoleg i sicrhau bod y traffig yn llifo'n rhwydd yn un ohonynt, ac roedd hwn yn un o argymhellion grŵp gorchwyl a gorffen cludo nwyddau Cymru pan ofynnwyd i Lywodraeth y DU edrych ar osod technoleg llifo'n rhydd, a phan gafodd y cyfraniad ei wneud cofiais am y ffordd annigonol y mae'r darnau arian yn mynd i mewn i'r bin a'r holl bethau felly—. Rydym, yn amlwg, wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol ynglŷn â'r mater penodol hwnnw. Onid yw hanes taliadau toll yn ddiddorol iawn, o hanner coron yr holl ffordd i fyny i'r rhifau sydd gennym?

I have to say that this is a very important issue for all of us. We ultimately want to control the tolls; we want the arrangements devolved to us, but, in light of some very interesting issues raised today, I will be expanding on my correspondence to the Department for Transport on this particular issue, because I think that we are all united in not wanting anything in place that is going to adversely affect the Welsh economy.

Mae'n rhaid i mi ddweud bod hwn yn fater pwysig iawn i bob un ohonom. Rydym am reoli'r tollau yn y pen draw; rydym am i'r trefniadau gael eu datganoli i ni, ond, o ystyried rhai materion diddorol iawn a godwyd heddiw, byddaf yn ehangu ar fy ngohebiaeth â'r Adran Drafnidiaeth ynglŷn â'r mater penodol hwn, oherwydd credaf ein bod i gyd yn cytuno nad ydym eisiau rhoi unrhyw beth ar waith a fydd yn cael effaith andwyol ar economi Cymru.

17:55

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call on Kirsty Williams to reply to the debate.

Rwy'n galw ar Kirsty Williams i ymateb i'r ddadl.

17:56

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. Could I thank colleagues across the Chamber for their contributions to the debate this afternoon? In opening, Eluned Parrott set out the premise of why we believe that the tolls on the bridges should be scrapped when the bridges come back into public ownership. Anything else would be the continuation of an unfair tax on the Welsh economy, not found to a similar extent in any other part of the UK, and a burden on individual commuters, at a cost to Welsh business and a very negative first impression for those people coming into Wales.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi ddiolch i gyd-Aelodau ar draws y Siambr am eu cyfraniadau i'r ddadl y prynhawn yma? Wrth agor, nododd Eluned Parrott y rheswm pam ein bod yn credu y dylai'r tollau ar y pontydd gael eu dileu pan gaiff y pontydd eu dychwelyd i berchenogaeth gyhoeddus. Byddai unrhyw beth arall yn golygu bod treth annheg ar economi Cymru yn parhau, er nad oes unrhyw ran arall o'r DU yn wynebu treth debyg i'r un graddau, a baich ar gymudwyr unigol, ar gost i fusnesau Cymru ac argraff gyntaf negyddol iawn ar gyfer pobl sy'n dod i mewn i Gymru.

May I thank Rhun ap Iorwerth and Plaid for their amendment? I think that the basic premise of his argument was: we want to have control of the bridges, and we want to keep the tolls on them. In doing so, it brings up the whole argument about the risks associated with the responsibility. Rhun's argument also seemed to suggest that the Severn bridges were not seen as part of important infrastructure across the UK, but were only really of interest to Wales. I guess that if I was being slightly cheeky, a similar analysis would be to try to say that the bridges that cross into Anglesey are matters only for the people of Anglesey and not what I believe them to be, namely a strategic, important part of the infrastructure of the whole of Wales.

A gaf fi ddiolch i Rhun ap Iorwerth a Phlaid Cymru am eu gwelliant? Credaf mai rhagdybiaeth sylfaenol ei ddadl oedd: rydym eisiau rheoli'r pontydd, ac rydym eisiau cadw'r tollau arnynt. Wrth wneud hynny, mae'n codi'r holl ddadl ynglŷn â'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r cyfrifoldeb. Roedd dadl Rhun fel pe bai'n awgrymu hefyd nad oedd pontydd Hafren yn cael eu gweld yn rhan o'r seilwaith pwysig ledled y DU, ond eu bod o ddiddordeb i Gymru yn unig mewn gwirionedd. Mae'n debyg, pe bawn yn siarad ychydig bach yn smala, y gallwn wneud dadansoddiad tebyg drwy geisio dweud bod y pontydd sy'n croesi i Ynys Môn yn faterion sy'n berthnasol i Ynys Môn yn unig, ac nad ydynt, fel y tybiaf, yn rhan strategol, bwysig o seilwaith Cymru gyfan.

17:57

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Just to clarify, I think that the report, commissioned by the Government, from 2012, as I was saying, makes clear that it is the Welsh economy that feels the greatest impact from the bridges and, therefore, the tolls on them.

Er mwyn egluro, rwy'n meddwl bod yr adroddiad, a gomisiynwyd gan y Llywodraeth, o 2012 ymlaen, fel roeddwn yn ei ddweud, yn ei gwneud yn glir mai economi Cymru sy'n teimlo effaith fwyaf y pontydd ac, felly, y tollau arnynt.

17:57

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Yes, indeed, and that is why we believe that they should be scrapped.

Ie, yn wir, a dyna pam rydym yn credu y dylent gael eu dileu.

Nick Ramsay, in moving the amendment on behalf of the Conservatives, I believe, did not even try to make the case about why there needed to be additional work to investigate the impact on the economy and the viability of tolls being scrapped. However, he knows, better than many, the associated problems for constituents in his part of the world who work across the other side of the Severn bridge and the immense cost that that brings to their personal budgets when they are simply trying to get back and forth to work.

Wrth gynnig y gwelliant ar ran y Ceidwadwyr, ni wnaeth Nick Ramsay, yn fy marn i, hyd yn oed geisio gwneud yr achos ynglŷn â pham roedd angen gwneud gwaith ychwanegol i ymchwilio i'r effaith ar yr economi a hyfywedd dileu'r tollau. Fodd bynnag, mae'n gwybod, yn well na llawer, am y problemau cysylltiedig ar gyfer etholwyr yn ei ran o'r byd sy'n gweithio'r ochr arall i bont Hafren a'r gost aruthrol a ddaw yn sgîl hynny i'w cyllidebau personol pan eu bod ond yn ceisio mynd yn ôl ac ymlaen i'r gwaith.

He also acknowledged the congestion, as the leader of the Conservatives has done on previous occasions in the Chamber, that arises out of the toll system. We have all been there, fumbling around in our car for change and, latterly, for our debit cards, to pay the toll as we come across. In having a system similar to that of London, where you can go home and pay it online afterwards, spare a thought for those of us who live in parts of Wales with ropey internet connections. If we want to cut the congestion on the M4 and on the Severn bridges, the easiest way of doing that is by getting rid of the tolls altogether.

Roedd hefyd yn cydnabod y tagfeydd, fel y mae arweinydd y Ceidwadwyr wedi ei wneud o'r blaen yn y Siambr, sy'n deillio o'r system tollau. Rydym i gyd wedi cael y profiad, ymbalfalu yn ein car am arian ac, yn fwy diweddar, am ein cardiau debyd, i dalu'r doll wrth i ni ddod ar draws. O gael system sy'n debyg i'r un yn Llundain, lle y gallwch fynd adref a thalu ar-lein wedyn, cofiwch am y rhai ohonom sy'n byw mewn rhannau o Gymru sydd â chysylltiadau gwan â'r rhyngrwyd. Os ydym am leihau'r tagfeydd ar yr M4 ac ar bontydd Hafren, y ffordd hawsaf o wneud hynny yw dileu'r tollau yn gyfan gwbl.

Bill Powell talked about the effects on business and like the—

Siaradodd Bill Powell am yr effeithiau ar fusnes ac fel y—

17:59

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

I am sorry that I did not make the case clearly enough for you, but I do not think that anybody would argue that if you are going to make this decision that more data would be a problem. We have a serious lack of data in Wales on all sorts of issues. All I am saying is, yes, reduce the tolls, and I fully accept that, as it is a great idea, but what is the harm of having some more data on it?

Mae'n ddrwg gennyf na wnes yr achos yn ddigon clir i chi, ond nid wyf yn credu y byddai neb yn dadlau, os ydych yn mynd i wneud y penderfyniad hwn, y byddai mwy o ddata yn broblem. Mae gennym ddiffyg data difrifol yng Nghymru ar bob math o faterion. Y cyfan rwy'n ei ddweud yw, ie, lleihau'r tollau, ac rwy'n derbyn hynny yn llwyr, gan ei fod yn syniad gwych, ond pa niwed cael mwy o ddata ar y pwnc?

17:59

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

You kick it into the long grass, if you want to; I am for getting rid of the tolls on the bridge, precisely for the reasons that were explained by Bill Powell when talking about the very real challenges that this has created for businesses. We have seen Welsh people lose their jobs because of the tolls on the Severn bridge. They add additional costs to businesses, costs that they could be investing in other parts of their business by employing more people. It has a negative impact on tourism. Within an hour of the Severn bridge, people can be enjoying some the most spectacular coastlines that Wales has. You can be in the Brecon Beacons National Park or shopping here in the retail offer of Cardiff city or some of the bespoke high streets that we have in Wales. We are putting people off by having the tolls there on the bridge.

Ewch ati i gladdu'r mater hwn os ydych eisiau; rwyf o blaid dileu'r tollau ar y bont, am yr union resymau ag yr esboniwyd gan Bill Powell wrth sôn am yr heriau gwirioneddol y mae hyn wedi eu creu ar gyfer busnesau. Rydym wedi gweld pobl Cymru yn colli eu swyddi oherwydd y tollau ar bont Hafren. Maent yn ychwanegu costau ychwanegol i fusnesau, costau y gallent eu buddsoddi mewn rhannau eraill o'u busnes drwy gyflogi mwy o bobl. Mae'n cael effaith negyddol ar dwristiaeth. O fewn awr o bont Hafren, gall pobl fwynhau rhai o arfordiroedd mwyaf trawiadol Cymru. Gallwch fod ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog neu'n siopa yma yng nghynnig manwerthu dinas Nghaerdydd neu ar stryd fawr unigryw un o drefi Cymru. Rydym yn rhwystro pobl rhag dod drwy gael y tollau yno ar y bont.

John Griffiths acknowledged again—and he would know, because of his constituency—all of the problems associated with the tolls, but offered no solution and no commitment to getting rid of them. Aled Roberts obviously needs to venture out more. He admitted that he had only ever been over the bridge twice in his entire life. [Laughter.] However, as he pointed out, if the Welsh Government has the responsibility of the bridge, we also have the financial liability of the bridge. It is not like the Welsh Government to take on liabilities without the funding associated with them.

Cydnabu John Griffiths eto—a byddai'n gwybod, oherwydd ei etholaeth—pob un o'r problemau sy'n gysylltiedig â'r tollau, ond ni chynigiodd unrhyw ateb neu ymrwymiad i'w dileu. Mae'n amlwg bod angen i Aled Roberts fentro allan mwy. Cyfaddefodd ei fod ond wedi croesi'r bont ddwywaith yn ei fywyd. [Chwerthin.] Fodd bynnag, fel y nododd, pe bai Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am y bont, byddai gennym atebolrwydd ariannol am y bont hefyd. Nid yw Llywodraeth Cymru yn derbyn atebolrwydd heb y cyllid sy'n gysylltiedig fel arfer.

18:01

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

You make a very good point on that, Kirsty Williams, but it is also true the other way around: if we do not get the ownership of the bridge, there is nothing to stop a future UK Government saying, 'This bridge is now costing us too much in maintenance' and reintroducing the tolls.

Rydych yn gwneud pwynt da iawn am hynny, Kirsty Williams, ond mae hefyd yn wir y ffordd arall: os nad ydym yn cael perchnogaeth dros y bont, nid oes unrhyw beth i atal Llywodraeth y DU rhag dweud yn y dyfodol, 'Mae'r bont hon yn costio gormod i'w chynnal a'i chadw bellach' ac ailgyflwyno'r tollau.

18:01

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

I would ask where the precedent is for that. I and my party are committed to getting rid of them and treating Wales in exactly the same way as everywhere else is treated, and that we should have a free system.

Byddwn yn gofyn ble mae'r cynsail ar gyfer hynny. Rwyf a'm mhlaid wedi ymrwymo i'w dileu a thrin Cymru yn yr un modd yn union â phobman arall, a dylem gael system rad ac am ddim.

The Minister was very constructive in her response this afternoon. I thank her for that. I also thank her for her commitment to having ongoing discussions with the UK Treasury and the UK Department for Transport over the future of the bridge. I know that it is the Welsh Government's desire to have control of the bridge and I would repeat the point again: it is very unlike this Government to want to take the responsibility without there being funding. If the Welsh Government wants these bridges so that it can carry on charging the toll to repay the cost of an M4, the Welsh Government should own up to that and say it out loud to the people of Wales. Thank you very much, Deputy Presiding Officer.

Roedd y Gweinidog yn adeiladol iawn yn ei hymateb y prynhawn yma. Rwy'n diolch iddi am hynny. Rwy'n diolch iddi hefyd am ei hymrwymiad i gael trafodaethau parhaus â Thrysorlys y DU ac Adran Drafnidiaeth y DU ynglŷn â dyfodol y bont. Rwy'n gwybod bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i gael rheolaeth dros y bont a byddwn yn ailadrodd y pwynt eto: mae'n anarferol iawn i'r Llywodraeth hon eisiau cymryd y cyfrifoldeb heb fod cyllid ar gael. Os yw Llywodraeth Cymru eisiau rheolaeth dros y pontydd hyn er mwyn parhau i godi tâl am dollau i ad-dalu cost yr M4, dylai Llywodraeth Cymru gyfaddef hynny a'i ddweud yn blaen wrth bobl Cymru. Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd.

18:02

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The proposal is to agree the motion without amendment. Are there any objections? There is objection; therefore, I defer the vote on this item until voting time.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes gwrthwynebiad? Mae gwrthwynebiad; felly, gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Before I proceed to voting time, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not, so we will move straight to voting time.

Cyn i mi fynd ymlaen i'r cyfnod pleidleisio, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes, felly symudwn yn syth at y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## Cyfnod Pleidleisio

## Voting Time

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5614.

Result of the vote on motion NDM5614.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 10, Yn erbyn 34, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 10, Against 34, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5616.

Result of the vote on motion NDM5616.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 32, Yn erbyn 12, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 32, Against 12, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5615.

Result of the vote on motion NDM5615.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 5, Yn erbyn 39, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 5, Against 39, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5615.

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5615.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 39, Yn erbyn 5, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 39, Against 5, Abstain 0.*

*Cafodd gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol.*

*Amendments 2 and 3 deselected.*

Cynnig NDM5615 fel y'i diwygiwyd:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r rhagolygon presennol y bydd y cytundeb consesiwn ar gyfer pontydd Hafren yn dod i ben yn 2018 a bod angen cynnal trafodaethau cynnar ynghylch system codi tollau, gwaith cynnal a chadw a pherchnogaeth y pontydd at y dyfodol.

2. Yn credu bod y system codi tollau bresennol yn faich annheg ar fusnesau, teithwyr a'r cyhoedd.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU ar gynllunio ar gyfer dyfodol y pontydd.

4. Yn galw am drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros bennu'r tollau ar bontydd Hafren, yn dilyn y consesiwn, i Lywodraeth Cymru.

5. Yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i leihau'r tollau ar bontydd Hafren i adlewyrchu costau cynnal a chadw yn unig, ac i barhau i roi ystyriaeth i'r opsiwn tymor hir o ddileu'r tollau.

Motion NDM5615 as amended:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Notes the current forecasts that the concession agreement for the Severn Bridges will come to an end in 2018 and that early discussions need to take place as to the future ownership, maintenance and tolling system for the bridges.

2. Believes that the current tolling system is an unfair burden on businesses, commuters and the public.

3. Calls on the Welsh Government to work closely with the UK Government on planning for the future of the bridges.

4. Calls for responsibility for setting tolls on the Severn crossings, following the concession, to be transferred to the Welsh Government.

5. Calls on the next Welsh Government to reduce the tolls on the Severn Bridges to reflect maintenance costs only, and for the longer term option of abolishing the tolls to be kept under review.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5615 fel y'i diwygiwyd.

Result of the vote on motion NDM5615 as amended.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 39, Yn erbyn 5, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 39, Against 5, Abstain 0.*

18:04

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

That concludes today's business.

Daw hynny â busnes heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:04.*

*The meeting ended at 18:04.*